

**Bangor University**

## **DOETHUR MEWN ATHRONIAETH**

**Enwau pentrefi, prif anheddau a chaeau pum plwyf yn arfon: Llanbeblig, Llandwrog, Llanfaflan, Llanrug a Llanwnda**

Carr, Glenda

*Award date:*  
2007

*Awarding institution:*  
Bangor University

[Link to publication](#)

### **General rights**

Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

### **Take down policy**

If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

**ENWAU PENTREFI, PRIF ANHEDDAU A  
CHAEAU PUM PLWYF YN ARFON:  
LLANBEBLIG, LLANDWROG, LLANFAGLAN,  
LLANRUG A LLANWENDA**

Traethawd a gyflwynwyd am radd PhD Prifysgol Cymru

gan

Glenda Lytton Carr

Mai 2007

**Rhan II**



## ANHEDDAU LLANFAGLAN

*Eu meddwl yw, y pery eu tai yn dragywydd, a'u trigfeydd hyd genhedlaeth a chenhedlaeth: enwant eu tiroedd ar eu henwau eu hunain.*

*Salm 49, 11*

## Llanfaglan

<i>Llanvaghan</i>	1306	<i>Rec.C.</i>	97
<i>Llanbaglan</i>	1396	<i>CCR</i>	127
<i>Llanbagelan</i>	1398/9	<i>Rec. C.</i>	232
<i>Llanvaghan</i>	1497/8	<i>Mostyn B</i>	1336
<i>Llanvaghan</i>	1498	<i>Mostyn B</i>	1337
<i>Llanvaghan</i>	1498–9	<i>Mostyn B</i>	1338
<i>Llanvaghan</i>	1535	<i>Val. Ecc.</i>	IV, 415
<i>Llan Vaghan</i>	1535	<i>Val. Ecc.</i>	IV, 420
<i>Llanvaghan</i>	1543	<i>Dioc. Ban.16c.</i>	10
<i>Llanfaghan</i>	1543/4	<i>Rec. C. Aug.</i>	59
<i>Llanvaghan</i>	1550/1	<i>Rec. C. Aug.</i>	63
<i>Llanvaxlan</i>	1553–5	<i>E. Ch. Pro.</i>	21
<i>Llanvaghan</i>	1562	<i>CQSR</i>	XQS 1562, 49
<i>Llanuaghan</i>	1610	<i>Speed</i>	
<i>Llanvaghan</i>	1615–16	<i>Ex. P. J.</i>	60
<i>Llanvaghan</i>	1625	<i>Dioc. Ban.16c.</i>	41
<i>Llanuaghan</i>	1645	<i>Blaeu</i>	
<i>Llanvaghan</i>	1652	<i>Dolfrïog</i>	173
<i>Llanvaghan</i>	1656/7	<i>CQSR</i>	XQS 1656/7, 21
<i>Llanfagdalen</i>	1657	<i>CQSR</i>	XQS 1657, 45 (i)
<i>Llanfigdilen</i>	1657	<i>CQSR</i>	XQS 1657, 109 (vi)
<i>Llanvaghan</i>	1662	<i>Ll&amp;Brynodol</i>	D596
<i>Llanvaghan</i>	1673	<i>Map Richard Blome</i>	<i>AMW</i> , 53
<i>Llanvaghan</i>	1686	<i>P. yr Aur</i>	15805
<i>Llanvaghan</i>	1693	<i>Ll&amp;Brynodol</i>	D603–4
<i>Llanvaghan</i>	1695–1701	<i>Paroch.</i>	III, 51
<i>Llanvaghan</i>	1697	<i>P. yr Aur</i>	17232
<i>Llanfaglan</i>	1716	<i>Ll&amp;Brynodol</i>	D979
<i>Llanvaghan otherwise Llanfaglen</i>	1720	<i>Ll&amp;Brynodol</i>	D343
<i>Llanvaghan</i>	1724	<i>Henblas B</i>	164
<i>Llanvaghan</i>	1743	<i>Henblas B</i>	168
<i>Llanvaghan</i>	1748	<i>Map ThomasOsborne</i>	<i>AMW</i> , 79
<i>Llanfaglan</i>	1760	<i>Henblas B</i>	175
<i>Llanwagland</i>	1766/9	<i>Map John Ellis</i>	<i>AMW</i> , 85
<i>Llanfaglan alias Llanvaghan</i>	1768	<i>P. yr Aur Add.</i>	2178/9
<i>Llanfagdalen</i>	1781	<i>P. yr Aur</i>	15805
<i>Llanvaghan</i>	c.1790	<i>Map Thomas Conder</i>	<i>AMW</i> , 90
<i>Llanveglan</i>	1795	<i>Ll&amp;Brynodol</i>	R81
<i>Llanfagdalen</i>	1796	<i>Poole</i>	3801
<i>Llanfaglan</i>	1809–11	<i>Des. Caerns.</i>	202
<i>Llanfagdalen</i>	c. 1815	<i>NewGlynllifon</i>	XD2 / 8356
<i>Llanfagdalen</i>	1826	<i>Rumsey Wms</i>	14–15
<i>Llanvagland</i>	1830	<i>Map John Cary</i>	<i>AMW</i> , 99
<i>Llanfagdalen</i>	1833	<i>Rumsey Wms</i>	2625
<i>Llanfagdalen</i>	1850	<i>EwBangor</i>	B1850/135 17776
<i>Llanfagdalan</i>	1850	<i>C. Vincent</i>	2539
<i>Llanfagdalen</i>	1852	<i>Bangor</i>	8555
<i>Llanfagdalen</i>	1862	<i>Myn.Llf.</i>	A035
<i>Llanfagdalen</i>	1874	<i>Worrall</i>	213
<i>Llanfagdalen</i>	1886	<i>Postal Dir.</i>	169
<i>Llanfagdalen</i>	1890–1	<i>Bangor</i>	8560
<i>Llanfaglan</i>	1920	<i>Map OS</i>	XV S.E.
<i>Llanfaglan</i>	1960	<i>Map OS</i>	SH 46

**llan, e.p. Baglan**

Plwyf bychan yw Llanfaglan yn ymestyn hyd y tir isel ar lannau bae'r Foryd ac Afon Menai. Mae'n cynnwys pentrefan Llanfaglan a rhywfaint o gyrion pentref Bontnewydd.

Elfennau'r enw yw *llan* + yr e.p *Baglan*. Credai MR fod *Baglan* yn deillio o'r un gwraidd â *bagl*, sef 'ffon, pastwn, ffon esgob neu goes'. Ceir yr enw ar ei ben ei hun yn *Baglan*, Morgannwg, ond nid yr un gŵr yw hwnnw â'r un yn Llanfaglan (*ETG*, 159). Honna rhai mai Baglan ab Ithel Hael a gofféir ym Morgannwg, ond mai Baglan ap Dingad a gofféir yn Arfon (*WCD*, 34; *EWGT*, 57; *LBS*, 192). Dywedir fod cryn fri i'r gymuned a sefydlodd Baglan ap Dingad yn Llanfaglan, yn gymaint felly nes i ddihareb dyfu amdani: 'Ffordd Llanfaglan yr eir i'r nef'<sup>1</sup>. Yng nghofnodion diwedd y 18g ac yn ystod y 19g gwelir ymgais i esbonio'r enw dieithr *Baglan* trwy gynnig ei fod yn llygriad o *Magdalen*. Ceir cofnod o'r ffurf hon mor gynnar â 1657. Fodd bynnag, dengys y ffurfiau cynnar mai *Baglan* yn ddiau oedd nawdd sant y plwyf, ac mae'n bur debyg mai ffurf ysgrifenedig yn unig oedd *Llanfagdalen* ac na chydiodd erioed ar lafar gwlad.

Saif hen eglwys y plwyf<sup>2</sup> yn agos at lan y môr ar lannau'r Foryd, tra bo'r eglwys ddiweddarach yng nghanol pentrefan Llanfaglan. Defnyddir yr hen eglwys yn achlysurol, ond mae'r eglwys ddiweddarach hefyd wedi ei chau bellach. Ceir ffynnon wedi ei chyflwyno i Faglan nid nepell o'r hen eglwys, ond mae mewn cyflwr gwael iawn. Fe'i cyrchid gynt gan y sawl a ddiodeffai o lygaid poenus, cryd-y-cymalau a defaid ar y croen<sup>3</sup>.

Bron-Llewelyn	Llanfaglan		SH 4661
<i>Bronn Llywellyn</i>	1725	NewGlynllifon	XD2 / 7655
<i>Bron Llewelyn</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Bron Lewelin</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Bron Llawelin</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Bron lwelyn</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>bronllawelun</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>bron llaw elan</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Bron Llewellyn</i>	1781	NewGlynllifon	XD2 / 7658
<i>Bronn Llywellyn</i>	1782	NewGlynllifon	XD2 / 7661-2
<i>Bron Llewellyn</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Bronlewelyn</i>	1808	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Bron llewellyn</i>	1809	Poole	3980
<i>Bryn Llewelyn otherwise Bron Llewelyn</i>	1810	NewGlynllifon	XD2 / 7670
<i>Brymo Llewellyn</i>	1810	NewGlynllifon	XD2 / 7671
<i>Bryn Llewelyn or Bron Llewelyn</i>	1813	NewGlynllifon	XD2 / 7673
<i>Bronllewelyn</i>	c.1815	NewGlynllifon	XD2 / 8356
<i>Bronllewelyn</i>	1831	Bangor	8554
<i>Bron Llewelyn</i>	1839	RhPdegwm	
<i>Bronllewelyn</i>	1872	NewGlynllifon	XD2 / 6740
<i>Bron Llewelyn</i>	1890-1	Bangor	8560

**bron, e.p. Llywelyn**

Mae map y Degwm a chofnod c.1815 yn dangos fod yr annedd hwn ar ffin ogleddol plwyf Llanfaglan rhwng Bryn-teg a Hafod-y-rhisg. Mae'n rhyfedd gweld ymgeisiau mor garbwll i

<sup>1</sup> *GSDT*, 107; Eirlys Gruffydd, 'Seintiau Arfon', *Llafar Gwlad*, 89. (Awst 2005), 20

<sup>2</sup> Am ddisgrifiad o'r hen eglwys gweler *IAMC*, 198-9, a lluniau ohoni ar blatiau 11, 16, 28-31.

<sup>3</sup> *Ffyn. Cym.* 2, 28-9; *HWW*, 149; *IAMC*, 200; Eirlys Gruffydd, 'Seintiau Arfon', *Llafar Gwlad*, 89. (Awst 2005), 20

gyfleu'r e.p. cyfarwydd *Llywelyn* yng nghofnodion yr ATT, yn enwedig yng nghofnod ATT 1781.

<b>Bryn-teg</b>	<b>Llanfaglan</b>	<b>SH 4662</b>
<i>Bryn-teg</i>	1740	EwBangor B1740/ 71 99999
<i>Bryn Têg</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>pryn Teg</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Bryn-teg</i>	1771	Rumsey Wms 191
<i>Bryn teg</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Bryntêg</i>	1792	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Bryn-teg</i>	1805	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Bryn-teg</i>	1813	NewGlynllifon XD2 / 7673
<i>Bryn-teg</i>	1814	Rumsey Wms 875
<i>Bryn têtg</i>	1816–20	Dawson, Bangor f34081, D1
<i>Bryn-teg</i>	1818	NewGlynllifon XD2 / 7682
<i>Bryteg</i>	1830	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Bryn-teg</i>	1831	Bangor 8554
<i>Bryn-teg</i>	1838	Map OS 78
<i>Bryn-teg</i>	1839	RhPDegwm
<i>Bryn-teg</i>	1850	NewGlynllifon XD2 / 6737
<i>Bryn-têtg</i>	1920	Map OS XV N.E.
<i>Bryn-têtg</i>	1960	Map OS SH 46
<i>Bryn Teg</i>	2004	Map PSA

***bryn, teg***

Oddi ar Ffordd yr Aber sydd yn mynd hyd lannau'r Fenai o Bont yr Aber yng Nghaernarfon i gyfeiriad y Foryd.

<b>Cae'r-efail</b>	<b>Llanfaglan</b>	<b>SH 4660</b>
<i>Cae yr Efel</i>	1720	Baron Hill 3260
<i>Cae r Efel</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Cae Refal</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Cae yr Eval</i>	1772	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Cae y' Evel</i>	1773	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Caer Eval</i>	1775	EwBangor B1775/76 4582
<i>cau yr efal</i>	1779	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Cae'r Efal</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Cae Refal</i>	1788	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Cae Efal</i>	1808	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Caerefal</i>	1819	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Caer efal</i>	1820	Rumsey Wms 2588
<i>Caer Efal</i>	1831	Bangor 8554
<i>Cae yr efail</i>	1838	Map OS 78
<i>Cae yr Efail</i>	1839	RhPDegwm
<i>Caer Efail</i>	1874	Worrall 213
<i>Cae'r-efail / Cae'r-efail-fach</i>	1919	Map OS XV S.E.
<i>Cae'r-efail</i>	1960	Map OS SH 46
<i>Caer Refail</i>	2000	CCPost (Llanfaglan)

***cae, yr, gefail***

Ar gyrion gorllewinol pentrefan Llanfaglan.

<b>Cae-eithin</b>	<b>Llanfaglan</b>		<b>SH 4559</b>
<i>Cefn Eithin</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Cae Eithin</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Cae Eithŷn</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Cae-eithin</i>	1809	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Cae eithin</i>	1816	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Cae-eithin</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Cae Eithin</i>	2000	CCPost	(Llanfaglan)

### **cae, eithin**

Ar gyrion deheuol pentrefan Llanfaglan oddi ar y lôn sydd yn arwain i lawr i'r Foryd a'r ffordd ar hyd glannau'r Fenai tuag at Gaernarfon. Rhaid tybio mai'r un lle yw'r *Cefn Eithin* a nodir yn 1770 gan ei fod yn union yr un drefn ar y rhestr â'r cofnodion eraill.

<b>Cae'r-estel</b>	<b>Llanfaglan</b>		
<i>Cae'r Estel</i>	1734/5	Ll&Brynodol	D980

### **cae, y, rhestl**

Heb ei leoli. Mae'n anodd esbonio *estel*. Mae'n bosib mai *Cae'r-rhestl* oedd y ffurf wreiddiol a bod y fannod a'r *rh-* ar ddechrau'r drydedd elfen wedi eu cywasgu a'u cyfuno i ffurfio un sain. Rhesel i ddal porthiant anifeiliaid yw *rhestl / rhastl*.

<b>Cae-rhos</b>	<b>Llanfaglan</b>		<b>SH 4760</b>
<i>Cae Rhôs</i>	1616	Ll&Brynodol	D1165
<i>Caer Rhôs</i>	1616	Poole	3235
<i>Cae rhos</i>	1780	EwBangor	B1780/84 5404
<i>Cae'n y rhôs</i>	1788	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Cae'n Rhôs</i>	1794	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Caerhos</i>	1805	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Cae Rhos</i>	1811	EwBangor	B1811/84 10249
<i>Caerhos</i>	1816	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Cae rhos</i>	1831	Bangor	8554
<i>Caerhos</i>	1849	EwBangor	B1849/118 17537
<i>Cae Rhose</i>	1889-90	Sutton	140
<i>Cae Rhos</i>	1903	Myn. Llf.	B034
<i>Cae-rhôs</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Cae-Rhôs</i>	1960	Map OS	SH 46
<i>Cae Rhos</i>	2000	CCPost	(Llanfaglan)

### **cae, rhos**

Yng nghanol pentrefan Llanfaglan ar y chwith i'r ffordd sydd yn arwain oddi yno i Bontnewydd. Rhos Llanfaglan yw'r *rhos* y cyfeirir ato. Yn 1616 yr oedd yr annedd hwn ym meddiant Esgob Bangor (Poole 3235).

<b>Cae-Salmon</b>	<b>Llanfaglan</b>		<b>SH 4759</b>
<i>Cae Salmon</i>	1839	RhPDegwm	

### **cae, salmon**

Nodir yr annedd hwn ar fap y Degwm ychydig i'r de o *Glan-llyn* a rhwng yr annedd hwnnw a *Thyn-rhos* (q.v.). Mae'n anodd gwybod ai'r pysgodyn 'eog' ynteu cyfenw sydd yn yr ail elfen. Yr oedd *Salmon* yn gyfenw a geid yn Waunfawr ar un adeg (*HMethA*, Dos. Caernarfon,

Ardal Waunfawr (Caernarfon, 1913) 64), ac mae'r cyfenw yn digwydd mewn e.lleoedd mewn mannau eraill: ceir *Tir William Salmon* yn Llanrhuddlad, Môn, a *Thai Watcyn Salmon* yn Llanaber, Meir. (AMR).

<b>Cefn-werthyd</b>	<b>Llanfaglan</b>	<b>SH 4760</b>
<i>kefn y werthyd</i>	1667/8	Dolfrïog 343, 501
<i>Kefn y werthyd</i>	1667/8	Ll&Brynodol D977
<i>keuauawerthide</i>	1671-2	Ll&Brynodol R149
<i>Cefn y werthir</i>	18g	Ll&Brynodol D268
<i>Kefn y werthyd</i>	1701	Ll&Brynodol D689
<i>Kefn y werthid</i>	1704	Ll&Brynodol D280
<i>Cefn y Werthur</i>	1720	Ll&Brynodol D345
<i>Cefn y Werthyd</i>	1724-5	Ll&Brynodol D351-2
<i>cefn y werthyr</i>	1747-8	Ll&Brynodol D399
<i>Cefn-y Werthyr</i>	1748	Ll&Brynodol D402-3
<i>Cevefnye werthid</i>	1762	EwBangor B1762/113 2046
<i>Cefn y werthir</i>	1765	Ll&Brynodol D431
<i>Cefn y werthyd</i>	1766	Ll&Brynodol R46
<i>Cefn y werthydd</i>	1768	Ll&Brynodol R47
<i>Cefnwerthydd</i>	1771	Ll&Brynodol R48
<i>Cefn y<sup>f</sup> Werthydd</i>	1772	Ll&Brynodol R 49
<i>Cefn y<sup>f</sup> Werthydd</i>	1775	Ll&Brynodol R52
<i>Cefnywerthyd</i>	1788	OK 177
<i>Cefn y weithryg</i>	1796	Poole 3802
<i>Cefn y werthyd</i>	1799	Rumsey Wms 761
<i>Cefnwerthid</i>	1807	Rumsey Wms 2647
<i>Cefnywerthyd</i>	1818	NewGlynllifon XD2 / 6931
<i>Cefn y werthyd</i>	1823	NewGlynllifon XD2 / 6932
<i>Cefnywuthyd</i>	1824	Rumsey Wms 10
<i>Cefn y Werthyd</i>	1839	NewGlynllifon XD2 / 6451
<i>Cefn Werthyd / Cefn y Werthyd</i>	1839	RhPdegwm
<i>Cefnywerthid</i>	1844	Ll&Brynodol D525
<i>Cefn Werthyd</i>	1853	Bangor 8555
<i>Cefn Werthyd</i>	1874	Worrall 212
<i>Cefn y Werthyd</i>	1878	Bangor 8555
<i>Cafn-warthud</i>	1886	Postal Dir. 181
<i>Cefn Werthyd</i>	1890-1	Bangor 8560
<i>Cefn-werthyd</i>	1919	Map OS XV S.E.
<i>Cefnwerthyd Farm</i>	2002	Map OS Explorer OL 17

### ***cefn, y, gwerthyd***

Ar gyrion pentref Bontnewydd oddi ar y lôn sydd yn arwain o ganol y pentref tuag at lôn Llanfaglan. Mae ffurf y drydedd elfen yn ymddangos fel *werthyd* a *werthyr*. Ystyr yr eb.un. *gwerthyd* yw offeryn i nyddu â llaw, neu echel sydd yn gyrru'r meini mewn melin. Fe'i disgrifir yn *GPC* fel 'pric neu lath a'r ddau ben yn bigfain'. Mae'n bosibl fod rhyw nodwedd yn y dirwedd, o bosib y gefnen y saif yr annedd arni, wedi atgoffa'r sawl a enwodd y lle o'r siâp hwn. Ystyr *gwerthyr* yw amddiffynfa neu gaer ac fe'i ceir fel elfen mewn enwau lleoedd ym Môn a Llŷn (*GPC*). Efallai i hyn ddylanwadu ar yr enw hwn a pheri cymysgu rhwng y ffurfiau *werthyd* a *gwerthyr*. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gaer yn nes at yr annedd hwn na chaer honedig Dinas Dinoethwy<sup>1</sup> sydd tua hanner milltir i ffwrdd. Er gwaethaf nifer o enghreifftiau o *werthyr* yn y 18g, maent i gyd yn dod o'r un ffynhonnell. Mae llawer iawn

<sup>1</sup> Gweler *Dinas* dan Anheddau Llanwnda.



mwy o enghreifftiau o amrywiol ffynonellau o *werthyd*, a hon yn ddiau yw'r ffurf gysefin. Cofnodir yr annedd hwn ambell dro dan blwyf Llanbeblig a thro arall dan blwyf Llanfaglan.

<b>Cefn-y-coed</b>	<b>Llanfaglan</b>	<b>SH 4660</b>	
<i>Kefn y Coed</i>	1657	PSPeniarth	DC105
<i>Cefn y Coed</i>	1662	Ll&Brynodol	D596
<i>Cefn y Coed</i>	1693	Ll&Brynodol	D603-4
<i>Cefn y Coed otherwise Tû Eiddew</i>	1720	Ll&Brynodol	D343
<i>Kefn y Coed</i>	1746	Lligwy Add.	1206-7
<i>Cefn Isoed</i>	1753	Ll&Brynodol	D409-10
<i>Cefn y Coed alias Kefn y Coed</i>	1768	P. yr Aur Fur.Add.	2178
<i>Cefn y Coed</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Kefn yr Coyd / Cevyn yr Coyd</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Cefn-y-Coed / Kefn y Coed</i>	1772	Rumsey Wms	57, 58
<i>ceuefn y Coed</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>y Cefn Isoed alias y Kefn Isoed</i>	1775	NewGlynllifon	XD2 / 6733
<i>Cefn y Coed / Cefn y Coed ucha</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Cefn y Coed</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Cefn y Coed Issaf</i>	1788	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Cefn y Coed</i>	1790	P. yr Aur	17334
<i>Cefn y coed issaf</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Cefn y Coed ucha</i>	1800	P. yr Aur	17350
<i>Cefn coed issa / Cefn coed uchaf</i>	1806	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Cefn y coud</i>	1812	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Cefn y Coed</i>	1820	Rumsey Wms	2588
<i>Cefn y Coed</i>	1828	EwBangor	B1828/108 13216
<i>Cefny Coed / Cefny Coed Ucha</i>	1831	Bangor	8554
<i>Cefncoed / Cefn-coed-ucha</i>	1838	Map OS	78
<i>Cefn y Coed / Cefn y Coed uchaf</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Cefn Coed Uchaf</i>	1844	P. yr Aur	21478
<i>Cefn-y-coed / Cefn-y coed uchaf</i>	1920	Map OS	XV N.E.
<i>Cefn Y Coed / Cefn Coed Uchaf / Cefn Y Coed Lodge</i>	2000	CCPost	(Llanfaglan)

*cefn, y, coed, ans. isel, gradd eithaf isaf, ans. uchel, gradd eithaf uchaf,*

Mae'r anheddau hyn ar gyrion pentrefan Llanfaglan ar y dde wrth nesáu ato hyd y lôn o Gaernarfon. Yn 1833 cyfeiriodd Ebenezer Thomas (Eben Fardd) at *Gefn-y-coed* fel hyn: 'Approached the house through an agreeable avenue in front. . .Cefn-y-coed is surrounded with fertile fields and studded with trees and plantations.' (*DDdEF*, 16). Mae'r disgrifiad hwn o'r dirwedd yn esbonio'r enw ac mae'n llecyn eithaf coediog hyd heddiw. Am ddisgrifiad o annedd *Cefn-y-coed* gweler *IAMC*, 199-200.

<b>Cefnynsoedd</b>	<b>Llanfaglan</b>	<b>SH 4560</b>	
<i>Keuen yssoedd / Keuen yssoeth</i>	1668-9	Ll&Brynodol	R16
<i>Cefnynsoedd</i>	1691	Bodorgan	117
<i>y Kefn Ysseeddu</i>	1699	Ll&Brynodol	D978
<i>Y Cefn issoedd</i>	1700	Ll&Brynodol	D1178
<i>Y Kefn Ysseeddu</i>	1716	Ll&Brynodol	D979
<i>Cefn yssoedd</i>	1737	Ll&Brynodol	R40
<i>Cefn Ynsoedd</i>	1763	EwBangor	B1763/207 2372
<i>Cefn Ysoedd</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Kewefnisoth</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 6/11

<i>Cevefn ysoedd</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Cevefn y' unesoith</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Cefn yr Ynysoedd</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Cefn Yshoedd</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Cefn Ysoedd</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>gefnyssodd</i>	1784	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Cefnyssodd</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Cefn nysoedd</i>	1805	EwBangor	B1805/69 9324
<i>Cefnysoed</i>	1811	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Cefnynsoedd</i>	1831	Bangor	8554
<i>Cefn-yssodd</i>	1838	Map OS	78
<i>Cefn Ynysoedd</i>	1839	RhPdegwm	
<i>Cefn Ynysoedd</i>	1840	Myn.Llf.	A028
<i>Cefnysoedd</i>	1840	EwBangor	B1840/122 15582
<i>Cefnynysoedd</i>	1844	Myn Llf.	C021
<i>Cefnsoedd</i>	1874	Worrall	213
<i>Cafnysoedd</i>	1886	Postal Dir.	169
<i>Cefn Ysoedd</i>	1891	Myn. Llf.	A066
<i>Cefn-ynysoedd</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Cefnynysoedd</i>	1960	Map OS	SH 46
<i>Cefn Ynysoedd</i>	2000	CCPost	(Llanfaglan)

### ***cefn, ynys, ll. ynysoedd***

Oddi ar y lôn sydd yn dilyn glannau'r Foryd wrth fynd tuag at Gaernarfon. Un ystyr lai arferol i *ynys* yw dôl ar lan afon (*ELLEoedd*, 36–7), a byddai hyn yn gweddu yma gan fod *Cefnynysoedd* gyferbyn ag aber afon Gwyrfai yn y Foryd. Fodd bynnag, mae W. Gilbert Williams yn cyleirio at hen draddodiad fod nifer o ynysoedd gleision ar un adeg yn nhraeth y Foryd yng nghyffiniau *Cefnynysoedd* ac mai hwy a gofféir yn yr enw (*MTT*, 98). Ceir *Cefnynysoedd* hefyd yng Nghoedana, Môn (GM-J, 63).

Gwelir cywasgu cyson yn yr ail elfen. Mae aceniad y sillaf o flaen yr acen yn tueddu i fod yn wan yn y Gymraeg, ac yma mae'r *n* yn *Cefn* a'r *n* yn *ynysoedd* wedi eu cyfuno ar lafar nes llyncu'r sillaf ragobennol yn llwyr.

<b>Dôl-bach</b>	<b>Llanfaglan</b>	<b>SH 4659</b>
<i>Dôl bach</i>	1737	Ll&Brynodol P19

### ***dôl, bach***

Noda'r cofnod yn llawn: 'Dôl bach adjoining on Dôl fawr in Llanvagan'. Gweler *Ddôl Fawr* isod. Yn yr enw hwn gwelir y duedd gyffredin yn nhafodiaith Arfon i beidio â threiglo'r ans. *bach* ar ôl cb. un. (*TC*, 56; *GG*, 199).

<b>Dreiniäs</b>	<b>Llanfaglan / Llanwnda</b>
<i>Tyddyn y Ddreinioes</i> <sup>1</sup>	1616 Poole 3235
<i>y Drenies</i>	1725 NewGlynllifon XD2 / 7655
<i>Ddreinioes bach</i>	1756 EwBangor B1756/81 1031
<i>Plas yn ddreiniäs</i>	1772 Poole 1952
<i>y Drienes</i>	1781 NewGlynllifon XD2 / 7658
<i>Drenies</i>	1782 NewGlynllifon XD2 / 7661–2

<sup>1</sup> Copi o ewyllys Henry Rowlands, Esgob Bangor, yw cofnod 1616 uchod lle mae'n gadael annedd *Tyddyn y Ddreinioes* i Ddeon Bangor, Edmund Griffith, am dair blynedd ac yna i'w nith Margaret Lloyd.

<i>Drienias</i>	1806	Poole	1929
<i>Plasyn Ddreinias</i>	1810	NewGlynllifon	XD2 / 7670
<i>Plasyndreinias</i>	1810	NewGlynllifon	XD2 / 7671
<i>Plas yn ddreinias</i>	1813	NewGlynllifon	XD2 / 7673
<i>y Draines</i>	1813	NewGlynllifon	XD2 / 7678
<i>Ddreinias</i>	c. 1815	NewGlynllifon	XD2 / 8356

### ***dreinios?***

Mae sawl un o'r ffynonellau uchod yn lleoli'r annedd hwn ym mhlwyf Llanfaglan, ond mae W. Gilbert Williams yn enwi *Y Ddreinias* fel hen fferm a oedd unwaith yng nghyffiniau Plas-Dinas yn Llanwnda (*MTT*, 46). Enwir *Ddreinias* fel un o gaeau Plas-Dinas, neu Dinas fel y'i gelwid bryd hynny, yn 1798–9 (Vaynol 4059), ond fe geir *Cae Draenias* hefyd fel un o gaeau Plas-Llanfaglan yn RhPDEgwm plwyf Llanfaglan.

Mae'n bosib mai *dreinios* / *dreinos* sydd yma, sef ffurf fachigol lu. ar *draen* / *draenen*, i gyfleu llawer o fân ddrain. Cyfeiria'r Athro Gwynedd O. Pierce at *Ton Drunnos* yn Aberdâr, gan awgrymu mai *Ton* (y) *Ddreinos* yw hwnnw (*PNDPH*, 20). Gellir awgrymu hefyd mai ffurf gyfatebol a geir yn yr e.lle Cern. *Draynes* (*Corn PNE*, 88).

<b>Ddôl-fawr</b>	<b>Llanfaglan</b>	<b>SH 4659</b>
<i>y ddolfawr</i>	1699	Ll&Brynodol D978
<i>Y Ddolefawr</i>	1700	Ll&Brynodol D1178
<i>y ddolfawr</i>	1716	Ll&Brynodol D979
<i>Dole fawr</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Doel fawr</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Ddolfawr</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Ddolfawr</i>	1794	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Ddolfawr</i>	1816	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Ddol Fawr</i>	1831	Bangor 8554
<i>Y Ddol</i>	1860	Myn.Llf. A042
<i>Ddol Fawr</i>	1874	Worrall 213
<i>Ddol fawr</i>	1889–90	Sutton 140
<i>Ddôl Farm</i>	1919	Map OS XV S.E.
<i>Ddôl Farm</i>	2002	Map OS Explorer 254

### ***dôl, mawr***

Gweler *Dôl-bach* uchod. Ni lwyddwyd i leoli unrhyw *Ddôl-fawr* onid mai'r un lle yw hwn â *Ddôl Farm*. Nodir yr annedd dan yr enw hwn ar fapiau OS 1919 a 2002, ac fe'i gwelir oddi ar y lôn sydd yn arwain o gyrion pentrefan Llanfaglan i lawr at lan y môr yn y Foryd. Collwyd y fannod o'r enw yn gynnar ond cadwyd y tr. meddal ar ei hôl.

### **Feisdon**

Gweler dan Anheddau Llanbeblig.

<b>Freeholder</b>	<b>Llanfaglan</b>	<b>SH 4660</b>
<i>Tythyn Ruffydd alias Ffreeholder</i>	1742	Tynyngogl 337
<i>the Freeholder</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>freu Hoular</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Freehowlder</i>	1772	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Freehulder</i>	1775	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Freehouldar</i>	1778	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Freehoulder</i>	1780	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Friddhowlder</i>	1782	ATT GAG XQA/LT 6/11

<i>Freeholder</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Freehold</i>	1788	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Freehold</i>	1789	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Ffreeholder</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Freeholder</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D1
<i>Freeholder</i>	1831	Bangor	8554
<i>Freeholder</i>	1838	Map OS	78
<i>Freeholder</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Freeholder</i>	1874	Worrall	213
<i>Freeholder</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Free Holder</i>	2000	CCPost	(Llanfaglan)

**Saes. freeholder**

Ar gyrion gorllewinol pentrefan Llanfaglan. Mae'n anodd gweld pam y gelwid yr annedd hwn yn *Freeholder*, gan nad oedd yn beth anghyffredin cael rhydd-ddeiliad. Efallai fod yr anheddau oddi amgylch i gyd yn nwylo tenantiaid pan enwyd y lle. Yn sicr, erbyn RhPDegwm 1839 tenant oedd yn byw yn *Freeholder* hefyd. Yng nghofnodion cynnar Asesiad Treth y Tir ceir ymgeisiau rhyfedd i gyfleu sillafiad y Saesneg, ac yn 1782 ceir ymgais i resymoli'r enw gan greu gair hanner Cymraeg a hanner Saesneg. Cf. *Freehold Close* yn Houghton-le-Spring, Swydd Durham, a *Freeholders Wood* yn Minsterley, Swydd Amwythig (EFND).

<b>Fron</b>	<b>Llanfaglan</b>	<b>SH 4660</b>	
<i>Fron otherwise Vron</i>	1718	P. yr Aur	21542
<i>fron</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Fron alias Vron</i>	1768	P. yr Aur Fur. Add.	2180
<i>fron</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>fronn</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Fron</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Fron</i>	[1790]	P. yr Aur	17334
<i>Tyn y Lon or Fron</i>	1808	NewGlynllifon	XD2 / 6734
<i>Y Fron</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D1
<i>Fron</i>	1823	P. yr Aur	21281
<i>Fron</i>	1831	Bangor	8554
<i>Fron</i>	1838	Map OS	78
<i>Fron</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Fron</i>	1843	Poole	3226
<i>Fron</i>	1870	Poole	3227
<i>Fron</i>	1920	Map OS	XV N.E.
<i>Fron / Fron Lodge</i>	2000	CCPost	(Llanfaglan)

**bron**

Mae'r annedd hwn oddi ar y lôn gul sydd yn troi i'r dde oddi ar y ffordd o Gaernarfon i Lanfaglan ar gyrion y pentrefan. Dyma gartref y cerddor John Roberts (Ieuan Gwyllt) o 1869 hyd ei farwolaeth yn 1877 (*Byw*, 816).

Yng nghofnod 1816–20 yn unig y ceir y fannod a achosodd y tr. meddal dechreuol yn yr enw. Gweler hefyd *Tyn-lôn* isod.

<b>Fron-olau</b>	<b>Llanfaglan</b>	<b>SH 4659</b>	
<i>Fron Oleu</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Fron Ola</i>	1858	Myn. Llf.	C007
<i>Fron-oleu</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Fron-oleu</i>	1959	Map OS	SH 45

*Fron Oleu* 2000 CCPost (Llanfaglan)

**bron, golau**

Ar y dde i'r ffordd wrth fynd o bentrefan Llanfaglan i gyfeiriad afon Gwyrfai a'r Bont Faen. Cadwyd y ffurf ffug-hynafol *goleu* yn yr ail elfen hyd heddiw, ac eithrio, yn rhyfedd iawn, ar garreg fedd yn 1858, lle na fyddid wedi disgwyl cael y ffurf dafodieithol *ola*.

<b>Glan-llyn</b>	<b>Llanfaglan</b>	<b>SH 4659</b>	
<i>Glanllyn</i>	1832	NewGlynllifon	XD2 / 6736
<i>Glan Llyn</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Glan Llyn</i>	1845	Myn.Llf.	A047
<i>Glan Llyn</i>	1894	Myn.Llf.	A048
<i>Glan-llyn</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Glan Llyn</i>	2000	CCPost	(Llanfaglan)

**glan, llyn**

Ar gyrion deheuol pentrefan Llanfaglan.

<b>Glanrafon</b>	<b>Llanfaglan</b>	<b>SH 4759</b>	
<i>Glanyrafon</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D1
<i>Glan'rafon</i>	1838	Map OS	78
<i>Glan'rafon</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Glan-yr-afon</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Glanyrafon</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Glanrafon Fawr</i>	2000	CCPost	(Llanfaglan)

**glan, yr, afon**

Ar lan afon Gwyrfai i'r de o bentrefan Llanfaglan. Cyfeirir at yr annedd bellach fel *Glanrafon-fawr* i wahaniaethu rhyngddo a *Glanrafon-bach* sydd yn uwch i fyny'r afon ar gyrion Bontnewydd. Gweler *Glanrafon-bach* dan Anheddau Llanbeblig.

<b>Glan-y-feiston</b>	<b>Llanfaglan</b>		
<i>Glan y Vistone / Glan y Veystone</i>	1668–9	Ll&Brynodol	R16
<i>Glan y ffoiston</i>	1699	Ll&Brynodol	D978
<i>Glan y Veiston</i>	1700	Ll&Brynodol	D1178
<i>Glan y ffoiston</i>	1716	Ll&Brynodol	D979
<i>Glan y Veyton</i>	1737	Ll&Brynodol	R40
<i>Glan y Veiston</i>	1775	NewGlynllifon	XD2 / 6733

**glan, y, beiston**

Am esboniad o'r drydedd elfen gweler *Feiston* yn yr adran ar Anheddau Llanbeblig. Ni wyddys ymhle yr oedd *Glan-y-feiston*, ond mae'r enw yn awgrymu ei fod ar lan y môr, yn fwy na thebyg ar y Foryd.

<b>Glan-y-môr</b>	<b>Llanfaglan</b>	<b>SH 4560</b>	
<i>Tythin Thomas Owen alias Glan y Môr</i>	1768	P. yr Aur Fur. Add.	2178/9
<i>Glan y mor</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Glan y moer</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Gan y Mor</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Glan y Môr</i>	1788	P. yr Aur	16790
<i>Glany Mor</i>	1803	ATT GAG	XQA/LT 6/11

<i>Glan y Môr</i>	1811	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Glanymor</i>	1817	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Glanymore</i>	1826	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Glanymor</i>	1831	Bangor	8554
<i>Glanymor</i>	1831	Myn. Llf.	A024
<i>Glan mor</i>	1838	Map OS	78
<i>Glan y Môr</i>	1839	RhPdegwm	
<i>Glan-y-Mor</i>	1874	Worrall	213
<i>Glan y Mor</i>	1880	Vaynol	29
<i>Glan-y-mor</i>	1920	Map OS	XV N.E.
<i>Glan-y-môr</i>	1960	Map OS	SH 46
<i>Glan Y Mor</i>	2000	CCPost	(Llanfaglan)

**glan, y, môr**

Saif yr annedd hwn ryw led cae o lan y môr ac mae lôn fach yn arwain ohono i lawr at lan y Foryd ychydig i'r de o hen eglwys Llanfaglan.

<b>Hafod-y-rhisg</b>	<b>Llanfaglan</b>		<b>SH 4661</b>
<i>Hafod y Rhisg</i>	1657	P.S.Peniarth	DC104
<i>Hafodrisk</i>	1805	Poole	4161
<i>Hafod yr hisc</i>	1809	Poole	3980
<i>Hafod yr hisg</i>	1810	NewGlynllifon	XD2 / 7670
<i>Hafod y rhisg</i>	1813	NewGlynllifon	XD2 / 7673
<i>Hafodyrhig otherwise Hafodyrig</i>	1818	NewGlynllifon	XD2 / 7682
<i>Hafod y Rhisg</i>	1839	RhPdegwm	
<i>Hafod y Phisg</i>	1856	Myn.Llf.	A020
<i>Hafod y Rhisg</i>	1860	Myn.Llf.	B006
<i>Hafodyrhisg</i>	1886	Postal Dir.	169
<i>Hafod-y-rlusg</i>	1889-90	Sutton	140
<i>Hafod-y-rhisg</i>	1891	Map OS	XV N.E.
<i>Hafod-y-rhisg</i>	1920	Map OS	XV N.E.
<i>Hafod-y-rhisg</i>	1960	Map OS	SH 46

**hafod, y, rhisg**

Mae mapiau'r OS yn lleoli'r annedd hwn mewn llecyn diarffordd ar gyrion gogledd-orllewinol plwyf Llanfaglan nid nepell o'r ffin â phlwyf Llanbeblig. Ystyr *rhisg* yw rhisgl pren. Arferid cynaeafu rhisgl derw ar gyfer trin lledr. Ceir *Hafod-y-rhisg* hefyd yn Nantgwynant (*ELISG*, 27).

<b>Llwyn-ynn</b>	<b>Llanfaglan</b>		<b>SH 4560</b>
<i>Llwyn ynne</i>	1661	EwBangor	B1661/73
<i>Llwyn Inn</i>	1725	NewGlynllifon	XD2 / 7655
<i>Llwyn Inn</i>	1782	NewGlynllifon	XD2 / 7661-2
<i>Llwyn Inn</i>	1806	Poole	1989
<i>Llwynym</i>	1810	NewGlynllifon	XD2 / 7671
<i>Llwyn Ynn</i>	c. 1815	NewGlynllifon	XD2 / 8356
<i>Llwyn Inn</i>	1813	NewGlynllifon	XD2 / 7678
<i>Llwyn-inn</i>	1838	Map OS	78
<i>Llwyn-yn / Llwyn-yn Brick Works</i>	1891	Map OS	XV S.E.

**llwyn, onnen, llu. ynn? / Saes.inn?**

Yng nghyffiniau Cefnynysoedd ar y ffordd i lawr at y Foryd. Bron nad yw cysondeb y sillafiad *Inn* yn codi'r cwestiwn ai tafarn oedd yma ynteu camsillafiad o'r gair *ynn*. Mae'r

cofnod cynharaf uchod (1661) yn sicr yn awgrymu *ynn*, felly hefyd yr un c.1815. er bod y cyfuniad 'Llwyn Onn' yn fwy cyffredin fel arfer mewn e.lleoedd.

<b>Maes-Elen / Helen</b>	<b>Llanfaglan</b>	<b>SH 4659</b>
<i>Maeshelen</i>	1832	Coed Helen 107
<i>Maes Elen</i>	1839	RhPDegwm
<i>Maes Elen</i>	1840	Myn. Llf. A012
<i>Maes Elen</i>	1849	Myn.Llf. C056
<i>Maes Helen</i>	1854	Ew Bangor B1854/136 18734
<i>Maes Helen</i>	1886	Myn.Llf. A070
<i>Mais Helen</i>	1886	Postal Dir. 169
<i>Maes-Helen</i>	1919	Map OS XV S.E.
<i>Maes Helen / Maes Helen Cottage</i>	2000	CCPost (Llanfaglan)

***maes, e.p. Elen / Helen***

Ar y chwith i'r ffordd wrth fynd i'r de o bentrefan Llanfaglan i gyfeiriad afon Gwyrfai a'r Bont Faen. Rice Thomas, Coed-Helen, Caernarfon oedd biau'r annedd hwn yn 1839. a gallai hyn esbonio'r elfen *Helen / Elen*.

<b>Maes-y-neuadd</b>	<b>Llanfaglan</b>	<b>SH 4659</b>
<i>Maes y Neuadd</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>maes neydd</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>maisy nyer</i>	1772	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>mais yr nyer</i>	1773	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Maes y Neydd</i>	1774	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Maes y Neÿodd</i>	1775	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>maes y neuoedd</i>	1779	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Maesynauadd</i>	1781	P. yr Aur 15733
<i>Maes y nauoedd</i>	1781	P. yr Aur 15805
<i>maes yr Neyodd</i>	1782	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Mays Neyoedd</i>	1783	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Maes y Neuadd</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Meas y neuodd</i>	1793	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Maes y Neuadd</i>	1793	P. yr Aur 17640
<i>Maes y Neuadd</i>	1793	P. yr Aur 15735
<i>Maes y Neuodd</i>	1805	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Maesneyodd</i>	1806	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Maes y neuadd</i>	1818	Rumsey Wms 2584
<i>Maes y neuadd</i>	1820	Rumsey Wms 405
<i>Maesymeia</i>	1822	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Maesymiod</i>	1826	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Maesymiod</i>	1827	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Maesyneiodd</i>	1828	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Maesyneyoedd</i>	1829	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Maesyneuadd</i>	1830	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Maes y neuadd</i>	1838	Map OS 78
<i>Maes-neuadd</i>	1898–1900	Map OS Arg. 1af
<i>Maes-neuadd</i>	1919	Map OS XV S.E.

***maes, y, neuadd***

Yng nghanol pentrefan Llanfaglan. Mae'n rhyfedd i'r elfen *neuadd* beri'r fath drafferth i gofnodwyr Asesiadau Treth y Tir. Mae'n enw sydd yn digwydd mewn mannau eraill: ceir *Maes-y-neuadd* yn Nhrefor a Thalsarnau.

<b>Morfa-cwta</b>	<b>Llanfaglan</b>	<b>SH 4559</b>
<i>Morfa Cwtta</i>	1810	Rumsey Wms 443
<i>Morfa Cwtta</i>	1825	Henblas B 363
<i>Morfa cwtta</i>	1831	DCTC
<i>Morfa</i>	1838	Map OS 78
<i>Morfa cwta</i>	1839	RhPDegwm
<i>Morfa Cwta</i>	1859	Myn. Llf. A046
<i>Morfa cwta</i>	1889–90	Sutton 140
<i>Morfa-cwta / Morfa-cwta-bâch</i>	1919	Map OS XV S.E.
<i>Morfa-cwta</i>	1959	Map OS SH 45

***morfa, cwta, bach***

Ar y lôn sydd yn arwain o gyrion deheuol pentrefan Llanfaglan at y Foryd. Ystyr yr ans. *cwta* yw rhywbeth sydd wedi ei docio neu ei dorri'n fyr.

<b>Penrhyn / Penrhyn-bach</b>	<b>Llanfaglan</b>	<b>SH 4559</b>
<i>Y penrhyn</i>	1699	Ll&Brynodol D 978
<i>Y Penrhyn</i>	1700	Ll&Brynodol D1178
<i>Y penrhyn</i>	1716	Ll&Brynodol D 979
<i>Penrhin</i>	1763	EwBangor B1763/208 2373
<i>Penrhyn</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Penthrin</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>penthryn</i>	1778	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Penthrun</i>	1779	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>pen rhun</i>	1780	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Penrhyn oer</i>	1788	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Penrhyn oer</i>	1792	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Penrhyn Oer</i>	1793	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Penryhin Oer</i>	1794	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Penrhyn</i>	1798	Myn. Llf. A022
<i>Penrhyn</i>	1798	EwBangor B1798/70 8150
<i>Penrhyn Oer</i>	1801	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Penrhynoer</i>	1813	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Penrhyn</i>	1814	EwBangor B1814/88 10835
<i>Penrhyn</i>	1827	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Penrhyn</i>	1828	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Penryn / Penryn bach</i>	1838	Map OS 78
<i>Penrhyn</i>	1846	EwBangor B1846/132 16811
<i>Penrhyn</i>	1919	Map OS XV S.E.
<i>Penrhyn</i>	1959	Map OS SH 45
<i>Penrhyn / Penrhyn Bach</i>	2000	CCPost (Llanfaglan)

***penrhyn, bach***

Yn ei haber mae afon Gwyrfaï wrth iddi lifo i mewn i'r Foryd wedi creu penrhyn bychan ac yno y saif y ddau annedd hyn. Mae'r ffurfiau yng nghofnodion 1771, 1778 a 1779 yn ddiddorol. Yn nhafodiaith gogledd-orllewin Cymru mae'r cyfuniad o *n + r* neu *rh* yng nghanol gair yn tueddu i fagu *d* rhyngddynt, e.e. *Henri* > *Hendri* (EEW, 234; TC, 389), a dyna a ddigwyddodd ar lafar yn *Penrhyndeudraeth* > *Pendryn* (LPNW, 117–18). Ond yma ceir *th* ymwithiol yn hytrach na *d*. Mae hyn hefyd yn nodwedd o'r dafodiaith leol, cf. *cynrhon* > *cynthron* (WVBD, 320; LPNW, 117). Sylwer y modd y mae'r ans. *oer* yn ymddangos am gyfnod fel rhan o'r enw ac yna'n diflannu drachefn.



<b>Pen-y-bryn</b>	<b>Llanfaglan</b>		<b>SH 4760</b>
<i>Pen-y-Bryn</i>	1724	Henblas B	164
<i>pen y bryn</i>	1736	Henblas B	160–2
<i>Pen=y=Bryn</i>	1743	Henblas B	168
<i>Penbryn</i>	1760	Henblas B	175
<i>Pen y bryn</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>pen y prin</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>pen y brun</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Pen bryn</i>	1796	Poole	3801
<i>Pen y Bryn</i>	1803	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Pen y bryn</i>	1809	Poole	3980
<i>Penybryn</i>	1811	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Pen y bryn</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081. D1
<i>penybryn</i>	1817	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Pen y Bryn</i>	1820	Myn.Llf.	C050
<i>Pen Bryn</i>	1835	EwBangor	B1835/128 14500
<i>Penybryn</i>	1837	Myn.Llf.	C048
<i>Penybryn</i>	1843	Myn.Llf.	C020
<i>Pen-y-bryn</i>	1920	Map OS	XV N.E.
<i>Pen-y-bryn</i>	1960	Map OS	SH 46

***pen, y, bryn***

Ar y chwith i'r lôn sydd yn arwain o bentrefan Llanfaglan wrth fynd tuag at Gaernarfon. ar y ffin rhwng plwyfi Llanfaglan a Llanbeblig.

<b>Plas-isaf</b>	<b>Llanfaglan</b>		<b>SH 4561</b>
<i>Plase yssa</i>	1725	NewGlynllifon	XD2 / 7655
<i>Plas Issa</i>	1771	P. yr Aur	21876
<i>Plas Issa</i>	1772	Poole	1952
<i>Plase issa</i>	1781	NewGlynllifon	XD2 / 7658
<i>Plas yssa</i>	1782	NewGlynllifon	XD2 / 7661–2
<i>Plassissa</i>	1791	EwBangor	B1791/63 7062
<i>Plas Isa</i>	1806	Poole	1989
<i>Plas isaf / Plais Isaf</i>	1810	NewGlynllifon	XD2 / 7670, 7671
<i>Plas isaf</i>	1813	NewGlynllifon	XD2 / 7673
<i>Plâs-isa'</i>	1838	Map OS	78
<i>Plas-isaf</i>	1920	Map OS	XV N.E.
<i>Plas-isaf</i>	1960	Map OS	SH 46

***plas, ans. isel, gradd eithaf isaf***

Rhwng Plas-Llanfaglan a glannau'r Fenai, gyda'r mynediad ato o gyfeiriad glan y môr. Efallai mai grym yr *isaf* oedd i wahaniaethu rhyngddo a Phlas-Llanfaglan a adwaenid yn aml yn syml fel *Plas*.

<b>Plas-Llanfaglan</b>	<b>Llanfaglan</b>		<b>SH 4661</b>
<i>mansion house called Llanvagan in Llanvagan</i>	1708	Tynyngogl	286
<i>Plase yn Llanvagan</i>	1725	NewGlynllifon	XD2 / 7655
<i>Plas Llanvagen</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/11

<i>Plas Llanfaglan</i>	1771	P. yr Aur	21876
<i>Llanvagan</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Plas Llanfaglan</i>	1772	Poole	1952
<i>Plas Llanfagdlen</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>plâs llanfaglan</i>	1777	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Plas Llanfaglan</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Plâs</i>	1788	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Plâs</i>	1789	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Pleas</i>	1793	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Plas Llanfaglan</i>	1798	EwBangor	B1798/71 8151
<i>Plas Llanfaglan</i>	1799	LIEsgob	257
<i>Plas Llanfaglan</i>	1805	Rumsey Wms	397
<i>Plas Llanfaglan</i>	1806	Poole	1929
<i>Plas Llanfagdalen / Plasyn Llanfagdalen</i>	1810	NewGlynllifon	XD2 / 7670, 7671
<i>Plas Llanfaglan</i>	1815	Rumsey Wms	403-4
<i>Plas Llanfaglan</i>	1818	Rumsey Wms	2584
<i>Plas Llanfaglan</i>	1820	Rumsey Wms	405
<i>Plas</i>	1831	Bangor	8554
<i>Plâs Llanfaglan</i>	1838	Map OS	78
<i>Plas Llanfaglan</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Plas Llanfagdalen</i>	1850	EwBangor	B1850/135 17776
<i>Plas Llanfagdalen</i>	1874	Worrall	213
<i>Plas Llanfagdalen</i>	1881	Myn. Llf.	A036
<i>Plas Llanfaglan</i>	1889-90	Sutton	140
<i>Plas-Llanfaglan</i>	1920	Map OS	XV N.E.
<i>Plas Llanfaglan</i>	2000	CCPost	(Llanfaglan)
<i>Plas Farm</i>	2004	Map PSA	

### ***plas, e.ll. Llanfaglan***

Mae'r brif lôn at yr annedd hwn yn troi i'r dde wrth fynd tuag at bentrefan Llanfaglan o gyfeiriad Caernarfon, ond gan ei fod hanner ffordd rhwng y lôn honno a glan y môr, ymddengys y gellir mynd ato o gyfeiriad glan y môr yn ogystal (Map PSA). Er bod cofnodion 1775, 1810 ac 1874 yn nodi *Llanfagdlen* a *Llanfagdalen*, mae'n bosibl na ddefnyddiwyd y ffurf hon mor aml yn achos y tŷ ag yn achos enw'r plwyf (q.v.) ac mai ffurf ysgrifenedig yn unig ydoedd.

<b>Porth-lleidiog</b>	<b>Llanfaglan</b>		<b>SH 4661</b>
<i>Porthleidiog</i>	1724	Henblas B	164
<i>Porth Leidiog</i>	1736	Henblas B	160
<i>Porthleidiog</i>	1743	Henblas B	168
<i>Porthleidiog</i>	1760	Henblas B	175
<i>Porth Leidiog</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Porth Lidiog</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Borth Leidiog</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Borth Leidiog</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>porthloidiog</i>	1789	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Porthleidiog</i>	1796	Poole	3801
<i>Porthleidiog</i>	1810	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Porthlleidiog</i>	1813	NewGlynllifon	XD2 / 7673
<i>Porthleidiog</i>	1818	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Porth Lleidiog</i>	1831	Bangor	8554
<i>Porth lleidiog</i>	1838	Map OS	78
<i>Borthleidiog</i>	1862	Myn. Llf.	A035
<i>Porth-lleidiog</i>	1920	Map OS	XV N.E.

<i>Porth-lleidiog</i>	1960	Map OS	SH 46
<i>Porth Lleidiog</i>	2000	CCPost	

**porth, lleidiog**

Ar lannau'r Fenai rhwng Caernarfon a'r Foryd. Nid yw'r lanfa sydd yn rhoi ei henw i'r annedd yn llawer mwy na rhyw fymryn bach o fae. Yn sicr mae'r llaid yn nodwedd amlwg iawn o'r glannau hyn pan fo'n drai.

**Pwll-marl Llanfaglan SH 4760**

<i>Pwll Marl</i>	1839	RhPDegwm	
------------------	------	----------	--

**pwll, marl**

Mae map y Degwm yn lleoli'r annedd hwn i'r gogledd-ddwyrain o *Glan-llyn* ac i'r gogledd-orllewin o *Dyn-rhos* (q.v.). Ceir sawl enghraifft o'r enw *Cae pwll marl* yn Arfon, sydd yn tystio i'r defnydd a wneid o farl i wrteithio'r tir. sef math o bridd yn cynnwys clai a chalch. Mae'r arfer hwn yn dyddio'n ôl i'r cyfnod cyn-Rufeinig, a cheir cyfeiriadau yn yr Oesoedd Canol yn Lloegr at y *marleputt* (*EFN*, 85; *NaH*, 101–3). Y *pwll marl* neu'r *marbwill* yw'r twll lle cloddir y pridd hwn. Cf. *Marleputfeld* yn 1297 a *Le marlhole* yn 1414 yn Essex (*EFN*, 85); *Marlpit Field* yn Bannel, Penarlâg (*PNEF*, 16) ac yn Elston. Swydd Gaerhirusyn (*EFND*, 134), a lluo o enwau yn cynnwys yr elfen *marl* yn Swydd Efrog (*NaH*, 103).

**Talcen-eiddew Llanfaglan**

<i>Talcen Eiddew</i>	1734/5	Ll&Brynodol	D980
----------------------	--------	-------------	------

**talcen, eiddew**

Hwn yw'r unig gyfeiriad a welwyd hyd yma at yr annedd hwn. Tybed nad yr un lle yw â *Thy'-eiddew*? (gweler isod).

**Tan-y-graig Llanfaglan SH 4660**

<i>Tan y graig</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Tan yr Craig</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>tanygrag</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Tan y Graig</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Tan y Graig</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Tan y Graig</i>	1797	P. yr Aur	14329
<i>Tan y Graig</i>	1812	P. yr Aur	20976
<i>Tany graig</i>	1818	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Tan y graig</i>	1820	Rumsey Wms	2588
<i>Tanygraig</i>	1828	Rumsey Wms	2615
<i>Tany Graig</i>	1831	Bangor	8554
<i>Tanygraig</i>	1833	Rumsey Wms	2625
<i>Tan y graig</i>	1835	EwBangor	B1835/127 14499
<i>Tan-y-graig</i>	1836	C. Vincent	2538
<i>Tan-y-graig</i>	1838	Map OS	78
<i>Tan y Graig / Tanygraig</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Tanygraig</i>	1874	Worrall	213
<i>Tan-y-graig</i>	1920	Map OS	XV N.E.
<i>Tan-y-graig</i>	1960	Map OS	SH 46
<i>Tan-y-graig</i>	2002	Map OS	Explorer 254

**tan, y, craig**

Oddi ar y lôn sydd yn arwain o bentrefan Llanfaglan i gyfeiriad Plas-Llanfaglan a'r môr. Mae mewn llecyn creigiog: ceir capel *Pen-y-graig* gerllaw.

<b>Tŷ-calch</b>	<b>Llanfaglan</b>	<b>SH 4561</b>	
<i>Lime house</i>	1748	Siart Lewis Morris	
<i>Ty calch</i>	1806	Poole	1929
<i>Ty Calch</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D1
<i>Tŷ calch / Lime kiln</i>	1838	Map OS	78
<i>Tŷ Calch</i> (fel rhan o dir Plas Llanfaglan)	1839	RhPDegwm	
<i>Ty Calch</i>	1857	MynLlf	A027
<i>Ty-calch / Old Limekiln</i>	1920	Map OS	XV N.E.
<i>Ty-calch</i>	1960	Map OS	SH 46
<i>Ty Calch</i>	2000	CCPost	

### **tŷ, calch**

Ar lannau'r Fenai nid nepell o'r fan lle ymuna afon Gwyrfai â'r Foryd. Mae siart forwrol Lewis Morris o Fôn (1748) yn nodi 'Lime house' yn y fan hon (*LM*, 9; *Y Fenai*, 7); mae map OS 1838 yn nodi 'Lime kiln' a map OS 1920 yn nodi 'Old Limekiln' yng nghyffiniau'r annedd presennol, felly mae'n hawdd gweld sut y cafodd yr annedd ei enw. Mae'r tŷ heddiw wedi ei wyngalchu ac mae'n dirnod amlwg i forwyr wrth iddynt groesi'r bar i mewn i afon Menai (gwybodaeth bersonol; *Y Fenai*, llun ar t. 21).

<b>Tŷ-eiddew</b>	<b>Llanfaglan</b>	<b>SH 4660</b>	
<i>Tŷ Eiddew</i>	1720	Ll& Brynodol	D343
<i>Tŷ Eiddew otherwise Tythyn Eiddew</i>	1767	Dinam Hall	36
<i>Tu eiddaw</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>tu Eiddaw</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Ty eiddiw</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>tuheiddaw</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Ty Iddaw</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Ty Ieddew</i>	1795	EwBangor	B1795/78 7711
<i>Ty Ieddew</i>	1795	EwBangor	B1795/78 7712
<i>Ty eiddaw</i>	1818	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Tyeiddaw</i>	1831	Bangor	8554
<i>Ty-eiddew</i>	1838	Map OS	78
<i>Ty Eiddew</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Tyeiddaw otherwise Tyddyn Eiddaw</i>	1848	Dinam Hall	155
<i>Ty Eiddew</i>	1874	Worrall	213
<i>Ty Eidden</i>	1886	Postal Dir.	169
<i>Tyeidden</i>	1889–90	Sutton	140
<i>Ty Eiddew</i>	1890–1	Bangor	8560
<i>Ty Eiddew</i>	1918	NewGlynllifon	XD2 / 6745
<i>Ty-eiddew</i>	1920	Map OS	XV N.E.
<i>Ty Eiddaw</i>	1941	Myn. Llf.	N026
<i>Ty-eiddw</i>	1960	Map OS	SH 46
<i>Ty Eiddew</i>	2000	CCPost	(Llanfaglan)
<i>Ty-eiddw</i>	2002	Map OS	Explorer 254

### **tŷ, eiddew**

Oddi ar y lonydd cefn ar ôl troi i'r dde cyn cyrraedd pentrefan Llanfaglan wrth ddod o Gaernarfon. Ail elfen yr enw yw *eiddew*, sef y planhigyn bythwyrdd *Hedera helix* a welir yn aml yn dringo dros furiau hen dai. Mae'r ffurf ysgrifenedig *Iddaw* (1783) ar yr olwg gyntaf yn

awgrymu dylanwad gair ac iddo ystyr hollol wahanol, sef *Iddew*, gŵr o'r genedl Iddewig, ond rhaid cofio fod *iddaw* yn un o'r ffurfiau llafar lleol ar *eiddew* yn y rhan hon o Arfon (AAG. 73). Yn y ffurf *Ty-eiddw* (1996) gwelir ffurf lafar arall, sef *eiddw[ſ]* sydd yn amrywiad ar *eiddew* (GPC), ac mae *eiddaw* hefyd yn amrywiad llafar lleol ar y gair. Mae cyfeiriad llawn 1720 yn cyfeirio at yr annedd fel 'Cefn y Coed otherwise Tû Eiddew'. Gw. *Cefn-y-coed*.

<b>Tŷ-helyg</b>	<b>Llanfaglan</b>	<b>SH 4760</b>
<i>tu Helig</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Ty helig</i>	1783	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Tyddyn huw Rolant or Tŷhelig</i>	1788	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Ty helig</i>	1794	EwBangor B1794/75 7555
<i>Tyhelig</i>	1801	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Ty-helyg</i>	1804	P. yr Aur 20348
<i>Ty Helyg alias Tyddyn Bach</i>	1805	Poole 4161
<i>Tyhelig</i>	1807	Coed Helen 80
<i>Ty Helig</i>	1816–20	Dawson, Bangor f34081. D1
<i>Ty helig</i>	1817	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Ty helig</i>	1823	EwBangor B1823/74 12278
<i>Tyhelig</i>	1831	Bangor 8554
<i>Ty Helig</i>	1839	RhPDegwm
<i>Ty-helyg</i>	1920	Map OS XV N.E.
<i>Ty Helyg</i>	2000	CCPost

**tŷ, helygen, llu. helyg**

Ar y dde oddi ar y lôn o Bont Saint i bentrefan Llanfaglan nid nepell o'r ffin â phlwyf Llanbeblig. Gweler *Tyddyn Hugh Rowland* isod.

<b>Tyddyn Hugh Rowland</b>	<b>Llanfaglan</b>	
<i>Tythyn Tan y Bryn otherwise Tur Hugh Rowland</i>	17g	PSPeniarth DC161
<i>Tyddyn Hugh Rowland</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Tuthin Hu Rowlant</i>	1772	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>tuthin Hu Rowlant</i>	1773	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Tyddyn Hugh Rowlands</i>	1774	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Tyddyn Huw Rowlan</i>	1775	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Tyddyn Hugh Roland</i>	1778	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>tyddyn hugh Rowland</i>	1780	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Tyddyn huw Rolant or Tŷhelig</i>	1788	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Tyddyn huw Rolant or Tyhelig</i>	1792	ATT GAG XQA/LT 6/11

**tyddyn, e.p. Hugh Rowland**

Gwelir oddi wrth gofnodion 1788 a 1792 mai'r un lle yw hwn â *Thŷ-helyg* q.v. Ni wyddys pwy oedd *Hugh Rowland*. Ceir cyfeiriad hefyd yn niwedd y 17g. at dir Hugh Rowland: 'Tythyn Tan y Bryn otherwise Tur Hugh Rowland', ond heb awgrym o'i leoliad (P.S.Peniarth, DC161).

<b>Tyddyn-Ruffydd</b>	<b>Llanfaglan</b>	<b>SH 4660</b>
<i>Tythyn Ruffydd alias Ffreeholder</i>	1742	Tynygongl 337

**tyddyn, e.p. Gruffydd**

Gweler *Freeholder* uchod.

<b>Tyddyn Thomas Owen</b>	<b>Llanfaglan</b>	<b>SH 4560</b>
<i>Tythyn Thomas Owen alias Glan y Môr</i>	1768	P. yr Aur Fur. Add. 2178/9

*tyddyn, e.p. Thomas Owen*  
 Gweler *Glan-y-môr* uchod.

<b>Tyddyn-Wilkin</b>	<b>Llanfaglan</b>	<b>SH 4760</b>
<i>Tyddyn Wilkin</i>	1839	RhPDegwm

*tyddyn, e.p. Wilkin*  
 Gweler *Merddyn-Wilkins* dan Anheddau Llanbeblig, gan mai'r un lle yn ddiaw yw hwn. Saif yr annedd hanner ffordd rhwng Bontnewydd a phentrefan Llanfaglan ac mae'n debyg fod ei dir yn ymestyn i blwyf Llanbeblig a phlwyf Llanfaglan.

<b>Tyddyn-y-clochydd</b>	<b>Llanfaglan</b>	<b>SH 4659</b>
<i>Tyddyn y Clochydd</i>	1668–9	Ll&Brynodol R16
<i>Tythyn y Clochydd</i>	1691	Bodorgan 117
<i>Tyddyn y Clochydd</i>	1699	Ll&Brynodol D978
<i>Tythyn-y-Clochydd</i>	1700	Ll&Brynodol D1178
<i>Tyddyn y Clochydd</i>	1716	Ll&Brynodol D979
<i>Tythyn Clochydd</i>	1741	Ll&Brynodol R40
<i>Tyddyn y Clochÿdd</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Tuthin yr Clochith</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Tuthin y' Glochith</i>	1773	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Tyddyn y Gloch</i>	1774	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Tyddyn y Glôch</i>	1775	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Tyddyn y clochÿdd</i>	1777	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Tyddun y clochudd</i>	1779	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>tyddun y Clochuddu</i>	1781	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Tyddyn y Clochydd</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Tyddyn y Colchyd</i>	1808	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Tyddyn clochyd</i>	1809	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Tyddyn Clochidd</i>	1811	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Tyddyn clochydd</i>	1819	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Tyddynyclochydd</i>	1828	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Tyddyn Clochydd</i>	1831	Bangor 8554
<i>Tyddyn y Clochydd</i>	1839	RhPDegwm
<i>Tyddyn Clochydd</i>	1879	Myn. ENLlf. 010
<i>Tyddyn-clochydd</i>	1919	Map OS XV S.E.
<i>Tyddyn Clochydd</i>	1930–1	Bangor 8592

*tyddyn, y, clochydd*  
 Mae map OS 1919 yn lleoli'r annedd hwn ar y chwith wrth nesáu at y Bont Faen o gyfeiriad pentrefan Llanfaglan. O ystyried pa mor hynafol yw'r enw byddid wedi disgwyl gweld annedd o'r enw hwn yn nes at hen eglwys Llanfaglan ar lan y môr. Credai MR mai'r *clochydd* yw'r alwedigaeth a geir amlaf mewn enwau lleoedd (*TCHSG*, 52–3, (1991–2) 22).

<b>Tyddyn-y-ddeunol</b>	<b>Llanfaglan</b>
<i>Tythyn y ddeunol</i>	1616 Ll&Brynodol D1165

**tyddyn, y, ddeunol?**

Heb ei leoli. Ni wyddys beth yw *ddeunol*, onid yw'n ymgais i gyfleu *faenol*. Ni fyddai cyfeiriad at faenol yn gwneud unrhyw synnwyr yn Llanfaglan ei hun yn 1616. ond gallai fod yn cyfeirio'n ôl at gyfnod llawer cynharach.

**Tyddyn-y-gweirgloddiau****Llanfaglan**

<i>Tyddin y Gwergloddie</i>	diwedd y 17g.	P.S.Peniarth	DC161
<i>Tû Gwyn otherwise Tyddin y Gweirgloddie</i>	1719	P.S.Peniarth	DC176

**tyddyn, y, gweirglodd, llu. gweirgloddiau**

Heb ei leoli. Ni welwyd unrhyw gyfeiriadau eraill at yr annedd hwn dan y naill enw na'r llall.

**Tyn-lôn****Llanfaglan****SH 4660**

<i>Tyn lon</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>tu y<sup>n</sup> yr loen</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Tyn y lon</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Ty yn y Lôn</i>	1793	P. yr Aur	17640
<i>Ty yn y lon</i>	1793	P. yr Aur	15735
<i>Tynylon</i>	1801	P. yr Aur	20696
<i>Tyn y Lon or Fron</i>	1808?	NewGlynllifon	XD2 / 6734
<i>Tyn y lon</i>	1809	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Tynylon</i>	1817	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Tynylon</i>	1823	P. yr Aur	21281
<i>Tynlone</i>	1826	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Tyny Lon</i>	1831	Bangor	8554
<i>Tynylon</i>	1843	Poole	3226
<i>Tynylone</i>	1870	Poole	3227

**tyn, y, lôn**

Y cofnod arwyddocaol uchod yw un 1808(?) sydd yn awgrymu mai'r un lle oedd *Tyn-lôn* a *Fron* (q.v.).

**Tyn-rhos****Llanfaglan****SH 4760**

<i>Ty-yn-y Rhos</i>	1724	Henblas B	164
<i>Tyddyn Rhos</i>	1725	NewGlynllifon	XD2 / 7655
<i>Ty-yn-y-Rhos</i>	1725	Cynhaiarn	472
<i>Tu yn y Rhos</i>	1736	Henblas B	160
<i>Ty=yn=y-Rhos</i>	1743	Henblas B	168
<i>Tyny Rhose</i>	1760	Henblas B	175
<i>Tyn y Rhôs</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Tuthin Rhoes / Tue y<sup>n</sup> Rhoes</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Tuthin yr Rhoes</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Tydd yn Rhos</i>	1781	NewGlynllifon	XD2 / 7658
<i>Tyddyn Rhos</i>	1782	NewGlynllifon	XD2 / 7661-2
<i>Tyn y rhôs</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Tyn y Rhose</i>	1796	Poole	3801
<i>Tynrhos</i>	1810	NewGlynllifon	XD2 / 7670/1
<i>Tyd yr Rhose</i>	1813	NewGlynllifon	XD2 / 7678
<i>Ty'n Rhos</i>	1839	RhPDe'gwm	

***tyn/tyddyn, y, rhos***

Yr oedd yr annedd hwn, fel *Cae-rhos* a *Phenrhos*, wedi ei adeiladu ar Ros Llanfaglan, a oedd yn ymestyn o ganol y pentrefan i gyfeiriad afon Gwyrfai.

**Ysgubor-wen**

**Llanfaglan**

<i>skubor wen</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Skibor wen</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Scyborwen</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Scybor wen</i>	1783	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>yscuborwen</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Yscuborwen</i>	1817	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Yscygorborwen</i>	1826	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Ysgyborwen</i>	1829	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Ysgybor Wen</i>	1831	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Ysgubor Wen</i>	1930–1	Bangor	8592

***ysgubor, ans. gwyn, ben. gwen***

Heb ei leoli.



## CAEAU LLANFAGLAN

*'Mae gan y caeau a adwaen bob un ei bersonoliaeth, ac fel popeth a chanddo bersonoliaeth, mae iddynt enwau.'*

*Kate Roberts (ErthKR, 27)*

<b>Allt / Gallt</b>	<b>Llanfaglan</b>			
<i>Allt Eithin</i> <i>allt, eithin</i>	Tan-y-graig	1839	RhPDegwm	132
Mae W.J. Gruffydd yn gwrthod yr esboniad mai *hual* yw'r elfen, gan dybied mai *rual* sydd yn yr enw, nid *rhual*. Ei awgrym ef yw mai'r e.p. Normanaidd *Ruel* sydd yma (*Llenor*, VII, (1928) 245). Byddai'n naturiol disgwyl cael e.p. ar ôl yr elfen *bod-* mewn e.lle, ond ni welwyd hyd yn hyn enghraifft o'r ffurf *Rual* fel e.p. Sylwer hefyd mai *-a-* yw'r llafariad olaf bob tro, ac eithrio yng nghofnod 1718/19, felly nid oes cefnogaeth i ddamcaniaeth W.J. Gruffydd am *Ruel*. Ymgais i esbonio neu resymoli'r enw a geir yn y ffurfiau ffug sydd yn cynnwys yr elfen *petryal*.

Bryn-bras	Llanrug		SH 5462
<i>Bryn Bras</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081 D!
<i>Brynbras Castle</i>	1836	Bangor	419 (68)
<i>Bryn-brâs</i>	1838	Map OS	78
<i>Brynbras / Brynbras Castle</i>	1838–44	Rumsey Wms	2344–2407
<i>Bryn bras</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Bryn-brâs Castle</i>	1920	Map OS	XVI N.E.
<i>Bryn-brâs Castle</i>	1961	Map OS	SH 56
<i>Bryn Bras Castle</i>	2002	Map OS	Explorer OL17

#### **bryn, bras**

Rhwng Llanrug a Chwm-y-glo. Castell modern yn null pensaernïol Romanesg cyfnod y Rhaglywiaeth yw *Bryn-bras* ac fe'i rhestrir fel adeilad o ddiddordeb hanesyddol. Adeiladwyd y castell ar sail adeilad cynharach rhwng 1829 a 1835, a honnir mai'r pensaer oedd Thomas Hopper, yr un gŵr ag a gynlluniodd Castell Penrhyn ger Bangor. Heddiw mae'r castell wedi ei rannu'n ystafelloedd sydd ar osod i ymwelwyr<sup>1</sup>.

Defnyddir ail elfen yr enw, sef yr ans. *bras*, fel rheol mewn dwy ystyr arbennig: mewn llysenwau gynt i disgrifio rhywun blonegog, megis 'Adda Fras', neu i ddisgrifio rhywbeth garw neu gwrs, megis 'barclod bras' neu 'flawd bras'. Ond mae iddo ystyr lai arferol o 'ffrwythlon' neu 'doreithiog', ac fe'i gwelir yn yr ymadrodd 'byw'n fras'. Yn ddiau yr ystyr hon sydd yma yn enw *Bryn-bras*.

Bryn-crwn	Llanrug		SH 5362
<i>Bryn Crwn</i>	1822	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Bryn Crwn</i>	1826	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Bryn Crwn</i>	1828	EwBangor	B1828/120 13228
<i>Bryncrwn</i>	1838	NewGlynllifon	XD2 / 6870
<i>Bryn Crwn</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Bryn Crwn</i>	1849	Bangor	8555
<i>Bryncrwn</i>	1869	Vaynol	607
<i>Bryn crwn</i>	1878	Bangor	8555
<i>Bryn-crwn</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Bryn Crwn</i>	2000	CCPost	(Ceunant)

#### **bryn, crwn**

Ar lôn gefn yn fforchio oddi ar y ffordd sydd yn arwain o Geunant i lawr i Llanrug drwy Dan-y-coed. Yn eglwys Llanrug ceir llech goffa yn y festri i goffáu Owen Thomas o Glyn-Ifor (q.v.) a adawodd bumpunt i dlodion y plwyf, ac adeiladwyd tŷ ym *Mryn-crwn* gyda'r arian hwn (*Camb. Reg.* I, 286; *IAMC*, 213, 216). Yn y CCPost 2000 rhestrir *Bryn Crwn* arall yng Nghwm-y-glo.

<sup>1</sup> [www.stateyhomes.com](http://www.stateyhomes.com)

<b>Bryn-glas</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5360</b>
<i>Bryn glas</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Bryn Glas</i>	1849	Bangor	8555
<i>Bryn glas</i>	1850	EwBangor	B1850/157 17798
<i>Bryn glas</i>	1878	Bangor	8555
<i>Bryn-glâs</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Bry nglas</i>	1930–1	Bangor	8592
<i>Bryn Glas</i>	2000	CCPost	(Ceunant)

***bryn, glas***

Yng Ngheunant oddi ar y ffordd sydd yn arwain o Lanrug dros yr ucheldir i Waunfawr. Mae annedd o'r enw *Uwch-bryn-glas* gerllaw (Map OS 1919). Ystyr *glas* yma yw lliw gwyrddlas gwellt ir.

<b>Bryngwyn</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5362</b>
<i>Bryngwyn</i>	1826	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Bryngwyn</i>	1831	Bangor	8554
<i>Bryn-gwyn</i>	1838	Map OS	78
<i>Bryn gwyn / Bryn gwyn mawr</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Bryn-gwyn</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Bryn-gwyn-bach /Bryn-gwyn-mawr</i>	1920	Map OS	XVI N.E.
<i>Capel Bryn-gwyn</i>	1920	Map OS	XVI N.E.
<i>Bryngwyn</i>	1930–1	Bangor	8592
<i>Bryn-gwyn</i>	1961	Map OS	SH 56
<i>Bryngwyn Mawr</i>	2000	CCPost	(Llanrug)
<i>Bryngwyn</i>	2002	Map OS	Explorer OL17

***bryn, gwyn, bach, mawr***

Ger y groesffordd lle mae'r lôn i lawr i Lanrug o Geunant yn croesi'r lôn sydd yn dod o gyrion gorllewinol Llanrug ac yn mynd ymlaen wedyn dros yr ucheldir i Lanberis. *Bryngwyn* yw enw'r ardal hon bellach, ond cymer ei henw o'r anheddau uchod.

<b>Bryn-llan</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5263</b>
<i>Bryn-y-Llan</i>	1721	EwBangor	B1721/64 96623
<i>Bryn y llan</i>	1763	EwBangor	B1763/240 2405
<i>Bryn y Llan</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT
<i>Bryn y Llann</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT
<i>Bryn y Llan</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT
<i>brun llan</i>	1777	ATT GAG	XQA/LT
<i>Bryn y llan</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT
<i>Bryn y Llan</i>	1789	ATT GAG	XQA/LT
<i>Pryn y Llan</i>	1793	ATT GAG	XQA/LT
<i>Bryn y Llan</i>	1795	ATT GAG	XQA/LT
<i>Bryn y Llan</i>	1798	EwBangor	B1798/85 8165
<i>Brynllan</i>	1811	ATT GAG	XQA/LT
<i>Bryn llan</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081 D1
<i>Brynllan</i>	1817	ATT GAG	XQA/LT
<i>Bryn llan</i>	1825	EwBangor	B1825/137 12632
<i>Bryn Llan</i>	1831	Bangor	8554
<i>Bryn Llan</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Bryn-llan</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Bryn-llan</i>	1961	Map OS	SH 56

<i>Bryn Llan</i>	2000	CCPost	(Llanrug)
<i>Bryn-llan</i>	2002	Map OS	Explorer OL17

***bryn, y, llan***

Ar gyrion de-orllewinol pentref Llanrug, ac, fel yr awgryma'r enw, yn agos at eglwys y plwyf.

<b>Bryn-Mihangel</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5363</b>
<i>Bryn Mihangel</i>	1727	Henblas B	144
<i>Bryn Mihangel</i>	1738	EwBangor	B1738/76 99716
<i>Bryn Mihangel</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Bryn mihengl</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Bryn Mihengl</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Brun mihengal</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Brynmyhangel</i>	1796	Poole	3801
<i>Bryn Mihengel</i>	1802	P. yr Aur	24676
<i>Bryn myhengal otherwise called</i>	1803	Henblas B	285
<i>Tidfa-hwch</i>			
<i>Bryn Myhengal otherwise called</i>	1805	Bangor	12208
<i>Tidfa hwch</i>			
<i>Bryn Mihengel</i>	1807	NewGlynllifon	XD2 / 6697
<i>Bryn mihangel</i>	1818	Rumsey Wms	915

***bryn, e.p. Mihangel***

Ar y chwith wrth nesáu at bentref Llanrug ar yr A4086 o gyfeiriad Pont-rug. Mae cofnodion 1803 a 1805 yn arwyddocaol, oherwydd daethpwyd i alw'r annedd hwn yn *Didfa* yn ddiweddarach. (Gweler *Didfa* isod am esboniad o'r enw hwnnw). Enw'r archangel *Mihangel* yw'r ail elfen: ef yw nawdd sant y plwyf. Awgryma rhai mai cywasgiad o 'Michael Archangel' yw'r enw *Mihangel* (*ELleoedd*, 7; *EnCymB*, 72; *DFN*, 237).

<b>Bryn-y-clochydd</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5262 / 5362</b>
<i>brin y clochydd</i>	1558	Ll&Brynodol	M18
<i>Bryn y Clochydd</i>	1671-2	P. yr Aur Add.	1995
<i>Bryn y Clochydd</i>	1678-9	P. yr Aur	17265a
<i>Bryn y Clochydd</i>	1709	Vaynol	414
<i>Bryn y Clochydd</i>	1709	Ll&Brynodol	D1059
<i>Bryn y Clochydd</i>	1709	GAG	XM / 5727/2
<i>Brynclochydd</i>	1709	Poole	3239
<i>Bryn y Clochydd</i>	1773	Ll&Brynodol	R75
<i>Bryn y Clochydd</i>	1779	EwBangor	B1779/84 5248
<i>Bryn y clochydd</i>	1795	Ll&Brynodol	D486

***bryn, y, clochydd***

Heb ei leoli'n bendant, ond mae RhPDeagwm yn nodi 'Bryn Clochydd and garden' dan *Ddrws-y-ddeugoed*, ac yn fwy arwyddocaol byth ceir 'Cae oflaen drws bryn clochydd', a 'Chae bryn clochydd' dan *Tyddyn-rhyddid*. Byddai caeau'r ddau annedd hyn yn ffinio â'i gilydd, felly rhaid tybio fod *Bryn-y-clochydd* yng nghyffiniau'r anheddau hyn. Ceir cyfeiriad hefyd at *Dyddyn-y-clochydd* (q.v.).

<b>Bryn-y-cwil</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5362</b>
<i>Bryn y Cwill</i>	1828	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Bryn y Cwil</i>	1829	ATT GAG	XQA/LT 6/13

<i>Bryn-quill</i>	1838	Map OS	78
<i>Bryn y Quill</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Bryn Quill</i>	1849	Bangor	8555
<i>Bryn Cwil</i>	1878	Bangor	8555
<i>Bryn-cwel</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Bryn Cwil</i>	2000	CCPost	(Ceunant)

***bryn, cwil***

Ar gyrion ardal Tan-y-coed wrth ddod i lawr o Geunant i bentref Llanrug. Mae'n anodd esbonio *cwil*. Yr unig esboniad a rydd *GPC* am *cwil* yw benth. o'r Saes. *quill*, sef un o blu mawr adain aderyn. O'r plu hyn y gwneid y cwilsyn a ddefnyddid gynt i ysgrifennu. Mae'r sillafiad Saes. yng nghofnodion 1838, 1839 a 1849 yn ategu mai fel hyn y dehonglid yr enw uchod. Y benbleth yw beth yw arwyddocâd yr elfen mewn enw annedd. Gellid cynnig yn betrus fod yma gysylltiad â chlerc neu gyfreithiwr, gan y cyfeirid at y rheini ambell waith fel 'gwŷr y cwils'. Yr unig ddefnydd arall o *cwil* yn yr ardal hon yw fel talfyriad eithaf cyffredin o'r e.p. *Gwilym* lle ceir *Gwil* > *Cwil* ar lafar.

<b>Bryn-y-fedwen</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5263</b>
<i>Bryn y Vedwen</i>	1516/17	Ll&Brynodol	R2
<i>brun y vedwen / brin y vedwen</i>	1558	Ll&Brynodol	M18
<i>Bryn y Vedwen</i>	1570	EmThos	2
<i>Brin y Vedwen</i>	1572	EmThos	3
<i>Bryn y Vedwen</i>	1625	EmThos	21
<i>Erw Howel otherwise Bryn y fedwen</i>	1760	P. yr Aur	20518
<i>Bryn y Fedwan</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Bryn y fedwen</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>bryn y fedwen</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>brun fedwan</i>	1777	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>brun fedwan / brun fedwan bâch</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Bryn y fedwen</i>	1781	Bangor	575
<i>Brynyfedwen</i>	1782	EwBangor	B1782/155 5779
<i>Bryn y fedwen</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Brynn y fedwen</i>	1784	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Bryn y fedwen</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Bryn-y-Vedwen</i>	1795	<i>Camb. Reg.</i>	I, 286
<i>Brunfedwen</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Brun fedwn</i>	1804	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Brunfedwn</i>	1808	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Bryn y fedw</i>	1812	Rumsey Wms	857-8
<i>Bryn y fedwen</i>	1818	Rumsey Wms	915
<i>Brynfedwan</i>	1818	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Brynfedwan</i>	1820	DCTC	
<i>Brynyfedwan</i>	1821	P. yr Aur	21227
<i>Bigny Fedwan</i>	1823	EwBangor	B1823/82 12286
<i>Bryn fedwan</i>	1828	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Brynfedwen</i>	1831	Bangor	8554
<i>Bryn y fedwen / Bryn y fedwen bach</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Brynyfedwen</i>	1844	C. Vincent	2845
<i>Bryn-y-fedwen</i>	1920	Map OS	XI S.W. (Caern.)
<i>Bryn-y-fedwen</i>	1961	Map OS	SH 56

***bryn, y, bedwen***

Ar y chwith i'r A4086 wrth nesáu at Llanrug o gyfeiriad Pont-rug<sup>1</sup>. Mae cofnod 1760 yn awgrymu mai'r un lle oedd *Bryn-y-fedwen* ag *Erw-Howell* (q.v.), ond mae map y Degwm yn eu nodi fel dau annedd ar wahân sydd, serch hynny, yn agos iawn at ei gilydd. Mae'n debyg fod y drydedd elfen yn cyfeirio at fedwen go amlwg.

<b>Bryn-yr-eryr</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5362</b>
<i>Bryn eryr</i>	1826	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Bryn Eryr</i>	1828	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Bryn reryr</i>	1829	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Bynreryr</i>	1830	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Bryn reryr</i>	1831	Bangor	8554
<i>Bryn-yr-eryr</i>	1920	Map OS	XVI N.E.
<i>Bryn Eryr</i>	1930-1	Bangor	8592
<i>Bryn-yr-eryr</i>	1961	Map OS	SH 56
<i>Bryn Yr Eryr</i>	2000	CCPost	(Llanrug)

***bryn, yr, eryr***

Yn ardal Tan-y-coed rhwng Ceunant a Llanrug. Enw ffansiol yw hwn: nid yw'r annedd mewn lle anghysbell, a phrin y byddai unrhyw eryr wedi mentro yno erioed.

<b>Bryniau-fawnog</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5363</b>
<i>Bryn-y-Vawog</i>	1795	<i>Camb. Reg.</i>	1, 286
<i>Bryniau fownog</i>	1803	EwBangor	B1803/107 8967
<i>Bryn fawnog</i>	1826	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Bryn fawnog</i>	1827	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Brynfawnog</i>	1831	Bangor	8554
<i>Bryn fawnog</i>	1849	Bangor	8555
<i>Bryn fawnog</i>	1878	Bangor	8555
<i>Bryniau-fawnog</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Bryniau Fawnog</i>	1930-1	Bangor	8592
<i>Bryniau Fawnog</i>	2000	CCPost	(Llanrug)

***bryn, llu, bryniau, y, mawnog***

Yng nghanol pentref Llanrug. Mae'r tr. meddal yn *mawnog* yn taro'n rhyfedd ar ôl yr e.llu. *bryniau*. Efallai y gellir ei esbonio wrth edrych ar y cofnod cynharaf uchod o 1795. Er bod camsillafu yn y cofnod hwnnw, ymddengys mai *Bryn-y-fawnog* oedd ffurf wreiddiol yr enw, a byddai tr. meddal yn hollol gywir yn yr eb.un. *mawnog* ar ôl y fannod. Ar yr olwg gyntaf, gellid tybio fod yr e.un. *bryn* wedi troi'n llu. *bryniau* gyda'r blynyddoedd, ar batrwm yr hyn a geir yn *Pen-y-bwth* > *Pen-y-bythod* ym mhlwyf Llandwrog q.v. Fodd bynnag, mae'n debyg mai sain y fannod y sydd wedi ei chadw ar ddiwedd yr elfen *bryniau* yn hytrach na sain y terfyniad lluosog *-iau*, ac mai hyn sydd i gyfrif pam na chollwyd y tr. meddal ar ddechrau *mawnog*. Ond mae'n ddatblygiad rhyfedd: mae'r *Bryn-fawnog* a geir yn rhai o'r cofnodion uchod yn haws ei ddeall er bod hwnnw hefyd yn ramadegol anghywir.

<b>Buarthau</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5263 (1) / SH 5162 (2)</b>
<i>Tyddyn gregor otherwise Buartha</i>	[1691]	P. yr Aur	20271
<i>Biartha</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Buartha Gwnion</i>	1801	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Bartha gwnion</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Barthia Gwnion</i>	1803	ATT GAG	XQA/LT 6/13

<sup>1</sup> Gweler IAMC, 215.

<i>Bartha Gwnion</i>	1804	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Bartha Gwnion</i>	1808	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Biarthgwnion</i>	1809	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Biartha</i>	1810	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Biartha</i>	1812	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Buarthau</i>	1812	EwBangor	B1812/83 10447
<i>Buartha</i>	1813	P. yr Aur	20278
<i>biartha</i>	1815	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Buarthe (1) / Buarthe (2)</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081 D1
<i>Biartha</i>	1819	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Buartha</i>	1822	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Buartha</i>	1830	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Buartha' (2)</i>	1838	Map OS	78
<i>Buarthau</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Bartha</i>	1849	Bangor	8555
<i>Buartha</i>	1878	Bangor	8555
<i>Buarthau (2)</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Buarthau (1)</i>	1920	Map OS	XI S.W. (Caern.)
<i>Buarthau (2)</i>	1961	Map OS	SH 56
<i>Buarthau (1)</i>	2000	CCPost	(Llanrug)
<i>Buarthau (2)</i>	2000	CCPost	(Caethro)
<i>Buarthau (2)</i>	2002	Map OS	Explorer OL17

***buarth, llu. buarthau, ans. gwyn, llu. gwynion***

Mae dau annedd o'r enw hwn ym mhlwyf Llanrug. Lle bu'n bosib gwahaniaethu rhyngddynt nodwyd hynny ag (1) a (2). Saif *Buarthau* (1) ar y lôn sydd yn mynd o Bont-rug i Lanrug. Mae *Buarthau* (2) mewn llecyn mwy diarffordd, oddi ar y lôn sydd yn mynd o Geunant i Bont-rug, ar gyrion pellaf gogledd-ddwyreiniol Caethro. Mae'n bur debyg mai *Buarthau* (1) sydd yn y cofnodion cynharaf: mae'r adeilad hwn yn dyddio o'r 18g ac mae'n bosib fod y safle'n hŷn na hynny. Mae *IAMC* (216) yn cymryd mai'r annedd hwn sydd yng nghofnod 1691 ac mai hwn oedd *Tyddyn-Gregor*. Collir yr *-u* derfynol yn *Buarthau* mewn sawl un o'r cofnodion uchod ac mae hynny yn adlewyrchu'r ynganiad lleol. Collir yr *-y-* yn *gwynion* hefyd, ac er nad yw hynny'n digwydd bob amser ar lafar yn yr ardal fe geir ambell enghraifft o hyn yn yr astudiaeth hon.

<b>Bwlchgwnnog</b>	<b>Llanrug</b>	<b>SH 5462</b>
<i>Bwlchgwnnog</i>	1802	Rumsey Wms 773
<i>Bwlch Gwynnog</i>	1813	EwBangor B1813/136 10650
<i>Bwlchgwnnog</i>	1826	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Bwlchgwnnog</i>	1827	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Bwlchgwnnog</i>	1828	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Bwlchgynog</i>	1830	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Bwlchgwnnog</i>	1831	Bangor 8554
<i>Bwlch-gwnnog</i>	1920	Map OS XVI N.E.
<i>Bwlchgrwnog</i>	2000	CCPost (Cwm-y-glo)

***bwlch, gwnnog***

Mewn ardal o'r enw *Bwlch* uwchben Cwm-y-glo, ar lôn fach sydd yn arwain dros yr ucheldir o Lanrug i lawr i Lanberis. Ystyr *gwynnog* / *gwnnog* / *gwyniog* yw 'gwyntog', 'ystormus', 'noeth ac agored i'r gwynt', a byddai hyn yn wir iawn am y llecyn hwn, yn enwedig yng nghanol gaeaf. Gwelir fod yr elfen *gwnnog* wedi newid yn *grwnog* yng nghofnod 2000. Camsillafiad yw hwn: nid yw'r ffurf *grwnog* yn un ddilys. Ceir *Bryn Gwnog* ger Nebo rhwng Llanrwst a Phentrefoelas (*PSA*, 46), a *Hafod-wnnog* ym Meline ym Mhenfro. Mae B.G.Charles yn esbonio'r elfen *gwynnog* yno fel yr e.p. *Gwynnog* (*PNPem*, 105). Mae'n bosib

mai e.p. sydd yn *Hafod-wnnog*, ond ym *Mwlchgwnnog*, o gyfuno'r elfen â *bwlch*, ac o ystyried y lleoliad digysgod, gellir bod yn eithaf sicr mai 'gwyntog' yw'r ystyr yn yr achos hwn.

<b>Caeathro</b>	<b>Llanrug</b>	<b>SH 5061</b>
<i>Kay yr athro</i>	1558	Ll&Brynodol M18
<i>Cae Athro</i>	1763	RHE 1
<i>Caer Athro</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Cae athro</i>	1774	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Caeathro</i>	1780	Bangor 573
<i>Cae Athro</i>	1781	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Cae Aethro'</i>	1783	P. yr Aur 4085
<i>Cae athro</i>	1784	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Cae athro</i>	1793	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Cae Athro</i>	1796	P. yr Aur 18631
<i>Cae Athro</i>	1801	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Cauthro</i>	1804	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Cauthro</i>	1805	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Cae athro</i>	1808	Sprott 60
<i>Cae Athro</i>	1813	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Cae Athro</i>	1816–20	Dawson, Bangor f34081 D1
<i>Caeathro</i>	1817	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Cae athro</i>	1827	Rumsey Wms 981
<i>Cae athro</i>	1831	Bangor 8554
<i>Cae athro</i>	1839	RhPDegwm
<i>Cae Athro</i>	1861	Sprott 91
<i>Cae Arthraw</i>	1886	Postal Dir. 173
<i>Cae Athraw</i>	1890–1	Bangor 8560
<i>Cae-athraw / Cae-athraw Farm</i>	1891	Map OS XVI N.W.
<i>Caeathraw Bach</i>	1901	Myn. Cae. C067
<i>Cae-athraw (pentref)</i>	1919	Map OS XVI N.W.
<i>Cae-athrew Farm</i>	1919	Map OS XVI N.W.
<i>Cae Athraw</i>	1930–1	Bangor 8592
<i>Cae-athraw (pentref)</i>	1961	Map OS SH 56
<i>Caeathro (pentref)</i>	2000	CCPost
<i>Caeathraw Bach (annedd)</i>	2000	CCPost
<i>Caeathro (pentref)</i>	2002	Map OS Explorer OL17

#### **cae, yr, athro**

Annedd oedd *Caeathro* i gychwyn, a chedwir yr enw hyd heddiw yn enw'r annedd *Caeathro-bach*. Bellach mae hefyd yn enw ar bentref bychan ar yr A4085 rhwng Caernarfon a Waunfawr<sup>1</sup>. Mae'r cofnodion cynharaf uchod yn sôn am *Gae yr Athro*, hynny yw, athro penodol, ac mae gan MR gynnig diddorol am bwy y gallai'r athro hwnnw fod, neu o leiaf pwy oedd rhai o'i ddisgynyddion (*TCHSG*, 52–3 (1991–2), 28). Credai fod rhai ohonynt yn byw ym mhlwyf Llanddeiniolen yng nghanol y bymthegfed ganrif, a rhaid cofio mai Llanddeiniolen yw'r plwyf nesaf at Lanrug. Cyfeiria at Dangwystl ferch Ieuan ap Llywelyn ap Robyn ap Madog ab yr Athro a oedd yn byw yno yn 1430, ac at rai o berthnasau Tangwystl, sef Deicws ab Ieuan Goch ap Madog ab yr Athro, Owain ap Madog ab yr Athro a Deicws Ddu ap Madog ab yr Athro. Wrth olrhain yr ach yn ôl yn gronolegol o Dangwystl yn 1430, gellir amcangyfrif y byddai'r Athro yn fyw yn nechrau'r bedwaredd ganrif ar ddeg, a

<sup>1</sup> Mae mynwent ymneilltuol *Caeathro* yn enwog am y llu o bregethwyr a blaenoriaid blaenllaw a gladdwyd ynddi (*Cymru*, VIII, (1895) 101–4). Yma hefyd y claddwyd y cerddorion John Roberts (Ieuan Gwyllt) (1822–77) a William Owen, Prysgol (1813–93).



chadarnheir hyn gan gyfeiriad at Gwenllian ferch yr Athro ('mergh Erathro') a ymddangosodd yn y llys yng Nghaernarfon yn 1364 (ibid.: CCR, 24) a Ieuan ap Rathro yn 1370 (CCR, 57). Sylwer ar y mympwy ffug-hynafol o sillafu *athro* yn *athraw* sydd yn ymddangos o ddiwedd y 19g ymlaen.

<b>Cae-crin</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5062</b>
<i>Cae crin otherwise Tir y Tryfan</i>	1746	Ll&Brynodol	D1097-8
<i>Cae Crûn otherwise Tir Tryfan</i>	1787	Ll&Brynodol	D1102-3
<i>Cae Crun otherwise Tir Tryfan</i>	1787	Tryfan	95-6
<i>Cae Crîn</i>	1796	P. yr Aur	18631
<i>Cae Crun otherwise Tir Tryfan</i>	1818	Tryfan	100
<i>Cae-crin</i>	1838	Map OS	78

### **cae, crin**

I'r gogledd o Gaeathro. Ystyr *crin* yw 'sych a gwywedig'. Mae enw arall y lle hwn, *Tir Tryfan*, ynghyd â'r ffaith fod un o gofnodion 1787 a chofnod 1818 yn dod o gasgliad teulu Williams, Tryfan, Llandwrog, yn awgrymu ei fod ym meddiant y teulu hwnnw ar un adeg.

<b>Cae-dôl-Bleddyn (Cae'r-glyddyn)</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5062</b>
<i>dolvlethyn</i>	1558	Ll&Brynodol	M18
<i>Kae Dole blethyn als Dolblethyn</i>	1609	Penrhyn	301
<i>Kae Dôl blethyn als Doleblethyn</i>	1609	Penrhyn	302
<i>Dol Bleddin</i>	1718	Coed Helen	3
<i>Dol blyddin</i>	1770	Rumsey Wms	147
<i>Cae Dol Bleuddyn</i>	1770	Coed Helen	35-6
<i>Cae-Dol-Bleddin</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae Dol Bleddyn</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae Dol euddun</i>	1777	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae Dole Blethyn</i>	1778	Coed Helen	38-9
<i>Cae dole Blethyn</i>	1778	Plas Coch	3142
<i>Cae Dôl Euddun</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae Dôleuddun</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae Dôl Euddyn</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae dole Euddun</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Cae Dolbleddyn</i>	1786	Coed Helen	55-6
<i>CaeDôlbleythyn / Cae Dôlbleyddin</i>	1786	Roger Lloyd II	185-6
<i>CaeDôlyddun</i>	1788	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae Doleyddun</i>	1795	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Caedolbleythyn / Caedobbleyddyn</i>	1801	Roger Lloyd II	187-8
<i>Cau Dol Iddun</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Caudoliddun</i>	1804	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae dolhaddun</i>	1807	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae dol Euddun</i>	1808	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae Dol uddun</i>	1813	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae Doleuddyn</i>	1816-20	Dawson. Bangor	f34081, D1
<i>Cae ddoluddion</i>	1817	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae Dolyddun</i>	1821	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae Dol bleddyn</i>	1826	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae Dolbleddyn</i>	1827	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae Doleuddyn</i>	1831	Bangor	8554
<i>Cae dol euddyn</i>	1839	RhPDeqwm	
<i>Cae Dolenddyn</i>	1886	Postal Dir.	173
<i>Caedoleuddyn</i>	1904	Bangor	f33976

<i>Cae'r-dolydden</i>	1919	Map OS	
<i>Caer Glyddyn</i>	2000	CCPost	
<i>Caer Glyddyn</i>	2002	Map OS Explorer	OL17

***cae, dôl, e.p. Bleddyn***

Ar y dde oddi ar yr A4086 wrth fynd o Gaernarfon i gyfeiriad Pont-rug ychydig y tu draw i Rosbodrual. Mae elfennau'r enw i'w gweld yn glir yn y ffurfiau cynharaf, sef *cae* + *dôl* + yr e.p. *Bleddyn*, gyda'r amrywiadau *Bleiddyn* / *Bleythyn* a geir yn yr enw hwnnw. Cadwyd yr elfennau hyn heb newid hyd ddiwedd y 18g pan ddechreuodd y ffurf *Euddyn* ddisodli *Bleddyn*. Adferwyd *Bleddyn* yng nghofnodion 1826 a 1827 o leiaf ar glawr, os nad ar lafar. Erbyn 1919 aethai *Dôl Euddyn* yn *dolydden*, ac erbyn heddiw datblygodd i fod yn *Caer Glyddyn*, a gwelir fod *cae'r* wedi troi'n *caer*. Mae'n bosib mai'r newid a ganlyn a gafwyd ar lafar: *dolbleddyn* > *doleuddyn* > *dolyddyn* > *dlyddyn* > *glyddyn*. Efallai y ceir yn natblygiad yr ail elfen ddylanwad y gair *gwlyddyn* a ddefnyddir yn Arfon am gallod neu lysiau diwerth, ond fel rheol ni chollir mo'r *w* yn ynganiad y gair hwnnw yn yr ardal hon<sup>1</sup>. Fodd bynnag, cf. *Glyddyn*, *Glyddyn Hen* a *Glyddyn Mawr* yn Abererch, Llŷn, er bod J. Lloyd-Jones yn awgrymu'r posibilrwydd mai'r e.p. *Gwlyddyn* sydd yno (*ELISG*, 25).

<b>Cae-erw-Wian</b>	<b>Llanrug</b>	<b>SH 5163?</b>	
<i>Erw weon / Erow weon</i>	1558	Ll&Brynodol	M18
<i>Cae Erw wian</i>	1839	RhPDegwm	

***cae, erw, e.p. Gwian***

Ni wyddys i sicrwydd ymhle oedd *Cae-erw-Wian*, ond mae *Cae'r Sarn* a 'Sarn Cottage' wedi eu rhestru ar ei dir yn RhPDegwm, sydd yn awgrymu ei fod ym Mhont-rug yng nghyffiniau *Sarn-soglen* (gweler *Sarn-soglen* isod).

Amrywiad ar yr e.p. gwr. *Gwion* yw *Gwian*. Gweler *Tyddyn-Gwian* dan Anheddau Llandwrog am yr elfen hon.

<b>Cae-glas</b>	<b>Llanrug</b>	<b>SH 5362</b>	
<i>Cae Glas</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae Glas</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae Glâs</i>	1776-9	Vaynol	4054
<i>Cae glas</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae glas</i>	1789	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae Glas</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae glas</i>	1793	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae Glas</i>	1799	Vaynol	3751
<i>Cau Glas</i>	1804	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae glas</i>	1809	Vaynol	4062
<i>Cae glas</i>	1810/11	Vaynol	4063
<i>Cae glas</i>	1812	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae glas</i>	1830	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Caeglas</i>	1836	Bangor	5302
<i>Cae-glâs</i>	1838	Map OS	78
<i>Cae-glâs</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Cae Glas</i>	2000	CCPost	(Ceunant)

***cae, glas***

Oddi ar y lôn sydd yn arwain i lawr o Geunant trwy Dan-y-coed i Lanrug.

<sup>1</sup> Mae'n digwydd hefyd yn enw'r planhigion 'gwlyddyn y dŵr' = 'water chickweed' a 'gwlyddyn y geifr' = 'sea campion' a sawl un arall (*ECB*, 48; *ELISG*, 25).

<b>Cae-hoeden</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5261</b>
<i>Kay hoydyn</i>	1572	P. yr Aur	17245
<i>Kay hoydyn</i>	1583	P. yr Aur	17247
<i>Cay hoyden</i>	1696	Vaynol	3744
<i>Caehoedan</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae hoedyn</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae houdyn</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae Hoedyn</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae hoedyn</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cau houdun</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Caehoedyn</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae hoedan / Cae hoedun</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae houdun</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae hoydyn</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Cae houdun</i>	1789	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae Houdun</i>	1795	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae haedyn</i>	1801	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cau Houdun</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cauhoidun</i>	1803	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae howdin</i>	1804	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cau houdun</i>	1805	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae hoedyn</i>	1810	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Caehoydyn</i>	1815	EwBangor	B1815/136 11023
<i>Caehoedyn</i>	1815	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae hoedyn</i>	1819	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae houdyn</i>	1826	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae hoedyn</i>	1828	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Caehoyden</i>	1836	Bangor	5302
<i>Cae-hoedyn</i>	1838	Map OS	78
<i>Cae Hoyden</i>	1839	RhPDcgwm	
<i>Caehoydyn</i>	1844	TyD&P	M/361 8
<i>Cae hoydyn</i>	1863	TyD&P	M/361 24
<i>Cae hoyden</i>	1869	Bangor	f33975
<i>Caehoyden / Caehoydyn</i>	1871	TyD&P	28, 29
<i>Caehoydyn</i>	1878	TyD&P	M/361 36
<i>Cae Hoedyn</i>	1887	TyD&P	M/361 45
<i>Cae Holden</i>	1889–90	Sutton	148
<i>Cae hoydon</i>	1904	Bangor	f33976
<i>Cae-hoeden</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Caehoeden</i>	1930–1	Bangor	8592
<i>Cae-hoeden</i>	1961	Map OS	SH 56
<i>Cae Hoeden</i>	2000	CCPost	(Ceunant)

**cae, e.p. Hoydyn**

Ar gyrion gorllewinol Ceunant, oddi ar y lôn sydd yn arwain o'r A4085 y tu draw i Gaethro i gyfeiriad Llanrug. Ffurff yr ail elfen erbyn heddiw yw *hoeden*. Ystyr *hoeden* yw merch wamal a haerllug. Mae'n annhebygol mai hyn sydd yn enw *Cae-hoeden*, er bod y ffurf hon yn digwydd mor gynnar â 1696, ac fe'i ceir bron yn ddieithriad o ganol y 19g. ymlaen. O fynd yn ôl i'r cofnodion cynharaf uchod fe welir ffurf ddilys yr enw. E.p. gwr. sydd yn yr ail elfen, sef *Hoydyn*. Mae hwn yn enw sydd wedi diflannu erbyn hyn, ond ceir cofnod o ŵr o'r enw Madog ap Hoydyn yn y llys yng Nghaernarfon yn 1364 (CCR, 29). Nid awgrymir mai'r gŵr hwn a goffêir yng *Nghae-hoeden*, ond dengys ei fod yn enw a fodolai ar un adeg nid nepell o'r annedd hwn. Er bod sillafiad yr enw yn amrywio yn y cofnodion uchod, cadwyd sain yr

enw gwreiddiol ar y cyfan tan ddiwedd y 19g. Erbyn hynny yr oedd yr ymwybyddiaeth o'r enw *Hoydyn* yn dechrau pylu a bu'n rhaid ceisio rhesymoli'r enw trwy gynnig y gair cyfarwydd *hoeden* fel yr ail elfen.

<b>Cae-newydd</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5362</b>
<i>Kay newyth</i>	1557	P. yr Aur	17241
<i>Kae Newidd</i>	1626	P. yr Aur	17228
<i>Kae newydd</i>	1671	P. yr Aur	17262
<i>Kae Newydd</i>	1671–2	P. yr Aur Add.	1995
<i>Kae newydd</i>	1678–9	P. yr Aur	17265a
<i>Kae Newydd</i>	1690	P. yr Aur	17267
<i>Kae Newydd</i>	1697	P. yr Aur	17230, 17234
<i>Kae Newydd</i>	1704	P. yr Aur	17269
<i>Kaenewydd</i>	1709	Poole	3239
<i>Caernewydd</i>	1709	Ll&Brynodol	D1059
<i>Cae Newydd</i>	1709	GAG	XM/5727/2
<i>Cae newydd</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Caenewydd</i>	1852	P. yr Aur	21492
<i>Caenewydd</i>	1853	C.Vincent	2848

#### **cae, newydd**

Gydag enw mor gyffredin â hwn ni ellir bod yn sicr ai'r un lle sydd ym mhob cofnod. Ambell dro gydag enw annedd tybiedig â'r elfen gyntaf *cae*, onid yw'r cofnod yn manylu, ceir hefyd ansicrwydd ai annedd ynteu *cae* a olygir bob tro. Mae annedd o'r enw hwn heddiw yn Llanrug, ond yr oedd yr annedd a nodwyd yn RhPDegwm ar gyrion gorllewinol Cwm-y-glo yn ôl map y Degwm.

<b>Cae-poeth</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5363</b>
<i>Cau poyth</i>	1670	EwBangor	B1670/122
<i>Cau-poyth</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/3
<i>Cae poth</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 6/3
<i>Cae poÿth</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 6/3
<i>Cae poeth</i>	1778	Rumsey Wms	63
<i>Cae Poeth</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Caepoeth</i>	1783	ATT GAG	XQA/LT 6/3
<i>Cae poeth</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 6/3
<i>Cau Pouth</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 6/3
<i>Caupouth</i>	1804	ATT GAG	XQA/LT 6/3
<i>Cay poeth</i>	1813	ATT GAG	XQA/LT 6/3
<i>Cae Poeth</i>	1819	ATT GAG	XQA/LT 6/3
<i>Cae-poeth</i>	1838	Map OS	78
<i>Cae poeth</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Cae Poeth</i>	2000	CCPost	(Llanrug)

#### **cae, poeth**

Ym mhentref Llanrug ei hun. Am yr elfen *poeth* gweler *Hafod-boeth* dan Anheddau Llandwrog. Mae'n debyg fod sillafiad cofnodion megis un 1802 yn adlewyrchu'r llafariaid agored a geir i raddau yn nhafodiaith yr ardal hon. er bod cofnod 1774 yn nes at adlewyrchu ynganiad Caernarfon o'r gair.

<b>Cae'r-Gethin</b>	<b>Llanrug</b>		
<i>Tythyn y Kethyn</i>	1558	Ll&Brynodol	M18

<i>Kay Tuthyn y Kethyn vchaf</i>	1585	Vaynol	414
<i>Tythin y kethin</i>	1609	EmThos	11
<i>Kae-r Gethin</i>	1626	P. yr Aur	17228
<i>Kay'r Gethin</i>	1690	P. yr Aur	17267
<i>Kau'r Gethin</i>	1697	P. yr Aur	17230
<i>Kae'r Gethin</i>	1704	P. yr Aur	17269
<i>Cae'r Gethyn</i>	1709	Ll&Brynodol	D1059
<i>Caer Gethin</i>	1709	Vaynol	414
<i>Cae'r Gethin</i>	1709	GAG	XM / 5727 / 2
<i>Kaergethin</i>	1709	Poole	3239
<i>tyddun Cethin</i>	1777	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae'r Gethin</i>	1795	Ll&Brynodol	D486

### *cae, y, cethin*

Heb ei leoli, ond tybed nad yr un lle yw hwn â'r un a nodir fel *Tuthyn / Tythin y Kethin* ym mhlwyf Llanfair-is-gaer yn 1640, 1654, 1656 (Ll&Brynodol D165, D176/7, D179) Yr oedd rhai anheddau ym mhlwyf Llanrug ar un adeg yn perthyn i blwyf Llanfair-is-gaer, ond nid yw hyn yn ein galluogi i'w lleoli bob tro (*Des.Caerns.* 180).

Heddiw ystyrir *Gethin* yn e.p.gwr. ynddo ei hun, ond mae'n tarddu o'r ans. *cethin* sydd â thair ystyr: naill ai 'rhuddgoch', neu liwiau eraill a fyddai'n awgrymu rhywun go dywyll ei bryd, neu 'gwyllt, milain, ffyrnig', neu 'hyll. hagr'. Felly mae'n debyg fod gan y sawl a roes ei enw i'r annedd hwn un o'r nodweddion hyn. Yn 1476 cyfeirir at Matho Gethyn ap Hoell ap Mad' ap Gruff' (Ll&Brynodol D17), ac yn 1558 cyfeirir at Ieuan gethyn a Hoell ap matto kethyn (Ll&Brynodol M18) yn nhrefgordd Rug, ac yn yr un flwyddyn at William, John a Marsli, plant Ieuan Gethyn hefyd yn nhrefgordd Rug (*CCQSR*, 177).

### **Cae'r-weddus**

### **Llanrug**

### **SH 5362**

<i>Kayr weyse</i>	1557	P. yr Aur	17241
<i>kay y wethys iuxta Ros y Ruk</i>	1558	Ll&Brynodol	M18
<i>Cayr wethes</i>	1608	P. yr Aur	17253
<i>Kaerweddys</i>	1626	P. yr Aur	17228
<i>Cayrewethes</i>	1630	P. yr Aur	17258b
<i>Kay yr weythes</i>	1643	P. yr Aur	17258f
<i>Kae'r Weddys</i>	1678–9	P. yr Aur	17265a
<i>Kae'r Weddys</i>	1697	P. yr Aur	17230, 17234
<i>Cae'r Weddys</i>	1698	P. yr Aur	17233
<i>Kaer Wethys</i>	1704	P. yr Aur	17269
<i>Caerwethys</i>	1709	Poole	3239
<i>Cae'r Wethys</i>	1709	GAG	XM/5727/2
<i>Cae'r Wethys</i>	1709	Vaynol	414
<i>Cae'r weddus</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Caer Weddus</i>	1773	Ll&Brynodol	R75
<i>Cae weddis</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cau wefus</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae wefys</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae Weflys</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Cae wefys</i>	1794	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae'r Weddus</i>	1795	<i>Camb. Reg.</i>	I. 285
<i>Caurwefus</i>	1805	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae'r weddus</i>	1810	EwBangor	B1810/81 10062
<i>Cae wefys</i>	1812	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Caer Weddus</i>	1816–20	Dawson, Bangor	I34081 D1
<i>Caewefys</i>	1817	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Caewfys</i>	1821	ATT GAG	XQA/LT 6/13

<i>Cae'r Wefus</i>	1826	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae'r wefys</i>	1831	Bangor	8554
<i>Cae'r Weddus</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Cae wefus</i>	1849	Bangor	8555
<i>Caewifus</i>	1890–1	Bangor	8560
<i>Caer-weddus</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Caerweddus</i>	1930–1	Bangor	8592
<i>Caer-weddus</i>	1961	Map OS	SH 56
<i>Caer Weddus</i>	2000	CCPost	(Ceunant)

### **cae, y, gweddes**

Ar lôn fechan yn troi i'r chwith oddi ar y ffordd sydd yn mynd o Geunant drwy Dan-y-coed i lawr i Lanrug. Mae MR yn awgrymu mai *gweyddes* / *gwehyddes* / *gweddes* sydd yma, sef merch a oedd yn gwau defnyddiau ar wŷdd at wneud dillad, ac mae'n cyfeirio at *Moweddus* ym mhlwyf Clynnog fel ffurf gyffelyb (AMR). Yn sicr byddai'r ffurfiau *wethes* 1608 a 1630, a *weythes* 1643 yn cadarnhau tybio mai *gweddes* sydd yma<sup>1</sup>. Ceir cyfeiriad at ferch o'r enw *Tang'[wystl] Wethes* yn y llys yng Nghaernarfon yn 1396 (CCR, 155). Mae'r ffurfiau diweddarach *weddus* yn dangos ymgais i esbonio'r enw trwy droi at air mwy cyfarwydd, sef yr ans. *gweddus*, tra bo'r ffurfiau *weflys* a *wefys* wedi dod dan ddylanwad yr e. *wefus*. Cesglir oddi wrth y ffurfiau diweddaraf y camdybir mai *caer* + yr ans. *gweddus* yw'r ystyr.

<b>Cae-rhos</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5363</b>
<i>Cay yn rros y Ruk</i>	1516–17	Ll&Brynodol	R2
<i>Kae / r / Rhos</i>	1651	Ll&Brynodol	D171
<i>Cay Rhose</i>	1696	Vaynol	3744
<i>Cae n rhos</i>	1772	ATT GAG	XQA / LT 6/13
<i>Cae y rhos</i>	1774	ATT GAG	XQA / LT 6/13
<i>Cae yn ros</i>	1777	ATT GAG	XQA / LT 6/13
<i>Cae yn rôs</i>	1778	ATT GAG	XQA / LT 6/13
<i>Cae Rhose</i>	1783	ATT GAG	XQA / LT 6/13
<i>Cae rhôs</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Cae rhos</i>	1789	ATT GAG	XQA / LT 6/13
<i>Cae rhôs</i>	1795	ATT GAG	XQA / LT 6/13
<i>Cae'r Rhos</i>	1803	EwBangor	B1803/109 8969
<i>CaunRos</i>	1807	ATT GAG	XQA / LT 6/13
<i>Cae Ros</i>	1808	ATT GAG	XQA / LT 6/13
<i>Cae'n rhos</i>	1815	ATT GAG	XQA / LT 6/13
<i>Cae y Rose</i>	1819	ATT GAG	XQA / LT 6/13
<i>Cae y Rhôs</i>	1822	ATT GAG	XQA / LT 6/13
<i>Cae n rhoes</i>	1828	ATT GAG	XQA / LT 6/13
<i>Cae r rhoes</i>	1830	ATT GAG	XQA / LT 6/13
<i>Caen' rhos</i>	1836	Bangor	5302
<i>Cae'n Rhôs</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Cae-rhos</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Cae Rhos</i>	2000	CCPost	(Llanrug)

### **cae, y / y, rhos**

Ar gyrion de-ddwyreiniol Llanrug. Mae'n amlwg oddi wrth y cofnod cynharaf uchod mai *Cae yn Rhos Rug* oedd ystyr yr enw gwreiddiol, a chedwir yr *yn* yn yr enw o bryd i'w gilydd drwy'r blynyddoedd, er nad yw'n rhan ohono bellach. *Rhos Rug* yw'r rhostir yr adeiladwyd y pentref arno. Ceir sawl cyfeiriad ato fel *Ros y Ruk* yn 1558 (Ll&Brynodol M18).

<sup>1</sup> Yn y CCQSR am 1541–8 cofnodir y ffurf wr. *gwehydd* fel elfen mewn e.p. fel *Wedd. Widd. With. Wydd. Wyth*, felly mae'n amlwg fod cywasgu tebyg wedi digwydd yn y ffurf wr. a'r ffurf fen.

<b>Cae-rhydau</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5161</b>
<i>Kaer Rhydey</i>	1602	Ll&Brynodol	D129
<i>Cae'r rhyda Bach</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Caer rhuda Bach</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae rhyda Bâch</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cau rhyda bach</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Caerhryda bach</i>	1780–7	P.S.Glynllifon	84 (61)
<i>Cae rhyda</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Caerhydabach</i>	1783	Ll&Brynodol	R163
<i>Cae rhyda bach</i>	1788	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae rhyd bach</i>	1801	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cau Rhuda Bach</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cauruda bach / Cau rhyd bach</i>	1805	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae Rhuda Bach</i>	1808	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae Rhyda</i>	1809	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae rhyda</i>	1813	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae rhyda bach</i>	1814	C.Vincent	3222
<i>Cae rhydda</i>	1817	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae Ryda</i>	1819	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae-rhydau</i>	1838	Map OS	78
<i>Cae Rhyda bach</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Caerhydabach /Caehydabach</i>	1872	TyD&P	M/361 31, 33
<i>Cae-rhydau</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Cae-rhydau</i>	1961	Map OS	SH 56
<i>Cae Rhydau</i>	2000	CCPost	(Caethro)

***cae, rhyd, llu. rhydau, bach***

I'r gogledd-ddwyrain o Gaethro. Gan yr ymddengys nad yw'r ffurfiau *Cae-rhydau* a *Chae-rhydau-bach* byth yn digwydd gyda'i gilydd, efallai mai un annedd sydd yma yn hytrach na dau, ac mai *Cae-rhydau-bach* oedd yr enw gwreiddiol. Mae'n bosib mai'r *rhydau* eu hunain oedd yn fach, yn hytrach na bod *bach* yn ans. i wahaniaethu un annedd oddi wrth un arall.

<b>Cae-Siencyn</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5362</b>
<i>Kaye Jankyn</i>	1578	Wynnstay	67/48
<i>Caesencin</i>	1836	Bangor	419 (93:120)
<i>Cae Siencyn</i>	1837	Rumsey Wms	421
<i>Cae Siencyn</i>	1838	C. Vincent	2843
<i>Cae Siencyn</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Caesiencynbach</i>	1855	TyD&P	M/361 20
<i>Cae-Siencyn</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Cae-Siencyn</i>	1961	Map OS	SH 56
<i>Cae Siencyn</i>	2000	CCPost	(Llanrug)

***cae, e.p. Siencyn***

Oddi ar y lôn sydd yn mynd i lawr i Lanrug o Geunant trwy Dan-y-coed. E.p. gwr. sydd yn yr ail elfen. Daw'r ffurf Gym. *Siencyn* a'r ffurf Saes. *Jenkin* o'r e.p. canoloesol *Jankin* (DFN, 175), a gwelir yr enw hwnnw yn y ffurf *Jankyn* yng nghofnod 1578 uchod. Ni wyddys pwy oedd *Siencyn*.

<b>Carreg-y-frân</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5462</b>
<i>Carreg y Frân</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/13

<i>Carreg y frân</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Carag fran</i>	1777	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Carrag y fraîn</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Carregfran</i>	1780–7	P.S.Glynllifon	84 (61)
<i>Carag y frân</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Carreg y fân</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Garreg y vran</i>	1783	P.S.Glynllifon	88
<i>Carreg y fraîn</i>	1788	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Carreg y fraîn</i>	1794	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Carreg y fran</i>	1795	JE/MNW	
<i>Carreg y fran</i>	1801	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Carrag fran</i>	1806	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Garragfran</i>	1807	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Carag fran</i>	1811	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Carreg y Fran</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081 D1
<i>Garrag fran</i>	1821	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Carreg fran</i>	1830	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Carreg y fron</i>	1834	Rumsey Wms	1047
<i>Carreg y fran</i>	1839	RhPdegwm	
<i>Carreg-y-fran</i>	1874	Worrall	214
<i>Careg-y-frân</i>	1920	Map OS	XVI N.E.
<i>Careg-y-frân</i>	1961	Map OS	SH 56
<i>Carreg y Fran</i>	2000	CCPost	(Cwm-y-glo)

***carreg, y, brân***

Yng Nghwm-y-glo. Yn ogystal â'r annedd o'r enw hwn mae heneb hefyd o'r enw *Caer Carreg-y-frân* ar ben bryn gerllaw, lle ceir chwech o gytiau mewn lloc (*IAMC*, 216).

**Castell-Moelyn**

**Llanrug**

**SH 5363**

<i>Castell Moelyn</i>	1822	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Castell moilyn</i>	1826	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Castell moilun</i>	1828	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Castell moelyn</i>	1829	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Castall moelyn</i>	1830	ATT GAG	XQA/LT 6/13

***castell, e.p.? Moelyn***

Heb ei leoli'n bendant, ond ceir *Bryn Moelyn* hyd heddiw yn Llanrug, a nodir annedd o'r enw *Castell* yn agos ato ar fap OS 1919. Os yw'r enwau hyn yn arwydd o leoliad *Castell-Moelyn*, yr oedd yn rhan dde-ddwyreinol Llanrug. Mae *moelyn* yn digwydd fel e. cyff. am ŵr penmoelyn yn Arfon (*WVBD*, 380). O'i gyfuno â *castell* gallai'r enw fod yn un eironig am annedd distadl lle trigai'r gŵr moel, ond byddid wedi disgwyl cael y fannod o flaen *moelyn* yn yr ystyr hon. Fodd bynnag, ceir *Moelyn* hefyd fel e.p. a chyfenw (*WS*, 168).

**Cefn**

**Llanrug**

**SH 5163**

<i>y Cefn</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>y Cefn</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Gefn</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cefn</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cefn</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Cefen</i>	1789	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cefen</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cefen</i>	1793	ATT GAG	XQA/LT 6/13



<i>Cefn</i>	1801	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Ceven</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Gefen</i>	1803	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Gefn</i>	1807	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cefn</i>	1818	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cefn</i>	1822	EwBangor	B1822/106 12154
<i>Cefn</i>	1838	Map OS	78
<i>Cefn</i>	1839	RhPDegwm	

***cefn***

Yn ardal Pont-rug, ar y lôn sydd yn arwain o Bont-rug heibio i Gapel Nasareth at groeslon Tyddyn-hen ar y ffordd o Gaernarfon i Fethel. Mae'r ail *e* ymwithiol yng nghofnodion 1789, 1792, 1793 a 1802 yn taro'n rhyfedd ar y glust yn nhafodiaith yr ardal hon; nodwedd ddeheuol yw *e* epenthetic yn y safle hwn. Os ceir llafariad ymwithiol o gwbl yn y dafodiaith leol byddai'n fwy o sain y nag *e*.

<b>Cefn-llwyd</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5462</b>
<i>Cefnllwyd</i>	1836	EwBangor	B1836/145 14725
<i>Cefn llwyd</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Cefn Llwydd</i>	1874	Worrall	214
<i>Cefn-llŵyd</i>	1920	Map OS	XVI N.E.
<i>Cefn Llwyd</i>	2000	CCPost	(Cwm-y-glo)

***cefn, llwyd***

Rhwng Llanrug a Chwm-y-glo.

<b>Cefntresaint / Kent</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5063</b>
<i>kefn tre Saint / kefn ter' Saint</i>	1558	Ll&Brynodol	M18
<i>Keventresaint</i>	1574	Nerquis Hall	8
<i>Kefn y trersaint</i>	1592	Ll&Brynodol	D113
<i>Keven Tresaint</i>	1624	Ll&Brynodol	D160
<i>Kefn-tre-yr-Sant</i>	1673	Baron Hill	2640
<i>Ceafen tre Seiont</i>	1693	EwBangor	B1693/59
<i>Kefn tre'r Saint</i>	1696	Vaynol	3744
<i>Cefn tre'r Saint</i>	1770	Rumsey Wms	147
<i>Cefn-tre-saint</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cefn tre Saint</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cent ar Saint</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cefn Tref Sainct</i>	1778	Bangor	572
<i>Kentrasaint</i>	1778	Coed Helen	38-9
<i>Kentrasaint</i>	1778	Plas Coch	3142
<i>Cent y Saint</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cent ar Saint</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Centrusaint</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Centresaint</i>	1783	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Kent Saint</i>	1783	P.S.Glynllifon	88
<i>CentrerSaint</i>	1784	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Centre Saint</i>	1786	Coed Helen	55-6
<i>Cent y Saint</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Pentre Sanct</i>	1795	JE/MNW	
<i>Cefntresaint</i>	1798-9	Vaynol	4059
<i>Gent Tre saint</i>	1803	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Gentresaint</i>	1805	ATT GAG	XQA/LT 6/13

<i>Gentre saint</i>	1806	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cent saint</i>	1809	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cent'r saint</i>	1810	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cent saint</i>	1811	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Centsaint</i>	1812	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cent ar saint</i>	1815	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cent y Seiont</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D1
<i>Gentre Saint</i>	1817	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cent</i>	1818	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Centre Saint</i>	1819	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Centrasaint</i>	1821	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cefn tresaint</i>	1826	Ew Bangor	B1826/121 12844
<i>Cefn tre Seiont</i>	1827	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cefntreseiont</i>	1828	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cefntreseiont</i>	1830	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cefntreseiont</i>	1836	Bangor	5302
<i>Cefntusaint</i>	1837	Rumsey Wms	217
<i>Centre-Seiont</i>	1838	Map OS	78
<i>Cefntresaint</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Cefn tre Seiont</i>	1869	Bangor	f33975
<i>Cefn-tre-Seiont</i>	1873	Vaynol	415
<i>Cefntresaint</i>	1904	Bangor	f33976
<i>Cefn-tre-Seiont</i>	1919	Map OS	
<i>Cefn-tre-Seiont</i>	1961	Map OS	SH 56
<i>Kent Farm</i>	2000	CCPost	(Rhosbodruai)

*cefn, tre, e.p. Saint, ans. isel, gradd eithaf isaf*

Saif yr annedd hwn ar y chwith i'r A4086 wrth fynd o Gaernarfon tuag at Bont-rug. Heddiw, o edrych ar y ffurf bresennol *Kent* gellid yn hawdd tybio mai e.lle Saes. sydd yma ar batrwm y *Chatham* a geir yn Llanwnda. Ond dengys y cofnodion hyd at y 20g. mai 'cefn tre Saint' yw gwir ystyr yr enw, sef cefnen o dir (*cefn*) ar gwr fferm (*tre*) uwchben yr afon *Saint*, sydd yn cylleu i'r dim leoliad yr annedd. Er cadw ffurf ysgrifenedig yr enw yn weddol ddilychwin hyd ddechrau'r 20g. mae'n amlwg fod cywasgu wedi dechrau ar y ffurf lafar mor gynnar â 1778, ac arweiniodd hynny at gollli ail hanner yr enw ac esgor ar y ffurf hollol ffug *Kent*, a cholli enw disgrifiadol hyfryd yn y broses<sup>1</sup>. (Gweler hefyd *YEE*, 59).

**Cent-isaf Llanrug SH 5163**

Gweler dan *Lôn-glai* isod.

**Ceunant Llanrug SH 5361**

<i>Cau-nant</i>	1838	Map OS	78
<i>Ceunant</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Ceunant</i> (annedd) / <i>Capel Ceunant</i> /	1919		
<i>Ceunant</i> (ardal)			
<i>Ceunant</i> (ardal)	2000	CCPost	

*ceunant*

Enw ar annedd ac ardal rhwng Waunfawr a Llanrug. Ystyr *ceunant* yw 'cwm hir a dwfn'; 'nant' neu 'hafn'. Nid yw hyn yn ddisgrifiad addas o'r ardal, sydd yn codi i fyny allt o Waunfawr ac yn disgyn i lawr wedyn i Lanrug, ond mae'n debyg ei fod yn ddisgrifiad teg o leoliad yr annedd a roes ei enw i'r ardal.

<sup>1</sup> Erbyn heddiw (2006) mae'n ymhyfrydu yn yr enw 'Caernarfon Bouncy Castles'!

<b>Cilgwythwch</b>	<b>Llanrug</b>	<b>SH 5162</b>
<i>kylgwythwch / kil gwythwch</i>	1558	Ll&Brynodol M18
<i>Kilgwythwch</i>	1572	P. yr Aur 17245
<i>Kilgwythwch</i>	1653	Mostyn B 311
<i>cil y gwuthwch</i>	1778	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Cilgwthwch</i>	1801	EwBangor B1801/82 8610
<i>Gilgwthoch</i>	1807	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Gilgwthwch</i>	1808	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Cil y gwythwch</i>	1810	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Cilgwythwch</i>	1813	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Cil y gwythwch</i>	1815	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Cilgwythwch</i>	1816–20	Dawson, Bangor f34081 D1
<i>Cilgwthwch</i>	1817	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Cil y gwythwch</i>	1821	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Cil gwythwch</i>	1826	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Cil y gwthwch</i>	1831	Bangor 8554
<i>Cil-gŵythwch</i>	1838	Map OS 78
<i>Cilgwythwch</i>	1839	RhPDegwm
<i>Cilgwythwch</i>	1840	EwBangor B1840/142 15602
<i>Cil Gwythwch</i>	1849	Bangor 8555
<i>Cilgwythwrt</i>	1889–90	Sutton 148
<i>Cilgwthuwch</i>	1890–1	Bangor 8560
<i>Cilgwthwch</i>	1909	Myn. Cae. D038
<i>Cil-gwythwch</i>	1919	Map OS
<i>Cilgwythwch</i>	1930–1	Bangor 8592
<i>Cil-gwythwch</i>	1961	Map OS SH 56
<i>Cilgwythwch</i>	2000	CCPost (Caethro)

### ***cil, gwythwch***

Ar y chwith oddi ar y lôn sydd yn mynd ar draws gwlad o Bont-rug i'r lôn rhwng cyrion Llanrug a Cheunant. Elfennau'r enw yw *cil* yn yr ystyr o 'loches' + *gwythwch*, sef 'mochyn gwyllt', neu'n fwy arbennig 'hwch goed'. Daw'r gair cyfansawdd *gwythwch* o *gŵydd* + *hwch*. Nid *gŵydd* = 'coed' sydd yma, er gwaethaf y ffaith mai 'hwch goed' a gofféir, ond *gŵydd* = 'gwyllt'. Ceir *Blaengwythwch*, ger Carreg Cennen, Sir Gaerfyrddin, a'r afon *Gwythwch* yn Sir Benfro (*PNPem*, 14). Mae cyfeiriad at hwch goed yn awgrymu fod cryn hynafiaeth i'r enw, gan fod moch gwyllt yn brin iawn ym Mhrydain erbyn yr Oesoedd Canol (*HOC*, 36–7). Ac ystyried *bod gwythwch* yn air pur anghyffredin cadwyd yr enw heb newid dros y blynyddoedd. Yng nghofnod 1890–1 ceir ymgais i'w resymoli ond fe'i hadferwyd i'w ffurf gysefin yn ddiweddarach.

<b>Clawdd-llwyd</b>	<b>Llanrug</b>	<b>SH 5362</b>
<i>Clawdd-llwyd</i>	1838	Map OS 78
<i>Clawdd llwyd</i>	1839	RhPDegwm
<i>Clawdd-llŵyd</i>	1919	Map OS XVI N.W.
<i>Clawdd Llwyd</i>	2000	CCPost (Ceunant)

### ***clawdd, llwyd***

Oddi ar y lôn sydd yn arwain i lawr o Geunant i bentref Llanrug.

<b>Coed-golau</b>	<b>Llanrug</b>	<b>SH 5462</b>
<i>Coyd gole in Ruke</i>	1500/1	Ll&Brynodol D44

<i>y Koed gole</i>	1558	Ll&Brynodol	M18
<i>Coedgoleu</i>	1751	EwBangor	B1751/70 228
<i>Coed gola</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Coed Gola</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Coed cola</i>	1777	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Coedgola</i>	1784	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Goud gola</i>	1803	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Coud Gola</i>	1805	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Coed Gola</i>	1819	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Coed goleu</i>	1828	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Coed golau</i>	1830	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Coedgola</i>	1830	EwBangor	B1830/106 13603
<i>Coed-goleu</i>	1920	Map OS	XVI N.E.
<i>Coed-golau</i>	2002	Map OS	Explorer OL17

### **coed, golau**

Rhwng Tan-y-coed a Chwm-y-glo ger Bryn-bras. Mewn sawl cofnod gwelir yr ynganiad llafar yn yr ail elfen *gola*.

<b>Cwm-y-glo</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH5462</b>
<i>Cwm-y-Glo</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cwm y Glo</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cwm Glo</i>	1777	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cwn glo</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cwm y glo</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Cwm y glo</i>	1788	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cwm y glo</i>	1795	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cwm Glo</i>	1806	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Gwm Glo</i>	1807	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Gwm Glo</i>	1808	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cwm glo</i>	1812	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cwm y glo</i>	1816	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cwmclo</i>	1817	P. yr Aur	15720a
<i>Cwmclo</i>	1821	P. yr Aur	15720a
<i>Cwmclo</i>	1824	P. yr Aur	15720a
<i>Cwmclo</i>	1826	P. yr Aur	15720a
<i>Cwm y Clo</i>	1830	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cam y glo</i>	1835	EwBangor	B1835/142 14515
<i>Cwm y glo</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Cwm-y-glo</i> (pentref)	1920	Map OS	XVI N.E.
<i>Cwm-y-glo</i> (pentref)	1961	Map OS	SH 56
<i>Cwm-y-glo</i> (pentref)	2000	CCPost	

### **cwm, y, glo**

Mae'n amlwg fod yma annedd o'r enw hwn ar un adeg, ond bellach mae'n enw ar bentref rhwng Llanrug a Llanberis<sup>1</sup>. Nid oes sôn am gloddio am lo yn yr ardal hon, felly mae'n debyg mai 'golosg' (*charcoal*) a olygir yma, fel yn annedd *Erw-pwll-y-glo* (q.v. isod) a *Garth-y-glo* ym mhlwyf Llanwnda (q.v.). Llosgid darnau o goed yn araf mewn pyllau am gyfnod hir yn yr haf i gynhyrchu tanwydd ar gyfer diwydiannau o bob math (*ADG 1*, 34; *ADG 2*, 23). Mae'n

<sup>1</sup> Daeth pentref *Cwm-y-glo* i sylw'r holl wlad ym Mehefin 1869 pan ffrwydrodd dwy drol yn cario powdwr oil ('nitro-glycerine') ar eu ffordd i'r chwarel yn Llanberis. Lladdwyd y ddau gertiwr a'u cefylau ynghyd â thri arall, ac anafwyd wyth pellach. Gwnaethpwyd difrod mawr i adeiladau'r pentref, gan gynnwys yr orsaf (*FJPO*, 11–15).

debyg fod yr elfen *glo* wedi peri penbleth mewn oes pan oedd yr arfer o losgi golosg wedi ei anghofio, a chafwyd ambell ymgais i esbonio'r enw trwy gynnig mai *clo* oedd yn y drydedd elfen<sup>1</sup>.

Didfa	Llanrug	SH 5363
<i>Didfae</i>	1778	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Didfaes</i>	1780	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Didfae</i>	1781	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Didfa</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Didfa</i>	1789	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Didfa</i>	1795	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Didfa Hwch</i>	1802	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Bryn myhengel otherwise called Tidfa-hwch</i>	1803	Henblas B 285
<i>Bryn Mihangel alias Tidfa hwch</i>	1803	Henblas B 1345
<i>Bryn Myhengel otherwise called Tidfa hwch</i>	1805	Bangor 12208
<i>Didfa Hwch</i>	1805	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Didfa Hwch</i>	1806	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Didfa</i>	1807	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Didfae</i>	1809	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Didfae</i>	1812	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Bryn mihangel otherwise Tidfa hwch</i>	1812	Rumsey Wms 857-8
<i>Didfa</i>	1818	EwBangor B1818/115 11523
<i>Didfae</i>	1818	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Didfa</i>	1821	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Didfa</i>	1831	Bangor 8554
<i>Didfa</i>	1839	RhPDegwm
<i>Didfa</i>	1849	Bangor 8555
<i>Didfa</i>	1878	Bangor 8555
<i>Didfa</i>	1890-1	Bangor 8560
<i>Didfa</i>	2000	CCPost

#### (y), *tidfa*

Erbyn heddiw mae *Didfa* yn enw ar gwpwl o dai bychain ar gyrion Llanrug wrth nesáu at y pentref ar hyd y A4086 o gyfeiriad Pont-rug, ond dengys map y Degwm fod yr annedd gwreiddiol o'r enw *Didfa* ymhellach oddi ar y lôn y tu cefn i'r tai presennol. Ceir awgrym o ystyr yr enw yn y cofnodion rhwng 1802 a 1812 sydd yn cyfeirio at *Tidfa Hwch*. Nodir *tidfa* yn *GPC* fel eb.un. gyda'r ystyr o 'gadwyn' neu 'rwymyn'. Collwyd y fannod a fu o'i flaen yn enw'r annedd, ond erys y tr.meddal yn '[y] didfa'. Gweler hefyd *tid* (*CBAMAeth*, 4, 168). Efallai fod hwch ynghlwm wrth gadwyn o'r fath wedi bod yn nodwedd amlwg yn y lle hwn ar un adeg.

Yn *IAMC*, 215, awgrymir fod yr enw *Didfa* yn cyfeirio at ddarn gwastad o dir, tua 40 llath ar draws, o flaen y tŷ, a chyfeirir yno at drafodaeth Syr Ifor Williams o'r gair *dyadfa* (*ELleoedd*, 40). Yn ôl *GPC* ystyr *dyadfa* yw lle wedi ei gau i mewn ar gyfer gadael anifeiliaid, ond gan na ddyfynnir ond un cofnod yn unig o'i ddefnydd, a hwnnw o'r 9g., mae'r esboniad hwn yn annhebygol. Mae'n amlwg mai ymgais aflwyddiannus i resymoli ac esbonio gair pur ddieithr a geir yn y ffurfiau *Didfae* a *Didfaes*. Er mor anghyffredin yw'r enw nid yw'n unigryw: ceir

<sup>1</sup> Aeth William Hopley ymhellach drwy honni: 'Yr oedd clogwyn Llwyncoed yn rhedeg i'r llyn, ac yn atalfa ar fynediad pellach y cychod, a dyna p'am y rhowd yr enw cwm y clo. Eglurhad arall ar y gair ydyw, mai cloi olwynion y troliau y byddid ar y goriwaered yma' (*HMethA, Dos, Dinorwig*, 281). Yn ei hunangofiant mae Maureen Rhys, brodor o Gwm-y-glo, hithau'n cyfeirio ar y ddwy ddamcaniaeth uchod, sef y 'glo' a'r 'clo', ynglŷn â tharddiad enw'r pentref (*Prifio*, 10)

*Didfa* hefyd yn Llangoed, Môn, ac yn Abergele (AMR). Yr oedd Gwenllian Morris-Jones yn gyfarwydd â gwir ystyr yr elfen: wrth drafod y *Didfa* yn Llangoed, mae'n cyfieithu'r enw fel 'a place for harnessing horses', ac yn cyfeirio at *tid* fel 'cadwyn'. a'r ferf *tidmwyo* yn yr ystyr o 'to tether, to bridle' (GM-J, 87). Mae cofnodion 1803, 1805 ac 1812 yn cyfeirio at *Didfa* a *Bryn Mihangel* (q.v.) fel yr un lle.

Dolgynfydd	Llanrug	SH 5062 / SH 5162
<i>dol gynthell iuxta aquam de Saint</i>	1558	Ll&Brynodol M18
<i>Dole Gundell</i>	1696	Vaynol 3744
<i>Dolgynddal</i>	1758	EwBangor B1758/104 1361
<i>Dolgynddel</i>	1763	EwBangor B1763/238 2403
<i>Dol-gynddel</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Dolgyntfel</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Dolgyntfel</i>	1773	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Dol Gyntfel</i>	1774	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Dolgyntfel</i>	1775	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Dolgynddol</i>	1777	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Dol gynfydd</i>	1778	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Dôl gynfydd</i>	1779	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Dôlgynfydd</i>	1780	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Dôl Gynfydd</i>	1781	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Dole Gynfyd</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Dole Gynfydd</i>	1783	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Dol Gynvil</i>	1795	<i>Camb. Reg.</i> 1, 286
<i>Dolgyndel / Dolgyndol</i>	1799	Vaynol 3751
<i>Dolgyntfydd</i>	1801	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Dol Gunfudd</i>	1804	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Dol gynfydd / Dolgyntfydd isaf</i>	1815	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Dolgyntfyd / Dolgyntfyd isaf</i>	1816–20	Dawson, Bangor f34081 D1
<i>Dolgyntfudd / Dolgyntfudd Isa</i>	1826	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Dolgyntfydd Isaf / Dolgyntfydd Uchaf</i>	1836	Bangor 5302
<i>Dôl-cynfydd</i>	1838	Map OS 78
<i>Dolgyntfydd isaf / Dolgyntfydd uchaf</i>	1839	RhPdegwm
<i>Dolgyntfydd-isaf / Dolgyntfydd-uchaf</i>	1919	Map OS XVI N.W.
<i>Dolgyntfydd-uchaf</i>	1961	Map OS SH 56
<i>Dolgyntfydd Isa / Dolgyntfydd Ucha</i>	2000	CCPost (Pont-rug)

*dôl*, e.p. *Cynddelw?*, ans. *isel*, gradd eithaf *isaf*, ans. *uchel*, gradd eithaf *uchaf*

Saif *Dolgyntfydd-isaf* a *Dolgyntfydd-uchaf* o bobtu'r lôn sydd yn arwain o Gaethro i Bont-rug. Mae'r cofnodion cynharaf uchod yn awgrymu mai'r e.p. *Cynddelw* yw ail elfen yr enw hwn. Hawdd gweld sut y trodd *Cynddelw* > *Cynddel*, gan fod tuedd i golli'r -w derfynol mewn geiriau deusill neu luosill sydd yn diweddu yn -nw, -nw, neu -lw; cf. *arddelw* > *arddel* (*ELleoedd*, 43). Hawdd gweld hefyd sut y gallai *Cynddel* droi'n *Cyntfel*. Nid yw mor hawdd gweld sut y datblygodd y ffurf -*cynfydd*. HOLA J. Lloyd-Jones ai datblygiad llafar yw *Cynfydd* o'r hen enw *Cynfyn* (*ELISG*, 111), ond mae'r ffurfiau cynharaf uchod yn tueddu i awgrymu'r e.p. *Cynddelw*, pwy bynnag oedd hwnnw.

Dôl-helyg	Llanrug	SH 5462
<i>Dol helig</i>	1546	Plas Coch 2912
<i>dolhelig / dol helig / dolheling</i>	1558	Ll&Brynodol M18
<i>Ddolhelig</i>	1720	Baron Hill 3260
<i>Ddole helig</i>	1723	Ll&Brynodol R155
<i>Ddolehelig</i>	1727	Ll&Brynodol R155

<i>Ddolhelig</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Dol helig</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Dolhelig</i>	1780–7	P.S.Glynllifon	84 (61)
<i>dôl helig</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Dolehelig</i>	1782	Ll&Brynodol	R161
<i>Dole Helig</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Dolhelig</i>	1783	P.S.Glynllifon	88
<i>Dolhelig</i>	1788	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Ddôlhelig</i>	1794	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Ddolhelig</i>	1795	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Dôl helig</i>	1795	JE / MNW	
<i>Ddol Helig</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081 D1
<i>Ddôl helig</i>	1818	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Dol-helyg</i>	1838	Map OS	78
<i>Dolhelyg</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Ddol helig</i>	1841	EwBangor	B1841/124 15804
<i>Dol-helyg</i>	1920	Map OS	XVI N.E.

***dôl, helygen, llu. helyg***

Rhwng Cwm-y-glo a Llanrug.

<b>Drws-y-ddeugoed</b>	<b>Llanrug</b>	<b>SH 5262</b>
<i>Drws daygoid</i>	1583	P.yr Aur 17248
<i>Drws Davgoed</i>	1584	P.yr Aur 17249
<i>Drws y Ddeygoed</i>	1626	P.yr Aur 17228
<i>drws daugod</i>	1631	P. yr Aur 17258c
<i>Tythyn Drws daugod/Drws Daugod</i>	1631	P.yr Aur 17258d
<i>Drws Deygoed</i>	1643	P.yr Aur 17258f
<i>Drws y ddeugoed</i>	1678–9	P. yr Aur 17265a
<i>Drws y Ddeugoed</i>	1697	P.yr Aur 17230
<i>Drws y ddeygoed / Drws ddeugoed</i>	1697	P.yr Aur 17232, 17234
<i>Drws y ddeygoed</i>	1698	P.yr Aur 17233
<i>Drws y Ddeugoed</i>	1704	P.yr Aur 17269
<i>Drwsyddygoid</i>	1709	Ll&Brynodol D1059
<i>Drwsy Deugoed / Drws y ddaugod</i>	1709	Vaynol 414
<i>Drws y Deugoed</i>	1709	GAG XM/5727/2
<i>Drwsydddeugoed</i>	1709	Poole 3239
<i>Drws Daugod</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Drws y Ddau Goed</i>	1773	Ll&Brynodol R75
<i>Drws Ddygod</i>	1777	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Drws Deygod</i>	1778	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Drws dau Goed</i>	1778	Bangor 572
<i>Drws Deygod</i>	1781	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Drwsdeugoed</i>	1783	P.yr Aur 4058
<i>Drws dau coed</i>	1794	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Drws y Daucoed</i>	1795	Ll&Brynodol D486
<i>Drws Deugoed</i>	1795	<i>Camb. Reg.</i> I, 285
<i>Drws deugoed</i>	1798	EwBangor B1798/86 8166
<i>Drws Deugod</i>	1812	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Drwsdaugod</i>	1816–20	Dawson, Bangor f34081 D1
<i>Drws Deygoed</i>	1818	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Drws Daugod</i>	1831	Bangor 8554
<i>Drws y ddau goed</i>	1837	Rumsey Wms 420
<i>Drws-deicoed</i>	1838	Map OS 78

<i>Drws y ddaugod/ Drws y ddau goed</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Trws y ddae Goed</i>	1849	Bangor	8555
<i>Drwsddaugod</i>	1855	TyD&P	M/361 20
<i>Trwsddengued</i>	1889–90	Sutton	148
<i>Drwsddaugod</i>	1890–1	Bangor	8560
<i>Drwsyddaugod</i>	1904	Bangor	f33976
<i>Drws-y-ddeugod</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Drwsddaugod</i>	1930–1	Bangor	8592
<i>Drws-y-ddeugod</i>	1961	Map OS	SH 56
<i>Drws Y Ddeugod</i>	2000	CCPost	
<i>Drwsddeugod</i>	2002	Map OS Explorer	OL 17

### ***drws, y, dau, coed***

Ar lôn fechan sydd yn arwain oddi ar y ffordd sydd yn mynd o'r A4085 i bentref Llanrug. Adwy neu fwllch yw *drws*, cf. *Drws-y-coed*, (q.v. dan Anheddau Llandwrog), a *Bwlch yr Oerddrws*. Yma yn *Nrws-y-ddeugod* y *drws* yw'r adwy rhwng dau glwstwr o goed. Ceir coed o bobtu'r tŷ hyd heddiw, ac o bosib ceid llwyni helaethach yno yn y gorffennol. Lleolir y tŷ hefyd rhwng y coed sylweddol sydd o hyd o gwmpas *Pant Afon* (q.v.) ar y naill ochr a *Phlastirion* (q.v.) ar yr ochr arall.

Ceir gwyriad *au > eu* mewn gair deusill, sydd yn esbonio elfen gyntaf *deugod*, ond ar y cyfan ni cheir treiglo ar ôl *dau* mewn geiriau cyfansawdd (e.e. *deuparth, deutu*). Fodd bynnag, ceir ansicrwydd mewn rhai enghreifftiau (e.e. *deuplyg / deublyg*) a thro arall ceir treigliad yn ddieithriad (e.e. *deufis*). Yma ceir tr. meddal ym mhob un ac eithrio tri o'r cofnodion uchod ar ddechrau'r elfen *coed*. Ceir *Drws Deugod* hefyd yn Llanystumdwy a Dolbenmaen (AMR).

<b>Efail-bach</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5061</b>
<i>Refel bach</i>	1831	Bangor	8554
<i>Yr-efail-fâch</i>	1838	Map OS	78
<i>Refal bach</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Efail-bâch</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Efail-bâch</i>	1961	Map OS	SH 56
<i>Refail Bach</i>	2000	CCPost	(Caeathro)

### ***yr, gefail, bach***

Ar gyrion dwyreiniol Caeathro. Ym mhob un o'r cofnodion uchod ac eithrio un 1838 gwelir y duedd a geir yn nhalodiaith Arfon i beidio â threiglo'r ans. *bach* ar ôl eb. un.

<b>Eithin-duon</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5463</b>
<i>Eithin Dyon</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Eithin Duon</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>reithin Duon</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Eithen drwn</i>	1780–7	P.S.Glynllifon	84 (61)
<i>Eithin duon</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Eithyn duon</i>	1783	P.S.Glynllifon	88
<i>Eithin duon</i>	1784	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Eithin dirion</i>	1789	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Eithin dirion</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Eithin dirion</i>	1794	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Eithin duon</i>	1795	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Eirhin duon</i>	1795	JE/MNW	
<i>Eithin duon</i>	1801	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>lthin Duon</i>	1803	ATT GAG	XQA/LT 6/13



<i>Eithin Duon</i>	1803	EwBangor	B1803/108 8968
<i>Eithinduon</i>	1804	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Reithin duon</i>	1809	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Reithinduon</i>	1812	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Reithin duon</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081 D1
<i>Eithin duon</i>	1820	DCTC	
<i>Reuthinduon</i>	1817	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Reithin dyon</i>	1819	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Eithun duon</i>	1828	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Eithyn duon</i>	1829	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Eithin-duon</i>	1838	Map OS	78
<i>Eithin duon</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Eithon Duon</i>	1874	Worrall	214
<i>Eithin-duon</i>	1920	Map OS	XVI N.E.
<i>Eithin-duon</i>	1961	Map OS	SH 56
<i>Eithin Duon</i>	2000	CCPost	(Cwm-y-glo)

**yr, eithinen, llu. eithin, ans. du, llu. duon**

Ar gyrion gogledd-orllewinol Cwm-y-glo. Mae un o dai allan y tŷ presennol yn rhan o dŷ sydd yn dyddio i'r 16g. neu'r 17g. Yn 1543 cyflwynodd John Hughes, Canghellor Eglwys Gadeiriol Bangor, y fferm hon a dwy fferm arall i Goleg Madlen, Caergrawnt, i sefydlu ysgoloriaeth ar yr elw ohonynt (*IAMC*, 216).

Mae'n debyg mai camgopïo sydd i gyfrif am y nifer o enghreifftiau o'r ffurf *Eithin dirion* yn y 1790au. Ni ellir credu fod y fath ffurf erioed wedi ei mabwysiadu ar lafar: byddai'r tr. meddal ar ddechrau *dirion* ar ôl enw llu. wedi swnio'n rhy od i glust y trigolion lleol.

<b>Erw-gein</b>	<b>Llanrug</b>	<b>SH 5463</b>
<i>Erw gein</i>	1626	P. yr Aur 17228
<i>Errwe geyne</i>	1626	P. yr Aur 17258a
<i>Errw Kyne</i>	1643	P. yr Aur 17258f
<i>Erw Geyn</i>	1671	P. yr Aur 17262
<i>Erw Geyn</i>	1690	P. yr Aur 17267
<i>Erw Gein</i>	1697	P. yr Aur 17230
<i>Erw Geyn</i>	1697	P. yr Aur 17234
<i>Erw Geynt</i>	1698	P. yr Aur 17233
<i>Erw Geyn</i>	1704	P. yr Aur 17269
<i>Erw Geyn</i>	1709	GAG XM / 5727 /2
<i>Erw Geyn</i>	1709	Vaynol 414
<i>Erw Gryn</i>	1709	Ll&Brynodol D1059
<i>Erwgeyn</i>	1709	Poole 3239
<i>Erwgein</i>	1795	Ll&Brynodol D486
<i>Erw gam</i>	1837	Rumsey Wms 421
<i>Erw gein</i>	1839	RhPDegwm
<i>Erwgein</i>	1855	TyD&P M/361 20
<i>Erw Gain</i>	2000	CCPost (Llanrug)

**erw, ceing? cain?**

Yn rhan ddwyreiniol pentref Llanrug. Mae ail elfen yr enw hwn yn ddiddorol. Erbyn heddiw aethpwyd i dybio mai'r ans. *cain* = 'hardd' sydd yma, ond mae presenoldeb *cein* yn rhy gyson ac yn parhau hyd yn rhy ddiweddar i awgrymu hynny. Dylid ystyried mai *ceing* sydd yma, sef hen air am 'gefnen' (cf. Cern. Diw. *cein*; Llyd. Can. *queyn*). Mae'n debyg mai'r elfen hon sydd yn enw Llanrhacadr-yng-Nghinmeirch (*Corn.PNE*, 45). Dengys yr Athro Gwynedd O. Pierce mai'r un elfen a geir yn *Gwernycegin* ym Morgannwg (*PNGLam*, 90; *ADG* 2, 52). Yr un elfen hefyd sydd yn *Machen* a *Mechain* (*ADG* 1, 72).

Yr unig bosibilrwydd arall yw mai'r e.p. ben. *Cain* sydd yma, ond mae'n debyg y byddai hwnnw wedi cadw'r ffurf *Cain* a heb newid yn *Cein*, ac eithrio fel elfen mewn e.p. cyfansawdd, megis *Ceinwryf* yn achos y santes o'r enw hwnnw, neu *Ceinwen* yn yr e.p. ben. mwy cyfarwydd.

Erw-Hywel	Llanrug		SH 5263
<i>Erw Howel</i>	1731	P. yr Aur	20507d
<i>Erw Howel otherwise Bryn y fedwen</i>	1760	P. yr Aur	20518
<i>Erw Howel</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Erw howel</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Erw howal</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Erwhowel</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Erw Howel</i>	1788	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Erw howel</i>	1808	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Erw howal</i>	1809	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Erw howal</i>	1810	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Erw Howell</i>	1825	EwBangor	B1825/138 12633
<i>Erw hwel</i>	1828	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Erw Howel</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Erw Hywel Cottages</i>	2000	CCPost	(Llanrug)
<i>Erw Hywel</i>	2002	Map OS	Explorer OL 17

#### *erw, e.p. Hywel*

Mae cofnod 1760 yn dangos lleoliad yr annedd hwn, drwy awgrymu mai'r un lle yw â *Bryn-y-fedwen* (q.v.). Ambell dro, nodir y naill enw ar fap, a'r enw arall dro arall. Fodd bynnag, mae map y Degwm yn nodi *Erw-Hywel* a *Bryn-y-fedwen* fel anheddau cyfagos ond ar wahân i'w gilydd. Lleolir yr anheddau hyn ar gyrion gorllewinol Llanrug wrth nesáu o Bont-rug. Ni wyddys pwy oedd *Hywel*.

Erw-pwll-y-glo	Llanrug		SH 5064
<i>Erowe Pwll y glo</i>	1597–8	<i>Ex. P. H–E</i>	67
<i>Erw Pwll y Glo in Rug</i>	1622	Penrhyn	1632
<i>Erw pwll y glo</i>	1698	Thorowgood	181
<i>Erw Pwll y Glo</i>	1752	Thorowgood	192
<i>Erw Pwll y Glo</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Erw pwll y glo</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Erw Pwll y glo</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081 D1
<i>Erw pwll y glo</i>	1828	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Erw pwll y Clo</i>	1830	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Erw-pwll-y-glo</i>	1838	Map OS	78
<i>Erw pwll y glo</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Erw pwlly glo or Tyddyn pwll glo</i>	1841	Laurie	WDT/2503
<i>Erw-pwll-y-glo</i>	1920	Map OS	XI S.W. Caerns.
<i>Erw-pwll-y-glo</i>	1961	Map OS	SH 56
<i>Erw-pwll-y-glo</i>	2002	Map OS	Explorer OL 17

#### *erw, pwll, y, glo*

Mae'n anodd barnu ai ym mhlwyf Llanrug ynteu yn Llanddeiniolen y mae'r annedd hwn gan ei fod yn pontio'r ffin nid nepell o gapel Nasareth uwchlaw Pont-rug. Ystyrir ei fod ym mhlwyf Llanrug yn RhPDegwm.

Fel yn enw *Cwm-y-glo*, ceir yma gyfeiriad at lo yn yr ystyr o olog. Mae'r cyfeiriad hwn yn fwy camarweiniol gan y sonnir am *bwll*. Fodd bynnag, nid pwll tanddaearol fel ag a geir ym meysydd glo de Cymru sydd yma, ond yn hytrach gyfeiriad at yr arfer o led-losgi coed mewn

pwll mawr ryw bymtheg troedfedd o gwmpas i gynhyrchu'r golosg (Gweler MR yn *TCHSG*, 52–3 (1991–2), 24).

<b>Felin-bach</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5062</b>
<i>tir y velyn bach</i>	1558	Ll&Brynodol	M18
<i>Felin-Bach</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>felin-Bâch</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>felin pach</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>felin bach</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Felyn bâch</i>	1780	Bangor	573
<i>felin Bâch</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>felin Bâch</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Felin bach</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Velin bach</i>	1788	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Melin bâch</i>	1796	P. yr Aur	18631
<i>felin Bach</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>felin bâch</i>	1816	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Felin-fach</i>	1838	Map OS	78
<i>Felin bach</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Felin-bâch</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Felin-bâch</i>	1961	Map OS	SH 56
<i>Felin Bach</i>	2000	CCPost	(Caeathro)

#### ***melin, bach***

Rhwng Caeathro a Phont-rug. Dengys y tr. meddal ar ddechrau'r elfen gyntaf y fannod a gollwyd o'i blaen. Yma eto yn yr ail elfen ni threiglir yr ans. *bach* ar ôl yr eb. un. Sylwer fod y nodwedd hon yn mynd yn ôl yn ddieithriad i'r 16g. heblaw am y cofnod ar fap OS 1838, lle bu ymgais fwriadol o bosib at gywirdeb, yn hytrach nag at adlewyrchu'r arfer ar lafar.

<b>Felin-wen</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5063</b>
<i>y velyn wenn</i>	1475	Ll&Brynodol	D14
<i>Melin Wenn</i>	1696	Vaynol	3744
<i>Melin Wen</i>	1809	Vaynol	4062
<i>Melin Wen</i>	1810–11	Vaynol	4063
<i>Felin wen</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081 D1
<i>Felin wen</i>	1821	EwBangor	B1821/90 2003
<i>Felin Wen</i>	1836	Bangor	5302
<i>Felin wen</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Felinwen</i>	1889–90	Sutton	148
<i>Felin Wen</i>	1904	Bangor	f33976
<i>Felin Wen</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Tan y Felin Wen</i>	2000	CCPost	(Rhosbodruall)

#### ***y, melin, ans. gwyn, ben. gwen***

Ar yr afon Saint ym Mhont-rug. Yn ôl William Hopley cyfeirid at y *Felin-wen* fel y 'Felin Snisin' (*HMethA*: Dos. Caernarfon, Ardal Caernarfon (1915), 243). Ystyr *snisin* yw 'snuff' (o'r Saes. *sneezing*), sef baco wedi ei falu'n fân i'w ffroeni.

<b>Fuches-las</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5260</b>
<i>Y Fuchas las</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081 D1
<i>Fuchaslas</i>	1836	Bangor	5302
<i>Buches-lâs</i>	1838	Map OS	78

<i>Fuchas las</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Fuches-lâs</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Fuches-lâs</i>	1961	Map OS	SH 56
<i>Fuches Las</i>	2000	CCPost	(Ceunant)

### ***buches, glas***

Yng Ngheunant, nid nepell o'r ffin â phlwyf Llanbeblig gynt yn rhan ogleddol Waunfawr. Er ein bod yn fwy tueddol o feddwl am *fuches* fel 'gyr o wartheg', e.e. 'buches odro', gall hefyd olygu'r buarth lle cesglir y gwartheg i'w godro, ac mae'n debyg mai'r ystyr hon sydd yma. (Gweler MR yn *TCHSG*, 52–3, (1991–2), 20).

<b>Garth</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5261</b>
<i>Tythyn y garth</i>	1558	Ll&Brynodol	M18
<i>Garth House</i>	1798–9	Vaynol	4059
<i>Garth</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D1
<i>Garth</i>	1836	Bangor	5302
<i>Garth</i>	1838	Bangor	1142
<i>Garth</i>	1869	Bangor	f33975
<i>Garth</i>	1904	Bangor	f33976
<i>Garth</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Garth</i>	1961	Map OS	SH 56
<i>Garth</i>	2000	CCPost	(Caethro)

### ***garth***

Oddi ar y lôn sydd yn arwain o'r de-ddwyrain i Gaethro ar draws i Lanrug. Yng nghofnod 1798–9 disgrifir *Garth* fel tŷ ar dir Prysgol-uchaf a Chae-hoeden. Mae cofnod 1558 yn peri anhawster gan ei fod yn disgrifio lleoliad *Tyddyn-y-garth* fel 'iuxta Tythyn Ririd'. Os mai'r *Garth* presennol a olygir, ni ellir dweud fod y ddau annedd hyn yn arbennig o agos at ei gilydd, felly rhaid ystyried nad yr un lle sydd yng nghofnod 1558 ag yn y cofnodion diweddarach. Am ystyr yr enw gweler y drafodaeth ar *Garth* dan Anheddau Llanwnda.

<b>Gellioid</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5362</b>
<i>Y Kellioyth bychain</i>	1546	Plas Coch	2912
<i>kellioyth bach</i>	1558	Ll&Brynodol	M18
<i>Kellioid</i>	1727	Ll&Brynodol	R155
<i>Gellioid</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cellioid</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>gallioid</i>	1777	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Gallioid</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Gyllioid</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cyllioid</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Gallioid</i>	1780–7	P.S.Glynllifon	84 (61)
<i>Gallioid</i>	1783	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Gellioid</i>	1795	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cyllioid</i>	1811	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Gellioid</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081 D1
<i>Gyllioid</i>	1817	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Gellioid</i>	1819	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Gellioedd</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Gellioedd</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Gellioid</i>	2000	CCPost	(Ceunant)

### ***celli, llu. cellioedd***

Ar y ffordd i lawr o Geunant i Lanrug. Mae'n debyg mai ffurf lu, anarferol o *celli* = 'llwyn coed, coedlan' sydd yma. Nid yw *GPC* yn nodi *celliod*: y ffurfiau a geir yno yw *celliau* a *cellioedd*. Os mai'r un lle sydd yng nghofnodion 1546 a 1558, *cellioedd* sydd yno; felly hefyd yn 1839 a 1919. Ond amrywiadau ar *celliod* a geir yn ATT drwy'r blynyddoedd, a *Gelli* yw ffurf yr enw heddiw. Mae'n anodd esbonio'r tr. meddal ar ddechrau enw llw, onid yw'r Cymry wedi arfer clywed y ffurf un. *celli* mor aml wedi ei threiglo yn *gelli* ar ôl y fannod a gollwyd nes mynd i gredu mai *gelli* oedd y ffurf gysefin.

Glan-afon-Ifor / Glyn-Ifor	Llanrug		SH 5162
<i>Tythyn Ivor</i>	1604	Em Thos	M/34 7
<i>Tythyn Ivor</i>	1609	Em Thos	M/34 11
<i>Glyn Ifor</i>	1763	EwBangor	B1763/239 2404
<i>Glan afon Ifor</i>	1770	Rumsey Wms	147
<i>Glan afon Ifor / Glyn Ifor</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glan afon Ifor / Glan Ifor</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glan Ifor</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glynafon Ifor</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glan afon ifor / Glyn afon ifor</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glan Afon Ivor</i>	1778	Coed Helen	38-9
<i>Glan Avon ifor</i>	1778	Plas Coch	3142
<i>Glun Ifor</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glan Afon ifor</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glann Ifor / Glynn Ifor</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glanifor</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Glan Afon Ifor</i>	1786	Coed Helen	55-6
<i>Glynn Ifor</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glynn Ivor</i>	1795	<i>Camb. Reg.</i>	I. 286
<i>Glyn Ifor</i>	1796	P. yr Aur	18631
<i>Glan afon Ifor</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glanafonifor</i>	1804	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glanafonifor</i>	1806	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glanifor</i>	1808	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>glanifori</i>	1809	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>glan ifori</i>	1811	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glyn ifor</i>	1813	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>glyn ifor</i>	1815	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glanifor</i>	1819	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glan afon ifor</i>	1826	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glan afon ifor</i>	1827	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glan afon Ifor / Glyn Ifor</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Glan-afon-Ifor</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Glan-afon-Ifor</i>	1961	Map OS	SH 56
<i>Glyn Ifor</i>	2000	CCPost	(Pont-rug)
<i>Glynifor</i>	2002	Map OS	Explorer OL17

### *glan, glyn, afon, e.p. Ifor*

Er tebyced eu henwau mae yma ddau annedd ar wahân. Er bod mapiau OS 1919 a 1961 yn nodi *Glan-afon-Ifor* ar union yr un safle ag y mae map OS 2002 a'r CCPost yn nodi *Glyn-Ifor*, sef ar SH 5162 ym Mhont-rug, mae map y Degwm yn eu nodi fel dau annedd a oedd yn agos iawn at ei gilydd. Mae ATT hefyd yn nodi'r ddau enw ar wahân ar sawl achlysur, sydd hefyd yn awgrymu fod yma ar un adeg ddau annedd gwahanol. Ni wyddys pwy oedd yr *Ifor* a goffêir yma.

**Glan-afon-Rug****Llanrug**

<i>Glan afon ryg</i>	1770	Rumsey Wms	147
<i>Glan Afon Rug</i>	1778	Coed Helen	38-9
<i>Glan Avon Rûg</i>	1778	Plas Coch	3142
<i>Glanafon</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Glan Afon Rug</i>	1786	Coed Helen	55-6

**glan, afon, e.ll. Rug**

Heb ei leoli.

**Glan-Gwna****Llanrug****SH 5062**

<i>glan gwne / avon wnne</i>	1558	Ll&Brynodol	M18
<i>Glangwynney</i>	1605	Nerquis Hall	8
<i>Glangvnnen</i>	1608/9	Dolfriog	491
<i>Glangwnney</i>	1642	Broom Hall	28
<i>Glangwnna</i>	1656/7	CQSR	XQS 1656/7, 6(2)
<i>Glan-gronney</i>	1718-19	Elwes	1089
<i>Glangwnney</i>	1722	EwBangor	B1722/59 96747
<i>Glangwnney</i>	1727	Dinam Hall	30
<i>Glangwnney</i>	1763	RHE	1
<i>Glangwaney</i>	1764	EwBangor	B1764/95 2607
<i>Glan-gwnna</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glangwnna</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glangwnna</i>	1778	Bangor	572
<i>Glangwnna</i>	1781	Bangor	575
<i>Glangwnna</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Glangwna / Glangwna bach</i>	1795	Sprott	39
<i>Glangunney</i>	1795	<i>Camb. Reg.</i>	I, 284-5
<i>Glangwnna</i>	c.1795	JE/C&A	
<i>Glan Gwnnai</i>	1803	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glan gwna</i>	1809	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glangunna</i>	1809	Brayley	
<i>Glangwna bach</i>	1812	EwBangor	B1812/84 10448
<i>Glangwna</i>	1816-20	Dawson, Bangor	{34081, D1
<i>Glan gwna</i>	1818	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Llangwna</i>	1821	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glangwna</i>	1835	Pigot	690
<i>Glan gwna</i>	1838	Map OS	78
<i>Glangwnna</i>	1839	RhPdegwm	
<i>Turnpike Glangwna</i>	1840	Myn.Lib.	E141
<i>Glangwna Mansion</i>	1841	C.Vincent Fur.Add.	4274
<i>Glangwna Gatehouse</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Turnpike Glangwna</i>	1868	Myn. Cae.	A018
<i>Glangwna Bach</i>	1905	Myn.Lib.	J075
<i>Glan-Gwna</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Glan-Gw̄na / Glan-Gw̄na-bach</i>	1961	Map OS	SH 56
<i>Glan Gwna Bach/ Glan Gwna Lodge</i>	2000	CCPost	(Caeathro)
<i>Glan Gwna Hall</i>	2002	Map OS	Explorer OL17
<i>Glan Gwna Hall</i>	2004	Map PSA	

**glan, e.p. Gwyn(n)ai / Gwn(n)ai**

Mae plasty *Glan-Gwna* ar gyrion pentref Caeathro ar y chwith wrth ddod o gyfeiriad Caernarfon, ac mae *Glan-Gwna-bach* ar draws y caeau i gyfeiriad Pont-rug. Cofnodir yr anheddau hyn dan blwyf Llanbeblig ambell dro a than blwyf Llanrug dro arall. Mae'n debyg fod y ffin rhwng y ddau blwyf yn rhedeg trwy dir y plas, a bod *Glan-Gwna* ei hun ym mhlwyf Llanrug a *Glan-Gwna Lodge* yn Llanbeblig. Mae *Glan-Gwna-bach* yn bendant yn Llanrug. Enw nant yw *Gwna*. Mae'n llifo trwy dir y plas lle mae wedi ei chronni i lunio llyn. Ceir afon ym Môn o'r un enw. Awgryma Gwilym T. Jones mai Gwynwy. Gwynai neu Gwnnai oedd ffurf wreiddiol enw honno (*AfMôn*, 68–9), ac mae'r ffurfiau *Glangwnney* (1605, 1642, 1722 a 1727), *Glangwaney* (1764) a *Glan Gwnnai* (1803) uchod yn awgrymu hyn yma yn enw *Glan-Gwna* hefyd. *Gwn(n)e* yw'r fffurf gynharaf a nodir uchod. Mae Gwilym T. Jones (op. cit.) a J. Lloyd-Jones (*ELISG*, 56) yn cynnig fod yr enw yn tarddu o'r ans. *gwyn*, ond gwrthododd W.J.Gruffydd yr esboniad hwn (*Llenor*, VII, (1928), 246). Yn y cofnod yn y *Camb. Reg.* 1795 cyfeirir at 'Glangunney, or more properly, Glan-gwyn-au'. ac eglurir yr ystyr fel '...declivity of the foaming white water'. Camddarllen *n* am *u* a geir yn ffurf 1608/9. Disgrifiwyd y plasty yn 1840 fel 'one of the most charming retreats in the Principality'<sup>1</sup>

Glanllyn	Llanrug		
<i>glan llyn Cwmglo</i>	1828	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glanllyn Cwm y glo</i>	1829	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glanllyn Cwm y Clo</i>	1830	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glan llyn</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Glan Llyn</i>	1853	C. Vincent	2849
<i>Glan-llyn</i>	1920	Map OS	XVI N.E.

### *glan, llyn, e.ll. Cwm-y-glo*

Ni ellir bod yn bendant mai'r un annedd sydd yn y tri chofnod olaf uchod ag yn y rhai cynharach. Ni nodir unrhyw annedd o'r enw hwn yng Nghwm-y-glo yn ôl y CCPost heddiw. Y llyn yng Nghwm-y-glo yw Llyn Bogelyn, sef llyn a ffurfir wrth i'r afon Rhythallt ymledu yn y fan honno, a cheir annedd yno heddiw o'r enw *Glan Bogelyn*. Esbonia *GPC* yr enw cyff. *bogelyn / boglyn* fel 'cnepyn crwn', 'bwcl' neu 'fwrlwm'. Mae'n bosib fod y dŵr yn byrlymu fwy wrth i'r afon lifo i mewn i'r llyn ac allan ohono.

Fodd bynnag, ceir annedd o'r enw *Glan-llyn* mewn man arall ym mhlwyf Llanrug: hwn yw'r un a nodir ar fap OS 1920. Ni ellir dweud ei fod yng Nghwm-y-glo, mewn gwirionedd, gan ei fod yng nghyffiniau Glynrhonwy, bron ar y ffin â phlwyf Llanberis. Y 'llyn' yn yr achos hwn yw Llyn Padarn.

Glan'raffon	Llanrug		SH 5163
<i>Glan yr afon</i>	1673	Baron Hill	2640
<i>Glan yr Afon</i>	1693	Coed Helen	2
<i>Glan'r Afon</i>	1718	Coed Helen	3
<i>Glan'raffon</i>	1746	EwBangor	B1746/72 100860
<i>Glanraffon</i>	1766	EwBangor	B1766/131 3060
<i>Glan yr Afon</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glanraffon</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glanraffon</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glanraffon</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glanraffon</i>	1801	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glanraffon</i>	1804	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glan Raffon</i>	1805	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glanraffon</i>	1809	EwBangor	B1809/84 9911
<i>Glan raffon</i>	1815	ATT GAG	XQA/LT 6/13

<sup>1</sup> Emilius Nicholson, *Cambrian Traveller's Guide*, (Llundain, 1840), 152.

<i>Glan'r afon</i>	1818	EwBangor	B1818/116 11524
<i>Glanr'afon</i>	1838	Map OS	78
<i>Glan'rafon</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Glan-yr-afon</i>	1920	Map OS	XI S.W.
<i>Glan-yr-afon</i>	1961	Map OS	SH 56
<i>Glanrafon</i>	2000	CCPost	(Pont-rug)

**glan, yr, afon**

Rhwng Pont-rug a Llanrug. Saint yw'r afon yn yr enw.

<b>Glan-Seiont</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5263</b>
<i>Glan Sainet</i>	1613	Em Thom	15
<i>Glan Saint</i>	1618	Em Thom	20
<i>Tyddyn Glan y Saintt</i>	1695	Thorowgood	56
<i>Glan y saint</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glan y Saint</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glan saint</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glan Saint</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glan Saint</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glan y Saint</i>	1783	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glan y Saint</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Glan y saint</i>	1789	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glanysanct</i>	1795	JE/MNW	
<i>Glan y Saint</i>	1795	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glansaint</i>	1801	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glan Saint</i>	1815	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glanseint</i>	1816–20	Dawson, Bangor	{34081 D1
<i>Glan Saint</i>	1822	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glan Seiont</i>	1827	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glan Seiont</i>	1828	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glanseiont</i>	1829	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glansieont</i>	1831	Bangor	8554
<i>Glan-Seiont</i>	1838	Map OS	78
<i>Glan y Saint</i>	1838	C. Vincent	2844
<i>Glan Seiont</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Glan y Seiont</i>	1840	C. in W.R.	B/DL/375–82
<i>Glansciont</i>	1849	EwBangor	B1849/132 17551
<i>Glansciont</i>	1874	Worrall	214
<i>Glan-Seiont</i>	1920	Map OS	XI S.W.
<i>Glan Seiont</i>	1930–1	Bangor	8592
<i>Glan-Seiont</i>	1961	Map OS	SH 56
<i>Glan Seiont Farm</i>	2000	CCPost	(Llanrug)

**glan, e.p. Saint**

Rhwng Pont-rug a Llanrug, ac, fel yr awgryma'r enw, nid nepell o'r afon Saint. Am yr ymgyfnewid rhwng y ffurfiau *Saint* a *Seiont*, gweler *Bryn-Seiont* dan Anheddau Llanbeblig.

<b>Glynrhonwy</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5660</b>
<i>glyn ronwen</i>	1558	LI&Brynodol	M18
<i>Glyn rhonwyn</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glyn rhonwŷn</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glynrhonwyn</i>	1773	EwBangor	B1773/107 4263
<i>Glyn rhonwyn</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 6/13



<i>Glun rhonwun</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glyn rhonwyn</i>	1778	Bangor	572
<i>Glynn rhonwen</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glanrhonwyn</i>	1780–7	P.S.Glynllifon	84 (61)
<i>Glynrhonwen</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Glyn Rhonwyn</i>	1783	P.S.Glynllifon	88
<i>Glynn rhonwyn</i>	1788	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glynnrhonwyn</i>	1789	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glynnrhonwyn</i>	1793	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glynn Rhanwy</i>	1795	<i>Camb. Reg.</i>	I. 285
<i>Glyn rhonwyn</i>	1801	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glan Rhonwun</i>	1803	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glunrhonwan</i>	1804	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glun Ryhonwun</i>	1805	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>glyn rhonwyn</i>	1809	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glyn</i>	1810	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glynrhonwy</i>	1813	EwBangor	B1813/137 10651
<i>Glynrhonwyn</i>	1814	EwBangor	B1814/97 10844
<i>Glyn</i>	1815	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glynn</i>	1817	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glyn rhonwyn</i>	1818	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glynn</i>	1819	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glynn</i>	1822	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glynrhonwyn</i>	1830	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Glynrhonwy</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Glynrhonwy</i>	1856	AI Pryce	864
<i>Glynrhonwy Farm</i>	1869	AI Pryce	601
<i>Glyn-rhonwy Slate Quarry</i>	1920	Map OS	XVI N.E.
<i>Glyn Rhonwy</i>	2000	CCPost	(Llanberis)

***glyn, rhonwyn***

Cysylltir yr enw hwn bellach â safle'r hen chwarel lechi ym mhen de-ddwyrainiol pellaf plwyf Llanrug, bron ar y ffin â phlwyf Llanberis. Mae'n amlwg mai *Glyn-rhonwyn* oedd yr enw gynt ar yr annedd a safai yma. Yn ddiweddar iawn y collwyd yr *n* derfynol. Mae dau esboniad posibl i'r ail elfen *rhonwyn*. Gallai fod yn ans. cyfansawdd o *rhawn* + *gwyn*, ond fel rheol defnyddid *rhonwyn* / *rhawnwyn* i ddisgrifio ceffyl a chanddo fwng gwyn neu gynffon wen<sup>1</sup>. Gallai hefyd o bosib fod yn e.p. gwr. *Rhonwyn*. ar batrwm yr e.p. ben. *Rhonwen*. Os yw'r ffurf wr. hon yn bodoli o gwbl, mae'n enw prin iawn. Fodd bynnag, mae'n bosib mai *Rhonwen* sydd yma wedi'r cyfan, os gellir dibynnu ar y ffurf a nodwyd yn 1558, 1780 a 1783.

<b>Gorseddau</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5361</b>
<i>Gorseddau</i>	1816–20	Dawson, Bangor	F34081. D1
<i>Gors Edda</i>	1834	EwBangor	B1834/106 14314
<i>Gorseddau</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Gorseddau</i>	1874	Worrall	214
<i>Gorseddau</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Gorseddau</i>	1961	Map OS	SH 56
<i>Gorseddau</i>	2002	Map OS	Explorer OL 17

***gorsedd, llu. gorseddau***

<sup>1</sup> Gweler trafodaeth o'r ans. hwn gan J.E. Caerwyn Williams yn 'Ronwen: Rhawn Gwynion', *BBCS*. XXI, (Mai 1966), 301–3

Ar gyrion dwyreiniol Ceunant. Am ystyr yr enw gweler y drafodaeth ar *Gorseddfa* dan Anheddau Llandwrog. Yno hefyd, fel yng ngofnod 1834 uchod, ceir enghraifft o rannu'r enw yn ddwy ran, gan ddeall yr elfen gyntaf fel *cors* > *gors*, a'r ail elfen o bosib fel e.p. *Edda*.

Greuor	Llanrug		SH 5263
<i>Tythyn y greor</i>	1558	Ll&Brynodol	M18
<i>Tuthyn y kryor</i>	1585	Ll&Brynodol	D103
<i>Goreuor</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Goreuor</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Greyor</i>	1776	EwBangor	B1776/85 4738
<i>Greor</i>	1777	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Greuor</i>	1778	Bangor	572
<i>Greuor</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Greuor</i>	1780	Bangor	573
<i>Y greor</i>	1783	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Greuor</i>	1785	Bangor	576
<i>Greuor</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Gorior</i>	1804	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Greuar</i>	1804	EwBangor	B1804/122 9176
<i>Greuor</i>	1806	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Grior</i>	1807	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Goreuor</i>	1808	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Greuor</i>	1810	EwBangor	B1810/80 10061
<i>Greuor</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D1
<i>Greuor</i>	1817	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Greor</i>	1829	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Greior</i>	1838	Map OS	78
<i>Greuor</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Greuor</i>	1920	Map OS	XI S.W.
<i>Greuor</i>	1961	Map OS	SH 56
<i>Greuor</i>	2000	CCPost	(Llanrug)

#### *crau*, *llu. creuor?* *greor?*

Ceir dau annedd o'r enw hwn o fewn ryw ddwy neu dair milltir i'w gilydd: y naill ym mhlwyf Llanrug (SH 5263) a'r llall ar gyrion Bethel ym mhlwyf Llanfair-is-gaer (SH 5165). Saif y *Greuor* sydd ym mhlwyf Llanrug ar gyrion gorllewinol Llanrug wrth fynd i gyfeiriad Pont-rug.

Mac J. Lloyd-Jones yn rhoi dau gynnig ar esbonio'r enw (*ELISG*, 122). Awgryma y gallai fod yn *crau* + *fawr* > *-for*, gan ddeall *crau* fel 'twlc mochyn'. Mae'n wir fod *crau* yn yr ystyr hon yn elfen a geir mewn e.lleoedd, megis yn *Creuwyrion* a drodd yn *Cororion* ym mhlwyf Llandygái, a hefyd yn *Creuddyn*. Un anhawster yma, fodd bynnag, yw mai eg. yw *crau*, felly ni fyddai'r ans. *mawr* wedi ei dreiglo ar ei ôl. Ei ail gynnig yw mai *greor* < *gre* sydd yma. Haid o anifeiliaid, yn arbennig gyrr o geffylau neu gesig yw *gre*, a cheir yr eg. *grewr* neu *greor* am geidwad neu fugail gre<sup>1</sup>.

Mae MR yn amau nad yr eg. un. *greor*, sef bugail gre, sydd yn enw'r ddau annedd *Greuor* uchod, gan ddadlau os mai \**gre-or* oedd y ffurf wreiddiol ei bod yn anodd esbonio'r *-eu-* yn y ffurf bresennol (*BBCS* XVIII, (Mai 1959), 177–80). Mae yntau'n cynnig mai *crau* = 'twlc' sydd yma, ond awgryma ef mai terfyniad lluosog neu dorfol yw'r *-or* ac mai'r ystyr yw 'man lle ceid nifer o greuau neu dylciau moch'.

<sup>1</sup> Awgryma MR mai *Moel Greorion* oedd ffurf wreiddiol *Moel Cynghorion* rhwng Betws-Garmon a Llanberis (*BBCS* XVIII, (Mai 1959), 179).

Fodd bynnag, dylid sylwi mai *greor* sydd yn y cofnod cynharaf a gofnodir uchod o 1558 (Ll&Brynodol M18), ac mae lle i gredu mai bugail gre yw'r ystyr yma. Mae'n ddiddorol sylwi hefyd fod cofnod o ŵr o'r enw *Tudur ap Greor* i'w gael yng nghofnodion y llys yng Nghaernarfon yn 1371 (CCR, 56).

<b>Hafod</b>	<b>Llanrug</b>	<b>SH 5361</b>
<i>Hafod</i>	1838	Map OS 78
<i>Havod</i>	1839	RhPDegwm
<i>Hafod</i>	1844	TyD&P 8
<i>Hafod</i>	1852	TyD&P 12
<i>Hafod</i>	1855	TyD&P 20
<i>Hafod</i>	1871	TyD&P 29
<i>Hafod</i>	1919	Map OS XVI N.W.
<i>Hafod</i>	1961	Map OS SH 56
<i>Hafod</i>	2002	Map OS Explorer OL 17

#### ***hafod***

Yn rhan ddeheuol Ceunant. Am ymdriniaeth o'r enw *Hafod* gweler *Hafod-bach* dan Anheddau Llanbeblig.

<b>Hafodlas</b>	<b>Llanrug</b>	<b>SH 5361</b>
<i>Hafodlas</i>	1816–20	Dawson, Bangor f34081, D1
<i>Hafodlas</i>	1836	Bangor 5302
<i>Y-fodlas</i>	1838	Map OS 78
<i>Hafodlas</i>	1839	RhPDegwm
<i>Hafodlas</i>	1919	Map OS XVI N.W.
<i>Hafodlas</i>	1961	Map OS SH 56
<i>Hafodlas Cottage</i>	2000	CCPost (Ceunant)
<i>Hafodlas</i>	2002	Map OS Explorer OL 17

#### ***hafod, glas***

I'r de o Geunant ac i'r gogledd-ddwyrain o Lanrug. Ystyrir yr enw yn enw cyfansawdd ac fe'i nodir felly yn *GPC*. Mae'n debyg mai'r ystyr yw hafod mewn llecyn ir. Yn sicr, mae'n enw sydd yn creu darlun dymunol, fel y sylweddolodd R. Williams Parry pan ddisgrifiodd gynefin y gylfinir 'hyd lyfnion hafodlasau'r nef'<sup>1</sup>. Dengys cofnod 1838 yn glir fod yr acen yn disgyn ar y goben.

<b>Hafod-Saeson</b>	<b>Llanrug</b>	<b>SH 5161</b>
<i>havot y Sayson</i>	1558	Ll&Brynodol M18
<i>havod y sayeson</i>	1583	P. yr Aur 17247
<i>Havod Saeson</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>havod y Saeson</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>havod y sason</i>	1774	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>hafod sauson</i>	1779	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Havod y saison</i>	1780	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>hafod Sauson</i>	1781	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Havod sauson</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Hafod y Saeson</i>	1798–9	Vaynol 4059
<i>Hafod y Saeson</i>	diwedd 18g	Vaynol 4199
<i>Hafod y Saeson</i>	1809	Vaynol 4062

<sup>1</sup> 'Y Gylfinir', CRWP, 2

<i>Hafod Saeson</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Hafod Saeson</i>	1848	Vaynol	4073

***hafod, Sais, llu. Saeson***

Hyd y 1780au rhestrir y lle hwn fel annedd, ond ar ôl hynny fe'i rhestrir fel darn o dir sydd yn perthyn yn gyntaf i Gae-hoeden a Phrysgol, ac i Brysgol yn unig yn ddiweddarach, felly mae'n bosib fod yr annedd yn adfail erbyn hynny.

<b>Hafod-y-rhyg-isaf</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5261</b>
<i>Havod y rryg</i>	1557	Ll&Brynodol	D67, D68
<i>Havod Rhyge</i>	1605	Ll&Brynodol	D139
<i>havod y Rhyg</i>	1610	Ll&Brynodol	D148
<i>havod y Ryg issaphe</i>	1610	Ll&Brynodol	D149
<i>Havod y Rhug Issa</i>	1696	Vaynol	3744
<i>Havod y rhyg</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Hafod Rug isaf</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D1
<i>Hafodyrhyg</i>	1824	P. yr Aur	4104
<i>Hafod rhyg</i>	1831	Bangor	8554
<i>Hafod-y-rhyg</i>	1838	Map OS	78
<i>Hafod y rhyg</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Hafod y rhyg isaf</i>	1869	Bangor	f33975
<i>Hafodyrhyg Isaf</i>	1904	Bangor	f33976
<i>Hafod-rhûg-isaf</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Hafodyrhug</i>	1930–1	Bangor	8592
<i>Hafod-rhûg-isaf</i>	1961	Map OS	SH 56
<i>Hafod-rhûg-isaf</i>	2002	Map OS	Explorer OL 17

***hafod, y, rhyg, ans. isel, gradd eithaf isaf***

Ar gyrion gorllewinol Ceunant: mae *Hafod-y-rhyg-uchaf* ym mhlwyf Llanbeblig (q.v.). Rhestrir yr annedd hwn ambell dro dan blwyf Llanfair-is-gaer a thro arall dan Lanrug, gan yr arferai fod yn Llanfair-Prysgol, y darn gwahanedig hwnnw o blwyf Llanfair-is-gaer a oedd gynt yng nghanol plwyf Lanrug. (Gweler *IAMC*, 214–5 am hanes y tŷ).

Mae'n debyg mai *rhyg* yw'r drydedd elfen, sef yr ŷd gwydn, *Secale cereale*, a ddefnyddir i borthi anifeiliaid. Defnyddir ei rawn hefyd i wneud blawd a chwisgi.

**Kent** **Llanrug** **SH 5063**

Gweler *Cefntresaint* uchod.

<b>Lôn-glai /Cent-isaf</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5163</b>
<i>Lone Glai</i>	1808	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Lon glai</i>	1809	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Lon glai</i>	1810	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cent Isa</i>	1811	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cent isa</i>	1812	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cent isaf</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D1
<i>Gent Issa</i>	1817	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cent isa</i>	1818	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cent isa</i>	1821	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Lon Glai alias Cent isa</i>	1821	EwBangor	1821/89 12002
<i>Lôn glai</i>	1826	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cent Isaf</i>	1827	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cent isaf</i>	1828	ATT GAG	XQA/LT 6/13

<i>Cefnisaf</i>	1830	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cent Isaf</i>	1830	EwBangor	B1830/107 13604
<i>Lônglai</i>	1836	Bangor	5302
<i>Longlai farm</i>	1837	Rumsey Wms	217
<i>Lôn-clai</i>	1838	Map OS	78
<i>Lon glai</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Lon -Glai</i>	1851	Ll&Brynodol	D543
<i>Lôn-glai / Pont Lôn-glai</i>	1920	Map OS	XI S.W.
<i>Lôn-glai / Pont Lôn-glai</i>	1961	Map OS	SH 56
<i>Lôn-glai</i>	2002	Map OS	Explorer OL17

***lôn, clai, e.ll. Cefn-tre-Saint > Cent, ans. isel, gradd eithaf isaf***

Mae'r annedd hwn ar y dde i'r lôn sydd yn arwain o gapel Nasareth ym Mhont-rug wrth fynd i gyfeiriad Ffordd Bethel. Ychydig y tu draw i'r annedd mae *Pont Lôn-glai* yn croesi afon Cadnant, sef y ffin rhwng plwyf Llanrug a phlwyf Llanbeblig yn y fan hon. Mae'n debyg mai *Cent-isaf* oedd enw gwreiddiol yr annedd i'w wahaniaethu oddi wrth *Cent* ei hun, sef *Cefn-tre-Saint* (q.v. uchod). Y ffurf gywasgedig *Cent* a gofnodwyd bob tro ar gyfer *Cent-isaf*, er y ceir *Cefnisaf* yn 1830, sydd yn cadw'r atgof am yr elfen *cefn* o'r enw gwreiddiol. Y lôn a âi heibio i'r llecyn hwn oedd y 'lôn glai' ond bod yr enw wedi ei drosglwyddo i'r annedd hefyd. Ceir yr un term yn Saesneg, sef 'clay lane', am lôn fechan heb ei charegu a chanddi wyneb o glai caled<sup>1</sup>. Fodd bynnag, yn ddiweddar archwiliwyd olion lôn lawer hŷn sydd yn mynd heibio i'r safle hwn a allai ddyddio yn ôl i'r cyfnod Rhufeinig<sup>2</sup>. Felly mae'n bosib fod y 'lôn glai' yn dilyn trywydd lôn gynharach.

**Lleiniau**

**Llanrug**

**SH 5263**

<i>Lleiniau</i>	1838	Map OS	78
<i>Lleiniau</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Lleiniau Isaf</i>	2000	CCPost	(Llanrug)

***llain, llu. lleiniau***

Rhwng Pont-rug a Llanrug.

**Llwyn-coed**

**Llanrug**

**SH 5562**

<i>Llyncoed</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Llwyn Coed</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>llwyncoed</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Llwydcoed</i>	1780–7	P.S.Glynllifon	84 (61)
<i>Llwd Coed</i>	1783	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Llwyny Coed</i>	1783	Ll&Brynodol	R163
<i>Llwydgaed</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Llwyncoed</i>	1794	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Llwun Coud</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Llwun Goud</i>	1808	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Llwyncoed</i>	1809	Rumsey Wms	817
<i>Llwyn-coed</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Llwyn-y-coed</i>	1891	Map OS	XVI N.E.
<i>Llwyn-y-coed</i>	1920	Map OS	XVI N.E.
<i>Llwyn-y-coed</i>	1961	Map OS	SH 56
<i>Llwyn Coed</i>	2000	CCPost	(Cwm-y-glo)

<sup>1</sup> Os oedd gwelltglas yn tyfu ar ei hymylon fe'i gelwid yn 'green lane' yn Saes. (*LHGWT*, 41). Mae'n debyg mai honno oedd 'ala las' y Cymry.

<sup>2</sup> Gwybodaeth gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd.

**llwyn, y, coed**

Rhwng Cwm-y-glo a Llanberis. *Llwyn-coed* yw'r ffurf gan amlaf, ac mae hwnnw'n ymadrodd mwy naturiol na *Llwyn-y-coed*. Fodd bynnag, sylwer ar *Llwydcoed* (1780–7) a *Llwd Coed* a *Llwydgaed* 1783, sydd yn awgrymu o bosib mai *Llwydgoed* sydd yma mewn gwirionedd. *Llwyncoed* oedd y ffurf a ddefnyddiodd R.Williams Parry yn y gerdd 'Tylluanod': 'Y tylluanod yn eu tro / Glywid o Lwyncoed Cwm-y-glo' (CRWP, 76).

<b>Llwyn-y-brain</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5263</b>
<i>Tythyn hen</i>	1558	Ll&Brynodol	M18
<i>Llwyn y Brain alias Tyddyn Hen</i>	1695	Thorowgood	56
<i>Tuthin hen alias Llwyn y brain</i>	1698	Thorowgood	181
<i>Tuthin hen alias Llwyn y brain</i>	1700	Thorowgood	81
<i>Llwyn-y-Brain</i>	1724	Henblas B	164
<i>Llwyn-y-brain</i>	1725	Cynhaiarn	472
<i>Llwyn y brain</i>	1735	EwBangor	B1735/94 99249
<i>Llwyn y Brain</i>	1736	Henblas B	160
<i>Llwyn=y=Brain</i>	1743	Henblas B	168
<i>Llwynybrain</i>	1760	Henblas B	175
<i>Llwyn y brain</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Llwyn y brain</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Llwyn brain</i>	1783	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Llwyn y brain</i>	1789	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Llwyn y Brain</i>	1793	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Llwnn y Brain</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Llwyn y Brain</i>	1802	P. yr Aur	24676
<i>Llwun Brain</i>	1806	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Llwyn y brain</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081. D1
<i>Llwyn y brain</i>	1821	P. yr Aur	21238
<i>Llwyn y brain</i>	1831–2	Rumsey Wms	2132–6
<i>Llwyn-y-brain</i>	1838	Map OS	78
<i>Llwyn y brain</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Llwyn y brain</i>	1842	EwBangor	B1842/102 15995
<i>Llwyn y Brain</i>	1852	P. yr Aur	21492
<i>Llwynybrain</i>	1856	AlPryce	213
<i>Llwyn y Brain</i>	1868	C.Vincent	2855
<i>Llwyn-y-brain</i>	1920	Map OS	XI S.W.
<i>Llwyn-y-brain</i>	1961	Map OS	SH 56
<i>Llwyn y Brain Lodge</i>	2000	CCPost	(Llanrug)
<i>Llwyn y Brain</i>	2002	Map OS	Explorer OL 17

**llwyn, y, brân, llu. brain**

I'r chwith oddi ar yr A4086 wrth fynd o Bont-rug i gyfeiriad Llanrug.

<b>Maes-y-pwll</b>	<b>Llanrug</b>		
<i>Maesypwll</i>	1691	P. yr Aur	20271
<i>Maes y Pwll</i>	1752	P. yr Aur	20271
<i>Maes y Pwll</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>maes y pwll</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>maes Pwll</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>maes y Pwll</i>	1789	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Maes y Pwll</i>	1794	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Maus y Pwll</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 6/13

<i>Maes y pwll</i>	1813	P. yr Aur	20271
<i>Maes Pwll</i>	1831	Bangor	8554
<i>Maesypwll</i>	1931	Bangor	8592

***maes, y, pwll***

Heb ei leoli, ond mae'n bosib ei fod yn gysylltiedig â *Phwll-y-bar* (q.v.).

<b>Merddyn-Morris</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5361</b>
<i>Merddyn Morris</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D1
<i>Myrddin Moris</i>	1826	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Myrddin Moris</i>	1827	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Meddyn moris</i>	1828	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Meryddyn morus</i>	1829	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Merddyn morris</i>	1830	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Merddyn morris</i>	1831	Bangor	8554
<i>Merddyn Morris</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Merddyn Morris</i>	1839	Rumsey Wms	2660
<i>Myrddun morris</i>	1849	Bangor	8555
<i>Merddyn</i>	1878	Bangor	8555
<i>Merddyn-Morris</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Merddyn</i>	1930–1	Bangor	8592
<i>Merddyn</i>	2000	CCPost	(Ceunant)

***murddun, e.p. Morris***

Yng Ngheunant. *Murddun / murddyn* yw elfen gyntaf yr enw, yr unig elfen yn wir erbyn heddiw, sef adeilad wedi mynd â'i ben iddo. Mae *GPC* yn nodi'r ffurf *merddyn* fel amrywiad ym Mhenllyn, ond mae'n gyffredin hefyd yn Arfon: cf. *Maes-y-merddyn* a *Merddyn Wilkins* ym mhlwyf Llanbeblig (q.v.) ac mae'n digwydd mewn rhannau eraill o Gymru, e.e. *Coetcae Merddun* yn Estyn, Sir Fflint (*PNEF*, 239, 396). Ceir annedd o'r enw *Tan-y-merddyn* yn agos at *Merddyn-Morris*.

Ni wyddys pwy oedd *Morris*.

<b>Mur-moch</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5562</b>
<i>Mur moch</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Mur-môch</i>	1920	Map OS	XVI N.E.
<i>Mur-môch</i>	1961	Map OS	SH 56
<i>Mur Moch</i>	2000	CCPost	(Cwm-y-glo)

***mur, mochyn, llu. moch***

I'r de o Gwm-y-glo. Ceir olion cwt crwn hynafol uwchlaw *Mur-moch*, ac os nad oedd y trigolion gynt yn deall arwyddocâd yr olion hyn, mae'n bosib fod yr enw yn ymgais i'w hesbonio (*IAMC*, 219).

<b>Nant-Howel Wyn</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5162</b>
<i>nant hoell ap gwyn</i>	1558	Ll&Brynodol	M18
<i>Tuthyn nant Howell Gwyn</i>	1598	Wynnstay	104 / 247
<i>Nant howel ap gwyn</i>	1598	Wynnstay	67 / 40
<i>Nant Howel ap gwyn</i>	1600	Wynnstay	104 / 245
<i>Nant Howell ap Gwynn</i>	1661	Gwydir (B.R.A.)	6
<i>Nant howel wyn</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>naht howel wynn</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Nant Howel wynn</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 6/13

<i>Nant howel wynn</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>nant howal wun</i>	1777	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Nant howal Wunn</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>nant howal wuyn</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Nanthowelgwyn</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Nant Howel gwyn</i>	1788	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Nant Howel gwyn</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Nant howelgwyn</i>	1794	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Nant Howel Wynn</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Nant howelwynne</i>	1803	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Nanthowelwynn</i>	1807	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Nant. l gwyn</i>	1810	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Nanthowalwyn</i>	1811	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Nantolgwyn</i>	1816	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Nant Howel gwyn</i>	1816–20	Dawson, Bangor	134081, D1
<i>Nant howal wynn</i>	1818	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Nant Howel Wynn</i>	1822	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Nant howelwyn</i>	1830	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Nant Ho'l Gwyn</i>	1838	Map OS	78
<i>Nanthamellwyn</i>	1849	Bangor	8555
<i>Nantalgwyn</i>	1878	Bangor	8555
<i>Nantael Gwyn</i>	1890–1	Bangor	8560

***nant, e.p. Hywel ap Gwyn***

Safai'r annedd hwn i'r gogledd-ddwyrain o Gaeathro ac i'r de o Bont-rug. Ffurf gynharaf yr e.p. yn yr enw hwn yw *Hoell ap Gwyn*. Gydag amser trodd yr elfen *Gwyn* fwy-fwy yn *Wyn(n)*, er mai *Gwyn* sydd yn y ffurf olaf a gofnodwyd yn 1890–1. Erbyn hynny, fodd bynnag, mae canol yr enw wedi mynd yn llwyr ar ddisberod. Ni wyddys pwy oedd y gŵr hwn.

<b>Pant-afon</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5262</b>
<i>Pant afon / Pant afon fawr</i>	1801	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Pant afon fawr</i>	1830	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Pantafonfawr</i>	1831	Bangor	8554
<i>Pant avon</i>	1835	Rumsey Wms	419
<i>Pantafan</i>	1838	Rumsey Wms	422–3
<i>Pant afon</i>	1839	Rumsey Wms	2660
<i>Pant afon</i>	1839	RhDegwm	
<i>Pant Evan otherwise Pant Avon and Havod</i>	c. 1842	Ll&Brynodol	D1127
<i>Pantafon</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Pantafon / Pantafon Bach</i>	1930–1	Bangor	8592
<i>Pantafon</i>	1961	Map OS	SH 56
<i>Plas Pantafon</i>	2000	CCPost	(Llanrug)

***pant, afon***

Ar gyrion deheuol eithaf Llanrug, oddi ar y lôn sydd yn arwain oddi yno i'r A4085 gan ymuno â hi ychydig i'r de-ddwyrain o Gaeathro. Dywed W.J.Gruffydd mai Peter Bailey Williams (1763–1836), yr offeiriad llengar a oedd yn fab i 'Peter Williams y Beibl' ac yn rheithor Llanrug, a newidiodd enw'r annedd hwn o *Bant-Ifan* i *Bantafon* (*Llenor*, VII, (1928), 247). Fodd bynnag, mewn erthygl lawysgrif ar 'Enwau Lleoedd' honnodd mai Henry Bailey Williams, wŵr Peter Williams, a adeiladodd dŷ ar dir *Pant Ifan*, 'ond ni fynnai ef enw mor ddistadl ag *Ifan* oedd gywir, ac ar waethaf pawb yn y plwyf yn dywedyd *Pant Ifan*, newidiodd ef i *Pant Afon*.' (WJG, 42, Rhan 1, 2–3).



Mae map y Degwm a mapiau'r OS yn nodi *Pant-afon* a *Phant-Ifan* fel dau annedd ar wahân er eu bod yn weddol agos i'w gilydd, a cheir cofnodion ar gyfer y ddau annedd fel y gwelir uchod ac isod, a byddai hynny'n gwneud synnwyr os mai tŷ a adeiladwyd ar dir *Pant-Ifan* oedd *Pantafon*. Fodd bynnag, mae cofnod c.1842 yn nodi mai'r un lle oedd *Pant-afon* â *Phant-Ifan*. Mae'n amlwg fod newid yr enw wedi peri dryswch gan y cofnodir *Pant-Ifan Bach* a *Phant-Ifan Fawr* hyd tua 1820. Parhaodd rhywfaint o gymysgu rhwng yr enwau *Pant-Ifan* a *Phant-afon* o bryd i'w gilydd: yng nghofnod ATT am 1830 cyplysir *Pant afon fawr* â *Phant Ifan bach*. Yr afon Gwna yw'r afon yn yr enw: mae'n cronni'n llyn o'r enw Llyn Pantafon yn agos at y tŷ.

<b>Pant-Ifan</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5261</b>
<i>Pant Iddan Vawr</i>	1551	CCQSR	i. 68
<i>Pant Evan</i>	1734	EwBangor	B1734/144 99074
<i>Pant Evan-bach / Pant Evan fawr</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>pant Evan Bach / Pant Evan Fawr</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>pan[ ] evan bach / pant evan fawr</i>	1777	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Pant ifan fawr</i>	1778	Bangor	572
<i>pant ifan Bâch / pant ifan fawr</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Pant evan bach / Pant evan mawr</i>	1783	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Pant Evan bach / Pant Evan fawr</i>	1795	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Pant Ifan</i>	1797	EwBangor	B1797/70 7979
<i>Pant Ifan</i>	1797	EwBangor	B1797/70 7980
<i>Pant Evan Bach / Pant Evan fawr</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Pant Evan</i>	1806	Rumsey Wms	416
<i>Pant Evan</i>	1806	EwBangor	B1806/73 9477
<i>Pant Evan Bach / Pant Evan fawr</i>	1806	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>pant ifan bach / Pant ifan fawr</i>	1809	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Pant Evan bach / Pant Evan fawr</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D1
<i>Pant Evan Bach</i>	1819	EwBangor	B1819/107 11688
<i>Pant efan</i>	1821	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Pant Ifan bach</i>	1830	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Pant Ifan</i>	1838	Map OS	78
<i>Pant Ifan</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Pant Evan otherwise Pant Avon and Havod</i>	c. 1842	Ll&Brynodol	D1127
<i>Pont Evan</i>	1847	EwBangor	B1847/172 17080
<i>Pant-Efan</i>	1891	Map OS	XVI N.W.
<i>Pant-Ifan</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Pant-Ifan</i>	1961	Map OS	SH 56
<i>Pant Ifan</i>	2000	CCPost	(Ceunant)

***pant, e.p. Ifan***

I'r de o Lanrug ac i'r gorllewin o Geunant. Am drafodaeth o'r enw hwn a'i gysylltiad â *Phant-afon* gweler *Pant-afon* uchod. Ni wyddys pwy oedd *Ifan /Evan/Iddan*. Gwall yw'r ffurf *pont* yng nghofnod 1847: nid oes cofnod arall o annedd o'r enw hwn.

<i>pant ethun vechan iuxta gweyn y llwynok</i>	1558	Ll&Brynodol	M18
<i>pant Ethun noya / pant Ethan voia / pant Ethan vechan</i>	1558	Ll&Brynodol	M18

***pant, e.p. Ethan?***

Mae'n anodd esbonio'r cyfeiriadau uchod, i gyd o'r un dyddiad ac o'r un ffynhonnell. Mae'n bosib mai cyfeiriad cynnar at *Bant-Ifan* sydd yma. Ceir cyfeiriad at 'a message called *Pant Iddan Vawr* in the possession of Rhys ap Harri in Rug' yn 1551 (*CCQSR*, 68)<sup>1</sup>. Os mai'r un enw yw'r *Iddan* ym *Mhant Iddan Fawr* â'r *Ethan* uchod gellir gweld sut y byddai hwnnw'n datblygu i fod yn *Evan /Ifan* gydag amser. Anodd hefyd yw esbonio *noya /voia*, onid 'fwyaf' sydd yma, gyda chymysgu *v* ac *n* wedi digwydd ar ddechrau'r ffurf *noya*: byddai'r ffurf hon yn gymar naturiol i *Bant Ethan vechan*.

<b>Pant-hafodlas</b>	<b>Llanrug</b>	<b>SH 5361</b>	
<i>Pant Hafodlas</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D1
<i>Pant Hafodlas</i>	1836	Bangor	5302
<i>Pant Hafodlas</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Pant hafod las</i>	1839	Rumsey Wms	2660
<i>Pant-hafodlas / Pant yr hafodlast</i>	1840	Ll&Brynodol	D966
<i>Pant-yfodlas</i>	1846	EwBangor	B1846/150 16829
<i>Pant-hafodlas</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Pant-hafodlas</i>	1961	Map OS	SH 56
<i>Pant Hafodlas</i>	2000	CCPost	(Ceunant)

#### ***pant, hafodlas***

I'r de o Geunant ac i'r gogledd-ddwyrain o Lanrug. Am yr elfen gyntaf gweler *Hafodlas* uchod. Bu cywasgu a llurgunio yn yr ail elfen yng nghofnod 1846, gan adlewyrchu'r ynganiad llafar.

<b>Pant-bryngwyn</b>	<b>Llanrug</b>	<b>SH 5362</b>	
<i>Pant y Bryngwyn</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Pant Bryn Gwyn</i>	2000	CCPost	(Ceunant)

#### ***pant, bryn, gwyn***

Yn ardal Bryngwyn (q.v) ar y ffordd i lawr o Geunant i gyfeiriad Llanrug.

<b>Pen-hafodlas</b>	<b>Llanrug</b>	<b>SH 5361</b>	
<i>Penhafodlas</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D1
<i>Pen yr Hafodlas</i>	1820	EwBangor	B1820/101 11854
<i>Pen Hafodlas</i>	1836	Bangor	5302
<i>Pen Hafodlas</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Pen y fod las</i>	1850	EwBangor	B1850/156 17797
<i>Pen-hafodlas</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Pen Hafodlas</i>	2000	CCPost	(Ceunant)

#### ***pen, hafodlas***

I'r de o Geunant ac i'r gogledd-ddwyrain o Lanrug. Am yr elfen gyntaf gweler *Hafodlas* uchod. Gwelir adlewyrchu'r ynganiad llafar yng nghofnod 1850. Ceir annedd o'r enw *Tan-hafodlas* hefyd gerllaw.

<b>Penybont Rhythallt</b>	<b>Llanrug</b>	<b>SH 5463</b>	
<i>Pen y Bont</i>	1803	ATT GAG	XQA/LT 6/13

<sup>1</sup> Mae'r ffurfiau *Iddan* ac *Iddon* yn digwydd: *Bodiddan* oedd ffurf wreiddiol *Bodidda* ym mhlwyf Henryd (*ETG*, 99), ond *Iddon* oedd yr ail elfen yn wreiddiol ym *Mhantiddan*, Dwygyfylchi (*LPNW*, 85).

<i>Pen Bont</i>	1806	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Ben Bont</i>	1808	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Pen y bont</i>	1816	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Pen y Bont</i>	1819	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Pen y Bont Rythallt</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Penybont Rythallt</i>	1841	EwBangor	B1841/122 15802
<i>Pont Rhythallt</i>	1961	Map OS	SH 56

***pen, y, pont, e.ll. Rhythallt***

Mae map y Degwm yn nodi'r annedd hwn ychydig i'r gorllewin o *Bont Rhythallt*. Dyma enw'r bont sydd yn croesi'r afon *Rhythallt* ar gyrion gogledd-ddwyreiniol Llanrug. Yr afon yw'r ffin yn y fan hon rhwng plwyf Llanrug a phlwyf Llanddeiniolen. *Pont-Rhythallt* hefyd yw enw'r ardal sydd yn ffinio ar yr afon ym mhlwyf Llanddeiniolen. Nid oes sicrwydd mai'r un annedd yw'r *Penybont* a restrir yn ATT. Gan mai *Rudallt* a geir yn *Rec. C.*, mae J. Lloyd-Jones yn awgrymu mai *Rhuddallt* > *Rhyddallt* > *Rhythallt* yw tarddiad enw'r afon (*ELISG*. 100). Cf. *Rhuddallt* dan Anheddau Llanbeblig.

<b>Pen-y-bwlch</b>	<b>Llanrug</b>	<b>SH 5560 / SH 5561</b>	
<i>Pen y bwlch</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Pen-y-bwlch</i>	1920	Map OS	XVI N.E.
<i>Pen-y-bwlch</i> (1 a 2)	1961	Map OS	SH 56
<i>Pen Y Bwlch</i> (2)	2000	CCPost	(Cwm-y-glo)

***pen, y, bwlch***

Mae map OS 1961 yn dangos dau annedd o'r enw hwn, y naill (1) ar SH 5560 ger Chwarel Cefn-du rhwng Cwm-y-glo a Llanberis, a'r llall (2) ar SH 5561 nid nepell o Fur-moch i'r de o Gwm-y-glo, ac i'r de hefyd o'r ardal a elwir *Bwlch*.

<b>Pen-y-graig</b>	<b>Llanrug</b>	<b>SH 5361</b>	
<i>Penygraig</i>	1836	Bangor	5302
<i>Pen y graig</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Pen y graig</i>	1839	Rumsey Wms	2660
<i>Pen y graig</i>	1853	EwBangor	B1852/163 18489
<i>Penygraig</i>	1856	EwBangor	B1856/142 19265
<i>Pen-y-graig</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Pen Y Graig</i>	2000	CCPost	(Ceunant)

***pen. y, craig***

Yng nghanol Ceunant.

<b>Pen-y-Greuer</b>	<b>Llanrug</b>	<b>SH 5263</b>	
<i>Pen y greuer</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Pen-y-greuer</i>	1919	Map OS	XI S.W.
<i>Pen y Greuer</i>	1949	Myn. Cae.	G100
<i>Pen Greuer</i>	2000	CCPost	(Llanrug)

***pen, y, e.ll. Greuer***

Ar gyrion gorllewinol Llanrug ar ochr chwith yr A4086 wrth fynd i gyfeiriad Pont-rug. Ychydig i'r gorllewin oddi ar ochr arall y ffordd saif yr annedd a elwir *Greuer*. Am esboniad o'r elfen hon gweler dan *Greuer* uchod.

<b>Plas-gwyn</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5263</b>
<i>Plas gwyn</i>	1829	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Plas-gwyn</i>	1838	Map OS	78
<i>Plas gwyn</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Plâs-gwyn</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Plâs-gwyn</i>	1961	Map OS	SH 56
<i>Plas Gwyn</i>	2002	Map OS	Explorer OL17

**plas, gwyn**

Ar y dde oddi ar yr A4086 wrth fynd o Bont-rug i gyfeiriad Llanrug.

<b>Plas-tirion</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5262</b>
<i>Plastirion</i>	1763	EwBangor	B1763/241 2406
<i>Plas tirion</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>plas tirion</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Plastirion</i>	1778	Bangor	572
<i>Plas tirion</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Plastirion</i>	1780	Bangor	573
<i>Plastirion</i>	1783	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Plas tirion</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Plastirion</i>	1785	Bangor	576
<i>Plas tirion</i>	1789	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Plastirion</i>	1794	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Plase Tirion</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Blastrion</i>	1806	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Plastirion</i>	1811	EwBangor	B1811/105 10270
<i>Plas tirion</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D1
<i>Plastirion</i>	1830	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Plâs-tirion</i>	1838	Map OS	78
<i>Plas tirion</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Plâs-tirion</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Plas Tirion</i>	2000	CCPost	(Llanrug)
<i>Plas Tirion / Plastirion Farm</i>	2002	Map OS	Explorer OL 17

**plas, tirion**

Ar gyrion de-orllewinol Llanrug.

<b>Pont-rug / Tyddyn-Pontrug</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5163</b>
<i>pont Ruke</i>	1557	Ll&Brynodol	D70
<i>Pull y bont y Ruk inter pont y Ruk et</i>	1558	Ll&Brynodol	M18
<i>Sarn Soglen</i>			
<i>pont Ruke</i>	1558	Ll&Brynodol	D72
<i>pont Ruke</i>	1559	Ll&Brynodol	D69
<i>Pont Rugg</i>	1696	Vaynol	3744
<i>Pont-rug</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tyddyn Pontrug</i>	1776 /9	Vaynol	4054
<i>Pont rûg</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>pont rûg</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Pontrÿg</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Pontrhyg</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Pont rhyg</i>	1789	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tyddyn pontryg</i>	1799	Vaynol	3751

<i>Pont rhug</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tyddyn Pont rhyg</i>	1809	Vaynol	4062
<i>Tyddyn Pont rhyg</i>	1810–11	Vaynol	4063
<i>Tyddyn Pontrug</i>	1836	Bangor	5302
<i>Tyddyn pont rug</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Tyddyn Pont Rug</i>	1873	Vaynol	415
<i>Tyddynpontrhyg</i>	1904	Bangor	f33976
<i>Pont-rûg (ardal) / Pont Rûg (pont)</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Pont-rûg (ardal)</i>	1961	Map OS	SH 56
<i>Pont Rug (ardal)</i>	2000	CCPost	

***pont, e.ll.Rug***

Enw'r bont sydd yn croesi'r afon Saint ac enw'r ardal o'i chwmpas rhwng Llanrug a Rhosbodrual ar gyrion Caernarfon. Ar un adeg yr oedd annedd yma o'r un enw, a gellir gweld ei adfeilion hyd heddiw yng nghesail y bont. *Rug* oedd enw'r drefgordd: am yr elfen hon gweler dan *Llanrug* uchod.

<b>Prysgol</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5161</b>
<i>Lanueyr Priscoil</i>	1352	Rec. C	18
<i>Pryскоel</i>	1447	Ll&Brynodol	D984
<i>Priscoyle</i>	1464	Ll&Brynodol	D4
<i>priscoll / gweyne briscoll</i>	1558	Ll&Brynodol	M18
<i>Priscoll</i>	1562	<i>CQSR</i>	XQS/1562, 8
<i>Prescoll</i>	1562	<i>CQSR</i>	XQS/1562, 35
<i>Pryscoll</i>	1572	P. yr Aur	17245
<i>y Priscol</i>	1583	P. yr Aur	17247
<i>Llanvayre Priscoile</i>	1604/5	<i>Ex. P.J.</i>	41
<i>Pruscoll</i>	1696	Vaynol	3744
<i>Pryscol / Prysgol Ucha' / Bryscol Isa</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Prysgol Isa</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Proscol</i>	1774	EwBangor	B1774/78 4397
<i>Prysgol Isa</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Prysgol</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Pryscol</i>	1780	Bangor	573
<i>prysgol isa</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Prysgol/Brysgol issaf / Brysgol uchaf</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Rhôs Issa Pryscol</i>	1784	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Rhos Isa Brysgol</i>	1788	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Rhos Prysgol</i>	1795	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Pryscol Isa</i>	1796	P. yr Aur	18631
<i>Prusgol</i>	1803	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Pysgol</i>	1804	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Prusgol</i>	1808	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Prescol</i>	1809–11	<i>Des. Caerns.</i>	180
<i>Prysgol isa</i>	1813	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Prysgol / Prysgol bach</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081 D1
<i>Pryscol</i>	1824	P. yr Aur	4104
<i>Drysgol</i>	1831	Bangor	8554
<i>Pryscol Isaf / Pryscol Uchaf</i>	1836	Bangor	5302
<i>Pryscol</i>	1838	Bangor	1142
<i>Pryscol</i>	1838	Map OS	78
<i>Pryscol</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Pryscol</i>	1869	Bangor	f33975
<i>Pryscol</i>	1904	Bangor	f33976

<i>Prysgol</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Prysgol</i>	1930–1	Bangor	8592
<i>Prysgol</i>	1961	Map OS	SH 56
<i>Prysgol</i>	2000	CCPost	(Caeathro)

***prys, e.p. Coel***

Ar gyrion pellaf pentref Caeathro ar y chwith oddi ar yr A4085 wrth fynd tua Waunfawr, neu fe ellir mynd ato drwy lwybr oddi ar y lôn sydd yn arwain o'r A4085 ar draws gwlad i Lanrug. Mae'r tŷ yn dyddio o ail hanner yr 16g. ond mae'r cnewyllyn yn hŷn, ac efallai fod lleoliad y tŷ gwreiddiol ar safle adfail ysgubor y tu ôl i'r tŷ presennol (*IAMC*, 213–4; lluniau o'r tŷ ar blatau 62 a 75).

Mae cyfeiriad 1352 yn cyfeirio at *Lanueyr Priscoil* fel trefgordd rydd. Rhestrir yr annedd *Prysgol* dan Lanfair-is-gaer yn y cofnodion cynharach, ac mae *Des.Caems.* (1809–11) yn cyfeirio ato fel un o'r anheddau hynny a oedd yn y darn o blwyf Llanrug a oedd yn perthyn i blwyf Lanfair-is-gaer. Gweler y cofnod ar *Lanrug* uchod.

Gan mai *Priscoil* oedd y ffurf gynnar, mae Syr Ifor Williams yn cymharu datblygiad yr enw â datblygiad yr enwau *Deiniol* a *Seiriol* < *Deinioel* a *Seirioel*, ac yn casglu o hynny mai'r e.p. *Coel* sydd yn yr ail elfen (*ELleoedd*, 66–7). Cytuna MR mai *prys* = 'llwyn' + yr e.p. *Coel* sydd yma (*ETG*, 160; gweler hefyd ymdriniaeth Tomos Roberts yn *ADG I*, 90). Mae *prys* /*prysg* yn hen air am blanhigfa goed, ac yn elfen a geir mewn sawl e.lle, e.e. *Prys Dyrys*, ger Pontrhythallt, a *Phrysgyll* ym mhlwyf Llandygái (*ELISG*, 114–5); yn yr enwau *Presaeddfed* a *Phrysor*, ac yn yr e.lle Cernyweg *Priske*, *Preeze*. Byddai'r ystyr o blanhigfa goed yn sicr yn gweddu i'r annedd hwn gan ei fod yn lle coediog hyd heddiw. Nid yw cynnig J. Lloyd-Jones yn argyhoeddi, sef mai'r ans. *prysgawl*, neu'r ffurf *prys-gol* sydd yma (*ELISG*, 115). Nid yw *GPC* yn nodi'r ans. *prysgawl*, ac ni ellir derbyn mai *-col* sydd yma gan fod y terfyniad *-coil* / *-coel* yn amlwg yn y ffurfiau cynnar. Rhaid derbyn mai'r e.p. *Coel* sydd yn yr ail elfen. Trodd yr *-oe-* yn *-o-* erbyn ail hanner yr 16g. Gall yr enw hwn darddu o'r enw Llad. *Caelius*, a gallai olygu 'dewin'. Ceir sawl *Coel* hanesyddol a chwedlonol, ond ni wyddys pwy oedd yr un a gofféir yma. Credir mai'r un enw, os nad yr un gŵr, sydd yn *Nantcol* ym Meirionnydd (*ADG*, 90)<sup>1</sup>.

<b>Pwll-y-bar</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5061</b>
<i>Pwll y Bar</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Pwll y Barr</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>pwll y Barr</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Pwll y bar</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Pwll y Bar</i>	1783	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tyddyn gwerfil otherwise called Pwll y Bar</i>	1784	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Pwll y Bar</i>	1801	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Pwll y Par</i>	1804	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Bwll Bar</i>	1807	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Pwll Bar</i>	1808	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tyddyn Werfil alias Pwll y bar</i>	1809	Vaynol	4062
<i>Pwll Barr</i>	1813	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>pwll y Barr</i>	1815	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Pwll y barr</i>	1816–20	Dawson. Bangor	f34081, D1
<i>pwl bar</i>	1821	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Pwll-y-bar</i>	1838	Map OS	78
<i>Pwll y bar</i>	1839	RhPDegwm	

<sup>1</sup> Priododd William Owen (1813–93), y cerddor ac awdur y dôn 'Bryn Calfaria', ferch Prysgol ac aeth i fyw yno ar ôl ei briodas. Cyfeirir ato fel 'William Owen, Prysgol' (*Byw*, 681). Fe'i claddwyd ym mynwent Caeathro.

<i>Hwyl y bar</i>	1847	C. Vincent Fur. Add.	4274
<i>Pwlllybar</i>	1886	Myn. Cae.	A045
<i>Pwll-y-bar</i>	1891	Map OS	XVI N.W.
<i>Pont Pwll-y-bar</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Pont Pwll-y-bar</i>	1961	Map OS	SH 56

### ***pwll, y, bar***

Ar un adeg yr oedd annedd o'r enw hwn ar gyrion gogleddol Caeathro ar y lôn sydd yn arwain oddi yno i Bont-rug. Cedwir coffa ohono o hyd yn enw'r bont sydd yn croesi Afon Gwna gerllaw. Un o ystyron *bar* yw banc o laid neu dywod ar draws ceg afon sydd yn rhwystr i longau, megis yr un a geir yn Abermenai. Mae'n bosib nad rhwystr naturiol sydd yma ym *Mhwll-y-bar*, ond un a grewyd yn fwriadol ar yr afon Gwna i greu'r pwll a nodir ar fap 1919 fel 'Fish Pond'. Mae hwn o fewn tir plas Glan-gwma, ac mae'n debyg ei fod wedi ei greu i fod yn nodwedd o'r gerddi yno.

Gweler hefyd *Tyddyn-Gwerful* isod.

<b>Rhos-ddu</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5363</b>
<i>Rhosddu</i>	1813	P. yr Aur Add.	1890
<i>Rhosddu</i>	1833	Rumsey Wms	2740
<i>Rhos Ddu</i>	1836	EwBangor	B1836/146 14726
<i>Rhosddu</i>	1837	P. yr Aur	21473
<i>Rhos-du</i>	1838	Map OS	78
<i>Rhos ddu</i>	1839	RhPdegwm	
<i>Rhosddu</i>	1852	EwBangor	B1852/163 18248
<i>Rhos ddu</i>	1869	Tregaeon	62
<i>Rhos-ddu</i>	1961	Map OS	SH 56
<i>Rhos Ddu</i>	2000	CCPost	(Llanrug)

### ***rhos, ddu***

Adeiladwyd yr annedd hwn ar ddarn o dir comin o'r un enw ar gyrion dwyreiniol Llanrug (CVincent 2845).

<b>Rhos-lan</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5263</b>
<i>Rhos Llan</i>	1838	Rumsey Wms	716
<i>Rhos lan</i>	1839	RhPdegwm	
<i>Rhôs-lan</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Rhôs-lan</i>	1961	Map OS	SH 56

### ***rhos, glan***

Ar gyrion deheuol Llanrug.

<b>Rhosydd</b>	<b>Llanrug</b>		
<i>Rhosydd</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>rhos sydd</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>rhosudd</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Rhosydd</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Rhosydd</i>	1788	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Rhosudd</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Rosudd</i>	1806	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Rhosydd</i>	1818	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>rossyd</i>	1821	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Rhoesydd</i>	1830	ATT GAG	XQA/LT 6/13

**rhos, llu. rhosydd**

Heb ei leoli.

**Rhyd-y-cerrig-gwynion**

**Llanrug**

<i>Rhud y cerrig Gwnnion</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cerrig Gwnion</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Rhyd Gerig gwnion</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>rhyd y cerrig gwnion</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Rhyd Cerig gwynion</i>	1783	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Rhyd cerrig Gwnion</i>	1783	P. yr Aur	4048
<i>Rhyd y Cerrig gwnion</i>	1784	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Rhyd Cerrig gwnion</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Rhydycerrig Gwynion</i>	1799	Cynhaiarn	B111
<i>Rhud Gerrigwnion</i>	1804	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Rhyd-cerrig-gwnion</i>	1806	P. yr Aur	20827
<i>Rhyd Cerig Gwnion</i>	1807	P. yr Aur	20879
<i>Rhyd Cerig gwnion</i>	1813	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Rhyd Cerrig Gwnion</i>	1819	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Rhyd y cerrig gwnion</i>	1820	Rumsey Wms	87
<i>Rhyd y Cerrig Gwnion</i>	1822	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Rhyd y Cerrig gwion</i>	1831	Bangor	8554
<i>Rhyd y cerrig Gwynion</i>	1930–1	Bangor	8592

**rhyd, y, carreg, llu. cerrig, ans, gwyn, llu. gwynion**

Heb ei leoli. Rhaid tybied mai ffurf lu yr ans, gwyn sydd yn y bedwaredd elfen. Mae'n wir y clywir ynganu'r ffurf gwynion yn gwnion yn nhref Caernarfon ei hun, ond eto mae gweld ei sillafu'n gwnion mor gyson ar glawr yn codi amheuaeth ai gwynion sydd yma mewn gwirionedd ynteu a oes yma olion e.p. o ryw fath.

**Rhydau**

**Llanrug**

**SH 5063**

<i>Rhydau</i>	1838	Map OS	78
<i>Rhydau</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Rhyda</i>	1868	Myn. Cae.	A056
<i>Rhydau</i>	1920	Map OS	XI S.W.
<i>Rhydau</i>	1961	Map OS	SH 56
<i>Rhydau</i>	2002	Map OS	Explorer OL17

**rhyd, llu. rhydau**

Ym mhen gogledd-orllewinol eithaf plwyf Llanrug ar y ffin â phlwyf Llanbeblig. Mae'r annedd hwn yn agos iawn at yr afon Cadnant, sef y ffin yn y fan hon; mae'n debyg fod y rhydau ar yr afon honno.

**Sarn-soglen**

**Llanrug**

**SH 5163**

<i>Sarn Soglen</i>	1558	Ll&Brynodol	M18
<i>Sarn</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081. D1
<i>Sarn-soglan</i>	1838	Map OS	78
<i>Sarn</i>	1890–1	Bangor	8560
<i>Sarn</i>	1919	Map OS	XVI N.W.

**sarn, soeglen**



Ym Mhont-rug, oddi ar y lôn gefn sydd yn arwain oddi yno i Lanrug heibio i Gilgwythwch. Ystyr yr elfen gyntaf *sarn* yw llwybr dyrchafedig i groesi tir gwlyb a chorsiog. ac yn yr ail elfen ceir y gors ei hun, sef y *soeglen*. Clywir y gair hwn ar lafar weithiau yn Arfon yn y ffurf *soiglan*<sup>1</sup>, ond mae'n llawer mwy cyffredin yn y ffurf ansoddeiriol *soeglyd* = slwtshlyd.

Tai-melinyddion	Llanrug		
<i>tai milyddion</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>tai mylyddion</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>tai mylyddion</i>	1777	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>tai yr mylyddion</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tai'r Melyddion</i>	1783	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tai'r Meliddion</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Tai melyddion</i>	1789	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tai y melyddion</i>	1795	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tai Mylynion</i>	1801	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tai melunuddion</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Daimeliniddion</i>	1804	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tai Melinion</i>	1806	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Taimelinyion</i>	1807	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tai Melinudion</i>	1808	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>tai mhylyddion</i>	1817	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tai Melynyddion</i>	1822	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tai melyddion</i>	1826	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tai melyddion</i>	1830	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tai mylyddion</i>	1849	Bangor	8555

**tŷ, llu. tai, melinydd, llu. melinyddion**

Heb ei leoli. Er gwaethaf y cywasgu a geir gynifer o weithiau uchod yn ail sillaf yr ail elfen. mae'n amlwg mai ffurf lu. *melinydd* sydd yma.

Tai-newyddion	Llanrug		SH 5362
<i>Tainwddion</i>	1799	Rumsey Wms	760
<i>Tai Nwddion</i>	1804	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tai Nwddion</i>	1806	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>tai newyddion</i>	1809	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tai newyddion</i>	1816–20	Dawson. Bangor	†34081, D1
<i>Tai Newyddion</i>	1820	EwBangor	B1820/100 11853
<i>Dai nuwyddion / Dainenuddion</i>	1821	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tai newyddion</i>	1822	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tai newyddion</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Tai-newyddion</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Tai Newyddion</i>	2000	CCPost	(Ceunant)

**tŷ, llu. tai, ans. newydd, llu. newyddion**

Oddi ar y lôn sydd yn arwain i lawr o Geunant i gyfeiriad Llanrug. Mae'n debyg mai'r 'tai allan', sef y cytiau a'r stordai, oedd yn newydd. Mae'r cywasgu a geir yn sillaf gyntaf ac ail sillaf yr ail elfen yn y cofnodion cynharaf uchod yn adlewyrchu'r ynganiad lleol.

<sup>1</sup> Yn rhestr y tanygrifwyr i gyfrol Dafydd Ddu Eryri, *Corph y Gainge*, yn 1810 rhestrir cyfeiriad gwŷ o'r enw William Evans fel *Tyddyn Soeglan, Llan Rûg*.

**Tal-y-bont****Llanrug**

<i>Tythyn Talypont Ruke</i>	1506	Ll&Brynodol	D988
<i>Tythyn Talybont</i>	1516–17	Ll&Brynodol	R2
<i>tal y bont y Ruk</i>	1558	Ll&Brynodol	M18
<i>Tal-y-bont</i>	1853	C.Vincent	2848/9

**tyddyn, tal, y, pont**

Heb ei leoli ar unrhyw fap, ond mae cofnod 1558 yn ei leoli'n eithaf pendant ym Mhont-rug yng nghyffiniau'r felin yno: 'iuxta melyn y Ruk'.

**Talysarn****Llanrug****SH 5364**

<i>Tal y Sarn</i>	1822	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tal y sarn</i>	1826	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tal y sarn</i>	1827	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Talysarn</i>	1841	C. Vincent	2846
<i>Tal-sarn</i>	1898–1900	Map OS	Arg. 1af
<i>Tal-sarn</i>	1920	Map OS	XI S.W.
<i>Talysarn</i>	2000	CCPost	(Llanrug)

**tal, y, sarn**

Ar gyrion gogleddol Llanrug nid nepell o'r afon Saint ar y lôn sydd yn mynd i Fethel.

**Tan-y-bryn****Llanrug****SH 5362**

<i>Tan y bryn</i>	1839	RhPdegwm	
<i>Tan-y-bryn</i>	1961	Map OS	SH 56
<i>Tan Y Bryn</i>	2000	CCPost	(Ceunant)

**tan, y, bryn**

Oddi ar y lôn sydd yn mynd i lawr o Geunant i Lanrug.

**Tan-y-coed****Llanrug****SH 5362**

<i>Tany Coed</i>	1816	P. yr Aur	21126
<i>Tan y Coed</i>	1835	EwBangor	B1835/143 14516
<i>Tan y Coed</i>	1839	RhPdegwm	
<i>Tan-y-coed</i>	1920	Map OS	XVI N.W.
<i>Tan y Coed Cottage / Tan y Coed Terrace / Tanycoed Canol / Tanycoed Isaf / Tanycoed Uchaf</i>	2000	CCPost	(Ceunant)

**tan, y, coed, ans. isel, gradd eithaf isaf, canol, ans. uchel, gradd eithaf uchaf**

Anheddau unigol ac ardal ar y lôn sydd yn mynd i lawr o Geunant i Lanrug.

**Tan-y-ffordd****Llanrug****SH 5361**

<i>Tan y ffordd</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081. D1
<i>Tanyffordd</i>	1836	Bangor	5302
<i>Tan y Ffordd</i>	1839	RhPdegwm	
<i>Tanyffordd</i>	1853	C. Vincent	2849
<i>Tan-y-ffordd</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Tan-y-ffordd</i>	1961	Map OS	SH 56
<i>Tan Y Ffordd</i>	2000	CCPost	(Ceunant)

**tan, y, ffordd**

Yng Ngheunant, oddi ar y ffordd sydd yn mynd o Waunfawr trwy Geunant ac i lawr i Lanrug.

<b>Tan-y-graig</b>	<b>Llanrug</b>	<b>SH 5261</b>	
<i>Tan y graig</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D1
<i>Tan y Graig</i>	1819	EwBangor	B1819/106 11687
<i>Tanygraig</i>	1836	Bangor	5302
<i>Tan-y-graig</i>	1838	Map OS	78
<i>Tan y graig</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Tan y graig</i>	1841	EwBangor	B1841/123 15803
<i>Tan-y-graig</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Tan-y-graig</i>	1961	Map OS	SH 56
<i>Tan Y Graig</i>	2000	CCPost	(Ceunant)

**tan, y, craig**

Yn rhan orllewinol Ceunant.

<b>Tan-y-llan</b>	<b>Llanrug</b>	<b>SH 5163</b>	
<i>Tan y llan</i>	1779	EwBangor	B1779/85 5249
<i>Tyn y llan</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Tyn y llan</i>	1783	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>tan y Llan</i>	1789	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>tan y Llan</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>tan y Llan</i>	1795	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tan Llan</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>tan llan</i>	1812	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tan llan</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D1
<i>tanllan</i>	1817	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tan y Llan</i>	1822	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tan-llan</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Tan Llan</i>	2000	CCPost	(Pont-rug)

**tan, y, llan**

Byddid wedi disgwyl gweld annedd o'r enw hwn wedi ei leoli yn agos at eglwys y plwyf, ond mae hwn ychydig bellter o eglwys Llanrug ac yn nes at Bont-rug na Llanrug. Efallai y dylid deall *llan* yma yn yr ystyr o 'bentref', a dehongli'r enw fel 'annedd islaw'r pentref', a byddai hynny'n ddisgrifiad teg o'i leoliad. Gwelir dwy enghraifft o'r ffurf *Tyn y llan* yn 1783: mae'n amlwg mai *Tan-y-llan* a olygir yng nghofnod ATT oddi wrth ei leoliad yn y rhestr, a chan na welwyd cyfeiriad arall at *Dyn y llan*, rhaid tybied mai *Tan-y-llan* sydd yng nghofnod Porth yr Aur hefyd.

<b>Tanyrallt</b>	<b>Llanrug</b>	<b>SH 5462 / SH 5260</b>	
<i>Tan-'r-allt</i>	1838	Map OS	78
<i>Tanrallt / Tan rallt</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Tan rallt</i>	1855	EwBangor	B1855/208 19038
<i>Tanrallt</i>	1857	EwBangor	B1857/138 19484
<i>Tan-yr-allt-uchaf</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Tan-yr-allt-isaf</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Tan-yr-allt</i>	1920	Map OS	XVI N.E.
<i>Tan-yr-allt-isaf</i>	1961	Map OS	SH 56

**tan, yr, allt**, ans. *isel*, *gradd eithaf isaf*, ans. *uchel*, *gradd eithaf uchaf*,

Gydag enw mor gyffredin ni ellir bod yn hollol sicr pa annedd a olygir ym mhob cofnod. Fodd bynnag, lleolir *Tanrallt* ei hun rhwng Bryn-bras a Chwm-y-glo, tra lleolir *Tan-yr-allt-uchaf* a *Than-yr-allt-isaf* gryn bellter i ffwrdd, i'r de o Geunant ac i'r gogledd o Waunfawr bron ar y ffin â phlwyf Llanbeblig yn y fan honno.

<b>Tŷ-canol</b>	<b>Llanrug</b>	<b>SH 5361</b>	
<i>Ty Canol</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Ty-canol</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Ty Canol</i>	2000	CCPost	(Ceunant)

**tŷ, canol**

Yng Ngheunant, ac, yn naturiol iawn, wedi ei leoli rhwng *Tŷ-uchaf* a *Thŷ-isaf*.

<b>Tŷ-draw</b>	<b>Llanrug</b>	<b>SH 5562</b>	
<i>Ty draw Cwm y glo</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Ty draw Cwm Glo</i>	1849	Bangor	8555
<i>Ty Draw</i>	2000	CCPost	(Cwm-y-glo)

**tŷ, draw**

Fel yr awgryma'r ddau gofnod cynharaf uchod, mae'r annedd hwn yng Nghwm-y-glo, ar gyrion deheuol y pentref.

<b>Tŷ-gwyn</b>	<b>Llanrug</b>	<b>SH 5062 (1) / SH 5463 (2)</b>	
<i>Ty Gwyn</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Ty-gwin</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>ty gwun</i>	1777	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>ty Gwun</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>ty gwunn</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>ty gwun</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Ty Gwyn</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Ty gwyn</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tu Gwynn</i>	1805	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tu Gwun</i>	1808	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Ty Gwyn</i>	1813	P. yr Aur	20278
<i>Ty gwyn</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D1
<i>Ty Gwyn</i>	1818	Tynyngongl	682
<i>Ty Gwyn Bach</i>	1819	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tywyn bach</i>	1821	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Ty Gwyn bâch</i>	1822	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Ty-gwyn (1)</i>	1838	Map OS	78
<i>Ty gwyn</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Ty Gwyn</i>	1879	DWms	2
<i>Ty-gwyn (1)</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Ty Gwyn (2)</i>	2000	CCPost	(Llanrug)

**tŷ, gwyn**

Cofnodir dau annedd penodol o'r enw hwn ym mhlwyf Llanrug. Mae *Tŷ-gwyn (1)* yn SH 5062 ar gyrion gogledd-ddwyreiniol Caethro, tra bo *Tŷ-gwyn (2)* yn SH 5463 ar gyrion dwyreiniol eithaf Llanrug. Mae map Dawson 1816–20 yn nodi annedd arall eto o'r un enw: er bod lleoliadau ar y map hwn yn bur amhendiant ymddengys fod y *Tŷ-gwyn* hwn rhwng Pont-rug a Llanrug. *Tŷ-gwyn (2)* yw'r unig un a nodir yn y CCPost yn 2000.

<b>Tŷ-newydd</b>	<b>Llanrug</b>		
<i>ty newydd</i>	1811	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>ty newydd</i>	1812	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>ty newydd</i>	1815	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tŷ newydd / Ty newydd</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Ty-newydd</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Ty-newydd</i>	1961	Map OS	SH 56
<i>Ty Newydd</i>	2000	CCPost	(Caeathro)
<i>Ty Newydd</i>	2000	CCPost	(Ceunant)
<i>Ty Newydd</i>	2000	CCPost	(Cwm-y-glo)

### ***tŷ, newydd***

Mae hwn yn un o'r enwau hynny sydd mor gyffredin nes ei bod bron yn amhosibl gwybod pa annedd y cyfeirir ato yn y gwahanol gofnodion. Mae CCPost 2000 yn cofnodi tri annedd o'r enw hwn ym mhlwyf Llanrug: yng Nghacathro, Ceunant a Chwm-y-glo. Yr un yng Ngheunant yw'r un a nodir ar fapiau OS 1919 a 1961.

<b>Tyddyn-Bisle</b>	<b>Llanrug</b>		<b>SH 5063</b>
<i>Tyddyn y Bisle</i>	1693	Coed Helen	2
<i>Tyddyn Bisle</i>	1718	Coed Helen	3
<i>Tyddyn y Bisley</i>	1770	Rumsey Wms	147
<i>Tyddin Bisle</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>tyddyn y Bisla</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>tyddyn Bisla</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>tyddyn y bisley</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>tyddun bislae</i>	1777	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tyddyn y Bisle</i>	1778	Coed Helen	38-9
<i>Tyddyn y Bisley</i>	1778	Plas Coch	3142
<i>Tyddun y bysla</i>	1783	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tyddyn Bisle</i>	1786	Coed Helen	55-6
<i>Tyddyn y Bisla</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tuddun Bisle</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tuddun Pisle</i>	1807	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tuddun Besle</i>	1808	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tyddyn Bisla</i>	1810	P. yr Aur	19986
<i>Tyddyn bisle</i>	1812	P. yr Aur	20951
<i>tyddyn Bislae</i>	1813	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tyddyn y bislae</i>	1819	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tyddyn Baeste</i>	1829	Myn.Llb	C113
<i>Tyddyn bisla</i>	1831	Bangor	8554
<i>Tyddynpisle</i>	1835	Bangor	419 (22); 420 (2)
<i>Tyddyn bustla</i>	1838	Map OS	78
<i>Tyddyn bisla</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Tyddyn bisla</i>	1849	Bangor	8555
<i>Tyddyn Bustla</i>	1869	Bangor	f33975
<i>Tyddyn bisle</i>	1878	Bangor	8555
<i>Tyddyn Bisle</i>	1890-1	Bangor	8560
<i>Tyddyn Bisley</i>	1904	Bangor	f33976
<i>Tyddyn-bisle</i>	1919	Map OS	
<i>Tyddyn Bisle</i>	1930-1	Bangor	8592
<i>Tyddyn-bisle</i>	1961	Map OS	SH 56
<i>Tyddyn Bistle</i>	2002	Map OS Explorer	OL17

### **tyddyn, e.p. Bisley**

Ar y chwith oddi ar yr A4086 wrth fynd o Gaernarfon tuag at Bont-rug. Ail elfen yr enw yw'r e.p. *Bisley*. Ceir yr enw yn weddol gynnar yn ardal Caernarfon: mewn cofnod o 1508 ceir cyfeiriad at 'ysgubor *William Bysley*' (Ll&Brynodol D920), ac mae cyfeiriad at ŵr o'r enw *William Bisseley* yn dyst mewn gweithred yn nhrefgordd Rhuddallt yn 1538 (Peniarth A. 63). Cyfeirir eto at *William Beyseley* mewn gweithred arall yn 1544 (Ll&Brynodol D932) ac fel *William Beseleys* yn 1549 (Ll&Brynodol D933). Yr oedd gŵr o'r enw *John Beisley* yng Nghaernarfon yn 1551/2 (CCQSR, 84, 224). Ceir cofnod o dŷ o'r enw *Bislis House* yn nhref Caernarfon yn 1800 (Broom Hall, 1191). Mae'n gyfenw a geir yng Nghonwy hefyd yn yr unfed ganrif ar bymtheg (*E.Ch.Pro.*, 16)<sup>1</sup>.

Yn gynnar trodd yr *-ey* derfynol yn *-e*. Ambell dro ceir *-a* ar y diwedd yn hytrach nag *-e*, ac mae hyn yn gallu digwydd wrth gymreigio enw priod o'r fath, cf. *Sydney* > *Sydna*, *Humphrey* > *Wmffra*, *Wesley* > *Wesla*, *Bulkeley* > *Bwcla*, *Hinkley* > *Incla*. Ceir enghreifftiau hefyd o ychwanegu *t* ar ôl yr *s*, fel ag a geir yn yr ynganiad presennol. Mae hyn yn awgrymu fod gwir ystyr yr ail elfen wedi ei cholli, er ei bod yn gywir mor ddiweddar â 1904, a bod yma ymgais wedi bod i resymoli'r ail elfen a'i hesbonio, o bosib ar sail y gair mwy cyfarwydd *bustl*. Ceir sawl enghraifft o gynnwys y fannod *y* o flaen yr e.p. uchod, cf. *Cae'r Bold*, Llanbeblig, a *Cae'r Llowarch*, Llandwrog, q.v. Gweler ymdriniaeth MR o'r enw hwn yn *TCHSG*, 29, (1967–8), 152.

### **Tyddyn Bleddyn Foel**

### **Llanrug**

<i>Tythyn Blethyn voill / tir blethyn voile</i>	1558	Ll&Brynodol	M18
---	------	-------------	-----

### **tyddyn / tir, e.p. Bleddyn, moel**

Ni lwyddwyd i leoli'r lle hwn ac ni wyddys pwy oedd *Bleddyn Foel*. Ni wyddys ychwaith ai'r un gŵr oedd hwn â'r *Bleddyn* sydd yn *Cae Dôl Bleddyn* (q.v.).

### **Tyddyn-bocha**

### **Llanrug**

### **SH 5063**

<i>Tuthyn y boche / Tythyn y boch</i>	1558	Ll&Brynodol	M18
<i>Tythin y boghey</i>	1579	Nannau	3105
<i>Tythyn Bothe</i>	1741	Dinam Hall	34
<i>Tyddin y Bocha</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>tyddyn y bocha</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>tyddun bocha</i>	1777	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tyddyn y Bocha</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tyddyn y bocha</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Tyddyn y Bocha</i>	1794	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tythyn Boche in Ruge</i>	1797	Poole	3819
<i>tyddyn bocha</i>	1811	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Ty Slatter or Tyddynbocha</i>	1904	Bangor	f33976

### **tyddyn, bocha?**

Mae cofnod 1797 yn lleoli'r annedd hwn 'in Ruge . . . near Rhose Bodryal' ac mae cofnod 1904 yn ategu hyn trwy nodi mai'r un lle oedd hwn â *Ty Slatter*, sef *Tyddyn-sclaters* (q.v.). Yn RhPDegwm 1839 rhestrir *Cae tyddyn bochau* ar dir *Tyddyn-sclaters*.

<sup>1</sup> Ceir sawl amrywiad i'r cyfenw hwn sydd yn hanu o'r e.lle *Beesley* yn Swydd Gaerhirfryn: cofnodir enghreifftiau o sillafu'r cyfenw heddiw fel *Beasley*, *Beazley*, *Beesley*, *Beazleigh* a *Beisley* (DS, 40). Yn y CCQSR am y blynyddoedd 1541–8 cofnodir yr enw fel *Beisley*, *Beisle*, *Beseley*, *Beysey*, *Busley* a *Byseley*, felly nid oes ryfedd fod sillafiad yr elfen hon yn amrywio cymaint yn enw'r annedd uchod.

Mae'n anodd iawn esbonio'r ail elfen: mae'n bosib mai llysenw'r perchennog gwreiddiol sydd yma. Mae'r ffurf *boghey* yng nghofnod 1579 yn ategu'r ffurfiau a geir mewn dau e.p. yng nghofnodion y llys yng Nghaernarfon: *Iorwerth ap Hywel Boghe* yn 1396 (CCR, 128), a *Madog Boghey* yn 1397 (ibid. 157).

Tyddyn-cae	Llanrug		SH 5162
<i>y Tuthyn kay</i>	1558	Ll&Brynodol	M18
<i>Tythyn Kay</i>	1653	Mostyn B	311
<i>Tyddin y Cay</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>tyddyn y Cae</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>tyddyn y Cay</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>tyddyn y Cay</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>tyddun y Cau</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tyddyn y Cau</i>	1787	EwBangor	B1787/58 6555
<i>Tuddun Cau</i>	1807	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tuddun Cau</i>	1808	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>tyddyn Cau</i>	1809	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>tyddyn Cau</i>	1812	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tyddyn Cae</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081 D1
<i>tyddyn y Cae</i>	1818	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tyddyn y Caeu</i>	1826	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tyddyn y Caea</i>	1827	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tyddyn y Cau</i>	1828	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tyddyn Cae</i>	1831	Bangor	8554
<i>Tyddyn Cau</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Tyddyn-cae</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Tyddyn Cae</i>	1930–1	Bangor	8592
<i>Tyddyn-cae</i>	1961	Map OS	SH 56
<i>Tyddyn Cae</i>	2000	CCPost	(Pont-rug)

#### *tyddyn, y, cae*

Rhwng Caeathro a Phont-rug. Mae'n amlwg mai *cae* oedd yn yr enw yn wreiddiol, ond ar ôl 1778 am ryw reswm dechreuwyd sillafu'r elfen hon fel *cau*, ac yn wir ei hynganu felly. Erbyn yr 20g adferwyd y sillafiad *cae*, ond cadwyd yr ynganiad *cau*.

#### **Tyddyn Cefn-y-Gwndy**

#### **Llanrug**

<i>kefn y gwndy</i>	1558	Ll&Brynodol	M18
<i>tir Cud in kefn y gwndy</i>	1558	Ll&Brynodol	M18
<i>Tuthyn keven y Gundy</i>	1602/3	Ll&Brynodol	D130
<i>kevyn y Gwndy</i>	1603	Ll&Brynodol	D135

#### *tyddyn, cefn, y, gwyndy?*

Heb ei leoli. Mae'n anodd gwybod beth yw 'gwndy'. Mae'n hollol bosib mai ynganiad llafar *gwyndy*, sef 'tŷ gwyn' sydd yma<sup>1</sup>. Fodd bynnag, yr oedd ystyr arbenigol gynharach i *gwyndy*, sef 'tŷ sanctaidd' neu 'eglwys wedi ei chodi o feini'. Heb wybod lleoliad y lle hwn ni ellir dirnad beth a olygir yma. Mae rhannau hynaf eglwys y plwyf yn dyddio'n ôl i'r 13g. ond peth anarferol, mae'n debyg, fyddai cyfeirio at y prif le addoliad fel 'gwyndy': byddai'n fwy tebygol o fod yn rhyw fath o fetws neu gapel anwes.

<sup>1</sup> Mae'n wir fod *Gwyndy* yn digwydd yn ddigon aml fel e.lle; e.e. ceir *Gwyndy-mawr* yn enw ar gae yn Nhŷ-mawr, Llanwnda, a dyma enw cartref Syr Thomas Parry yng Ngharmel, yn ogystal ag enw hen westy'r goets fawr sydd bellach yn adfeilion ger Bodedern ym Môn.

<b>Tyddyn-corn</b>	<b>Llanrug</b>	<b>SH 5163</b>	
<i>Tuthyn y korn iuxta rid llidan</i>	1558	Ll&Brynodol	M18
<i>Tyddun y Corn</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>tyddyn Corn</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tyddin y Corn</i>	1780	Bangor	573
<i>Tyddyn Curn</i>	1780–7	P.S.Glynllifon	84 (61)
<i>tyddyn Corn</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tyddyn y Corn</i>	1783	P.S.Glynllifon	88
<i>Tyddyn y Corn</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Duddin Gorn</i>	1803	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tuddun y Gorn</i>	1805	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>tyddyn Corn</i>	1815	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tyddyn corn</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D1
<i>Tyddyn Corn</i>	1830	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tyddyn-y-gorn</i>	1838	Map OS	78
<i>Tyddyn Corn</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Tyddyn-y-corn</i>	1919	Map OS	XVI N.W.

***tyddyn, y, corn***

Ym Mhontrug: mae cofnod 1558 yn ei leoli yn agos i 'rid llidan', a oedd yn ddiaw yn rhyd ar afon Saint yn y fan honno. Mae'n anodd gwybod beth oedd arwyddocâd y *corn*, onid oedd yn arbennig o uchel<sup>1</sup>.

<b>Tyddyn-Elen /Elan</b>	<b>Llanrug</b>	<b>SH 5363</b>	
<i>Tythyn Elen</i>	1570	EmThos	2
<i>Tuthyn Elen</i>	1572	EmThos	3
<i>Tythyn Elen</i>	1625	EmThos	21
<i>Tyddin Elan</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>tyddyn Elen</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>tyddyn Ellen</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>tyddun Elan</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>tyddyn Ellan</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tyddun Elan</i>	1783	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tyddyn Elan</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tyddyn Elen</i>	1795	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tuddun Elan</i>	1808	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tyddyn Elan</i>	1819	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tyddun elan</i>	1829	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tyddyn-elan</i>	1838	Map OS	78
<i>Tyddyn helen</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Tyddyn Elan</i>	2000	CCPost	(Llanrug)

***tyddyn, e.p. Elen***

Ym mhentref Llanrug ei hun. Mae'n amlwg oddi wrth y cyfeiriadau cynharaf uchod mai'r e.p.ben. *Elen* sydd yn yr ail elfen, ac mae'r ymwybyddiaeth o hyn i'w gweld o bryd i'w gilydd yng nghofnodion y 18g. Yn RhPDegwm gwelir enghraifft o'r chwiw o newid pob *Elen* yn *Helen*. Fodd bynnag, yr ynganiad llafar *Elan* fu'n drech yn y diwedd, ac felly y sillefir ac yr yngenir yr enw heddiw.

<sup>1</sup> Yr oedd anheddau o'r enw *Corn-hir* yng Nghaernarfon a Llangefni. (Gweler *Cae corn hir / Cae corn shimdda hir* dan Gaeau Llanbeblig).



**Tyddyn-Gregor****Llanrug**

Gweler *Buarthau*.

**Tyddyn-gwag****Llanrug**

<i>Tyddin Gwâg</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tyddin-Gwag</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>tyddun gwag</i>	1777	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tyddyn gwag</i>	1795	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tuddun gwag</i>	1803	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>tyddyn gwâg</i>	1810	ATT GAG	XQA/LT 6/13

**tyddyn, gwag**

Heb ei leoli.

**Tyddyn-Gwerful****Llanrug****SH 5061**

<i>Tythyn Gwervill ferch Jerwerth ap Jeuan</i>	1516–17	Ll&Brynodol	R2
<i>tir gwervill vch gruff ap Jeuan</i>	1558	Ll&Brynodol	M18
<i>Tyddyn Gwerfil</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>tyddyn Gwerfil</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tyddyn Werfil</i>	1776–9	Vaynol	4054
<i>Tyddyn gwerfil otherwise called Pwll y Bar</i>	1784	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tyddyn gwerful</i>	1794	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tyddyn Moerfil als pwll y barr</i>	1799	Vaynol	3751
<i>Tyddyn Werfol or Pwlllybar</i>	diwedd y 18g	Vaynol	4199
<i>Tyddyn Werfil alias Pwll y bar</i>	1809	Vaynol	4062

**tyddyn, e.p. Gwerful**

Mae'n amlwg oddi wrth sawl cyfeiriad uchod mai'r un lle oedd hwn â *Phwll-y-bar* (q.v.) Mae cofnod 1558 hefyd yn ategu'r un lleoliad, gan y dywed: 'tir gwervill vch gruff ap Jeuan iacet inter avon wne et priscoll'<sup>1</sup>, sef union lleoliad *Pwll-y-bar*. Y benbleth yw: pwy yn hollol oedd *Gwerful*? Mae cofnod 1516–17 yn dweud mai merch rhyw Iorwerth ab Ieuan ydoedd. Os mai'r un *Gwerful* oedd y wraig oedd biau'r 'tir' yn 1558 yn ogystal â'r 'tyddyn' yn 1516–17, mae enw ei thaid yr un fath (Ieuan), ond mae enw ei thad wedi ei nodi fel 'Gruffydd' yn awr yn hytrach nag 'Iorwerth'. Mae'n hollol bosib fod yma ddwy ferch o'r enw *Gwerful* yn yr un ardal.

**Tyddyn Gwyn ab Einion****Llanrug**

<i>Tythyn gwyn ap Eignn'</i>	1558	Ll&Brynodol	M18
------------------------------	------	-------------	-----

**tyddyn, e.p. Gwyn ab Einion**

Heb ei leoli.

**Tyddyn-hen****Llanrug**

Yr un lle yw hwn â *Llwyn-y-brain* q.v.

<sup>1</sup> 'Mae tir Gwerful. . . yn gorwedd rhwng afon Gwna a Phrysgol'

**Tyddyn Hywel ab Einion****Llanrug***Tuthyn hoell ap Eignn'*

1558

Ll&amp;Brynodol

M18

**tyddyn, e.p. Hywel ab Einion**

Heb ei leoli. Ni wyddys ychwaith pwy oedd *Hywel*, er ei fod o bosib yn frawd i'r *Gwyn* a grybwyllir uchod.

**Tyddyn Ieuan Llwyd Felinydd****Llanrug***Tythyn Jenn<sup>a</sup> lloid velinyth*

1558

Ll&amp;Brynodol

M18

**tyddyn, e.p. Ieuan Llwyd, melinydd**

Yn ôl y cofnod uchod yr oedd yr annedd hwn 'in kevyn priscoll'.

**Tyddyn Iorwerth ap Cuhelyn****Llanrug***Tuthyn Ier' ap Kehelyn*

1558

Ll&amp;Brynodol

M18

**tyddyn, e.p. Iorwerth ap Cuhelyn**

Ni wyddys ymhle yr oedd yr annedd hwn na phwy oedd *Iorwerth*.

**Tyddyn Ithel****Llanrug***Tuthyn Taylwr namely Tythyn Ithell*

1558

Ll&amp;Brynodol

M18

*Tythyn Ithell / tithyn Ithell*

1558

Ll&amp;Brynodol

M18

**tyddyn, teiliwr, e.p. Ithell**

Mae RhPDegwm yn cofnodi cae o'r enw 'Tyddyn Tailiwr' dan *Glan-afon-Ifor* (q.v. uchod). felly mae'n bosib mai yno ym Mhontrug oedd yr annedd hwn. Ni wyddys ai *Ithel* oedd y teiliwr yn yr enw, ond gweler yr awgrym dan *terra y Talwr koch* dan Gaeau Llanrug isod.

**Tyddyn John ap Robert Felinydd****Llanrug***Tuthin John ap Robert Velynydd*

1602/3

Ll&amp;Brynodol

D130

**tyddyn, e.p. John ap Robert, melinydd**

Heb ei leoli.

**Tyddyn-mawr****Llanrug****SH 5363***Tyddun mawr*

1770

ATT GAG

XQA/LT 6/13

*tyddyn mawr*

1775

ATT GAG

XQA/LT 6/13

*Tyddyn-mawr*

1780-7

P.S.Glynllifon

84 (61)

*tyddyn mawr*

1782

ATT GAG

XQA/LT 6/13

*Tyddyn Mawr*

1783

P. yr Aur

4058

*Tyddyn Mawr*

1783

P.S.Glynllifon

88

*Tyddyn Mawr*

1791

EwBangor

B1791/73 7072

*Tyddyn mawr*

1792

ATT GAG

XQA/LT 6/13

*Tuddun Mawr*

1806

ATT GAG

XQA/LT 6/13

*Tyddynmawr*

1813

P. yr Aur Add.

1891

*Tyddyn mawr*

1816-20

Dawson. Bangor

f34081, D1

*Tyddynmawr*

1821

P. yr Aur Add.

1965

*Tyddyn mawr*

1839

RhPDegwm

*Tyddynmawr*

1841

C. Vincent

2846

<i>Tyddyn-mawr</i>	1920	Map OS	XI S.W.
<i>Tyddyn-mawr</i>	1961	Map OS	SH 56
<i>Tyddyn Mawr</i>	2000	CCPost	(Llanrug)

***tyddyn, mawr***

I'r gogledd o bentref Llanrug oddi ar y lôn sydd yn arwain oddi yno i gyfeiriad Bethel.

**Tyddyn Meredydd ap Hoell                      Llanrug**

<i>Tythyn Meredydd ap Hoell</i>	1547–51	<i>E. Ch. Pro.</i>	20
---------------------------------	---------	--------------------	----

***tyddyn, e.p. Meredydd ap Hoell***

Yr unig beth a wyddom am y lle hwn yw ei fod yn nhrefgordd Rug, ac mae'n debyg mai'r un gŵr a gofféir yn enw *tir m'edd ap hoell ap Jann' dy* hefyd yn Rug (q.v. isod dan Gaeau Llanrug).

**Tyddyn-nant-y-felin                                      Llanrug**

<i>Tythyn nant y velyn</i>	1558	Ll&Brynodol	M18
----------------------------	------	-------------	-----

***tyddyn, nant, y, melin***

Yr unig beth a wyddom am y lle hwn yw ei fod yn 'kefn priscoll'.

**Tyddyn-porth    Llanrug**

<i>Tythyn porth</i>	1558	Ll&Brynodol	M18
---------------------	------	-------------	-----

***tyddyn, porth***

Mae'r cofnod uchod yn nodi fod yr annedd hwn yn agos at Ros-rug ('iuxta Rose y Ruke').

**Tyddyn-rhyddid    Llanrug    SH 5362**

<i>Tuthyn Reryd</i>	1542	<i>CCQSR</i>	15
<i>Tythyn Ririd iuxta Ros y Ruk</i>	1558	Ll&Brynodol	M18
<i>Tythyn y garth iuxta Tythyn Ririd</i>	1558	Ll&Brynodol	M18
<i>Tythyn Rhyddid</i>	1763	RHE	1
<i>Tyddun rhyddid</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>tyddyn y rhyddid</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>tyddun Ryddid</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>tyddun rhyddig</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tyddyn Rhyddig</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>tyddyn riddig</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tyddyn rhyddig</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Tuddun Huddug</i>	1805	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tuddun Hiddig</i>	1807	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>tyddyn ryddig</i>	1810	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tyddyn-Rhiddig</i>	1810	Henblas B	690
<i>tyddynryddid</i>	1812	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tyddyn rhyddig</i>	1816–20	Dawson, Bangor	134081, D1
<i>Tyddyn y Rhyddig</i>	1822	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tyddyn hiddig</i>	1826	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Tyddyn Rhyddid</i>	1831	Bangor	8554
<i>Tyddyn-rhuddyg</i>	1838	Map OS	78
<i>Tyddyn yr huddyg</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Tyddun rhyddid</i>	1849	Bangor	8555

<i>Tyddyn Hiddigl</i>	1856	Henblas B	1237
<i>Tyddyn Hiddigle</i>	1858	Henblas B	1246
<i>Tyddyn rhyddid</i>	1878	Bangor	8555
<i>Tyddyn Rhyddid</i>	1890–1	Bangor	8560
<i>Tyddyn-rhyddid</i>	1919	Map OS	
<i>Tyddyn Rhyddid</i>	1930–1	Bangor	8592
<i>Tyddyn-rhyddid</i>	1961	Map OS	SH 56
<i>Tyddyn-rhyddid</i>	2002	Map OS Explorer	OL 17

***tyddyn, e.p. Rhirid, yr, huddygl, rhyddid***

Oddi ar y lôn sydd yn mynd o Geunant i Lanrug wrth droi i'r chwith ar gyrion Tan-y-coed. Dywed Syr Ifor Williams: "Yn Llanrug troes Tyddyn *Rhirid* (enw dyn) yn Tyddyn *Rhyddid*." (*ELleoedd*, 7). Cyfeiria hefyd at enghraifft gyffelyb yn *Nant-rhirid* (Morgannwg) a droes yn *Llantryddid* (ibid.; gweler hefyd *PNDPH*, 123–4; *PNGlam*, 109; *ADG 1*, 66). Mae cofnod 1542 yn cyfeirio at '[Tuthyn] Reryd yn nhrefgordd Castellmai' ('[*Tuthyn*] *Reryd in predicta villa de Castellmay*'), ac mae'n bosibl mai'r un lle yw hwn. Fodd bynnag, mae gennym ddau gofnod hollol bendant o 1558, sydd nid yn unig yn dangos yn eglur mai'r e.p. *Rhirid* sydd yn yr enw, ond yn lleoli'r annedd 'wrth ymyl Rhos Rug' ('*iuxta Ros y Ruk*') ac yn agos at *Dyddyn-y-garth* (Ll&Brynodol M18). Ceir yr e.p. *Rhirid* mewn e.lle arall ym mhlwyf Llanrug: cofnodir *allte ffynnon Ririt* yn 1475/6 (Ll&Brynodol, D14) a *Gallt ffynnan ririt* yn 1498/9 (ibid, D36) yn ogystal ag yn 1558 (Ll&Brynodol M18). Gellir gweld sut y byddai'r enw anghyfarwydd *Rhirid* yn troi'n *rhyddid* gydag amser. Gellid yn hawdd hefyd gael cymysgu sain ar lafar rhwng *rhyddid* a *rhiddig*, a thybio fod a wnelo'r gair rywbeth â *huddygl*. Wedyn gellid fod wedi tybio fod *Tyddyn Huddyg* yn enw disgrifiadol ar dyddyn lle nad oedd y tân yn tynnu'n dda iawn, cf. *Twll-y-mwg* ym mhlwyf Trefdraeth, Môn (*ELMôn*, 81). Hawdd fyddai iddo gael ei ailbarchuso'n ddiweddarach a'i droi'n *Dyddyn-rhyddid*, gan dybied bod a wnelo'r enw rywbeth â thenantiaeth y tyddyn. Fodd bynnag, mae cofnodion 1558 yn profi'n sicr mai'r e.p. *Rhirid* sydd yn yr ail elfen.

<b>Tyddyn-slaters</b>	<b>Llanrug</b>	<b>SH 5063</b>
<i>ty ysglates</i>	1818	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Ty Slattes</i>	1819	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Tyslatars</i>	1821	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Ty Yslatters</i>	1822	ATT GAG XQA/LT 6/13
<i>Ty slaters</i>	1838	Map OS 78
<i>Ty Slater</i>	1839	RhPDeqwm
<i>Ty Slatter or Tyddynbocha</i>	1904	Bangor f33976
<i>Tyddyn-slaters</i>	1920	Map OS XI S.W.
<i>Tyddyn-slaters</i>	1961	Map OS SH 56
<i>Tyddyn-slaters</i>	2002	Map OS Explorer OL 17

***tyddyn, Saes. slaters***

Mae'r annedd hwn ar gyrion gogledd-orllewinol eithaf plwyf Llanrug, ar y ffin â phlwyf Llanbeblig yn ardal Rhosbodrual. Mae'r safle yn hen, ond adwaenid yr annedd gynt fel *Tyddyn-bocha* (q.v.). Tŷ oedd elfen gyntaf yr enw presennol am gyfnod, ond yn yr 20g. newidiodd i *Tyddyn*. Benth. o'r Saes. *slaters* yw'r ail elfen, sef gwŷr sydd yn toi adeilad â llechi<sup>1</sup>. Nodir *Cae Sclater* a *Chae Tyn Sclaters* yn Rhosbodrual yn RhPDeqwm plwyf Llanbeblig: mae'r rhain yn gysylltiedig â'r annedd uchod. Mae'n ddiddorol sylwi ar y modd

<sup>1</sup> Mae MR yn trafod nifer o enwau lleoedd sydd yn cynnwys yr elfen hon ac yn cyfeirio at *Dyddyn Sglatas*, Bangor, a *Thyslatas* yn Llanllechid a Llandegfan (*TCHSG*, 52–3. (1991–2), 23. Ceir hefyd *Cae Sclater / Cae Slater* yn Llangaffo (Dinam Hall 158). *Pant-sclater* yn Llanfair Mathafarn-eithaf, Môn (GM-J, 190), a *Bwlch y Slatters* ar y terfyn â Sir Feirionnydd (*ELISG*, 14).

y tyfodd yr *c* neu'r *g* yn y ffurfiau Cym. *ysglates*, *sclaters*; cf. y modd y trodd Saes. *slant* yn *ysglent* / *sglent* / *sclent* (EEW, 120).

### Tyddyn-teiliwr

### Llanrug

Gweler *Tyddyn-Ithel* uchod.

### Tyddyn-Whisgin

### Llanrug

### SH 5161

<i>terra hwiskyn ap kynwerik</i>	1558	Ll&Brynodol	M18
<i>Tuthyn huskyn</i>	1558	Ll&Brynodol	M18
<i>Tythin Huskin</i>	1696	Vaynol	3744
<i>Tyddyn Whiskin</i>	1766	EwBangor	B1766/102 3032
<i>Tyddyn Whiskin</i>	1777	EwBangor	B1777/95 4919
<i>Tyddyn chwiskin</i>	1778	P. yr Aur	20539
<i>Tyddin Whisca</i>	1781	Bangor	575
<i>Tythyne Wisgu</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Tyddyn Whiscin</i>	1796	P. yr Aur	18631
<i>Tyddyn wyscau</i>	1798	JE/MNW	
<i>Tyddyn whiskin</i>	1808	Rumsey Wms	1686
<i>Tyddyn Hwysgin</i>	1810	CyGTan	
<i>Tyddin wisgin</i>	1815	EwBangor	B1815/111 10998
<i>Tyddyn Wiskey</i>	1816–20	Dawson, Bangor	F34081, D1
<i>Tyddyn wiskin</i>	1819	EwBangor	B1819/94 11675
<i>Tyddynwhisken</i>	1824	P. yr Aur	4104
<i>Tyddyn Whiskin</i>	1824	Rumsey Wms	528–9
<i>Tyddyn wisgin</i>	1827	Rumsey Wms	978
<i>Tydd yn wsgn</i>	1831	Bangor	8554
<i>Tyddun wisgin</i>	1838	Bangor	1142
<i>Tyddyn wysgyn</i>	1838	Map OS	78
<i>Tyddyn-wisgin</i>	1847	EwBangor	B1847/147 17055
<i>Tyddyn whiskin</i>	1869	Bangor	f33975
<i>Tyddyn whiskin uchaf</i>	1869	Bangor	f33975
<i>Tyddyn Wisgin</i>	1886	Postal Dir.	173
<i>Tyddyn-hwys-gynt</i>	1891	Map OS	XVI N.W.
<i>Tyddyn whiskin</i>	1904	Bangor	f33976
<i>Tyddyn-whisgin</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Tyddyn Whiskin</i>	1930–1	Bangor	8592
<i>Tyddyn Whiskin Uchaf</i>	1930–1	Bangor	8592
<i>Tyddyn-whisgin</i>	1961	Map OS	SH 56
<i>Tyddyn Whisgin Bach</i>	2000	CCPost	(Caethro)
<i>Tyddyn Whisgin Uchaf</i>	2000	CCPost	(Caethro)

### *tyddyn*, e.p. *Whiskin* < *Hwysgin*

I'r chwith oddi ar yr A4085 wrth fynd o Gaethro i gyfeiriad Waunfawr. Ceir *Tyddyn-Whiskin* ym mhlwyf Llanwnda hefyd (q.v.). Cyfenw anghyffredin yw *Whiskin* sydd i'w gael o hyd yn nhref Caernarfon ar ddechrau'r 21g. (gwybodaeth bersonol). Nid yw *DS*, *WS* na *SW* yn nodi'r cyfenw hwn. Datblygodd o'r e.p.gwr. *Hwysgin* / *Hwysgyn*. Mae datblygiad enw'r annedd yn gliriach yma yn Llanrug nag yn yr annedd ym mhlwyf Llanwnda, gan y gwyddom fod gŵr o'r enw *Hwysgyn ap Cynwrig* ar un adeg yn berchen ar dir yn 'Kydnafon' (Ll&Brynodol M18). Ceir sawl cyfeiriad at *Gydnafon*: y cwbl a wyddom amdano yw ei fod yn nhrefgordd Treflan, ac felly ym mhlwyf Llanbeblig yng nghyffiniau Waunfawr (gweler *Cae Cydnafon* dan Gaeau Llanbeblig). Mae'r cofnod o 1558 uchod yn lleoli *Tuthyn huskyn* yn 'priscoell et kefn priscoell'. Gan fod y fan honno yn weddol agos at Waunfawr, a'r enw yn un eithaf anghyffredin, mae'n bur debyg mai'r un gŵr sydd yn y ddau gyfeiriad, ac mai *Hwysgyn ap*

*Cynwrig* a roes ei enw i'r annedd hwn. Sylwer fod cofnod 1810 o restr y tanysgrifwyr i *Corph y Gaingc Dafydd Ddu Eryri* yn dangos nad oedd yr enw gwreiddiol wedi llwyr ddiflannu o ymwybyddiaeth y werin. Nid yw'r enw yn y ffurf *Whiskin* yn unigryw mewn enw lle: ceir yr un ffurf nid yn unig ym mhlwyf Llanwnda, ond yn 1650, 1653 a 1726 cofnodir *Kay Whiskin* yn Owrtyn, Sir y Fflint (Elwes, 840, 864, 1103).

### Tyddyn-y-clochydd

### Llanrug

<i>Tythyn y cloghyth in Ruke</i>	1506	Ll&Brynodol	D987
<i>tythyn y cloghyth</i>	1506	Ll&Brynodol	D988

### tyddyn, y, clochydd

Heb ei leoli. Gweler hefyd *Bryn-y-clochydd* uchod.

### Tyddyn-y-mab-llwyd

### Llanrug

<i>Tythyn y mab lloid</i>	1558	Ll&Brynodol	M18
---------------------------	------	-------------	-----

### tyddyn, y, mab, llwyd

Heb ei leoli.

### Tyn-y-coed

### Llanrug

### SH 5263

<i>Ty-yn y-coed</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>ty yn Coed</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>tyddun y Coud</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>tuddun y Coed</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>tyddyn y Coed</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 6/13
<i>Cae gipris</i>	1774	EwBangor	B1774/91 3775
<i>Cae Cypris</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae gipris</i>	1777	EwBangor	B1777/110 4934
<i>Caecipris</i>	1777	EwBangor	B1777/112 4936
<i>Caegipris</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Caygipris</i>	1783	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae Ciprus</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Cae Cipris</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Cae Cipris</i>	1795	Ll&Brynodol	M187
<i>Cae Gipris</i>	1801	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae Grpis</i>	1804	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae Cipris</i>	1807	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Caecipris</i>	1809	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Ca Cipris</i>	1811	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Caegipris</i>	1817	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae Gibris</i>	1824	P. yr Aur	4111
<i>Cae cypris</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Cae Cipris</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Caecipris</i>	1874	Worrall	213
<i>Cae cipris</i>	1890–1	Bangor	8560
<i>Cae-ciprys</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Cae-ciprys</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Cae-ciprys</i>	2002	Map OS	Explorer OL17

***cae, ciprys***

Ar gyrion de-orllewinol Rhostryfan yn ardal Rhos-isaf. Dengys *GPC* fod *ciprys*, *ciprws*, sef 'cynnen' neu 'ymryson' yn hen air yn y Gymraeg. Ceir y ffurf *ciprys* yn y 14g. a chadwyd yr elfen *ciprys* a'r ystyr o ymrafael yn fyw hyd heddiw yn y ferf *ymgiprys*. Mae'n debyg fod rhyw anghydfod wedi bod ynglŷn â pherchnogaeth y tir rywbyrd. Ceir ymdriniaeth bellach ar hyn dan *Cae'r-ymryson* yn Anheddau Llanbeblig q.v.

Yn sicr, yr oedd J. Lloyd-Jones yn cyfeiliorni wrth darddu *ciprys* o'r Saes. *bickerings*, er ei fod wedi dod at yr un ystyr o 'ymryson' wrth wneud hyn (*ELISG*, 39). Fodd bynnag, mae'n cyfaddef fod *ciprys* yn hen air Cymraeg.

Gallai'r ffurfiau *cypris* uchod (1774, 1775, 1839) awgrymu dylanwad *cypres*, sef cypreswydden, mewn ymgais i esbonio'r ail elfen anghyfarwydd.

<b>Cae-Elin Bulkeley (Cae Buckley )</b>	<b>Llanwnda</b>		<b>SH 4558</b>
<i>Cadyllin Bulkeley</i>	1725	NewGlynllifon	XD2 / 7655
<i>Cay Ellin Puckly</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae Ellin Buckly</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae Elin Bwcla</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>gay Elin bwgla</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae Ellin Buckley</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cady Elin Bulkeley</i>	1781	NewGlynllifon	XD2 / 7658
<i>Cady Elin Bulkeley</i>	1782	NewGlynllifon	XD2 / 7661-2
<i>Cae Ellin Bouckley</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae Ellin Bouckly</i>	1783	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae Ellin Bulkeley</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Cae Ellin Puckley</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae Ellin Bulkley</i>	1803	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Caellin Bulfrelly</i>	1810	NewGlynllifon	XD2 / 7671
<i>Cae Ellen-Bulkeley</i>	1811	Poole	3994
<i>Cae Ellin Buckley</i>	1824	P. yr Aur	4111
<i>Cae Helen Bwcla</i>	1838	Map OS	78
<i>Cae Ellen Bulkley</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Cae Ellen Bulkeley</i>	1890-1	Bangor	8560
<i>Cae-Elen-Bulkeley</i>	1891	Map OS	XV S.E.
<i>Cae Ellen Bulkeley</i>	1897-1900	Griff.Jo.	148
<i>Cae-Elen-Bulkeley</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Cae Buckley</i>	2000	CCPost	(Saron)

#### **cae, e.p. Elen Bulkeley**

Rhwng Saron a phentref Llandwrog. Elfennau'r enw yw *cae* + yr e.p. *Elen Bulkeley*, gyda sawl amrywiad yn sillafiad y ddau e.p. Dengys cofnodion 1778, 1779 ac 1838 y cymreigio a fu yn y cyfenw *Bulkeley*, lle ceir y terfyniad *-ey* yn troi'n *-a* (cf. *Hinkley* > *Incla* yn Maesincla, Llanbeblig, a *Bisley* > *Bisla* yn Nhyddyn Bisle, Llanrug). Merch William Bulkeley yr hynaf o Fiwmares oedd yr Elen hon, a gwraig gyntaf Robert ap Maredudd o Llynllifon a'i priododd yng nghanol y 15g (*JEGPed*, 42). Canodd Tudur Aled farwnad i 'Elen Bwclai, gwraig Robert ap Maredudd ap Hwlcyn Llwyd', gan alaru am y golled i Llynllifon wedi: 'Dwyn seren dinas araul / Duwmares, hud am wres haul' (*GTA*, 305-7). Yn ystod yr 20g cwtogwyd enw'r annedd i *Gae Buckley*, gan golli talp o hanes wrth wneud hynny.

<b>Cae-garw</b>	<b>Llanwnda</b>		<b>SH 4857</b>
<i>Kay Garrw</i>	1655	Baron Hill	3237
<i>Cae garw</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Cae-garw</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Cae Garw</i>	2000	CCPost	(Rhostryfan)

**cae, garw**

Ar gyrion de-orllewinol Rhostryfan yn ardal Rhos-isaf.

<b>Cae-glas</b>	<b>Llanwnda</b>		<b>SH 4657</b>
<i>y Kay glas</i>	1623	Baron Hill	3219
<i>Caeglas</i>	1699	Ll&Brynodol	D978
<i>Cae glas</i>	1700	Ll&Brynodol	D1178
<i>Caeglas</i>	1716	Ll&Brynodol	D979
<i>Cae Glaes</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae Glaes</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae Glass</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae Glâs</i>	1789	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae glas</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Cae-Glâs</i>	1794	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae glas</i>	1797	EwBangor	B1797/74 7983
<i>Cau Glas</i>	1807	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae Glas</i>	1809	Rumsey Wms	424
<i>Cae Glas</i>	1811	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Caeglas</i>	1825	EwBangor	B1825/143 12638
<i>Cae-glâs</i>	1838	Map OS	78
<i>Cae Glas</i>	1856	EwBangor	B1856/144 19267
<i>Cae-glâs</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Cae-glâs</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Cae Glas</i>	2000	CCPost	(Llanwnda)

**cae, glas**

Ar gyrion de-orllewinol plwyf Llanwnda wrth fynd tuag at Landwrog yng nghyffiniau Rhedynog-felen.

<b>Cae-hen</b>	<b>Llanwnda</b>		<b>SH 4958</b>
<i>Cae hên</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae Hen</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae hen</i>	1776–9	Vaynol	4054
<i>Cae hên</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae hên</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Cae hên</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Cae Hen</i>	1802	EwBangor	B1802/123 8796
<i>Caehên</i>	1817	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae-hên</i>	1838	Map OS	78
<i>Cae hen</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Caehen</i>	1904	Bangor	f33976
<i>Cae-hên</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Cae Hen</i>	2000	CCPost	(Rhostryfan)

**cae, hen**

Mewn llecyn diartffordd ar gyrion gogleddol eithaf Rhostryfan yng nghyffiniau hen Gyffordd Tryfan ar Reilffordd Eryri. Fel rheol yn y Gymraeg daw'r ans. *hen* o flaen enw, e.e. 'hen wr', ac mewn e.lle: *Hendy* (Llb). Os daw ar ôl yr enw gwneir hynny er mwyn pwysleisio grym yr ans. h.y. yr hynafedd (GG, 210).

<b>Cae-Howel</b>	<b>Llanwnda</b>		<b>SH 5356</b>
<i>Caehowel</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/5

<i>Cae howel</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae Howell</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Cae howel</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Cae howel deg</i>	1795	Ll&Brynodol	M187
<i>Cae howell</i>	1808	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Caehywal</i>	1818	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae Howell</i>	1834	Bangor	8554
<i>Cae hoewel</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Cae-Hywel</i>	1919	Map OS	XXI N.E.
<i>Cae Hywel</i>	2000	CCPost	(Betws Garmon)

***cae, e.p.Hywel?, hoywal?***

Mae'n debyg mai'r *Cae-Hywel* a nodir bellach yn y CCPost dan Betws Garmon yw hwn. Byddai ar gyrion eithaf hen blwyf Llanwnda. Gallai sillafiad y cofnod yn RhPDegwm yn awgrymu mai *hoywal* = 'cwt, sied' sydd yma, ond mae'r holl gofnodion eraill yn awgrymu'r e.p. *Hywel*, yn enwedig cofnod 1795 sydd yn ei gyplysu â'r ans. 'teg'.

**Cae-Llywarch**

**Llanwnda**

<i>Cae Lowarch</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae lowarch</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae Lywarch</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae Lywarch</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae Llowarch</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Cae Lowarch</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Caelowarch</i>	1795	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae Lowarch</i>	1807	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae lowarch</i>	1810	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae Lowrach</i>	1811	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae Lowarch</i>	1824	P. yr Aur	4111
<i>Caeffowarch</i>	1834	Bangor	8554

***cae, e.p.Llywarch***

Heb ei leoli. Mae'n amlwg mai'r e.p. *Llywarch* sydd yn yr ail elfen, ond mae'n syndod pa mor anghyfarwydd oedd yr enw hwn, fel y dengys sillafiad cofnodion 1811 a 1834.

**Cae-Madog**

**Llanwnda**

**SH 4559**

<i>Cae Madog</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae Madog</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Caermadog</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae fadog</i>	1778	Roger Lloyd II	182-3
<i>Cae Fadog</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Cae-Fadog</i>	1919	Map OS	XV S.E.

***cae, e.p. Madog***

Oddi ar y lôn sydd yn mynd i lawr o Saron at lannau Bae'r Foryd. Ni wyddys pwy oedd *Madog*.

**Cae-mawr**

**Llanwnda**

**SH 4959**

<i>tythyn y Kae mawr</i>	1592	Henblas B	125
<i>Kay Mawr</i>	1612	Poole	3364
<i>tuthyn y Cay mawr</i>	1619	Henblas B	128
<i>Kae Mawr</i>	1629	Baron Hill	3231

<i>Kay mawr</i>	1646 / 7	Baron Hill	3236
<i>Tythin y Cae Mawr</i>	1696	Vaynol	3744
<i>Cae Mawr</i>	1739	EwBangor	B1739/82 99855
<i>Cae mawr</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae mawr</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae mawr</i>	1776-9	Vaynol	4054
<i>Cae Mawr</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae Mawr</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Caemawr</i>	1788	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae mawr</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Cae mawr</i>	1791	EwBangor	B1791/76 7075
<i>Cae mawr</i>	1797	EwBangor	B1797/75 7985
<i>Cae Mawr</i>	1810 / 11	Vaynol	4063
<i>Cae mawr</i>	1816	Rumsey Wms	895
<i>Caemawr</i>	1817	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Caumawr</i>	1819	EwBangor	B1819/112 11693
<i>Cae-mawr</i>	1838	Map OS	78
<i>Cae mawr</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Cae-mawr</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Cae Mawr</i>	2000	CCPost	(Bontnewydd)

#### ***cae, mawr***

Mae'n debyg mai'r un lle yw hwn â'r *Cae-mawr* a gofnodwyd yn Anheddau Llanbeblig fel *Cae-mawr* B2 (q.v.). Byddai'n bosib i'r *Cae-mawr* hwnnw fod wedi cael ei gofrestru ym mhlwyfi Llanbeblig a Llanwnda oherwydd ei leoliad ar ffin y ddau blwyf. Mae'r annedd ei hun ym mhlwyf Llanwnda, ond byddai ei dir wedi ymestyn o bobtu afon Gwyrfaï i'r ddau blwyf fel ei gilydd.

<b>Cae'r-gors</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 5751</b>	
<i>Cae'r gors</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Cau gors</i>	c. 1848	Bangor	535
<i>Cae'r-gors</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Cae'r Gors</i>	1959	CA	180
<i>Cae Gors</i>	2000	CCPost	(Rhosgadfan)

#### ***cae, y, cors***

Yr annedd hwn yng nghanol pentref Rhosgadfan yw un o gartrefi enwocaf Cymru. Yma y magwyd Kate Roberts, ac anfarwolwyd *Cae'r-gors*, a'r ardal yn gyffredinol, yn ei gwaith, yn arbennig yn *Y Lôn Wen*. Ac yntau wedi ei adeiladu yn 1833, yr oedd y tyddyn hwn ymhlith y to cyntaf o dyddynnod y caewyd eu tiroedd o dir comin Rhosgadfan (*TyCh*, 45).

<b>Cae'r-helygen</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 4859</b>	
<i>Cae heligen</i>	1725	NewGlynllifon	XD2 / 7655
<i>Cae'r lygan</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>caer helygen</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae'r Lygan</i>	1777	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae helygan</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Caer helygen</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae r helygan</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae heligen</i>	1781	NewGlynllifon	XD2 / 7658
<i>Cae yr helygen</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae heligen</i>	1782	NewGlynllifon	XD2 / 7661-2
<i>Cae yr Hellygen</i>	1783	ATT GAG	XQA/LT 5/5



<i>Cae'r trelygan</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Cae'r helygen</i>	1784	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Caehelygan</i>	1788	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae helygan</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Cae y Lygan</i>	1790	EwBangor	B1790/122 6905
<i>Cae'r Lygan</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae Fygan</i>	1795	EwBangor	B1795/90 7724
<i>Caerhelygan</i>	1809	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae rhelygan</i>	1810	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Caehelygan</i>	1810	NewGlynllifon	XD2 / 7671
<i>Caehelygan</i>	1812	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Caerlygan</i>	1818	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae'rhelygan</i>	1819	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Caerhelygan</i>	1834	Bangor	8554
<i>Cae'r-lygan</i>	1838	Map OS	78
<i>Caerlygan</i>	1839	RhPdegwm	
<i>caurlygan</i>	c.1848	Bangor	535
<i>Caerlygan</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Cae'r-helygen</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Cae Helygen</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Cae'r helygen</i>	2002	Map OS Explorer	OL 17

***cae, yr, helygen***

Rhwng Rhos-isaf a Bontnewydd. Mae'n amlwg mai *helygen* yw'r drydedd elfen, er bod y ffurf lafar *lygan* yn digwydd droeon. Coeden â changau gwyrrog sydd yn tyfu mewn mannau gwlyb yw hon ('willow').

<b>Cae'r-moel</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 4858</b>
<i>Cae-r-Moel</i>	1724	Henblas B 164
<i>Cae-r-Moel</i>	1725	Cynhaiarn 472
<i>Cae Moyle</i>	1736	Henblas B 160
<i>Cae'r Moel</i>	1743	Henblas B 168
<i>Caur Moul</i>	1746	EwBangor B1746/75 100863
<i>Cae Moyle</i>	1760	Henblas B 175
<i>Cae'r moel</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Cae'r moil</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>caer moel</i>	1774	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Cae'r Moel</i>	1777	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Caermoel</i>	1778	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Cae yr Moyl</i>	1782	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Caer Moyl</i>	1783	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Caer Moel</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Cae moel</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>Cae'r Moyle</i>	1792	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Caermoyl</i>	1795	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Cae moyle</i>	1796	Poole 3801
<i>Caer Moel</i>	1804	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Cae Moel</i>	1811	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Cae-moel</i>	1817	P. yr Aur 21143
<i>Caemoel</i>	1824	P. yr Aur 21306
<i>Cae moel / Caermoel / Caer Moel</i>	1824	NewGlynllifon XD2 / 6899
<i>Cae-moel</i>	1919	Map OS XV S.E.
<i>Cae-moel</i>	1959	Map OS SH 45
<i>Caer Moel</i>	2000	CCPost (Dinas)

**cae, y, moel**

Oddi ar y lôn sydd yn mynd o ganol Dinas i Rostryfan. Gellir gweld yr annedd yn glir iawn o Reilffordd Eryri yn fuan ar ôl gadael gorsaf Dinas. *Cae'r-moel* sydd ym mwyafrit y cofnodion cynharach, ac mae hyn yn arwyddocaol. Nid cae moel a llwm sydd yma neu *Cae-moel* a geid, er mai fel hyn y deallir yr enw yn rhai o'r cofnodion diweddarach. Nid cae ar lethr bryn sydd yma ychwaith neu fe fyddai'n *Cae'r-foel* gan mai eb. yw *moel* yn yr ystyr o fryn. Mae cysondeb y ffurf *Cae'r-moel* yn y cofnodion cynnar yn awgrymu mai'r eg. un. *moel* sydd yma, sef gŵr penfoel. Efallai ei fod yn cyfeirio at y perchennog gwreiddiol<sup>1</sup>.

<b>Cae'r-odyn</b>	<b>Llanwnda</b>		<b>SH 4957</b>
<i>Cae r odin</i>	1696	Vaynol	3744
<i>Cae'r Odyn</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Caerodyn</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae'r Odyn</i>	1776/7	Vaynol	4054
<i>Cae'r Odyn</i>	1777	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Caer odyn / Caerodyn Bâch</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Caer odyn / Caer odyn bach</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae y rodyn</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae yr Odun</i>	1783	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae'r Odyn</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Caerodyn</i>	1783	EwBangor	B1783/120 5966
<i>Caerodyn</i>	1788	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae'r Odyn</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Cae Rodyn</i>	1794	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae'r Odyn / Caer odyn bach</i>	1799	Vaynol	3751
<i>Cae Rodin</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Caerodun</i>	1809	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Caer Odyn / Caer Odyn bach</i>	1810/11	Vaynol	3751
<i>Caerodyn</i>	1812	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Caerodun</i>	1818	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae'roдын</i>	1818	EwBangor	B1818/117 11525
<i>Garodyn</i>	1824	P. yr Aur	4111
<i>Cae'r odyn</i>	1838	Map OS	78
<i>Cae'r odyn</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Cae'r Odyn</i>	1845	EwBangor	B1845/116 16598
<i>Caerodyn</i>	1853	EwBangor	B1853/166 18492
<i>Cae Rodyn</i>	1874	Worrall	213
<i>Cae'r odyn</i>	1889-90	Sutton	148
<i>Cae'r-odyn</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Caer Odyn</i>	2000	CCPost	(Rhostryfan)

**cae, yr, odyn**

Ar gyrion de-ddwyreiniol Rhostryfan. Mae'n amlwg fod croeso cynnes ar aelwyd *Cae'r-odyn* ers talwm, a barnu oddi wrth rigwm Wiliam Bifan, y bardd gwlad o'r Gadlys: 'Wrth ddod yn ôl yn llipryn / O ladd y mawn a'r rhedyn / Caf de a sleisen o gig moch / Gan Martha Goch Cae'roдын' (*MTT*, 86; *TyCh*, 44). Am yr elfen *odyn* gweler *Buarth yr odyn* dan Gaeau Llanbeblig.

<sup>1</sup> Gweler trafodaeth o'r elfen *moel* yn *ELLEoedd*, 16.

<b>Cae-rhyg</b>	<b>Llanwnda</b>		<b>SH 4957</b>
<i>Cae Rhug</i>	1761	EwBangor	B1761/97 1884
<i>Cae rhÿg</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Caerhÿg</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae Rhug</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae rhug</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae rhyg</i>	1784	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae rhyg</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Cae Rhyg</i>	1795	Ll&Brynodol	M187
<i>Caerhÿg</i>	1807	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Caerhug</i>	1808	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae Rug</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D4
<i>Gaerhug</i>	1824	P. yr Aur	4111
<i>Caerhyg</i>	1834	Bangor	8554
<i>Cae-rhyg</i>	1838	Map OS	78
<i>Cae rhug</i>	1839	RhPdegwm	
<i>Caerhug</i>	1889–90	Sutton	148
<i>Cae-rhÿg</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Cae Rhug</i>	2000	CCPost	(Rhostryfan)

***cae, rhyg***

Ym mhen dwyreiniol eithaf Rhostryfan. Yr ail elfen yw *rhyg*, sef cnwd gwydn y *Secula cereale* y defnyddir ei rawn i borthi anifeiliaid ac i wneud blawd a whisgi. Gweler *Hafod-y-rhyg-uchaf* dan Anheddau Llanbeblig.

<b>Cae'r-Sais</b>	<b>Llanwnda</b>		<b>SH 5057</b>
<i>Caer Sais</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Caer Sais</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae'r Sais</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae'r Sais</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae yr Sais</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae'r Sais</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Caer sais</i>	1799	Poole	3864
<i>Cae Sais</i>	1801	Rumsey Wms	765
<i>Cae Saes</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D4
<i>Caesais</i>	1834	EwBangor	B1834/108 14316
<i>Cae'r Sais</i>	1838	Map OS	78
<i>Cae'r Sais</i>	1839	RhPdegwm	
<i>Cae'r-Sais</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Caer Sais / Caer Sais Bach</i>	2000	CCPost	(Rhostryfan)

***cae, y, Sais, bach***

Rhwng Rhostryfan a Rhosgadfan. Ni wyddys pwy oedd y Sais a roes ei enw i'r annedd.

<b>Cae-ysgubor</b>	<b>Llanwnda</b>		<b>SH 5358</b>
<i>cay r skybor</i>	1619	Henblas B	128
<i>Cay r Scybor</i>	1679	Ll&Brynodol	D597
<i>Cae Skybor</i>	1693	Ll&Brynodol	D603–4
<i>Cae'r Skybor</i>	1720	Ll&Brynodol	D345
<i>Cae Scybor</i>	1735	Ll&Brynodol	R40
<i>Cae'r Skybor</i>	1748	Ll&Brynodol	D402–3
<i>Cae yr Scybor</i>	1766	Ll&Brynodol	R46

<i>Cae yr Scybor</i>	1768	Ll&Brynodol	R47
<i>Caer Scybor</i>	1770	Ll&Brynodol	R47
<i>Cae'r Scubor</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae Ysgubor</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Caer Scybor</i>	1771	Ll&Brynodol	R48
<i>Cae y'r Scybor</i>	1772	Ll&Brynodol	R49
<i>Cae'r ysgybor</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae'r Skibor</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae Sgubor</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Caer Sgubor</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Caer Sgubor</i>	1783	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae Scybor</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Cae Scybor</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Cae yr skybor</i>	1801	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Caeysgybor</i>	1819	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Caersgubor</i>	1820	EwBangor	B1820/102 11855
<i>Caesgybor</i>	1834	Bangor	8554
<i>Cae Scybor</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Cae'r ysgubor</i>	1853	EwBangor	B1853/170 18496
<i>Caesgubor</i>	1874	Worrall	213
<i>Cae-ysgubor</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Cae Ysgubor</i>	2000	CCPost	(Waunfawr)

#### **cae, yr, ysgubor**

Nid nepell o afon Gwryfai ar gyrion pentref Betws Garmon, er bod y CCPost yn lleoli *Cae-ysgubor* yn Waunfawr. Pan luniwyd y RhPDegwm yr oedd plwyf Llanwnda yn ymestyn dros y mynydd o Rosgafan i lawr at afon Gwryfai.

<b>Carreg-diamond</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 4957</b>
<i>Carregdiamond</i>	1839	RhPDegwm
<i>Gareg Deimon</i>	1851	Cyfrifiad
<i>Carregdeimon</i>	1854	Myn. Horeb 030
<i>Garreg Deimon</i>	2000	CCPost (Rhostryfan)

#### **carreg, Saes. diamond?**

Yng nghanol pentref Rhostryfan. Mae hwn yn enw anodd ei esbonio. Yr oedd annedd o'r enw *Carreg y Dimon* yn Llanfair-yng-Nghornwy, Môn yn 1824 (C.in W. B/DL/340), a nodir *Ffynnon Carreg Diamond* yn yr un plwyf (*ELIMôn*, 67), ond nid yw hynny'n esbonio'r enw hwn yn Rhostryfan onid oedd cysylltiad rhwng y ddau le a bod y naill wedi ei enwi ar ôl y llall. *Cerrig diamond* yw'r ffurf ar fap y Degwm, er mai *carreg* yw'r elfen gyntaf yn RhPDegwm ac yng nghofnod 2000. Ceir ambell *Diamond Field* yn Lloegr, ond cyfeiria'r enw yno at siâp y cae (*EFN*, 134). Yma, mae fel pe bai'n cyfeirio at y maen gwerthfawr ei hun. Efallai fod yno garreg a oedd yn disgleirio mewn rhyw fodd.

<b>Cefn</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 4858 (1) / SH 4757 (2)</b>
<i>Kefneiltyfi</i>	1716	Thorowgood 76
<i>Cefn</i>	1735	Henblas B 167
<i>Kefn otherwise Kefn cil tyfi</i>	1736	Henblas B 160
<i>Cefn or Cefn cil tyfi</i>	1738	Constable Ellis 18
<i>Cefn</i>	1749	Henblas B 169
<i>Kefn otherwise Ciltifi</i>	1760	Henblas B 175
<i>Cefn</i>	1761	EwBangor B1761/95 1882
<i>Cefn / Gevefn</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/5

<i>Gevefn</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Gevefn</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Geuefn</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Ceven</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Ceven</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cefn</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Cefn</i> (1)	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Cefn</i> (2)	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Cefn</i>	1791	EwBangor	B1791/74 7073
<i>Cefn Cul dyfi</i>	1795	Ll&Brynodol	M187
<i>Cefn</i>	1808	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Kefn otherwise Ciltifi otherwise Cefn</i>	1809	RHE	9a & b
<i>Cefn</i>	1812	Rumsey Wms	864
<i>Cefn</i>	1817	P. yr Aur	21143
<i>Gefn</i>	1818	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cefn</i> (1)	1838	Map OS	78
<i>Cefn cildyfa</i>	1838	Map OS	78
<i>Cefn</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Cefn</i>	1842	EwBangor	B1842/104 15997
<i>Cefn Dolydd</i>	1867	Bangor	8555
<i>Cefn Dolydd</i>	1890–1	Bangor	8560
<i>Cefn</i> (1) / <i>Cefn</i> (2)	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Cefn</i> (1) / <i>Cefn</i> (2)	1959	Map OS	SH 45
<i>Cefn Hendre</i>	2000	CCPost	(Llanwnda)
<i>Cefn</i> (1)	2002	Map OS Explorer	OL17
<i>Cefn Hendre</i>	2002	Map OS Explorer	OL17

### ***cefn, cil, dyfi / tyfi, hendre***

Mae dau annedd o'r enw *Cefn* ym mhlwyf Llanwnda, ac mae'n anodd iawn gwahaniaethu rhyngddynt yn y cofnodion. Saif *Cefn* (1) oddi ar y lôn sydd yn mynd o gyffordd Ffrwd-caedu ar gyrion Bontnewydd i Rostryfan. Adwaenir hwn yn wastad yn syml fel *Cefn*. Saif *Cefn* (2) nid nepell o afon Carrog ar gyrion pentref Llanwnda yn ardal Dolydd. Ar un adeg adwaenid hwn fel *Cefn Cil Tyfi / Dyfi*, enw sydd yn anodd ei esbonio, gan na ellir profi bod unrhyw gysylltiad rhyngddo â'r enw *Dyfi*. Yn ddiweddarach, anghofwyd y *Cil Dyfi* ac adwaenid *Cefn* (2) hefyd fel *Cefn*. Mae cofnodion 1867 ac 1890–1 yn cyfeirio ato wrth yr enw disgrifiadol *Cefn Dolydd* sydd yn ei leoli'n berffaith. Yn ddiweddarach fyth, aethpwyd i alw *Cefn* (2) yn *Cefn Hendre*, yn ddiau am ei fod yn cefnu ar yr annedd o'r enw *Hendre*.

<b>Cefn-hengwrt</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 4557</b>	
<i>Gevefn yr Hengwrt</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Gevefn yr Hengrt</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cefn yr Hengwrt</i>	1772	EwBangor	B1772/92 4089
<i>Cefn Rengowrd</i>	1777	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cefn yr Hengwrt</i>	1778	P. yr Aur	14494
<i>gefn rengowrd</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cefn'r hengwrt</i>	1786	P. yr Aur	14496
<i>Cefn'r Hengwrt</i>	1787	P. yr Aur	14497
<i>Cefn yr hengwrt</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Cefn'r hengwrt</i>	1799	P. yr Aur	14500
<i>Cefn'r hengwrt</i>	1802	P. yr Aur	20732
<i>Cefn'r hengwrt</i>	1804	P. yr Aur	14514
<i>Cefn'r hengwrt</i>	1810	P. yr Aur	20895
<i>Cefn hengwrt</i>	1810	Rumsey Wms	434–5
<i>Cefn hengwrt</i>	1811	Rumsey Wms	438–9, 440

<i>Cefn yr hengwrt</i>	1815	Rumsey Wms	441-2
<i>Cefn yr hengwrt</i>	1816	Rumsey Wms	547-8
<i>Cefn yr hêngwrt</i>	1816-20	Dawson, Bangor	f34081, D4
<i>Cefnhengwrt</i>	1818	P. yr Aur	21183
<i>Cefnhengwrt</i>	1824	P. yr Aur	4111
<i>Cefn rhengwrt</i>	1838	Map OS	78
<i>Cefn hengwrt</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Cefn Rengwrt</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Cefn rhengwrt</i>	1867	Bangor	8555
<i>Cafnrhengwrt</i>	1886	Postal Dir.	175
<i>Cefn- 'rhen-gwrt</i>	1889-90	Sutton	148
<i>Cefnhengwrt</i>	1890-1	Bangor	8560
<i>Cefn-hengwrt</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Cefn-hengwrt</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Cefn Rhengwrt</i>	2000	CCPost	(Llanwnda)

***cefn, yr, hen, gwrt***

Nid nepell o'r ffin rhwng plwyfi Llanwnda a Llandwrog ac afon Carrog fel y rhed i mewn i fae'r Foryd. Elfen gyntaf yr enw yw *cefn*, sydd yma yn dynodi lleoliad, sef y tu cefn. yn hytrach na 'chefnen'. Mae'r annedd yn eithaf agos at Redynog-felen-fawr (q.v.). Honnai W.Gilbert Williams mai arwyddocâd yr enw yw mai yn yr ardal hon yr oedd *gwrt* neu fferm ('grange') mynaich Rhedynog-felen, a bod yr annedd y tu cefn i'r hen gwrt hwnnw (*MTT*.17-18).

<b>Ceunant</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 4957</b>	
<i>Ceunant</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Ceunant</i>	2000	CCPost	(Rhostryfan)

***ceunant***

Yng nghanol pentref Rhostryfan. Ystyr *ceunant* yw 'hafn, nant, neu gwm dwfn'.

<b>Chatham</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 4557</b>	
<i>Tyddyn Chatham</i>	1808	NewGlynllifon	XD2 / 7441
<i>Tyddyn Chatham</i>	1808	NewGlynllifon	XD2 / 6894
<i>Tyddyn Chatham</i>	1813	NewGlynllifon	XD2 / 7442
<i>Chatham fawr / Chatham bach</i>	1816-20	Dawson, Bangor	f34081, D4
<i>Tyddyn Chattam</i>	1837	C. Vincent	2861
<i>Tyddyn Chatham</i>	1837	NewGlynllifon	XD2 / 7445
<i>Tyddyn Chatham</i>	1838	NewGlynllifon	XD2 / 7450
<i>Chatham farm</i>	1838	Rumsey Wms	1097
<i>Chatham</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Chatham</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Chatham</i>	1874	Worrall	213
<i>Chatham / Tyddyn Chatham</i>	1885	NewGlynllifon	XD2 / 7451, 7453
<i>Chatham</i>	1889-90	Sutton	148
<i>Chatham Farm / Chatham-bâch</i>	1891	Map OS	XV S.E.
<i>Chatham Farm / Chatham-bâch</i>	1919	Map OS	XV S.E.

***e.lle Chatham***

Yn agos iawn at afon Carrog lle mae'n llifo i mewn i fae'r Foryd. Yn ôl y trigolion lleol enw dychanol yw hwn<sup>1</sup>. Yr oedd yma iard fechan lle adeiledid cychod, ac mae'r enw'n gyfeiriad cellweirus at ddociau enwog y llynges yn Chatham, swydd Caint. Mae cofnod 1813 yn nodi 'parcel of land formerly part of common marsh lands called Morfa Dinas Dinlle ...called Tyddyn Chatham'. Nid yw *Chatham* wedi ei nodi ar fapiau modern<sup>2</sup> nac yn y CCPost, ond mae arwyddbost yn nodi ei fod yno o hyd (gwybodaeth bersonol, 2006). Ceir *Chatham* hefyd yn Llanfihangel-y-Creuddyn (AMR).

Cilfechydd	Llanwnda		SH 5258
<i>Y Cilfechydd</i>	1690	Ll&Brynodol	D895
<i>y Cilfechydd / bûarth y Cilfechydd</i>	1690	Ll&Brynodol	D896–7
<i>y Cilfechydd</i>	1695	Ll&Brynodol	D899–900
<i>Y Cilfechydd</i>	1727	Ll&Brynodol	D910–11
<i>y Cilfechydd</i>	1734	Ll&Brynodol	D364–5
<i>Y Cilfechydd otherwise Tyn y trayan</i>	1743	Ll&Brynodol	D387–8
<i>Cilfechydd otherwise Trayan</i>	1747–8	Ll&Brynodol	D399
<i>Cilfechydd otherwise Trayan</i>	1748	Ll&Brynodol	D402–3
<i>Cilfechýdd</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Chilpechydd alias Frayan and Tyn y Craig</i>	1796	Poole	3802
<i>Cilfechydd</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D4
<i>Cilfechydd</i>	1833	Vaynol	99
<i>Cilfechydd</i>	1847	EwBangor	B1847/173 17081
<i>Cilfechydd</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Cilfechydd</i>	1957	Map OS	SH 55
<i>Cil Fechydd</i>	2000	CCPost	(Waunfawr)

#### *y, cilfach, llu. cilfechydd*

Ar gyrion eithaf hen blwyf Llanwnda pan estynnai at afon Gwyrfaï rhwng Waunfawr a Betws Garmon. Nodir yr annedd hwn yn y CCPost dan Waunfawr. Ffurf luosog *cilfach*, sef 'llecyn cysgodol' yw *cilfechydd*. Mae'r enw yn fwy cyfarwydd yn ei ffurf un, ond ceir *Cilfechydd* hefyd ym mhlwyf Llanllechid (AMR). Gweler hefyd *Traean*.

Cil-haul	Llanwnda		SH 5159
<i>Cilhaul</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cil haul</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Gil Haul</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cil haul</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cil Haûl</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Culhaul</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Cilhaul</i>	1795	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Gweredog bach otherwise Tyddyn</i>	1802	P. yr Aur	20731
<i>Gweredog otherwise Cilhaul</i>			
<i>Cill Haul</i>	1807	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cilhaul</i>	1834	Bangor	8554
<i>Cilhaul</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Cil-haul</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Cil-haul</i>	1957	Map OS	SH 55
<i>Cil Haul</i>	2000	CCPost	(Waunfawr)

<sup>1</sup> Gwybodaeth gan yr Athro Hywel Wyn Owen a fu'n trafod yr enw hwn gyda'r gynulleidfa ar ôl darlith yn y Groeslon, 7 Mehefin, 2005.

<sup>2</sup> Ac eithrio fel 'Chatham Log Cabins'.

### *cil, haul*

Ym mhen pellaf hen blwyf Llanwnda wrth fynd tuag at Waunfawr. Bellach rhestrir yr annedd yn y CCPost dan Waunfawr. Ar fap OS 1919 nodir *Cil-haul* a *Gwredog-bâch* fel dau annedd cyfagos ond ar wahân, er bod cofnod 1802 yn dweud mai'r un lle ydynt. Yma y trigai Griffith Ellis neu Guto Cil-haul, gŵr hysbys o fri. Yr oedd yn feddyg dyn ac anifail. ac yn ŵr 'heb ei fath am ddofi lloerigion' yn ôl William Hobley<sup>1</sup>. Mae *Cil-haul* yn enw cyffredin ar annedd: rhydd *GPC* iddo'r ystyr lythrennol o 'sun's retreat', hynny yw. llecyn cysgodol na all yr heulwen ei gyrraedd.

<b>Clogwyn-cellog</b>	<b>Llanwnda</b>		<b>SH 5356</b>
<i>Clogwyn Cellog</i>	1679	Ll&Brynodol	D597
<i>Clogwyn Cellog</i>	1693	Ll&Brynodol	D603-4
<i>Clogwyn Cellog</i>	1720	Ll&Brynodol	D345
<i>Clogwin Cellog</i>	c.1728	Ll&Brynodol	D362
<i>Clogwyn cellog</i>	1747-8	Ll&Brynodol	D399
<i>Clogwyn Cellog</i>	1748	Ll&Brynodol	D402-3
<i>Clogwin Cellog</i>	1766	Ll&Brynodol	R46
<i>Clogwyn Cellog</i>	1768	Ll&Brynodol	R47
<i>Clogwyn Cellog</i>	1770	Ll&Brynodol	R47
<i>Clogwyn Cellog</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Clogwyn Cellog</i>	1772	Ll&Brynodol	R49
<i>Clogwyn gellog</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Clogwyn Cellog</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cogwyn Cellog</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Clogwyn Cellog</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Clogwm Cellog</i>	1793	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Clogwin Cellog</i>	1794	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Clogwin Cellog</i>	1795	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Corgwyn Cellog</i>	1801	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Clogwincellog</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Clogwyngellog</i>	1820	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Clogwyn eellog</i>	1834	Bangor	8554
<i>Clogwyn-cellog</i>	1957	Map OS	SH 55

### *clogwyn, cellog*

Mae map OS 1957 yn nodi'r annedd hwn ar gyrion Betws Garmon, felly yr oedd gynt ym mhen eithaf hen blwyf Llanwnda. Mae'n anodd esbonio arwyddocâd yr ail elfen. Ystyr *cellog* yw 'yn cynnwys celloedd' neu 'mândyllog'. Mae'n debyg y gellid cael clogwyn sydd yn llawn o dyllau mân ac mai hynny yw'r ystyr yma. Yn ôl *GPC* ceir y cofnod cyntaf o'r ans. *cellog* yng ngeiriadur John Walters yn 1771, ond mae'r cofnod yn Ll&Brynodol D597 uchod bron ganrif yn gynharach yn 1679.

<b>Cwellyn</b>	<b>Llanwnda</b>		<b>SH 5753</b>
<i>Cwillyn</i>	1604	Dolfriog	490
<i>Coellyn</i>	1624	Dolfriog	382
<i>Quellyn</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Quellyn</i>	1783	P. yr Aur	4058

<sup>1</sup> William Hobley, *Hanes Methodistiaeth Arfon: Dos. Caernarvon: Ardaloedd Waunfawr a Beddgelert*. 14-17; TT(JOH), 23.



<i>Quellyn</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Quellyn</i>	1792	EwBangor	B1792/86 7211
<i>Quellin</i>	1794	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cywellyn</i>	1795	JE/MNW	
<i>Cwellyn</i>	1809–11	<i>Des. Caerns.</i>	205
<i>Quellin</i>	1818	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cwellyn</i>	1819	P. yr Aur	20364
<i>Quellyn</i>	1834	Bangor	8554
<i>Cawellyn</i>	1839	RhPdegwm	
<i>Caewellyn</i>	1844	EwBangor	B1844/143 16402
<i>Quellyn</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Quellyn</i>	1920	Map OS	XXI N.E.

### ***cawell, llyn***

Ar lan afon Gwyrfaï fel y rhed i mewn i Lyn Cwellyn ym Metws Garmon, ac felly ar gyrion eithaf hen blwyf Llanwnda. Cyfeiria Edmund Hyde Hall at annedd Cwellyn fel 'a very mean building' a dywed fod teulu o'r un enw wedi bod yn berchen arno ar un adeg (*Des. Caerns.*, 205). Mae J. Lloyd-Jones yn tarddu'r enw'n ddibetrus o *cawell* + *llyn* (*ELISG*, 51, 61), felly hefyd *EEryri*, 142. Cefnogir y ddamcaniaeth hon gan gofnod RhPdegwm 1839 uchod. Etallai mai llyn ar ffurf cawell a olygir, neu gallai gyfeirio at gawell a osodir mewn llyn i ddal pysgod<sup>1</sup>. Mae sillafiad mwngrelaidd *Quellyn* yn ddiddorol: tra dengys y *Qu-* ddylanwad y Saes., cedwir ynganiad Cymraeg y llythyren *ll*, ond ni ellir esbonio pam y Seisnigwyd yr enw hwn i'r graddau hyn.

### **Cwm-bychan**

### **Llanwnda**

### **SH 5456**

<i>Cwm bychan</i>	1604	Dolfriog	490
<i>Cwm Bychan</i>	1719	EwBangor <sup>2</sup>	B1719/63 96375
<i>Cwmbychan</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cwm bychan</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cwm bychan</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Cwm bychan</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Cwm Bychan</i>	1796	AlPryce	750
<i>Cwmbychan</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cwmbychan</i>	1808	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Gwmbychan</i>	1824	P. yr Aur	4111
<i>Cwmbychan</i>	1834	Bangor	8554
<i>Cwm bychan</i>	1839	RhPdegwm	
<i>Cwmbychan</i>	1839	EwBangor	B1839/132 15381
<i>Cwm-bychan</i>	1919	Map OS	XXI N.E.
<i>Cwm Bychan</i>	2000	CCPost	(Betws Garmon)

### ***cwm, bychan***

Ar gyrion pellaf hen blwyf Llanwnda nid nepell o Lyn Cwellyn ym Metws Garmon. Ellis Quellyn oedd enw'r gŵr oedd biau'r ewyllys yng ngofnod 1719 (Gweler dan *Cwellyn* uchod). Priododd ef â merch Pengwern ym mhlwyf Llanwnda (q.v.), a phriododd ei chwaer i mewn i deulu Robbins, Caernarfon (JEGPed. 229. Gw. *Robyns Lands* dan Gaeau Llanbeblig.). Ceir *Craig Cwm Bychan* hefyd yn y cyffiniau

<sup>1</sup> Ceir cyfeiriad at gawell mewn llyn yn yr enw *Pull y Kawell* (q.v.) a gofnodwyd yn Llanfaglan yn 1657 (P.S.Peniarth, DC 104).

<sup>2</sup> Ewyllys Ellis Quellyn.

**Cyrnant****Llanwnda****SH 5258**

Mae *Cyrnant* ar gyrion Waunfawr yn yr ardal a gynhwyswyd yn hen blwyf Llanwnda ond ar y ffin â phlwyf Llanbeblig, ac mae cofnodion o'r annedd hwn dan blwyfi Llanbeblig a Llanwnda. Trafodir yr enw dan Anheddau Llanbeblig (q.v.).

**Dinas****Llanwnda****SH 4759**

<i>Dinas</i>	1646/7	Baron Hill	3236
<i>Dinas, otherwise called Dinas Bodelog</i>	1659	Baron Hill	3240
<i>Dinas</i>	1695–1701	<i>Paroch.</i>	III. 51
<i>Dynas house</i>	1696	Vaynol	3744
<i>Dinas</i>	1745	EwBangor	B1745/71 100751
<i>Dinas</i>	1756	Tynyngogl	364
<i>Dinas</i>	1760	EwBangor	B1760/99 1728
<i>Dinas</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Dinas</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Dinas</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Dinas</i>	1793	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Dinas Hall</i>	1795	JE / MNW	
<i>Dinas</i>	1807	EwBangor	B1807/54 9585
<i>Dinas</i>	1811	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Dinas</i>	1815	Rumsey Wms	441–2
<i>Dinas</i>	1835	Pigot	690
<i>Dinas</i>	1838	Map OS	78
<i>Dinas</i>	1839	RhPdegwm	
<i>Dinas</i>	1840	Vaynol	420
<i>Dinas</i>	1842	Vaynol	421
<i>Plas Dinas</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Plas Dinas</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Plas Dinas / Plas Dinas Lodge</i>	2000	CCPost	(Bontnewydd)

**dinas**

Ar gyrion Bontnewydd wrth fynd i gyfeiriad Llanwnda<sup>1</sup>. Cafodd yr annedd ei enw o *Dinas Dinoethwy*, y bryncyn yr adeiladwyd yr annedd arno. Nid oes olion o gaer hynafol yma, er gwaethaf yr enw (*IAMC*, 219). Awgryma MR mai enw llwyth cynnar oedd Oethwy (*ETG*, 76). Mae Thomas Pennant yn sôn amdano'i hun yn ymweld â 'Dinas Dinoethwy', cartref yr hynafiaethydd, y Parch. Richard Farrington (Pennant, II. 222). Daw prif enwogrwydd yr annedd bellach o'r ffaith mai hwn oedd cartref mebyd Antony Armstrong-Jones a fu'n briod am gyfnod â'r ddiweddar Dywysoges Margaret, chwaer y Frenhines Elizabeth II.

**Erwystyffylau****Llanwnda****SH 5058**

<i>Erw ystyffyla</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Erw Styffyla</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Erwstyffyla</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Grwstyffilia</i>	1780–7	P.S.Glynllifon	84(56)
<i>Erwystyffylau</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Erwur Styffulan</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Erw ystyffyla</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Erwstyffala</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Erw'styffala</i>	1794	ATT GAG	XQA/LT 5/5

<sup>1</sup> Am ddisgrifiad o'r tŷ gweler *IAMC*, 222–3. ac am ragor o hanes ei berchenogion gweler *Eryri*, 30.

<i>Erwstyfyla</i>	1795	Ll&Brynodol	M187
<i>Erw ystufula</i>	1801	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Erwystufula</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Erw Styfyla</i>	1810	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Erw skyfylla</i>	1813	Rumsey Wms	869
<i>Erwstyffyla</i>	1815	EwBangor	B1815/139 11026
<i>Erw Ystafellau</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D4
<i>Erwstyffyla</i>	1817	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Erwstfyla</i>	1818	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Erwystyffyla</i>	1819	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Erw</i>	1822	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Erwslyffyla</i>	1834	Bangor	8554
<i>Erw</i>	1838	Map OS	78
<i>Yr Erw</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Erwstyffyla</i>	1847	EwBangor	B1847/177 17085
<i>Erw Styffylau</i>	1848	Myn. Horeb	004
<i>Erw Ystyffylon</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Erw</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Erw</i>	1957	Map OS	SH 55
<i>Erw</i>	2002	Map OS Explorer	OL17

#### *erw, ystwffwl, llu. ystyffylau*

Ar gyrion eithaf de-orllewinol Waunfawr a chyrrion eithaf gogleddol Rhosgadfan mewn llecyn diarffordd oddi ar y lôn gul sydd yn mynd o Bontnewydd i Waunfawr<sup>1</sup>. Dyma gartref Richard Jones, (Gwyndaf Eryri, 1785–1848), bardd, amaethwr, a saer maen. Enillodd sawl gwobr, a chyhoeddodd gasgliad o'i farddoniaeth, *Peroriaeth Awen*, yn 1818 (*Byw*, 476; *CCThA*, 65–77).

Mae'n anodd gweld arwyddocâd ail elfen yr enw. Ystyr *ystwffwl* yw 'colofn, postyn, cynhalbren neu glicied' ond ni wyddys pa rai o'r nodweddion hyn oedd yn ddigon hynod i roi eu henw i'r annedd. Mae'n amlwg fod sillafu'r ail elfen wedi peri problem ac yn nechrau'r 19g trowyd fwy-fwy at alw'r annedd yn syml yn *Erw*. Gwelir ymgais i esbonio neu resymoli'r ail elfen fel *ystafellau* ar fap Robert Dawson 1816–20.

<b>Fach-goch</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 5056</b>	
<i>Fach goch</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Fach goch</i>	1855	EwBangor	B1855/211 19041
<i>Fach Goch</i>	1855	Myn. Horeb	020
<i>Fachgoch</i>	1880	Myn. Horeb	058
<i>Fach Goch</i>	1911	Myn. Rhosg.	B11
<i>Fach Goch / Fach Goch Bach</i>	2000	CCPost	(Rhosgadfan)

#### *bach (enw), coch, bach (ans)*

Yn rhan ddeheuol Rhosgadfan. Mae'r ffurf *Fach-goch-bach* yn taro'n rhyfedd ar y llygad a'r glust oherwydd y cyfuniad o'r gair *bach* ddwywaith yn yr un enw. Eb. un. yw'r *bach* cyntaf, wedi ei dreiglo'n feddal ar ôl y fannod a gollwyd o'i flaen. Yr ystyr yw 'cilfach' neu 'dro sydyn mewn ffordd'. Yr ans. = 'bychan' yw'r ail *bach*, a ddefnyddir i wahaniaethu'r annedd *Fach-goch-bach* oddi wrth *Fach-goch* ei hun.

<b>Felinwnda</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 4658</b>	
<i>Melyn Vnda</i>	1691	Bodorgan	117
<i>Melin Unda</i>	1699	Ll&Brynodol	D978

<sup>1</sup> Ceir darlun o'r tŷ yn *CCThA*, 65.

<i>Melin Unda</i>	1700/01	Ll&Brynodol	D1178
<i>Melin Unda</i>	1716	Ll&Brynodol	D979
<i>felin wnda</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Melin wnda otherwise Helin wnda otherwise Tyddyn felin Felin Pengwern</i>	1809	Rumsey Wms	424
<i>Felin</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D4
<i>Felin</i>	1819	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Felin</i>	1820	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Melin Pengwern</i>	1838	Map OS	78
<i>Felin wnda</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Felin-Wndaf</i>	1891	Map OS	XV S.E.
<i>Felin Wndaf</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Felin Wndaf</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Felinwnda</i>	2000	CCPost	(Dinas)

***melin, e.p. Gwyndaf***

Ar y lôn sydd yn mynd o ganol Dinas heibio i Ysgol Felinwnda i lawr i Saron. Yr oedd yr annedd hwn yn felin flawd ar un adeg. Fel y dengys cofnodion 1816–20 ac 1838 fe'i hadweinid hefyd fel *Melin Pengwern*<sup>1</sup>. Ail elfen yr enw yw'r e.p. *Gwyndaf*, nawdd sant Llanwnda. (Gweler ymdriniaeth lawn o'r enw hwn yn y cofnod ar *Llanwnda* uchod). Yn y cofnodion diweddarach ceir tuedd i nodi'r enw fel *Felinwnda* yn hytrach na *Melinwnda*, ond nid oes angen treiglo'r *m* gychwynnol yn yr elfen *melin* gan na fyddai angen bannod o'i blaen.

<b>Foryd / Tyddyn-y-foryd</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 4558 – SH 4559</b>	
<i>Vorid</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>foryd</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Vored</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Vorud</i>	1781	P. yr Aur	15733
<i>Voryd</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Vorid</i>	1783	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Vored</i>	1784	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Forrid</i>	1789	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Forrid</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Vorrid</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Vorûd</i>	1793	P. yr Aur	15740
<i>Forrid</i>	1794	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Forryd</i>	1799	Vaynol	3751
<i>Torryd</i>	1800	EwBangor	B1800/80 8456
<i>Voryd</i>	1801	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Vorid alias Foryd alias Tyddyn y foryd</i>	1801	Poole	3911
<i>Forydd</i>	1810/11	Vaynol	4063
<i>Voryd</i>	1821	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Voryd</i>	1829	EwBangor	B1829/119 13435
<i>Voryd</i>	1832	EwBangor	B1832/117 13959
<i>Forrhyd / Forrhyd newydd</i>	1838	Map OS	78
<i>Voryd</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Hen Voryd / Voryd</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Hen-Foryd /Foryd-newydd /Bonc-Foryd</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Hen-Foryd /Foryd-newydd /Bonc-Foryd</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Hen Foryd / Bonc Foryd</i>	2000	CCPost	(Saron)
<i>Hen Foryd / Foryd-newydd</i>	2002	Map OS Explorer	254

<sup>1</sup> Gweler hefyd erthygl W. Gilbert Williams ar deulu Pengwern. *TCHSG*, Cyf. 4, 1942–3, 25.

<i>Tyddin Rvuorin</i>	1697	P. yr Aur	19992
<i>Tythin Ryvorin</i>	1697	P. yr Aur	19991
<i>Tythyn y Vorryd / Tythyn y Voryd</i>	1716	P. yr Aur	19995
<i>Tyddyn Ryvorin / Tyddyn Ryforyn</i>	1742	P. yr Aur	19996
<i>Tyddyn y Voryd / Tyddyn y voryd</i>	1742	P. yr Aur	19996
<i>Tythyn Ryvorin alias Tythyn voryd</i>	1742	P. yr Aur	20017
<i>Tyddynforud</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tyddyn Vorud</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tythyn forryd</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tyddyn y Fored</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tyddyn Voryd</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tyddyn y Voryd</i>	1783	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tyddyn y Voryd</i>	1784	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tyddyny forrid</i>	1788	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tyddyn-y ford</i>	1790	EwBangor	B1790/121 6904
<i>Tyddyn y Vorrid</i>	1794	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tyddyn vorryd</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tyddynyvoryd</i>	1805	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tyddyn foryd</i>	1821	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tyn y Forwyd</i>	1851	Cyfrifiad	

***moryd / môr-ryd; tyddyn, y, moryd***

Mae'r holl anheddau a nodir uchod yn agos iawn at lannau Bae'r Foryd lle mae aberoedd afonydd Gwryfai, Carrog, Rhyd a Foryd. Yr oedd *Ponc-y-Foryd* yn borthladd prysur yn y 18g: oddi yma yr arferid allforio'r llechi o chwarel y Cilgwyn cyn datblygu'r Cei Llechi yng Nghaernarfon, a gellir gweld llechi mân o hyd ar y traeth o gloddio ychydig (*MTT*, 99–100; *CBLleu*, 24).

Eb.g. un. yw *moryd* yn golygu aber afon neu forgainc, ac mae'r ddwy ystyr yn addas yn y lle hwn. Mae'n amlwg yr ystyrir *moryd* yn eb. yn y dafodiaith leol gan ei fod wedi ei dreiglo'n feddal ar ôl y fannod a gollwyd o'i flaen. Fodd bynnag, o ystyried yr amrywiadau yn y sillafu, nid oedd yn air cyfarwydd iawn i'r brodorion. Eto fe'i ceir hefyd fel e.lle yn Abergele, a cheir *Pen y foryd* yn Llanddyfnan, Môn (AMR). Ni wyddys pa un o'r anheddau uchod oedd *Tyddyn-y-Foryd* ynteu a oedd yn annedd ar wahân. Fe'i ceir ar yr un pryd â *Foryd* yn ATT, felly o bosib nad *Foryd* ei hun a olygir, ond eto mae cofnod 1801 (Poole 3911) yn dweud mai'r un lle yw *Tyddyn-y-foryd* a *Foryd*. At ei gilydd mae tystiolaeth y cofnodion yn awgrymu fod yma ddau annedd gwahanol. Heddiw cedwir yr enw yn *Hen Foryd*, *Foryd-newydd* a *Bonc Foryd* yn ogystal ag yn enw'r bae ei hun.

**Frongoch**

**Llanwnda**

**SH 4957**

<i>Frongoch</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Fron-gôch</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Frongoch</i>	2000	CCPost	(Rhostryfan)

***bron, coch***

Ar gyrion deheuol Rhostryfan.

**Gadlys**

**Llanwnda**

**SH 4857**

<i>y gadlais</i>	1587	Nannau	1569
<i>Gadlis</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Gadlis</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Gadlas</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Gadlis</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 5/5

<i>Cadlis</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Gadlass</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Gadlas</i>	1783	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Gadlass</i>	1784	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Gadlis</i>	1789	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Gadlis</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Gadlys</i>	1793	EwBangor <sup>1</sup>	B1793/145 7418
<i>Gadlys</i>	1795	Ll&Brynodol	M187
<i>Gadys</i>	1808	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Gadlis</i>	1811	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Gadlys</i>	1813	EwBangor	B1813/143 10657
<i>Gadlys</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Gadlies</i>	1841	EwBangor	B1841/127 15807
<i>Gadlys</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Gadlys</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Gadlys</i>	2000	CCPost	(Dinas)

### *cadlys*

Rhwng Dinas a Rhostryfan oddi ar y ffordd sydd yn mynd o Lanwnda i'r Groeslon trwy Dolydd. Hwn oedd cartref William Bifan y Gadlys, bardd gwerin a anwyd ym Modaden (q.v.) yn 1730 ac a briododd ferch Garth-y-glo (q.v.). Cynhyrchodd garolau ar gyfer gwyliau arbennig a mân gerddi eraill (*CCThA*, 39–52).

Ceir y ffurf *cadlas* a *cadlys*; mae'n debyg mai datblygiad o *cadlys* yw *cadlas*. Eb. un. yw hwn, fel y dengys y tr. meddal ar ôl y fannod a gollwyd o'i flaen. Yr ystyr yw 'tir amgacëdig, buarth neu gwr'. Fodd bynnag, mae iddo ystyr arall, sef 'gweryll', ac mae hyn yn arwyddocaol yn yr achos hwn gan fod yr annedd wedi ei adeiladu ar olion lloc amddiffynedig hynafol (*IAMC*, 225. Gweler hefyd *ELISG*, 121). Mae'n amlwg fod rhyw draddodiad am hyn wedi goroesi, gan fod y bardd gwlad Tryfanog (William R. Owen, Rhostryfan) yn ei benillion gwerin i anheddau Rhostryfan yn cyfeirio at y Gadlys fel hyn: 'A'r Gadlys hithau yn ei bri / Lle gwelwyd llu'n gweryllu'<sup>2</sup>. Ceir *Gadlys* hefyd fel e.lle yn Llanfihangel-y-Pennant, Meir, yn Heneglwys a Llansadwrn, Môn, yn Aberdâr, ac yn Llangynwyd, Morg. (*AMR*).

Gaerwen	Llanwnda		SH 4858
<i>y Gaerwen</i>	1623	Baron Hill	3219
<i>Gaerwen</i>	1624–5	Baron Hill	3229
<i>Gaerwen</i>	1646–7	Baron Hill	3236
<i>Tythin y Gaerwen</i>	1696	Vaynol	3744
<i>Gaerwen</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae'r wen</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Gaerwen</i>	1776	EwBangor	B1776/92 4745
<i>Gaer wen</i>	1776–9	Vaynol	4054
<i>Gaurwen</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Gaerwên</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Caerwen</i>	1788	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Gaerwen</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Gaer Wen</i>	1793	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Gaerwen</i>	1825	EwBangor	B1825/142 12637
<i>Gaerwen</i>	1829	EwBangor	B1829/121 13437
<i>Gaerwen</i>	1838	Map OS	78
<i>Geirwen</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Cae'rwen</i>	1886	Postal Dir.	175

<sup>1</sup> Ewyllys William Evans, sef William Bifan y Gadlys, y bardd gwlad.

<sup>2</sup> *Cymru*, XXXVII, (1909), 138; *Llafar Gwlad*, 47, (Gwanwyn 1995), 12; *ECD*, 63

<i>Gaerwen</i>	1904	Bangor	f33976
<i>Gaerwen</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Gaerwen</i>	1957	Map OS	SH 55
<i>Gaerwen / Gaerwen Isaf</i>	2000	CCPost	(Rhostryfan)

**caer, ans. gwyn, ben. gwen**

Rhwng Rhostryfan a Rhosgadfan. Mae'n hawdd gweld sut y cafodd y lle hwn ei alw'n gaer, os nad yn gaer wen, gan fod cryn nifer o olion hynafol gerllaw. Er nad yw'r lloc mawr amgaeëdig hirgrwn a nodir ar fap OS 1919 fel 'Gaerwen Camp' yn bodoli mewn gwirionedd, mae yma loc petryal ar fryn uchel gerllaw, a chlwstwr o gytiau ac olion waliau caeau hynafol i'r gogledd a'r dwyrain o *Gaerwen* (IAMC, 225–6).

<b>Garth</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 4758</b>
<i>Garth</i>	1747	EMR 2/8
<i>Garth</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Garth</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Garth</i>	1776	NewGlynllifon XD2 / 6893
<i>Garth</i>	1778	EwBangor B1778/101 5097
<i>Garth</i>	1780–7	P.S.Glynllifon 84(56)
<i>y Garth</i>	1783	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Garth</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>Garth</i>	1795	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Garth</i>	1819	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Garth</i>	1839	RhPDegwm
<i>Garth</i>	1919	Map OS XV S.E.
<i>Garth</i>	1959	Map OS SH 45
<i>Garth</i>	2000	CCPost (Llanwnda)

**garth**

Ar gyrion Llanwnda oddi ar yr A487 lle mae'r ffordd yn fforchio i fynd i Bwllheli (A499) mewn un cyfeiriad ac i Borthmadog (A487) yn y cyfeiriad arall. Mae dwy ystyr i *garth*: naill ai 'cefnen, pentir o fryn neu fynydd; gallt' neu 'gae amgaeëdig, iard neu gwr' (*ELleoedd*, 22–3). Gan nad oes bryn o unrhyw faint na thir uchel amlwg yng nghyffiniau'r annedd hwn, mae'r ail ystyr yn fwy tebygol.

<b>Garth-y-glo</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 4758</b>
<i>Garth y Glo</i>	1696	Vaynol 3744
<i>Arth y glo</i>	1718	Laurie WDT/2491
<i>Arth-y-glo</i>	1734	Laurie WDT/2492
<i>Garth y glo</i>	1767	EwBangor B1767/111 3257
<i>Garth yr Glo</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Garth yr Glo</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Garth y Clo</i>	1772	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Garth y Glo</i>	1773	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Garth y Glo</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>Garth y Glô</i>	1795	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Garth y Glo</i>	1795	Ll&Brynodol M187
<i>Garth y glo</i>	1807	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Garth y glo</i>	1812	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Garth Glo</i>	1818	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Garth y glo</i>	1828	EwBangor B1828/122 13230
<i>Cae'r glo</i>	1838	Map OS 78
<i>Garthyglo</i>	1839	RhPDegwm

<i>Garth-y-glo</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Garth Y Glo</i>	2000	CCPost	(Llanwnda)

**garth, y, glo**

Rhwng Dinas a Llanwnda yng nghyffiniau Glanrhyd. Am yr elfen gyntaf *garth* gweler uchod dan *Garth*. Nid oes sôn am gloddio am lo yn yr ardal hon, felly mae'n debyg mai 'golosg' (*charcoal*) a olygir yma, fel yng Nghwm-y-glo ym mhlwyf Llanrug (q.v.). Llosgid darnau o goed yn araf mewn pyllau am gyfnod hir yn yr haf i gynhyrchu tanwydd ar gyfer diwydiannau o bob math (*ADG 1*, 34). Tuedda'r trigolion lleol newid y drydedd elfen *glo* > *gro*, a galw'r lle hwn yn *Garth-gro*, newid ymwybodol o bosib am fod gro yn ymddangos yn fwy rhesymegol iddynt na glo yn yr ardal hon<sup>1</sup>.

<b>Geufron</b>	<b>Llanwnda</b>		<b>SH 4758</b>
<i>Tyddnygeufron</i>	1579/80	<i>Star Ch. Pro.</i>	31
<i>Geufron / Geyfron</i>	1756	Lloyd	177, 178
<i>Geufron</i>	1768	Lloyd	182
<i>Gayfron</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Geufron</i>	1771	Lloyd	183
<i>Gayfron</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Geyfron</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Gayfron</i>	1777	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Geyfron</i>	1778	Roger Lloyd II	182-3
<i>Gefron</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Gaeufron</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Caevron</i>	1783	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Gifron</i>	1784	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Gaufron</i>	1788	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Gaufron</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Gaufron</i>	1794	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Cae y fron</i>	1801	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Gaufron</i>	1806	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Geufron</i>	1808	EwBangor	B1808/84 9754
<i>Gayfron</i>	1816-20	Dawson, Bangor	f34081, D4
<i>Gaeufron</i>	1818	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Caefron</i>	1820	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Geufron</i>	1835	Roger Lloyd II	216
<i>Geufron</i>	1835	Rumsey Wms	39, 1057
<i>Gaufron</i>	1838	Map OS	78
<i>Geufron</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Geufron</i>	1840	Vaynol	421
<i>Geufron</i>	1878	NewGlynllifon	XD2 / 6460
<i>Gaeufron</i>	1886	Postal Dir.	175
<i>Geufron</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Geufron</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Geufron</i>	2000	CCPost	(Dinas)

**ceufron**

Yn agos i ganol pentrefan Dinas y tu cefn i'r eglwys a gorsaf Rheilffordd Eryri. Ystyr *ceufron* yw pantle neu fron â cheudod neu gafn ynddi. Mae'r un enw yn digwydd ar gyrion Mynydd Parys ac yn Llanrhuddlad, Môn, yn Llanbadarn, Maesd., yn Llanbedrog, Caern., yn

<sup>1</sup> Cyfeiriai mam awdur yr astudiaeth hon bob amser at *Garth-gro*. Magwyd hi i lawr y lôn o'r annedd hwn yng Nglan-rhyd. Ategir hyn gan y ffurf *Garth y Gro* mewn adroddiad yng nghlofn y marwolaethau yn y *Daily Post*, 26 Tachwedd, 2005.



Llanidloes, ac yn y ffurf *Geufron-bach* yn Aberdaron (AMR). Ceir syniad tebyg yn *Y Geuallt* ar yr Aran uwch Cwm-y-Ilan (*ELISG*, 63).

<b>Glanrafon</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 4557 (1) / SH 4957 (2)</b>	
<i>Glanrafon otherwise Tyddun bach</i>	1799	P. yr Aur	14500
<i>Glanrafon otherwise Tyddyn bach</i>	1802	P. yr Aur	20732
<i>Glanravon, otherwise Tyddyn bach</i>	1810	Rumsey Wms	434-5
<i>Glanravon otherwise Tyddyn bach</i>	1815	Rumsey Wms	441-2
<i>Glanrafon</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Glan-yr-afon</i> (1)	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Glan-yr-afon</i> (2)	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Glanrafon</i> (1)	2000	CCPost	(Llanwnda)
<i>Glanrafon</i> (2)	2000	CCPost	(Rhostryfan)

### **glan, yr, afon**

Ceir un annedd (1) o'r enw hwn ar gyrion plwyf Llanwnda ger afon Carrog wrth iddi lifo i mewn i'r Foryd. Ceir un arall (2) ym mhentref Rhostryfan. Mae'n amlwg fod annedd o'r enw hwn yn annibynnol ar *Tyddyn-bach* adeg llunio RhPDegwm 1839, gan yr enwir y ddau annedd ar wahân yn hwnnw. Gweler hefyd y drafodaeth dan *Tyddyn-bach* isod.

<b>Glanrhyd</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 4758</b>	
<i>Glanrheed</i>	1716	EwBangor	B1716/67 96053
<i>Glanrhyd</i>	1750	NewGlynllifon	XD2 / 6912
<i>Glanrhyd</i>	1762	P. yr Aur	16789
<i>Glan y Rhued</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Glan y rhud</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>glan Ryd</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Glan Rhyd</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Glanrhyd</i>	1788	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Glanrhÿd</i>	1788	P. yr Aur	16791
<i>Glanrhyd</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Glanr'hyd</i>	1795	P. yr Aur	16793
<i>Glanrhyd</i>	1795	AI Pryce	741
<i>Glanyrhyd</i>	1795	JE/MNW	
<i>Glanr'hyd / Glanrhyd</i>	1799	P. yr Aur	16795
<i>Glan'rhyd</i>	1800	P. yr Aur	16796
<i>Glanrhyd</i>	1800	Poole	4135
<i>Glanrhyd</i>	1812	ATT GAG	XQA/LT 5/5
'Farm called <i>Glanrhyd</i> '	1812	Rumsey Wms	864
'Farm called <i>Glanrhyd</i> '	1813	Rumsey Wms	867-8
<i>Glanrhyd</i>	1815	EwBangor	B1815/141 11028
<i>Glanrhyd</i>	1816-20	Dawson, Bangor	f34081, D4
<i>Glanrhyd</i>	1822	Rumsey Wms	941
'dwelling houses called <i>Glanrhyd</i> '	1825	Rumsey Wms	12
<i>Glanrhyd</i>	1837	Rumsey Wms	42
<i>Glan-rhyd</i>	1838	Map OS	78
<i>Glanrhyd</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Glan-rhÿd</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Glan-rhÿd</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Glanrhyd Isaf</i>	2000	CCPost	(Dinas)

### **glan, rhyd**

Mae *Glanrhyd* bellach yn ardal fechan ar gyrion Dinas. Er mai fferm yn yr un lle cyn oedd *Glanrhyd* yn wreiddiol, erbyn heddiw rhoddodd ei henw i glwstwr o dai, i gapel, ac i groesfan ar yr hen reilffordd a arferai fynd o Gaernarfon i Afonwen. Lle bas mewn afon y gellir ei groesi ar droed neu mewn cerbyd yw *rhyd* fel arfer, ond yn yr achos hwn *Rhyd* yw enw'r afon fechan sydd yn llifo trwy'r ardal hon.

Glan-y-gors	Llanwnda	SH 5157	
<i>Glanygors</i>	1839	RhP Degwm	
<i>Glan-y-gors</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Glan-y-gors</i>	1957	Map OS	SH 55
<i>Glan Gors</i>	2000	CCPost	(Rhosgadfan)

#### *glan, y, cors*

Ar gyrion gogledd-ddwyreiniol Rhosgadfan. Mae hwn yn un o'r enwau y dywed Kate Roberts eu bod 'yn dystion i'r tir a'r tywydd' yn ardal foel ei mebyd (*LW*, 30).

Glan-y-merllyn	Llanwnda		
<i>Glan y Merllyn yssa / Glan y Merllyn ycha</i>	1668–9	Ll&Brynodol	R16
<i>Glan y Merllin Issaph / Glan y Merllin ichhaph</i>	1699	Ll&Brynodol	D978
<i>Glan y Merllyn issaph / Glan y Merllyn uchaph</i>	1700	Ll&Brynodol	D1178
<i>Glan y Merllin Issaph / Glan y Merllin ichhaph</i>	1716	Ll&Brynodol	D979
<i>Glan y merllyn</i>	1735	EwBangor	B1735/98 99253
<i>Glan y<sup>r</sup> merllyn</i>	1740	Ll&Brynodol	R40
<i>Glanmerllyn</i>	1750–1	Lloyd	175
<i>Glanymerllyns</i>	1751–2	Bangor	17610
<i>Glan Merllyns</i>	1771	Lloyd	183
<i>Glan y merllyn otherwise Glan merllynas</i>	1778	Roger Lloyd II	182–3
<i>Glan y Merllynas</i>	1830	Rumsey Wms	554

#### *glan, y, merllyn*

Heb ei leoli. Pwll o ddŵr llonydd neu ferddwr yw *merllyn*. Mae'r s derfynol yng nghofnodion 1751–2 a 1771 yn anesboniadwy: felly hefyd y ffurf *merllynas*.

Glan-y-morfa	Llanwnda	SH 4457	
<i>Glan y Morfa</i>	1668–9	Ll&Brynodol	R16
<i>Glan y Morva</i>	1699	Ll&Brynodol	D978
<i>Glan y Morfa</i>	1700	Ll&Brynodol	D1178
<i>Glan y Morva</i>	1716	Ll&Brynodol	D979
<i>Glan y Morfa</i>	1795	Ll&Brynodol	M187
<i>Glan y Morfa otherwise Penrhose</i>	1809	Rumsey Wms	424
<i>Glan y Morfa</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D4

#### *glan, y, morfa*

Mae cofnod 1809 yn datgelu mai'r un lle yw hwn â *Phenrhos* (q.v.). Saif yr annedd hwn ar y ffordd o Saron i Landwrog ar gyrion de-orllewinol eithaf plwyf Llanwnda. Mae'r enwau *Glan-y-morfa* a *Phenrhos* fel ei gilydd yn gweddu i'r annedd gan ei fod ar fin y corstir lle mae afon Carrog yn llifo i mewn i fac'r Foryd. Morfa Dinlle yw'r morfa hwn.

<b>Gors-goch</b>	<b>Llanwnda</b>		<b>SH 5056</b>
<i>Gors Goch</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Gors Goch</i>	1854	C. Vincent	2872
<i>Gors-gôch-isaf / Gors-gôch-uchaf</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Gors Goch Uchaf</i>	2000	CCPost	(Rhosgadfan)

*cors, coch, ans. isel, gradd eithaf isaf, ans. uchel, gradd eithaf uchaf,*  
Yn rhan ddeheuol Rhosgadfan. Gweler cyfeiriad at yr enw hwn yn *LW*, 30.

<b>Gwredog</b>	<b>Llanwnda</b>		<b>SH 5059 / SH 5159</b>
<i>Gwredog vcha / Gwredog issa</i>	1646/7	Baron Hill	3236
<i>Gwredog Issa</i>	1696	Vaynol	3744
<i>Gwredog Ucha</i>	1711	Bangor	3667
<i>Gwredog</i>	1716	Thorowgood	76
<i>Gwredog</i>	1716	Henblas B	156
<i>Gwredog</i>	1736	Henblas B	160
<i>Gwredog uchaf</i>	1759	Ll&Brynodol	M187
<i>Gwredog</i>	1760	Henblas B	175
<i>Gwredog bâch / Gwredog issaf / Gwredog ucha</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Gwedog bâch</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Gwredog bâch / Gwredog issa / Gwredog Ucha</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Gwardog bach / Gwredog issa / Gwardog ucha</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>grwedog Issa</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Gwredog uchaf</i>	1776–9	Vaynol	4054
<i>Gwredog Isaf</i>	1778	EwBangor	B1778/100 5096
<i>Gwredog bach / Gwredog issa / Gwredog ucha</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Gwredog Ucha</i>	1783	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Gwredog bach / Gwredog Isa / Gwredog Ucha</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Gwredog bach / Gwardog fawr / Gwredog issaf</i>	1795	Ll&Brynodol	M187
<i>Gwredog Isa / Gwredog ucha</i>	1795	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Gwredog Bach / Gwredog Isa / Gwredog Icha</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Gwredog bach otherwise Tyddyn</i>	1802	P. yr Aur	20731, 24676
<i>Gwredog otherwise Cilhaul</i>			
<i>Gwredog, otherwise Gwredog bach</i>	1810	Rumsey Wms	2815
<i>Gwredog ucha alias Tanrallt</i>	1812	EwBangor	B1812/86 10450
<i>Gwredog</i>	1814	P. yr Aur	21062a
<i>Gwredog bach / Gwredog issaf / Gwredog ucha</i>	1820	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Gwardog / Gwardog-fâch</i>	1838	Map OS	78
<i>Gwardog bach / Gwardog isaf / Gwardog uchaf</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Gwredog Isaf / Gwredog Uchaf</i>	1904	Bangor	133976
<i>Gwredog Ganol or Tanrallt</i>	1904	Bangor	133976
<i>Gwredog-isaf / Gwredog-uchaf</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Gwredog / Gwredog Uchaf</i>	2000	CCPost	(Waunfawr)

**gwared +og?, bach, mawr, ans. isel, gradd eithaf isaf, ans. uchel, gradd eithaf uchaf**

Mae'n debyg mai'r un lle yw *Gwredog* a *Gwredog-fawr*. Rhestrir yr annedd hwn bellach yn y CCPost dan Waunfawr, felly hefyd *Gwredog-uchaf* a *Than-yr-allt*. Uniaethir *Tan-yr-allt* â *Gwredog-uchaf* yng nghofnod 1812, ond â *Gwredog-ganol* yng nghofnod 1904 (gweler dan *Tan-yr-allt* isod). Byddent gynt ar gyrion eithaf hen blwyf Llanwnda. Mae *Gwredog-isaf* rhwng Rhostryfan a Waunfawr. Noda cofnod 1802 mai'r un lle yw *Gwredog-bach* a *Chilhaul* (q.v.). Awgrymodd J. Lloyd-Jones mai *gwaredog* < *gwaered* sydd yma yn yr ystyr o 'redeg i lawr i' (*ELISG*, 31–2), ond mae'n anodd iawn penderfynu ai *gwaredog* ynteu *gweredog* oedd y ffurf gysefin. Mae MR yn cyfeirio at drefgordd *Caerwedog* (*Crewedog* / *Gwredog*) yn ardal Glasinfryn ger Bangor ond ni chais esbonio'r enw (*TCHSG*, 52–3 (1991–2), 13–14). Ceir *Gwaredog* arall ger Llyn Padarn, a *Gwredog* ger Llannerch-y-medd ac Amlwch (*ELISG*, 32). Wrth drafod yr un ger Amlwch, mae Gwenllian Morris-Jones yn rhoi'r ystyr 'sloping' i'r elfen (GM-J, 110).

**Hafod-y-rhos****Llanwnda****SH 5057**

<i>Hafod y rhos</i>	1839	RhPDeegwm	
<i>Hafod-rhôs-isaf</i> / <i>Hafod-rhôs-uchaf</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Hafod Rhos Isaf</i>	2000	CCPost	(Rhosgadfan)

**hafod, y, rhos**

Yng nghanol pentref Rhosgadfan. Yr elfen gyntaf yw *hafod*, sef llety'r haf lle arferai'r ffermwyr a'u da symud yn yr haf, fel rheol o Galan Mai hyd Awst neu Fedi (*CBamaeth* 2, 310). Cyfeiria'r ail elfen at y rhostir sydd yn ymestyn dros holl ardal Rhostryfan a Rhosgadfan.

**Hafod-y-wern****Llanwnda****SH 5357**

<i>Havod y Wern</i>	1669	EwBangor	B1669/101
<i>Havod y werne</i>	1679	Ll&Brynodol	D597
<i>Havod y Werne/Melyn Havod y Werne</i>	1693	Ll&Brynodol	D603–4
<i>Harod y werne/ Melin Harod y Wern</i>	1702	Ll&Brynodol	D606
<i>Havod y werne</i>	1708	Ll&Brynodol	D1058
<i>Havod y wern</i>	1720	Ll&Brynodol	D345
<i>Havod y Wern</i>	c.1728	Ll&Brynodol	D362
<i>Melin Hafod-y-wern</i>	1735	Ll&Brynodol	D366
<i>Havod y Wern</i>	1747–8	Ll&Brynodol	D399
<i>Havod y Wern</i>	1748	Ll&Brynodol	D402–3
<i>Hafod-y-wern</i>	1761	EwBangor	B1761/98 1885
<i>Havodywern</i>	1766	Ll&Brynodol	R46
<i>Havod y wern</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Havod y Wern</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Havod y Wern</i>	1785	Ll&Brynodol	D471
<i>Hafod y Wern</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Hafod y Wern</i>	1796	Poole	3802
<i>Hafod y Wern Slate Quarry</i>	1810	Poole	2573
<i>Hafod y wern</i>	1816–20	Dawson, Bangor	134081, D4
<i>Hafod-y-wern</i>	1838	Map OS	75
<i>Hafodywern</i>	1839	RhPDeegwm	
<i>Hafodywern</i>	1853	Ll&Brynodol	D553
<i>Hafod y wern</i>	1890–1	Bangor	8560
<i>Hafod-y-wern</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Hafod-y-wern</i>	1957	Map OS	SH 55

**hafod, y, gwern**

Mewn llecyn hynod ddiarffordd rhwng Rhosgadfan a Betws Garmon. Rhestrir yr annedd ambell dro dan blwyf Llanwnda, dro arall dan blwyf Betws Garmon, gan ei fod ar un adeg yn amlwg ar y ffin rhwng y ddau blwyf hyn. Yn 1735 ceir cyfeiriad at felin ddŵr i falu ŷd ar y safle (Ll&Brynodol D366), ond erbyn 1747–8 dywedir ei bod bellach yn bandy (Ll&Brynodol D399). Cyfeirir yn 1810 at chwarel lechi *Hafod y Wern* (Poole 2573); nodir 'Hafod-y-wern Slate Quarries' ar fap OS 1919, a dengys map OS 2002 safle'r hen chwareli hyn. Yr oeddynt wedi cau rywbyrd yn y 1920au (*Eryri*, 92). Coed sydd yn tyfu ar dir llaith yw *gwern* (*alder*), neu'r tir lle mae'r coed gwern yn tyfu, sef cors neu weirglodd laith.

Hafoty	Llanwnda		SH 4958
<i>hafodty</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Hafod Ty</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Hafod tŷ</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Hafodtŷ</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Hafod du</i>	1784	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Havotdu</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Hovoty</i>	1790	EwBangor	B1790/123 6906
<i>Hafodtŷ</i>	1799	Vaynol	3751
<i>Hafodtu</i>	1812	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Hafotu</i>	1818	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Hafotty-y-werlâs</i>	1838	Map OS	78
<i>Hafodty</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Hafodty</i>	1904	Bangor	f33976
<i>Hafotty-wern-lâs</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Hafotty-wern-lâs</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Hafoty</i>	2000	CCPost	(Rhostryfan)

**hafodty, e.ll. Y Wernlas**

Ar gyrion gogleddol eithaf Rhostryfan. Yr *hafod* neu *hafodty* / *fotty* oedd trigfan y gweision fferm dros lisoedd yr haf pan symudent yno gyda'r anifeiliaid, a phan âi'r borfa'n brin dychwelent i glydwch a diogelwch yr hendref dros y gaeaf. Mae'n debyg mai'r un lle yw *Hafodty* a *Hafotty-Wernlas*. Yr annedd hwn yn wreiddiol oedd hafod naill ai *Wernlas-wen* neu *Wernlas-ddu* (q.v.) neu o bosib y ddwy fferm. Fodd bynnag, erbyn 1841 yr oedd *Hafotty-Wernlas* wedi datblygu i fod yn fferm annibynnol o 64 acer.<sup>1</sup>

Hendre	Llanwnda		SH 4757
<i>Tuthin r hendre</i>	1619	Henblas B	128
<i>Hendre</i>	1660	Dolfrïog	108
<i>Hendre</i>	1767	Poole	4241
<i>Hendre</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Hendre</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Hendre</i>	1772	Rumsey Wms	57
<i>rhendre</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>rendre</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Hendre</i>	1781	Poole	3051
<i>Hendra</i>	1788	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Hendre</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Hendre y Captain</i>	1795	Ll&Brynodol	M187

<sup>1</sup> Elwyn Davies, 'Hendre and Hafod in Caernarvonshire', *TCHSG*, 40, (1979), 41.

<i>Hendre</i>	1793	Poole	3055
<i>Hendre</i>	1797	C. Vincent	2851
<i>Hendre'r Captain</i>	1799	Cynhaiarn	B111
<i>Hendre</i>	1801	Poole	3064
<i>Hendra</i>	1804	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Hendra</i>	1805	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Hendra</i>	1809	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Hendre</i>	1810	NewGlynllifon	XD2 / 6929
<i>Hendre</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D4
<i>Hendre</i>	1819	Rumsey Wms	923–4
<i>Hendre</i>	1824	Rumsey Wms	10
<i>Hendre</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Hendre</i>	1843	Rumsey Wms	2839
<i>Hendre</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Hendre</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Hendre</i>	2002	Map OS Explorer	254

### **hendref**

Oddi ar y lôn sydd yn mynd o Lanwnda i'r Groeslon trwy Ddolydd. Yr *hendref* oedd trigfan y gaeaf ar lawr gwlad. Esboniad posibl o arwyddocâd y '*Captain*' yng nghofnodion 1795 a 1799, yw fod yr annedd ar un adeg ym meddiant y Capten Edmund Glyne o deulu Glynllifon, a fu farw yn 1684, er na fu erioed yn rhan o stad Glynllifon<sup>1</sup>.

<b>Hen-gastell</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 4757</b>	
<i>Hen gastell</i>	1695–1701	<i>Paroch.</i>	III, 51
<i>Hen Castell</i>	1795	Ll&Brynodol	M187
<i>Rhen gastell</i>	1801	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Rhen Gastell</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>'rhengastell</i>	1803	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Rhen gastell</i>	1804	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Yr hen Castell</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D4
<i>Yr-hên-Castell</i>	1838	Map OS	78
<i>Hen gastell</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Hen Castell</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Hên-gastell</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Hen Castell</i> (nodwyd fel heneb)	1959	Map OS	SH 45
<i>Hen Castell</i> (nodwyd fel heneb)	2002	Map OS Explorer	254

### **hen, castell**

Ar gyrion pentref Llanwnda ar y ffin â phlwyf Llandwrog. Mae wedi ei nodi ar fapiau OS fel safle heneb o bwys. Cafodd ei enw o'r heneb honno, sef caer bentir fechan ar lan ogleddol afon Carrog ger y Bont Wen (*IAMC*, 225).

<b>Lleiniau</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 4458</b>	
<i>Llinia</i>	1778	Roger Lloyd II	182–3
<i>Lleiniau</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Lleiniau</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Lleiniau</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Lleiniau Foryd</i>	2000	CCPost	(Saron)

<sup>1</sup> Gwybodaeth bersonol gan Mr Gareth Haulfryn Williams, gynt o Archifdy Gwynedd, sydd yn byw yn yr annedd hwn. Llythyr gan Edmund Glyne wedi ei gyfeirio o Hendre yw cofnod 1660.

### *llain, llu. lleiniau*

Mae'r enw a gofnodwyd yn CCPost 2000 yn cyfleu i'r dim safle'r annedd hwn ar aber afon Carrog lle mae'n llifo i mewn i Fae'r Foryd. Tybed a oedd *Foryd* yn rhan o'r enw ar lafar erioed neu a ychwanegwyd yr elfen hon i wahaniaethu rhwng yr annedd hwn a'r *Lleiniau* yn Llandwrog ?(q.v.).

<b>Llwyn-Angharad</b>	<b>Llanwnda</b>		<b>SH 4858</b>
<i>llwyn Angharad</i>	1625	Mostyn B	409
<i>llwyn yngharad</i>	1658	Nannau	1894
<i>Llwyn Yngharad</i>	1658-9	P.S.Peniarth	DC108
<i>Llwynyngharad otherwise Tythin Sr Evan</i>	1691	Ll&Brynodol	D599
<i>Ddol ellog or Llwyn Ynghared</i>	1761	P. yr Aur	20360
<i>Llwynynghared</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Llwynynghared</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Llwyn Angarad</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Llwyn Angarad</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Llwyn Angharad</i>	1777	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Llwyn Angharad</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Llwyn ynharad</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Llwyn ynghared</i>	1783	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Llwyn'n hared</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Llwynynghared</i>	1784	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Llwynyngharad</i>	1789	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Llwynyngharad</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Llwyn Angharad</i>	1801	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Llwyn gared</i>	1808	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Llwyn ngared</i>	1838	Map OS	78
<i>Llwyn Angharad</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Llwyn-Angharad</i>	1891	Map OS	XV S.E.
<i>Llwyn-Angharad</i>	1919	Map OS	XV S.E.

### *llwyn, e.p. Angharad*

Dywed cofnod 1691 mai'r un lle oedd *Llwyn-Angharad* â *Thyddyn Syr Evan*. Ni welwyd cyfeiriad arall hyd yma at *Dyddyn Syr Evan* ac ni wyddys pwy oedd y gŵr hwnnw. Mae'n bosib mai offeiriad ydoedd, gan yr arferid rhoi'r teitl *Syr* i offeiriaid di-radd. Nodir cae ar dir Bodaden o'r enw *Ynys Ifan* (RhPDegwm). Yr oedd *Llwyn Angharad* yn bur agos at Bodaden, felly tybed ai'r un gŵr oedd *Ifan* â *Syr Evan*? Noda cofnod 1761 mai'r un lle oedd *Llwyn-Angharad* â *Dolellog*. Dengys map 1919 ei fod yn agos iawn at *Ddolellog* (q.v.) ond yr oeddynt yn ddau annedd ar wahan. Ni wyddys pwy oedd *Angharad*, nac ychwaith ai'r un wraig oedd hon â'r un y tybir ei bod yn cael ei choffáu yn enw *Bodgarad* (q.v.).

<b>Llwyn-bedw</b>	<b>Llanwnda</b>		<b>SH 5358</b>
<i>y lloyne Bedw</i>	1583	Ll&Brynodol	D894
<i>Llwyn bedw</i>	1690	Ll&Brynodol	D895
<i>Llwynbedw</i>	1695	Ll&Brynodol	D899-900
<i>Llwynbedw</i>	1704	EwBangor	B1704/43 95083
<i>Llwynbedw</i>	1727	Ll&Brynodol	D910-11
<i>Llwyn bedw</i>	1734	Ll&Brynodol	D915
<i>Llwyn bedw</i>	1743	Ll&Brynodol	D387-8
<i>Llwynbedw</i>	1747-8	Ll&Brynodol	D399
<i>Llwynbedw</i>	1748	Ll&Brynodol	D402-3
<i>Llwyn bedw</i>	1766	Ll&Brynodol	R46

<i>Llwyn bedw</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>llwyn Bedw</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Llwyn bedw</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Llwyn Bedw</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Llwyn bedw</i>	1795	Ll&Brynodol	M187
<i>Llwyn bedw</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D4
<i>llwyn bedw</i>	1817	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Llwyn Bedw</i>	1838	Map OS	78
<i>Llwyn bedw</i>	1839	RhPdegwm	
<i>Llwyn Bedw</i>	1840	EwBangor	B1840/144 15604
<i>Llwyn-bedw</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Llwyn Bedw</i>	2000	CCPost	(Waunfawr)

### ***llwyn, bedw***

Mae'r annedd hwn rhwng Betws Garmon a Waunfawr, ond byddai ar un adeg ar gyrion eithaf hen blwyf Llanwnda. Nifer o goed bedw yw ystyr *llwyn* yma (*ELleoedd*, 65).

### **Llwyn-celyn Llanwnda SH 5057**

<i>Llwyncelyn</i>	1839	RhPdegwm	
<i>Llwyncelyn</i>	1865	Myn. Horeb	054, 055
<i>Llwyn-y-celyn</i>	1919	Map OS	XVI S.W.

### ***llwyn, celynnen, llu, celyn***

Ar gyrion dwyreiniol Rhosgadfan.

### **Maen-gwyn Llanwnda SH 4757**

<i>Maen-gwyn</i>	1838	Map OS	78
<i>Maengwyn</i>	1839	RhPdegwm	
<i>Maen-gwyn</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Maengwyn</i>	2000	CCPost	(Llanwnda)

### ***maen, gwyn***

Ar yr A487 ym mhentref Llanwnda. Ceir annedd o'r enw *Maen-coch* hefyd ychydig i'r gorllewin.

### **Minffordd Llanwnda SH 4857**

<i>Minffordd</i>	1808	EwBangor	B1808/85 9755
<i>Minffordd</i>	1834	Bangor	8554
<i>Minffordd</i>	1839	RhPdegwm	
<i>Minffordd</i>	1841	EwBangor	B1841/126 15806
<i>Minffordd</i>	1858–9	Bangor	534
<i>Minffordd</i>	1919	Map OS	XV S.E.

### ***min, ffordd***

Nodir annedd o'r enw hwn yn ardal Rhos-isaf ar fap y Degwm ac ar fap OS 1919. Yn RhPdegwm cyplysir enw *Minffordd* a *Rhwngddwryd*, a byddai hynny yn sicr yn ei leoli yn ardal Rhos-isaf.

### **Mount Pleasant Llanwnda SH 4758**

<i>Mount Pleasant Inn</i>	1839	RhPdegwm	
<i>Mount Pleasant</i>	1851	EwBangor	B1851/162 18026



<i>Mount pleasant</i>	1867	Bangor	8555
<i>Mount pleasant</i>	1874	Worrall	213
<i>Mount Pleasant</i>	1890-1	Bangor	8560
<i>Mount-Pleasant Hotel</i>	1891	Map OS	XV S.E.
<i>Mount Pleasant Hotel</i>	1895	Myn.Llb.	E016
<i>Mount Pleasant Hotel</i>	1919	Map OS	XV S.E.

*Saes. mount, pleasant*

Yng nghanol Dinas ar fin yr A487. Ceir sawl cyfeiriad at y dafarn hon yn nyddiaduron Eben Fardd rhwng 1834 a 1840<sup>1</sup>. Yn ddiweddar fe'i trowyd yn dŷ bwyta Indiaidd a chollwyd yr hen enw. Mae hwn yn e.lle poblogaidd iawn a cheir enghraifft ohono mewn llawer tref a phentref yng Nghymru a Lloegr. Fel rheol, mae'n ddisgrifiad canmoliaethus, ond ambell dro fe'i defnyddir yn eironig ac yn ddilornus<sup>2</sup>.

<b>Muriau Merched Engan</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 4957</b>
<i>Mirie merched Engan</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Miriau merched engan</i>	1773	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Marian merched Enan</i>	1775	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>miria Merchad Engan</i>	1778	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Marie merched Engan</i>	1779	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Muriai Merchodegan</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Miria Merchedengan</i>	1788	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>miria merched engan</i>	1794	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>miria merchaid engan</i>	1795	Ll&Brynodol M187
<i>Minan Merched engan</i>	1801	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>minanmerchadengan</i>	1802	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Miria Merchedan</i>	1810	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Miria mawr</i>	1818	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Myriau Merch Engan</i>	1819	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Muriau Mengan</i>	1824	P. yr Aur 4111
<i>Miriamerched Engen</i>	1834	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Miriamerched Engen</i>	1834	Bangor 8554
<i>Muriau merched engan</i>	1838	Map OS 78
<i>Marian Merched Engan</i>	1890-1	Bangor 8560

*mur, llu. muriau, merch, llu. merched, e.p. Engan*

Ar fap OS 1838 nodir yr annedd hwn yng nghanol Rhostryfan. Ni wyddys pwy oedd *Engan / Einion* na'i ferched.

<b>Pant-celyn</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 4957</b>
<i>Pantycelyn</i>	1839	RhPDegwm
<i>Pant-celyn</i>	1919	Map OS XVI S.W.
<i>Pant Y Celyn</i>	2000	CCPost (Rhostryfan)

*pant, y, celynnen, llu. celyn*

Yn rhan ddeheuol Rhostryfan. Yr annedd hwn oedd cartref taid a nain Kate Roberts ar ochr ei mam: symudasant yno ar eu priodas yn 1847 (*LW*, 74-5). Fel *Pantcelyn* y cyfeiria Kate Roberts ato gan amlaf, er bod ambell *Pantycelyn* yn llithro i mewn ganddi (*LW*, passim).

<sup>1</sup> *DDdEF*, 25, 96, 123, 125, 127, 137

<sup>2</sup> Er enghraifft, ystyr eironig sydd i'r *Mount Pleasant* yn Clerkenwell, Llundain, lle mae pencadlys y Swyddfa Bost, gan ei fod wedi ei adeiladu ar safle hen domen sbwriel a oedd yn enwog am ei drewdod (Stephen Smith, *Underground London*, 296).

*Pant-celyn* sydd ar fap OS 1919. Mae'n debyg mai hwn oedd yr enw gwreiddiol, ond iddo droi bron yn ddiarwybod yn *Pantycelyn* drwy ddylanwad enw adnabyddus cartref yr emynydd William Williams.

<b>Pant-coch</b>	<b>Llanwnda</b>		<b>SH 4957</b>
<i>Pant coch</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Pant-côch</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Pant Coch</i>	2000	CCPost	(Rhostryfan)

***pant, coch***

Yn rhan ddeheuol Rhostryfan.

<b>Pantiau</b>	<b>Llanwnda</b>		<b>SH 5157</b>
<i>Pantiau</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Pantia</i>	1858–9	Bangor	534
<i>Pantiau</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Pantiau</i>	2000	CCPost	(Rhosgadfan)

***pant, llu. pantiau***

Ar gyrion de-ddwyreiniol eithaf Rhosgadfan.

<b>Parc</b>	<b>Llanwnda</b>		<b>SH 4758</b>
<i>Park</i>	1748	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Park</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Parck /Park</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Parck</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Park</i>	1776–9	Vaynol	4054
<i>Parg</i>	1777	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Parg</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>barg</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Park</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>park</i>	1783	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Park</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>park</i>	1812	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Parc</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Parc</i>	2000	CCPost	(Dinas)

***parc***

Ar gyrion Dinas oddi ar y lôn sydd yn mynd heibio i Redynog-felen tua Llandwrog. Am ymdriniaeth o'r enw gweler *Parc* dan Gaeau Llanbeblig. Yr oedd fferm o'r enw *Parc* yn Rhostryfan ar un adeg, ond mae honno wedi hen ddiflannu (*MTT*, 73).

<b>Parlwr-mawr-y-llan</b>	<b>Llanwnda</b>		
<i>Parlower Llanwnda</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Parlower Ty Mawr Llan</i>	1784	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Parlwr mawr y Llan</i>	1789	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Parlwr mawr y Llan</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Parlwr mawr y Llan</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Parlwr mawr y Llan</i>	1794	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Parlwr mawr y Llan</i>	1795	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Parlwr mawr y llan</i>	1801	ATT GAG	XQA/LT 5/5

<i>Parlwr Mawr Llan</i>	1804	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Parlwr Mawn Llan</i>	1805	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Parlwr Mawr Llan</i>	1809	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Parlwr y Llan</i>	1818	ATT GAG	XQA/LT 5/5

***parlwr, mawr, y, llan***

Heb ei leoli'n bendant, ond mae cofnod 1784 yn ei gysylltu â *Thy Mawr Llan* (q.v.). Os felly, byddai ym mhen de-orllewinol plwyf Llanwnda, nid nepell o afon Carrog fel y rhed i mewn i Fae'r Foryd. Fel yr awgryma cofnod 1781, Llanwnda yw'r *Llan* yn yr enw. Ystyr *parlwr* fel rheol yw'r ystafell orau mewn tŷ, a gedwir i dderbyn ymwelwyr ac ar gyfer achlysuron arbennig. Fodd bynnag, mae John Field yn cyfeirio at y defnydd yn Lloegr o *parlour* yn yr ystyr o 'a secluded field' (*EFN*, 115). Ceir *Parlwr Crinach* yn Llanfaelog. Môn (AMR), a'r *Parlwr-du* yn Sir y Fflint.

<b>Penbryn-foryd</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 4558</b>	
<i>Penbryn Voryd</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Pen bryn Voryd</i>	1867	Bangor	8555
<i>Penybryn</i>	2000	CCPost	(Saron)

***pen, bryn, moryd***

Mae'n debyg mai'r un annedd sydd yn y tri chofnod uchod. Fel yr awgryma'r enw, mae yng nghyffiniau'r Foryd, i'r gorllewin o Bengwern.

<b>Pen-dalar</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 4858</b>	
<i>Pendalar</i>	1822	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Penydaler</i>	1834	Bangor	8554
<i>Pen daler</i>	1853	Bangor	8555
<i>Pendalar</i>	1876	Myn. Horeb	069
<i>Pendalar</i>	1878	Bangor	8555
<i>Pen-dalar</i>	1919	Map OS	XVI S.W.

***pen, talar***

Ar gyrion eithaf gogledd-ddwyrain Rhostryfan nid nepell o Gaerwen. Gweler hefyd yr annedd hwn dan ei enw arall *Pen-y-gaerwen*. Ystyr *talar* yw'r darn o dir ar ymyl cae a adewid heb ei aredig i roi lle i'r aradr droi.

<b>Pengwern</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 4558</b>	
<i>Pengwern</i>	1544	CCQSR	210
<i>Pengwerne</i>	1683	Bangor	17605
<i>Pengwern</i>	1691/2	EwBangor	B1691/69
<i>Pen Gwein</i>	1699	Ll&Brynodol	D978
<i>Pengwern</i>	1705	EwBangor	B1705/42 95157
<i>Pen Gwein</i>	1716	Ll&Brynodol	D979
<i>Pengwern</i>	1718	EwBangor	B1718/57 96250
<i>Pengwern</i>	1718	EwBangor	B1718/58 96251
<i>Pen y wern</i>	1747	EwBangor	B1747/65 100998
<i>Pengwern</i>	1766	EwBangor	B1766/132 3061
<i>Pengwerne</i>	1700	Ll&Brynodol	D1178
<i>Pengwren</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>pengwern</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pen yr wern</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>pen yr wern</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 5/5

<i>Penywern</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pengwern</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pen y' Wern</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pen wern</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>ben werne</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pengwern/Peny Wern/ Ty Mawr an</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pengwern</i>			
<i>Pengwern Bach</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pen y Wern</i>	1784	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pen y wern</i>	1784	EwBangor	B1784/122 6151
<i>Penywern</i>	1788	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pengwern</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Penywern</i>	1789	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pengwarn / Pen y werne</i>	1805	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pengwrn</i>	1808	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pengwern, otherwise Ty mawr Pengwern</i>	1809	Rumsey Wms	424
<i>pengwern</i>	1812	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pengwern</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D4
<i>Pen y Wern</i>	1818	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pengwern</i>	1818	EwBangor	B1818/119 11527
<i>Pen Gwern</i>	1820	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pen y wern otherwise Pengwern Bach</i>	1829	P. yr Aur	21430
<i>Pengwern</i>	1838	Map OS	78
<i>Pengwern</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Pengwern</i>	1847	EwBangor	B1847/175 17083
<i>Pengwarn</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Pen Gwern</i>	1867	Bangor	8555
<i>Pengwern</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Pengwern</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Pengwern</i>	2000	CCPost	(Saron)

**pen, y, gwern**

Oddi ar y ffordd sydd yn mynd o bentrefan Llanfaglan i Landwrog yn ardal Saron<sup>1</sup>. Mae'r ffurfiau *Pengwern* a *Pen y Wern* yn digwydd cyn amled â'i gilydd rhwng 1770–90, ac ambell dro gyda'i gilydd. Dywed cofnod 1829 mai'r un lle oedd *Pen y Wern* â *Phengwern Bach*, a honnai W. Gilbert Williams, a oedd ag adnabyddiaeth ddihafal o blwyfi Llanwnda a Llandwrog, mai enw arall ar *Bengwern* oedd *Pen y Wern* (*TCHSG*, 4 (1942–3) 19)<sup>2</sup>. Mae *Pengwern* ar ben cithaf y wern, neu dir corsiog, sydd yn ymestyn rhwng yr annedd a Bae'r Foryd. Ceir yr un elfennau yn y Gern., sef *pen* + *guern*, yn yr e. lle *Penwarne* mewn tri man yng Nghernyw (*Corn. PNE*, 118).

<b>Penisarhos</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 4857</b>
<i>Penisa rhos</i>	1839	RhPDegwm
<i>benisaros</i>	1858–9	Bangor 534
<i>Penisarhos</i>	1867	Bangor 8555
<i>Pen-isa'r-rhôs</i>	1919	Map OS XV S.E.
<i>Pen-isa'r-rhôs</i>	1959	Map OS SH 45
<i>Penisarhos</i>	2000	CCPost (Rhostryfan)

**pen, ans. isel, gradd eithaf isaf, y, rhos**

<sup>1</sup> Am ddisgrifiad o'r tŷ gweler *IAMC*, 224.

<sup>2</sup> W. Gilbert Williams, 'Hen Deuluoedd Llanwnda: Y Pengwern (1500–1800)', *TCHSG*, 4, (1942–3), 19.

Fel yr awgryma'r enw, mae'r annedd ar gyrion gorllewinol eithaf Rhostryfan yn ardal Rhos-isaf.

<b>Pen-lan-isaf / -uchaf</b>	<b>Llanwnda / Llandwrog</b>	<b>SH 4857</b>
<i>Penlan bach</i>	1814	EwBangor B1814/85 10832
<i>Penlân</i>	1839	RhPDegwm
<i>Penlan</i>	1858–9	Bangor 534
<i>Pen-lan-isaf / Pen-lan-uchaf</i>	1919	Map OS XV S.E.
<i>Penlan Isaf / Penlan Uchaf</i>	2000	CCPost (Rhostryfan)

***pen, glan, ans. isel, gradd eithaf isaf***

Ar gyrion Rhostryfan yn ardal Rhos-isaf. Mae *Pen-lan-isaf* ym mhlwyf Llanwnda tra bo *Pen-lan-uchaf* ym mhlwyf Llandwrog. Mae sawl ystyr i *glan*: torlan, traeth, llethr, bryncyn. Gweler hefyd *Penlan* dan Anheddau Llandwrog.

<b>Penrallt</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 5157 (1) / SH 5158 (2)</b>
<i>Penrallt</i>	1839	RhPDegwm
<i>Pen-yr-allt (1) / Pen-yr-allt (2)</i>	1919	Map OS XVI S.W.
<i>Penrallt</i>	2000	CCPost (Rhosgadfan)

***pen, yr, allt***

Ceir un annedd (1) o'r enw hwn ar gyrion dwyreiniol Rhosgadfan. Mae'r enw yn addas gan mai un rhiw serth yw'r lôn yr holl ffordd o Ros-isaf trwy Rostryfan a Rhosgadfan hyd at yr annedd hwn. Mae annedd arall (2) o'r un enw wedi ei nodi ar fap OS 1919 ar gyrion pellaf Rhosgadfan ar ben eithaf y Lôn Wen cyn disgyn i lawr yr allt i gyfeiriad Waunfawr.

<b>Penrhos</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 4457</b>
<i>Penrhos</i>	1762	EwBangor B1762/157 2089
<i>Pen yr Rhoes</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>pen yr Rhoes</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Penyrhose</i>	1774	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Pen ros</i>	1779	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Penyross</i>	1781	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Penrhos</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>Pen Rhos</i>	1804	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Glan y Morfa otherwise Penrhose</i>	1809	Rumsey Wms 424
<i>Penrhôs</i>	1811	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Pen Rhos</i>	1819	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Penrhos</i>	1839	RhPDegwm
<i>Pen-rhôs</i>	1919	Map OS XV S.E.
<i>Penrhos / Penrhos Bach</i>	2000	CCPost (Llanwnda)

***pen, rhos***

Ar y ffordd o Saron i Landwrog ar gyrion de-orllewinol eithaf plwyf Llanwnda. Mae ar ben neu ymyl y rhos gorslyd sydd yn ymestyn ar draws yr ardal lle mae afonydd Foryd a Charrog yn llifo i mewn i Fae'r Foryd.

<b>Pentre</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 4558</b>
<i>Pentre</i>	1839	RhPDegwm
<i>Pentref</i>	1867	Bangor 8555
<i>Pentre</i>	1919	Map OS XV S.E.

<i>Pentre</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Pentre</i>	2000	CCPost	(Saron)

**pentref**

Nid nepell o Bengwern ar y ffordd sydd yn mynd o Saron i Landwrog. Enw arall ar y lle hwn ar un adeg oedd *Pengwern-bach* (TCHSG, IV (1942–3), 32). Ar fap OS 1919 nodir annedd arall o'r enw *Pentre* ar gyrion Betws Garmon, nid nepell o *Bentre-bach* isod. Ystyr arferol *pentref* heddiw yw clwstwr o anheddau llai ei faint na thref. Gynt, yr oedd yn cyfeirio at y rhan honno o dref lle byddai'r taeogion yn byw, ond yn aml iawn mewn e. lle cyfeiria at ddim byd mwy na fferm neu annedd unigol (ETG, 123).

<b>Pentre-bach</b>	<b>Llanwnda</b>		<b>SH 5357</b>
<i>Tythyn y Pentre bach</i>	1685	Ll&Brynodol	D1047
<i>Tythin y Pentre bach</i>	1687/8	Thorowgood	2
<i>Pentre-bach</i>	1692–3	Ll&Brynodol	D630
<i>y Pentre bach</i>	1721	Ll&Brynodol	D1071–2
<i>y Pentre Bach</i>	1721	Ll&Brynodol	D1068–9
<i>Pentre-bach</i>	1722	Ll&Brynodol	D1073
<i>Pentre-bach</i>	1735	Ll&Brynodol	D366
<i>Pentrebach</i>	1746	Ll&Brynodol	D1091
<i>Tythyn y pentre bach</i>	1747–8	Ll&Brynodol	D399
<i>Tythyn y Pentre bach</i>	1748	Ll&Brynodol	D402–3
<i>Pentre bach</i>	1766	Ll&Brynodol	R46
<i>penra bach</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>penra bach</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>pentre bach</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pentre bach</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Pentre bach</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Pentre bach</i>	1793	EwBangor	B1793/147 7420
<i>Tythyn y Pentre bach alias Pentre bach</i>	1796	Poole	3802
<i>Pentre bach</i>	1798	EwBangor	B1798/87 8167
<i>Pentrebach</i>	1802	EwBangor	B1802/122 8795
<i>Pentrebach</i>	1811	Ll&Brynodol	D1110–1
<i>Penra bâch</i>	1817	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pentre bach</i>	1822	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pentre bach</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Pentrebach</i>	1840	Ll&Brynodol	D966
<i>Penra bach</i>	1848	EwBangor	B1848/131 17325
<i>Pentre-bâch</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Pentre Bach</i>	2000	CCPost	(Waunfawr)

**pentref, bach**

Ar gyrion eithaf hen blwyf Llanwnda, bron iawn ym Metws Garmon. Rhestrir yr annedd hwn yn y CCPost 2000 dan Waunfawr.

<b>Pen-y-bryn</b>	<b>Llanwnda</b>		<b>SH 5058</b>
<i>Tythin Pen y brin</i>	1696	Vaynol	3744
<i>pen y brynn</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>pen y brÿn</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>pen y brynn</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Penn y Brynn</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Penybryn</i>	1780	EwBangor	B1780/97 5417
<i>Penybryn</i>	1780–7	P.S.Glynllifon	84(56)

<i>Penybryn</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Pen y Bryn</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Pen y bryn</i>	1795	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Peny brin</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pen y bryn</i>	1809	EwBangor	B1809/85 9912
<i>Pen y bryn</i>	1814	C. Vincent	3222
<i>Penybryn</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D4
<i>Penybryn</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Penybryn</i>	1874	Worrall	213
<i>Pen-y-bryn / Pen-y-bryn bâch</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Pen-y-bryn / Pen-y-bryn bâch</i>	1957	Map OS	SH 55
<i>Penbryn Canol</i>	2000	CCPost	(Rhostryfan)
<i>Pen-y-bryn / Pen y Bryn Canol</i>	2002	Map OS Explorer	254

***pen, y, bryn***

Mae *Pen-y-bryn* a *Pen-y-bryn Canol* mewn llecyn diarffordd rhwng cyrion gogleddol eithaf Rhostryfan a Rhosgadfan yn agos at Bodgarad, ac mae *Pen-y-bryn bach* ychydig i'r dwyrain.

<b>Pen-y-cae</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 4657</b>	
<i>Pen y Cae</i>	1699	Ll&Brynodol	D978
<i>Pen y cae</i>	1700	Ll&Brynodol	D1178
<i>Pen y Cae</i>	1716	Ll&Brynodol	D979
<i>pen y' cae</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>pen yr Cay</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Penycae</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pen gay</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pen y Cae</i>	1784	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pen y Cae</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Pen-y-cae</i>	1790	EwBangor	B1790/120 6903
<i>Peny Cae</i>	1801	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pen y cae</i>	1809	Rumsey Wms	424
<i>Pen y cae</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D4
<i>Pencae</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Pen-y-cae</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Pencae</i>	2000	CCPost	(Saron)

***pen, y, cae***

Ar y chwith wrth fynd o Saron i gyfeiriad Llandwrog. Ceir anedd o'r enw *Pen-cae-uchaf* yn rhan orllewinol Rhostryfan.

<b>Pen-y-ceunant</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 4957</b>	
<i>Pencaenant</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Pen-y-ceunant</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Pen Y Ceunant</i>	2000	CCPost	(Rhostryfan)

***pen, y, ceunant***

Yn rhan orllewinol pentref Rhostryfan.

<b>Pen-y-clip</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 4859</b>	
<i>Tythyn Pen y Click</i>	1620/1	<i>Ex. P. J.</i>	82
<i>Pen y clip</i>	1716	Thorowgood	76
<i>Pen y Clipp</i>	1716	Henblas B	156

<i>Pen y Clipp</i>	c.1719	Thorowgood	119
<i>Pen y Clip</i>	1734	Constable Ellis	17
<i>Pen y Clip</i>	1736	Henblas B	160-2
<i>pen yr clip</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pen yr Clip</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pen y Clip</i>	1773	EwBangor	B1773/108 4264
<i>Penyclip</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pen y' Clip</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pen glib</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Penglib</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pen y Clip</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pen y clip</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Penyclip</i>	1796	Poole	3801
<i>Pen y Clip</i>	1809	EwBangor	B1809/87 9914
<i>Pen Clip</i>	1811	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pen y clip</i>	1811	EwBangor	B1811/108 10273
<i>Pen y clip</i>	1838	Map OS	78
<i>Penyclip</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Penyclip</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Penyslip</i>	1889-90	Sutton	148

#### ***pen, y, clip***

Mae map OS 1838 a map y Degwm yn dangos lleoliad yr annedd hwn oddi ar yr allt sydd yn mynd i fyny o afon Gwyrfaï ym mhentref Bontnewydd i gyfeiriad Dinas. Felly, yr oedd yr enw yn gweddu'n berffaith i leoliad yr annedd gan yr arferai fod ar ben y *clip*, sef rhiw fechan serth. Ceir *Pen-y-clip* hefyd yn Nwygyfylchi; yn Llandysilio, Môn, ac yn Llanfihangel-yng-Nghinmeirch, Dinb. (AMR).

#### **Pen-y-ffridd**

#### **Llanwnda**

#### **SH 5056**

<i>Penyffridd</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Pen-y-ffridd</i>	1957	Map OS	SH 55

#### ***pen, y, ffridd***

Ar fap y Degwm nodir yr annedd hwn ar gyrion de-orllewinol Rhosgadfan, ac mae map OS 1957 yn nodi ardal o'r un enw yn rhan ddeheuol Rhosgadfan. Cyfeiriodd Kate Roberts at *Ben-y-ffridd* fel un o'r tai hynny yr oedd eu henwau yn adlewyrchu tirwedd bro ei mebyd (LW, 30).

#### **Pen-y-gaer**

#### **Llanwnda**

#### **SH 5456**

<i>Pen-y-gair</i>	1740	EwBangor	B1740/85 100013
<i>pen y Gaer</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pen y Gaer</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Pen y gaer</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Pen y Gaer</i>	1793	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Penygaer</i>	1809	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Penygaer</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Pen-y-gaer</i>	1920	Map OS	XXI N.E.
<i>Pen Y Gaer</i>	2000	CCPost	(Betws Garmon)

#### ***pen, y, gaer***

Ar gyrion Betws Garmon uwchben afon Gwyrfaï fel y llifa allan o Lyn Cwellyn. Mae'r annedd hwn yng nghesail craig o'r enw *Pen y Gaer*. Byddai'r holl ardal i'r ochr hon o'r afon



yn hen blwyf Llanwnda. Nid oes cofnod yn *IAMC* o unrhyw olion hynafol y gellid eu disgrifio yn gaer yn agos i'r annedd. Gweler hefyd *Tan-y-gaer* isod.

<b>Pen-y-gaerwen</b>	<b>Llanwnda</b>		<b>SH 4858</b>
<i>Tythin pen y Gaerwen</i>	1696	Vaynol	3744
<i>pen y Gaerwen</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pen Gaerwen</i>	1776–9	Vaynol	4054
<i>Pen y Gaurwen</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Peny Geirwên</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Pen y Gaerwen</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Peny Gaerwen or Pen Dalar</i>	1810–11	Vaynol	4063
<i>Penygaerwen</i>	1829	EwBangor	B1829/120 13436
<i>ben y cyrwan / ben y ceyrwan / ben ceyrwan</i>	1858–9	Bangor	534

**pen, y, gaerwen**

Mae cofnod 1810–11 yn werthfawr gan ei fod yn datgelu lleoliad yr annedd hwn. (Gweler hefyd *Pen-dalar* uchod). Mae ei safle yn esbonio ei enw gan ei fod wedi ei leoli i'r gogledd o *Gaerwen* (q.v.) ar gyrion gogleddol Rhostryfan. Daw cofnodion 1858–9 o Lyfr Siop Rhostryfan ac maent yn ddiddorol gan eu bod yn adlewyrchu ynganiad lleol yr enw.

<b>Pen-y-groes</b>	<b>Llanwnda</b>		<b>SH 4758</b>
<i>Pen y groes</i>	1644	Baron Hill	3233
<i>Tythin Pen y Groes</i>	1696	Vaynol	3744
<i>Penygroes</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Penn y groes</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pen y Groes</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Pen y Groes</i>	1789	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pen y Groes</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>pen y groes</i>	1808	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pen y groes</i>	1809	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pen y Groes</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D4
<i>Pen y groes</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Penygroes</i>	1848	EwBangor	B1848/133 17327
<i>Pen y Groes</i>	1857	EwBangor	B1857/144 19490
<i>Pen-y-groes</i>	1891	Map OS	XV S.E.
<i>Pen-y-groes</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Pen y Groes</i>	1979	<i>OCottS</i>	32: Plât 6.

**pen, y, croes**

Arferai'r annedd hwn sefyll ar gyrion Dinas wrth nesáu o gyfeiriad Bontnewydd. Yr oedd yma efail a gweithdy saer ar wahanol adegau. Bu Huw Jones, bardd gwlad ac un o gywion Dafydd Ddu Eryri, yn byw yma ac yn gweithio fel saer (*CCThA*, 60–4).

Y *groes* yn y drydedd elfen yw'r groesffordd, neu yn hytrach y gyffordd groesgam, lle mae'r naill ffordd yn troi tuag at Ros-isaf a'r llall i lawr i gyfeiriad Saron oddi ar yr A487. Yn *OCottS* ceir disgrifiad a llun o'r hen fwthyn hwn a oedd yn un o'r ychydig enghreifftiau ar ôl o'r dwb clai a ddefnyddid i blastro ers talwm<sup>1</sup>. Dymchwelwyd yr annedd yn y 1970au.

<b>Pen-y-parc</b>	<b>Llanwnda</b>		<b>SH 4857</b>
<i>Pen y parc</i>	1839	RhPDegwm	

<sup>1</sup> Ceir disgrifiad ohono hefyd yn *IAMC*, 223–4 a llun ar blât 60.

*Pen Y Parc* 2000 CCPost (Rhostryfan)

***pen, y, parc***

Rhwng Rhos-isaf a Rhostryfan.

<b>Pistyll</b>	<b>Llanwnda</b>		<b>SH 4958</b>
<i>Pistell</i>	1696	Vaynol	3744
<i>pistill</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pisdill</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pistill</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pistill</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Pistill</i>	1788	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pistill</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Pistill</i>	1810/11	Vaynol	4063
<i>Pistill</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Pistyll</i>	1904	Bangor	f33976

***pistyll***

Dywed W.Gilbert Williams fod tir *Pistyll* bellach wedi ei rannu rhwng Wernlas-ddu a Hafoty-Wernlas (q.v.), ac mae map y Degwm yn ei leoli rhwng y ddau annedd hyn. Dywed hefyd fod cerrig y tŷ wedi eu defnyddio i ymestyn adeilad Plas Dinas (GAG XD4/7; MTT, 80)). Yn sicr rhestrir 'Pistill House' ar dir 'Wernlas' yn RhPDegwm. Disgyniad o ddŵr yw *pistyll* a all fod mor fawr â rhaeadr neu mor fach fel y gellir dal llestr dano i ddal y dŵr.

<b>Planwydd</b>	<b>Llanwnda</b>		<b>SH 5653</b>
<i>planwydd</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Planwydd</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Planwydd</i>	1783	P.yr Aur	4058
<i>Planwydd</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Planwydd</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Plannwydd</i>	1795	Ll&Brynodol	M187
<i>Planwudd</i>	1818	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Planwydd</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Planwydd</i>	1874	Worrall	213
<i>Planwydd</i>	1920	Map OS	XXI N.E.
<i>Planwydd</i>	1957	Map OS	SH 55
<i>Planwydd</i>	2000	CCPost	(Rhyd-ddu)

***planwydden, llu. planwydd***

Ym mhen eithaf hen blwyf Llanwnda nid nepell o afon Gwyrfa fel y rhed i mewn i Lyn Cwellyn: yn wir, mae wedi ei leoli yn Rhyd-ddu yn y CCPost 2000. Ystyr *planwydd* yw casgliad o goed ieuainc, llwyni neu brysgwydd. Gall hefyd olygu coed o deulu'r *Platanus* ('plane trees'). Yma, fodd bynnag, mae'n debyg ei fod yn cyfeirio at blannigfydd o goed. Ar fap OS 1920 gellir gweld dwy o'r rhain o bobtu'r annedd.

<b>Plas-Llanwnda</b>	<b>Llanwnda</b>		<b>SH 4658</b>
<i>Plas yn Llanwnda</i>	1699	Ll&Brynodol	D978
<i>Plas in Llanwnda</i>	1700	Ll&Brynodol	D1178
<i>Plas yn Llanunda</i>	1716	Ll&Brynodol	D979
<i>Plaes Llanwnda</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Plaes Llanwnda</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Plass Llanwnda</i>	1784	ATT GAG	XQA/LT 5/5

<i>Plas Llanwnda</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Plas Llanwnda</i>	1808	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Plas Llanwnda</i>	1809	Rumsey Wms	424
<i>Plas llanwnda</i>	1814	Rumsey Wms	880
<i>Plas Llanwnda</i>	1815	EwBangor	B1815/142 11029
<i>Plas Llanwnda</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Plâs</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Plas</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Plas</i>	2002	Map OS Explorer	254

**plas, e.ll.Llanwnda**

Oddi ar y lôn sydd yn mynd i lawr o ganol Dinas at Saron heibio i Ysgol Felinwnda.

<b>Plas-yn-Bont</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 4759</b>	
<i>Plass an Bont</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Plas yn Bont</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Blas yn Bont</i>	1783	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Plass yn Bont</i>	1784	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Plâs Bontnewydd</i>	1789	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Plas Bontnewydd</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Plas Bont Newydd</i>	1804	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Plas Bontnewydd</i>	1805	Rumsey Wms	801
<i>Plas Bont Newydd</i>	1806	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Plas Bont</i>	1807	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Plâs Bont</i>	1811	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>plas yn Bont</i>	1812	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Plas yn y bont</i>	1814	Rumsey Wms	880
<i>Plas yn bont / Plasynbont</i>	1817	Rumsey Wms	909
<i>Plas yn Bont</i>	1820	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Plas yn bont</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Plas y bont</i>	1849	EwBangor	B1849/99 17518
<i>Plâs-y-bont</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Plas-y-bont</i>	2005	gwybodaeth bersonol	

**plas, yn, y, e.ll. Bont / Bontnewydd**

Ar y dde wrth fynd allan o Bontnewydd i gyfeiriad Dinas. Dywed W.Gilbert Williams mai hen enw *Plas-yn-Bont* oedd Bodelloog (q.v.) (*TCHSG*, V, (1944). 41). Un o deulu Lewisiaid *Plas-yn-Bont* oedd Hugh Lewis (1562–1634), y llenor a chyfieithydd *Perl mewn Adfyd* (ibid. 43; *Byw*, 519). Gwelir simsanu rhwng *Plas yn bont* a *Phlas-y-bont* fel ffurfiau ar yr enw. Ceir disgrifiad o'r tŷ yn *IAMC*, 221–2, ac yn *OCottS*, 37.

<b>Pont-faen</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 4659</b>	
<i>Tythyn y bont vayn</i>	1549	<i>Cal. Pat. Rolls 1553</i>	324
<i>Cayr Bont Vayn</i>	1568	P.S.Peniarth	DC23
<i>Pontvaen or Tuthyn Roger</i>	1612	Poole	3364
<i>melin y bont vaen</i>	1619	Henblas B	128
<i>Tythyn y Bont Vaen</i>	1646–7	Baron Hill	3236
<i>Pontvayne</i>	1655	Baron Hill	3237
<i>Bont vaen</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Pont vain</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Tyddyn Pontfaen otherwise Ty cerrig</i>	1778	Roger Lloyd II	182–3
<i>Bont fain</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Bontfaen</i>	1783	P. yr Aur	4058

<i>Bontfaen</i>	1784	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pontfaen</i>	1788	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pontfaen</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Tyddyn Pontfaen otherwise Ty Cerrig</i>	1789	P. yr Aur	17317
<i>Pont Vain</i>	1795	Ll&Brynodol	R81
<i>Pont fean</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Bont Vaen</i>	1803	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Bont Vain</i>	1804	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Bont fain</i>	1805	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Bont Vain</i>	1806	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Bontfaen</i>	1815	ATT GAG	XQA/LT 6/11
<i>Bont Faen</i>	1816–20	Dawson. Bangor	f34081. D1
<i>Bont Flaen</i>	1819	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pont faen</i>	1819	EwBangor	B1819/111 11692
<i>Bont faen</i>	1824	Rumsey Wms	10
<i>Bontfaen</i>	1831	Bangor	8554
<i>Pont-faen</i>	1838	Map OS	78
<i>Pont faen</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Pontflaen</i>	1840	Vaynol	421
<i>Bontfaen</i>	1847	EwBangor	B1847/176 17084
<i>Bont faen</i>	1904	Bangor	f33976
<i>Pont Faen</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Pont Faen</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Bont Faen</i>	2000	CCPost	(Llanfaglan)

***pont, maen***

Enw ar annedd, pont a melin gynt ar afon Gwyrfaei wrth fynd allan o bentrefan Llanfaglan i gyfeiriad Llandwrog. Gan mai'r afon yw ffin y ddau blwyf yn y fan hon mae'r llecyn hwn ar y ffin ei hun. Ambell dro fe'i cofnodir dan blwyf Llanfaglan, dro arall dan blwyf Llanwnda fel y gwelir o ATT, ond mae'r annedd wedi ei gofnodi yn y CCPost heddiw dan Lanfaglan. Mae'n amlwg fod arwyddocâd i'r ffaith mai pont *faen* oedd yma: efallai iddi ddisodli pont bren flaenorol. Fodd bynnag, yn ddiweddarach daeth yr ail elfen yn faen tramgwydd i gofnodwyr yr enw. Gan fod arwyddocâd yr elfen *maen* bellach wedi ei gollu, ceisiwyd ei rhesymoli trwy gynnig *main* neu *blaen* fel yr ail elfen. Ond er bod y geiriau hyn efallai yn fwy cyfarwydd, yr oeddynt yn gwneud llawer llai o synnwyr na'r enw dilys. Gweler hefyd *Ty-cerrig* isod.

**Pont-Wyled**

**Llanwnda**

**SH 4757**

<i>Pontwyled</i>	1761	EwBangor	B1761/99 1886
<i>Pont Ddwylad</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pont Dellad</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pond wylad</i>	1777	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pont Dwyled</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>bond wylad</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pontwylad</i>	1780–7	P.S.Glynllifon	84(56)
<i>Bont wyled</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Bont hwylad</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Bontwyled</i>	1784	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pont Ddwyled</i>	1788	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pon Ddwyled</i>	1789	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pont Ddwyled</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Bontwyled</i>	1795	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Bont ddwyled</i>	1804	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Bontddwylad</i>	1807	ATT GAG	XQA/LT 5/5

<i>Bontwylad</i>	1810	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Bontddywlad</i>	1812	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Bontddieulid</i>	1815	EwBangor	B1815/140 11027
<i>Bont ddwy-led</i>	1819	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Bont dwlad</i>	1821	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pontddwylad</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Pontwyled</i>	2000	CCPost	(Llanwnda)

***pont, e.p. Gwyled***

Enw afon sydd yn llifo trwy Rostryfan i lawr i Lanwnda yw *Gwyled* (MTT, 73). Honnai W.Gilbert Williams fod cymysgu wedi bod rhwng dwy afon: 'Gwyled yw enw'r afon y mynn yr oes hon ei galw'n Garrog' (ibid., 17). Yn 1199 ceir cyfeiriad at afon *Gwyleit* /*Gwyleyt*, a dywedir ei bod yn llifo i *Aberkarroc* (AWR, 353). Mae'n wir fod afon *Gwyled* yn codi rhwng Rhosgadfan a Rhostryfan ac yn llifo i mewn i afon Carrog yn Abercarrog ger Morfa Dinlle (EANC, 148). Y mapiau OS a achosodd y cymysgu y sylwodd Gilbert Williams arno. Mae Carrog yn fwy i'r gogledd na *Gwyled*, a Carrog sydd yn llifo dan y bont ym *Mhont-Wyled* mewn gwirionedd (ibid.). *Gwyled* yn ddiau yw'r afon a nodir fel *Gwelye flu.* ym mapiau Speed a Saxton 1610, ac fel *Guelye fl.* ym map Blaeu 1645 (GAG XM 672).

Mae'n anodd esbonio'r enw: efallai mai'r un gwy sydd yma ag yn afon Gwy. Awgrymodd Syr Ifor Williams mai ystyr hwnnw yw 'troellog' (*ELleoedd*, 49). Ymddengys oddi wrth lawer o'r cofnodion uchod fod yr enw yn anghyfarwydd i'r brodorion, a cheir ymgais i wneud synnwyr o'r enw gyda ffurfiau megis *dwy-led*. Ond erys yr enw yn fyw hyd heddiw, wedi ei adfer i'w ffurf gywir erbyn hyn (CCPost 2000), ac fe'i cedwir hefyd yn enw stad dai *Bro Wyled* yn Rhostryfan. Mae annedd *Pont Wyled* ar gyrion deheuol pentref Llanwnda.

<b>Rhedynog-felen</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 4657</b>
<i>Redynawc Velen</i>	1185–6	BT (RB) 168
<i>Reddenaut</i>	1291	Tax. Nich. 292
<i>Tredynoc Vellen</i>	1491	Rec. C. Aug. 53
<i>Redenok Velyn</i>	1535	Val.Ecc. IV, 441
<i>Bedenok velen</i>	c.1540	RCAWM 63
<i>Redonock Velyn</i>	c.1540	RCAWM 294
<i>Rhydynog Velen</i>	1622/3	Ex. P. J. 83
<i>Rhydynog felen</i>	1641	EwBangor B1641/44
<i>Rhydynog velen</i>	1668	P. yr Aur Add. 1415
<i>Rhedynog felyn</i>	1671	P. yr Aur Add. 1415
<i>Rhedynog felen</i>	1691	Bodorgan 117
<i>Rhydenog Hellan</i>	1699	Ll&Brynodol D978
<i>Rhydynog felen</i>	1700	Ll&Brynodol D1178
<i>Rhydenog Hellan</i>	1716	Ll&Brynodol D979
<i>Rhydynogfelen</i>	1753	EwBangor B1753/89 549
<i>Rhudunogvelen</i>	1756	Tynyngogl 364
<i>Rhedynog felan</i>	1757	Tynyngogl 365
<i>Rhydynogfelan</i>	1757	NewGlynllifon XD2 / 7424
<i>Rhydynnog felan</i>	1757	NewGlynllifon XD2 / 7426
<i>Rhydynog felan</i>	1757	P. yr Aur 14493
<i>Rhedynog felan</i>	1757	Bangor 29397
<i>Dynog faelan / Dynog felan bach</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Dunog felan /Dunog Felan Bach</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Rhedynog felen</i>	1772	EwBangor B1772/91 4088
<i>Dunog Felan / Dunogfelan Pach</i>	1773	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Dynogfelan</i>	1775	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Dynnog felan</i>	1778	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Dynog felen / Dynog felan Pach</i>	1779	ATT GAG XQA/LT 5/5

<i>Rhydyngfelan / Dyngfelan Bach</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Rhedynog felan</i>	1781	Bangor	29398
<i>Rhydynogfelan fawr / Rhydynogfelan Bach</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Rhedynfelan / Rhydynog felan</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Rhydynog felan</i>	1797	P. yr Aur	14493
<i>Rhydynog felan</i>	1799	Bangor	29400
<i>Rhedynog felan</i>	1799	AI Pryce	193-5
<i>Rhydynog Felan</i>	1809	Rumsey Wms	424
<i>Rhydogfelan / Rhydynogfelan</i>	1810	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Rhydynog Felan fawr / Rhydynog Felan fach</i>	1816-20	Dawson, Bangor	134081 D4
<i>Rhegynog felan</i>	1819	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Rhydynogfelan</i>	1824	Bangor	8560
<i>Rhydynogfelan</i>	1825	P. yr Aur Add	1969
<i>Rhydynog felan</i>	1838	Bangor	29403
<i>Donog-felen / Donog-felen-fach</i>	1838	Map OS	78
<i>Rhedynog felen bach / Rhedynogfelen fawr</i>	1839	RhP Degwm	
<i>Rhydynog Felan</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Rhedynog felan fawr / Rhydynog felan</i>	1867	Bangor	8555
<i>Rhedynogfelan</i>	1890-1	Bangor	8560
<i>Rhedynog-felen-fawr / Rhedynog-felen</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Rhedynog Felen Fawr</i>	2000	CCPost	(Llanwnda)
<i>Rhedynog Felen</i>	2000	CCPost	(Dinas)

***rhedynog, ans.melyn, ben. melen***

Ar y lôn gefn sydd yn mynd o Dinas dros groesfan yr hen reilffordd yng Nglanrhyd i gyfeiriad Llandwrog. Mae annedd presennol *Rhedynog-felen-fawr* yn dyddio o tua 1894 ond mae yma olion safle hen iawn (*MTT*, 25; *IAMC*, 223). Yr oedd trefgordd *Rhedynog-felen* gynt yn eiddo i Urdd y Mynaich Gwynion, a sefydlwyd eu habaty yma o Ystrad-fflur yn 1186 cyn symud yn fuan wedyn i Aberconwy (*MTT*, 13-25; *OCS*, 253)<sup>1</sup>.

Elfen gyntaf yr enw yw *rhedynog*, sef tir llawn rhedyn. Ceir y terfyniad ansoddeiriol *-og* mewn e.lleoedd yn Gymraeg i ddynodi tir lle ceir llawer o ryw blanhigyn arbennig: cf. *celyn* > *celynnog* > *Clynnog*; *eithin* > *Eithinog*; *banadl* > *Banhadlog*. Mae *rhedynog* yn elfen eithaf cyffredin mewn e.lleoedd. Ceir *Rhedynog-felen* arall ger Chwillog, ac fe'i gwelir hefyd yn yr e.lleoedd Cern. *Redinnick*, *Redannack* a *Redannick* (*Corn. PNE*, 196) a'r e.lle Llyd. *Radenek* (*GPC*). Yr ail elfen yw ffurf fen. yr ans. *melyn*. Mae ystod eithaf cang i ystyr yr ans. hwn, o aur i frowngoch, felly gallai'n hawdd ddisgrifio lliw'r rhedyn yn yr hydref, neu gallai fod yn gyfeiriad at y rhedyn *melyn-wyrdd* a welodd Kate Roberts yn yr ardal hon:

'Un peth arall a'm trawodd ydoedd y rhedyn hardd a dyf ym monau'r cloddiau – rhedyn hir o liw gwyrdd golau, a cheir y gair 'rhedyn' yn enwau llawer o'r tai, e.e. *Rhedynog*, *Rhedynog Felen*, *Bryn Rhedyn*, etc' (*ErthKR*, 25).

Gwelir sawl enghraifft uchod o'r cywasgu a fu ar lafar yn y ffurfiau *Dynog* a *Donog*.

<b>Rhosgadfan</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 5057</b>
<i>Rhos-gadfan</i>	1838	Map OS 78
<i>Rhosgadfan</i>	1839	RhP Degwm
<i>Rhosgadfan</i>	1843	EwBangor B1843/111 16191
<i>Rhosgadfa</i>	1851	Cyfrifiad

<sup>1</sup> Mae W. Gilbert Williams yn trafod teulu *Rhedynog-felen* yn *TCHSG*, 8, (1947), 20-6.

*Rhosgadfan* 1919 Map OS XVI S.W.

***rhos, e.p.Cadfan***

Erbyn hyn, mae'r annedd hwn yng nghanol pentref Rhosgadfan, ond gellir gweld oddi wrth fap cau tir comin Rhosgadfan mai hwn oedd y cynharaf o'r tyddynnod a godwyd ar lethrau Moeltryfan, a hynny yn 1797 (*TyCh*, 46). Mae gan Kate Roberts stori ddoniol am rwystredigaeth y gŵr a oedd yn byw yno wrth iddo geisio esbonio mai *Rhosgadfan* oedd enw ei gartref ac enw'r pentref (*LW*, 39). Am yr elfen *Cadfan* gweler dan *Bodgadfan* uchod.

<b>Rhwngddwryd</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 4957</b>	
<i>Rhynyddwryd</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Rhwng y Dwyrhed</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Rhwngddwryd</i>	2000	CCPost	(Rhostryfan)

***rhwng, y, dwy, rhyd***

Ar y ffordd i fyny o Ros-isaf i Rostryfan. Mae annedd o'r un enw ym mhlwyf Llanbeblig (q.v.).

<b>Saron</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 4658</b>	
<i>Saron Chappel</i>	1838	Map OS	78
<i>Saron</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Shaion</i>	1847	EwBangor <sup>1</sup>	B1847/174 17082
<i>Saron (ardal) / Capel Saron</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Saron (ardal) / Ty Capel Saron</i>	2000	CCPost	(Saron)

***e.ll.Saron***

Capel ac ardal i'r dwyrain o fae'r Foryd rhwng afonydd Gwyrfaï a Rhyd. Enwyd yr ardal ar ôl y capel, ac enwyd y capel ar ôl y *Saron* y sonnir amdano yn y Beibl. Cyfeirir at ddau le o'r enw hwn: y naill rhwng Cesarea a Joppa (Esaia XXXV, 2; Actau IX, 35) a'r llall i'r dwyrain o'r Iorddonen (1Cron.V, 16). Arferai Annibynwyr cynnar yr ardal gynnal eu cyfarfodydd ar ros Llanfaglan cyn symud i Bengwern. Yna cafwyd darn o dir Rhosgawen ac adeiladwyd capel Saron arno a'i agor yn 1812 (*HEgA*, III, 246).

<b>Tan-y-coed</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 4857</b>	
<i>Tanycod</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Tan-y-coed</i>	1919	Map OS	XV S.E.

***tan, y, coed***

Ar gyrion Rhostryfan yn ardal Rhos-isaf.

<b>Tan-y-ffordd</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 4957</b>	
<i>Tan y fordd</i>	1745	Poole	3250
<i>Tan y ffordd</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tan y fford</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tann y ffordd</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tan y ffordd</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Tan y ffordd</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Tanyfordd</i>	1795	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tanyffordd</i>	1809	ATT GAG	XQA/LT 5/5

<sup>1</sup> Ewyllys William Hughes. Gweinidog yr Efengyl

<i>Tanyffordd</i> (1)	1839	RhPdegwm	
<i>Tanyffordd</i> (2)	2000	CCPost	(Rhostryfan)

***tan, y, ffordd***

Mae'r *Tan-y-ffordd* a gofnodir yn RhPdegwm wedi ei nodi ar fap y Degwm rhwng Pentrebach a Thyddyn-Sir Hugh ar gyrion pentref Betws Garmon. ond fel y gwelir o'r CCPost mae annedd arall o'r un enw ym mhentref Rhostryfan.

<b>Tan-y-gaer</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 5156</b>	
<i>Tanygaer</i>	1839	RhPdegwm	
<i>Tan-y-gaer</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Tan Y Gaer</i>	2000	CCPost	(Rhosgadfan)
<i>Tan-Gaer</i>	2002	Map OS Explorer	OL 17

***tan, y, caer***

Ar gyrion dwyreiniol eithaf Rhosgadfan. Mae'n anodd deall arwyddocâd yr elfen *caer*. Mae'n bosib mai cymar yw'r enw hwn i *Ben-y-gaer* sydd yr ochr arall i'r mynydd ym Metws Garmon (q.v.). Nid oes gofnod o unrhyw olion hynafol yma y gellid eu galw'n 'gaer'.

<b>Tan-y-gelynnen</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 4957</b>	
<i>Tan y Gelynnen</i>	1839	RhPdegwm	
<i>Tan y gelynnen</i>	1849	EwBangor	B1849/135 17554
<i>Tan y Gelynan</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Tan y Gelynnen</i>	1874	Worrall	213
<i>Tan-y-gelynnen</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Tan Y Gelynnen</i>	2000	CCPost	(Rhostryfan)

***tan, y, celynnen, llu. celyn***

Ar gyrion de-ddwyreiniol Rhostryfan. Pren unigol y celyn bytholwyrdd yw'r gelynnen.

<b>Tan-y-waun</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 4957</b>	
<i>Tanywaun</i>	1839	RhPdegwm	
<i>Tan-y-waen</i>	1919	Map OS	XVI S.W.

***tan, y, gwaun***

Ar gyrion de-orllewinol Rhostryfan.

<b>Tan-yr-allt</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 5159 (1) / SH 5157 (2)</b>	
<i>Tan yr allt</i>	1810 /11	Vaynol	4063
<i>Tanrallt</i>	1839	RhPdegwm	
<i>Gwredog Ganol or Tanrallt</i> (1)	1904	Bangor	f33976
<i>Tan-yr-allt</i> (2)	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Tan Rallt</i>	2000	CCPost	(Waunfawr)

***tan, yr, allt***

Rhwng cyrion gogleddol eithaf Rhosgadfan a chyrion eithaf Waunfawr nid nepell o afon Gwryfai. Saif hefyd rhwng *Gwredog-isaf* a *Gwredog-uchaf* sydd yn esbonio'r enw arall arno. sef *Gwredog-ganol*. Mae hwn yn enw gweddol gyffredin: nodir *Tan-yr-allt* (2) arall ar gyrion dwyreiniol Rhosgadfan ar fap OS 1919 ac yn CCPost 2000. a *Thanrallt* arall eto ar gyrion dwyreiniol Rhostryfan yn CCPost 2000.



<b>Traean</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 5258 (1) / SH 4757 (2)</b>	
<i>Ty yn y Trayan</i>	1690	Ll&Brynodol	D895
<i>Ty-y-Trayan</i>	1690	Ll&Brynodol	D896-7
<i>Ty yn y Trayan</i>	1695	Ll&Brynodol	D899-900
<i>Tû yn y Trayan</i>	1727	Ll&Brynodol	D910-11
<i>Tû yn y Traian</i>	1734	Ll&Brynodol	D364-5
<i>y Traian</i>	1736	Henblas B	160
<i>y Traian</i>	1738	Constable Ellis	18
<i>Y Cilfechydd otherwise Tyn y trayan</i>	1743	Ll&Brynodol	D387-8
<i>Cilfechydd otherwise Trayan</i>	1747-8	Ll&Brynodol	D402-3
<i>y Traian</i>	1760	Henblas B	175
<i>Trayan</i>	1770	ATT GAG	XQA LT 5/5
<i>Troyan</i>	1773	ATT GAG	XQA LT 5/5
<i>Train</i>	1774	ATT GAG	XQA LT 5/5
<i>Trayen</i>	1775	ATT GAG	XQA LT 5/5
<i>Tryan</i>	1778	ATT GAG	XQA LT 5/5
<i>Drayen</i>	1779	ATT GAG	XQA LT 5/5
<i>Tryan</i>	1781	ATT GAG	XQA LT 5/5
<i>Traian</i>	1794	EwBangor	B1794/88 7568
<i>Chilfechydd alias Frayan and Tyn y</i>	1796	Poole	3802
<i>Craig</i>			
<i>Traian</i>	1797	EwBangor	B1797/72 7981
<i>Train</i>	1808	ATT GAG	XQA LT 5/5
<i>Traian</i>	1809	RHE	9a & b
<i>Trauan</i>	1810	ATT GAG	XQA LT 5/5
<i>Trian</i>	1818	ATT GAG	XQA LT 5/5
<i>Treian</i>	1838	Map OS	78
<i>Truan</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Trian</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Trenau</i>	1874	Worrall	213
<i>Traian</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Traian</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Traian</i>	2002	Map OS	Explorer 254

### **traean**

Ceir dau annedd gwahanol yn y rhestr uchod. Mae'r cofnodion cynharaf, ac yn sicr y rhai sydd yn nodi *Tyn y Traean* (1), yn cyfeirio, fel y gwelir mewn ambell enghraifft, at *Cilfechydd* (q.v.). Mae'r annedd hwnnw ar gyrion pellaf hen blwyf Llanwnda ac ar gyrion deheuol Waunfawr. Mae'r cofnodion diweddarach, ac yn sicr y rhai diweddaraf un, yn cyfeirio at y *Traean* (2) sydd ar lannau afon Carrog bron ar y ffin â phlwyf Llandwrog ym mhen deheuol plwyf Llanwnda. Yng nghofnod 1874 gwelir mor hawdd yw camgymryd *n* am *u* ac o chwith wrth gopïo o lawysgrifen. Am ymdriniaeth o'r enw gweler dan *Traean* yn Anheddau Llanbeblig.

<b>Trosgol / Drosgol</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 5356</b>	
<i>Drosgol</i>	1703	Ll&Brynodol	D635
<i>Drosgol</i>	1722	Ll&Brynodol	D642
<i>Drosgol</i>	1735	Ll&Brynodol	D366
<i>Drosgol</i>	1748	Ll&Brynodol	D401
<i>Dryscol / Trosgol</i>	1769	EwBangor	B1769/35 3542
<i>Drosgol</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Drosal</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Drosgoll</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 5/5

<i>Troscol</i>	1777	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Trosgol</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Drosgol</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Drosgol</i>	1784	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Trosgol</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Drosgol</i>	1793	EwBangor	B1793/146 7419
<i>Trosgol</i>	1795	Ll&Brynodol	M187
<i>Trosgol</i>	1807	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Trwscol</i>	1816–20	Dawson, Bangor	134081, D4
<i>Drosgol</i>	1818	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Trosgoel</i>	1819	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Trosgol</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Drosgol</i>	1856	EwBangor	B1856/143 19266
<i>Trosgol</i>	1874	Worrall	213
<i>Trosgl</i>	1898–1900	Map OS	Arg. 1af
<i>Tros-y-gol</i>	1920	Map OS	XXI N.E.
<i>Tros-y-gol</i>	1957	Map OS	SH 55
<i>Tros Y Gol</i>	2000	CCPost	(Betws Garmon)
<i>Tros-y-gol</i>	2002	Map OS Explorer	OL 17

***trwsgl, ben. trosgl***

Ar gyrion deheuol Betws Garmon, ac felly ym mhen eithaf hen blwyf Llanwnda gynt. Ystyr arferol yr ans. *trwsgl* yw 'afrosgo, lletchwith', ond dangosodd Syr Ifor Williams y gallai gynt olygu gerwindeb ac anhrefn (*ELleoedd*, 18–19; *BBCS*, XI, (Tach. 1944), 140–2). Gallai hefyd olygu 'crachen', ac awgryma Syr Ifor mai tir garw cramennog yw'r ystyr mewn e.lle. Ceir sawl enghraifft o'r enw ar hyd a lled Cymru, e.e. *Y Drosgl* rhwng Ro-wen ac Abergwyngregyn: gweler hefyd *ADG* 2, 34; *PNGlam*, 67–9; *PNPem*, 368–9; *ELISG*, 25, 75–6. Honna Iwan Wmffre mai *Drysgol* yw ffurf ysgrifenedig yr enw hwn gan amlaf led-led Cymru (*LPNW*, 112). Nid yw tystiolaeth AMR yn ategu hyn, a gwelir o'r cofnodion uchod fod yr *-o-* wedi ei chadw'n hynod o gyson yn achos yr e.lle sydd dan sylw yma. Fodd bynnag, yn yr 20g. datblygodd y ffurf ryfedd *Tros-y-gol*, yn ddiau mewn ymgais aflwyddiannus i esbonio'r enw. Eto mae'r ans. *trwsgl*, os nad *trosgl*, yn fyw iawn ar lafar yn Arfon hyd heddiw (*WVBD*, 551). Mae'r ffurf dreigledig *Drosgol*, ynghyd â'r ans. ben. ei hun, yn awgrymu bod enw wedi ei ragflaenu ar un adeg. Gellir awgrymu mai *Moel* oedd yr enw hwn. Yn aml iawn ceir parau gwrthgyferbyniol yn cynnwys yr ans. *trwsgl* / *trosgl* wedi ei gyferbynnu â *llyfn* / *llefn* (*ELleoedd*, 18)<sup>1</sup>. Nid nepell o *Trosgol* mae *Moel Smytho*. Os gellir esbonio'r enw anodd hwnnw trwy ei gysylltu, fel y mynn rhai, â'r un gwraidd ag *esmwyth*, tybed nad oes yma hefyd ddwy foel wrthgyferbyniol, y naill sef [*Moel*] *Drosgl* yn arw a gerwin, a'r llall, *Moel Smytho*, yn llyfn?

<b>Tŷ-cerrig</b>	<b>Llanwnda</b>		<b>SH 4659</b>
<i>Ty Gerick</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Ty Cerrig</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tyddyn Pontfaen otherwise Ty Cerrig</i>	1778	Roger Lloyd II	182–3
<i>Ty Cerig</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Ty Cerrig</i>	1783	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tyddyn Pontfaen otherwise Ty Cerig</i>	1789	P. yr Aur	17317
<i>Ty Cerrig</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Ty Cerig</i>	1796	Myn. Llf.	B003
<i>Ty Cerrick</i>	1803	ATT GAG	XQA/LT 5/5

<sup>1</sup> Er enghraifft, o bobtu afon Ffrydlas ar gyrion Bethesda yng Ngwynedd ceir *Drosgl* ar y naill ochr a *Llefn* ar y llall (Mapiau OS).

<i>Ty Cerrig</i>	1804	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tycerrig</i>	1812	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tyddyn y bont fach otherwise Ty Cerrig</i>	1839	Rumsey Wms	564
<i>Tyddyn y bont, otherwise Ty cerrig</i>	1839	Rumsey Wms	1103
<i>Ty Cerrig</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Ty Cerrig</i>	1847	Myn. Pisgah	042
<i>Ty cerig</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Ty-cerig</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Ty Cerrig</i>	2000	CCPost	(Llanfaglan)

**ty, carreg, llu. cerrig**

Saif yr annedd hwn ger y Bont Faen ar afon Gwyrfaï. Yr afon yw'r ffin rhwng plwyfi Llanfaglan a Llanwnda yn y fan hon. Er bod yr annedd ym mhlwyf Llanwnda, mae'n nes at bentrefan Llanfaglan nag unman arall ac fe'i rhestrir dan Lanfaglan yn y CCPost 2000. Er mai 'y bont fach' sydd yng nghofnod 564 (1839) o gasgliad Rumsey Williams, ac 'y bont' yng nghofnod 1103 (1839) mae'n amlwg mai'r Bont Faen a olygir yma hefyd. Ymddengys ei bod yn arwyddocaol mai pont *faen* ydoedd (gweler dan *Pont Faen* uchod). Tybed a adeiladwyd annedd gwreiddiol *Ty Cerrig* o'r un garreg ar yr un pryd ac mai hyn oedd arwyddocâd ail elfen yr enw hwnnw?

<b>Tŷ-cnap / clap</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 4859</b>
<i>Tu Knapp</i>	1716	Thorowgood 76
<i>Tu Knapp</i>	1716	Henblas B 156
<i>Tu knapp</i>	1734	Constable Ellis 17
<i>Tû Knap</i>	1736	Henblas B 160-2
<i>Tu knapp</i>	1760	Constable Ellis 21
<i>Ty Knap</i>	1760	Henblas B 175
<i>tu cnap</i>	1770	ATT GAG XQA LT 5/5
<i>tu Cnap</i>	1772	ATT GAG XQA LT 5/5
<i>Ty Clap</i>	1774	ATT GAG XQA LT 5/5
<i>Tŷ clap</i>	1775	ATT GAG XQA LT 5/5
<i>Ty glab</i>	1777	ATT GAG XQA LT 5/5
<i>Tŷ Clap</i>	1778	ATT GAG XQA LT 5/5
<i>Ty glab</i>	1779	ATT GAG XQA LT 5/5
<i>Ty Knap</i>	1781	ATT GAG XQA LT 5/5
<i>Ty Knap</i>	1784	ATT GAG XQA LT 5/5
<i>Ty cnap</i>	1789	ATT GAG XQA LT 5/5
<i>Tŷ cnap</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>Ty Clap</i>	1794	ATT GAG XQA LT 5/5
<i>Ty knap</i>	1796	Poole 3801
<i>Ty Clap</i>	1801	ATT GAG XQA LT 5/5
<i>Ty Cnap</i>	1803	ATT GAG XQA LT 5/5
<i>Ty cnap</i>	1811	ATT GAG XQA LT 5/5
<i>Ty Clap</i>	1818	ATT GAG XQA LT 5/5
<i>Ty Clap</i>	1821	ATT GAG XQA LT 5/5
<i>Tŷ-clap</i>	1838	Map OS 78
<i>Tyclap</i>	1839	RhPDegwm
<i>Ty Cnap</i>	1842	EwBangor B1842/103 15996
<i>Ty Cnap</i>	1867	Bangor 8555
<i>Tycnap</i>	1889-90	Sutton 148
<i>Ty-clap</i>	1891	Map OS XV S.E.
<i>Vrondinas</i>	1919	Map OS XV S.E.
<i>Fron Dinas</i>	1959	Map OS SH 45

Fron Dinas

2000

CCPost

(Bontnewydd)

**tŷ, cnap / clap**

Rhwng Bontnewydd a Dinas. Ceir trafodaeth fanwl gan Tomos Roberts o'r enw hwn yn ADG 2,101. *Tŷ-cnap* oedd y ffurf wreiddiol, ond mae *clap* a *cnap* yn digwydd bron mor fynych â'i gilydd o 1770 ymlaen. Yn yr 20g newidiwyd yr enw i *Fron Dinas*, yn ddiaw am ei fod ar fron uwchlaw Plas-Dinas a Dinas Dinoethwy<sup>1</sup>.

Yr un yw ystyr *cnap* a *clap*, sef tamaid neu lwmp o rywbeth. Yn nhafodiaith Arfon fe gyfeirir at lwmpyn o lo fel '*cnap* o lo' (*WVBD*, 273). Yn ôl *LGW*, y ffurf *cnap* yn unig a glywir ym Môn; yn ardal Bangor a Bethesda clywir *cnap* a *clap*, ond *clap* yn unig yng ngweddill Arfon<sup>2</sup>. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth uchod yn gwrthbrofi hyn. Mewn e.lle gall olygu bryncyn, ac mae'r annedd uchod ar ben bryn bychan. Ceir *Tŷ-cnap* yn Abergele a *Thŷ-clap* yng Nghricieth; *Bryn-cnap* yn Llanefydd, Dinb. a *Phenclap* yn Llangurig, Trefn. (AMR).

**Tŷ-coch**

**Llanwnda**

**SH 5356**

<i>Ty-coch</i>	1838	Map OS	75
<i>Tycoch</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Tŷ-coch</i>	1957	Map OS	SH 55
<i>Ty Coch</i>	2000	CCPost	(Betws Garmon)

**tŷ, coch**

Ar gyrion deheuol Betws Garmon. Byddai ym mhlwyf Llanwnda adeg Ilunio RhPDegwm 1839.

**Tŷ-du**

**Llanwnda**

**SH 4659**

<i>Ty Ddu</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Ty Du</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Ty Die</i>	1783	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Ty ddu</i>	1784	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tydû</i>	1788	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Ty dû</i>	1789	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tŷ dŷ</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Tŷ du</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Ty du</i>	1797	EwBangor	B1797/73 7982
<i>Tŷ dû</i>	1799	Vaynol	3751
<i>Ty dŷ</i>	1801	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Ty dŷ</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Ty dŷ</i>	1805	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Ty dŷ</i>	1810 / 11	Vaynol	4063
<i>Ty du</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D4

**tŷ, du**

Mae map Dawson 1816–20 yn lleoli'r annedd hwn nid nepell o'r Bont Faen. Yr oedd cae o'r enw *Cae oflaen drws ty du* (q.v.) ymhlith caeau annedd *Foryd*.

**Tŷ-hen**

**Llanwnda**

**SH 4757**

<i>Ty Hên</i>	1704–5	Henblas B	130–1
<i>Tŷ-Hên</i>	1724	NewGlynllifon	XD2 / 6936/67
<i>Ty hen</i>	1743	NewGlynllifon	XD2 / 6939

<sup>1</sup> Mae'r annedd hwn ar hyn o bryd (2007) yn gartref i Bryn Terfel, y canwr opera byd-enwog

<sup>2</sup> *LGW*, 320

<i>tu Hean</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tu Heaen</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>tu Hean</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tŷ hene</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Ty hene</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tŷhen</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tyhen</i>	1788	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Ty hên</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Ty hen</i>	1795	P. yr Aur	20615
<i>Tyhen</i>	1796	Poole	3801
<i>Ty hene</i>	1803	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Ty hen</i>	1803	EwBangor	B1803/112 8972
<i>Ty hên</i>	1805	Bangor	12208
<i>Ty-hen</i>	1817	P. yr Aur	21143
<i>Ty hen</i>	1827	EwBangor	B1827/121 13031
<i>Ty-hên</i>	1838	Map OS	78
<i>Tyhên</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Ty-hên</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Tŷ-hên</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Ty-hên</i>	2002	Map OS Explorer	OL 17

#### **tŷ, hen**

Ar gyrion deheuol pentref Llanwnda. Fel rheol yn y Gymraeg daw'r ans. *hen* o flaen enw, e.e. 'hen wŷ', ac mewn c.lle: *Hendy* (Llb). Os daw ar ôl yr enw gwneir hynny er mwyn pwysleisio grym yr ans. h.y. yr hynafedd (GG, 210). Mae'n rhyfedd gweld yr ymgeisiau carbwl i sillafu enw mor syml â *Thŷ-hen* yng nghofnodion 1770–5 uchod.

<b>Tŷ-mawr</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 4557</b>
<i>tu mawr</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Ty Mawr</i>	1784	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Ty Mawr</i>	1784	EwBangor B1784/121 6150
<i>Ty Mawr y Llan</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>Ty mawr y Llan</i>	1789	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Tŷ mawr y Llan</i>	1792	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Ty Mawr y Llan</i>	1794	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Ty mawr</i>	1795	Ll&Brynodol M187
<i>Ty mawr als Tyn y Llan</i>	1798–9	Vaynol 4059
<i>Tymawr y llan</i>	1801	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Ty Mawr Llan</i>	1804	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Ty Mawr al Ty ny Llann</i>	1809	Vaynol 4062
<i>Tŷ mawr Llan</i>	1816–20	Dawson, Bangor f34081, D4
<i>Tymawr</i>	1839	RhPDegwm
<i>Ty mawr</i>	1850	EwBangor B1850/159 17800
<i>Ty-mawr</i>	1919	Map OS XV S.E.
<i>Tŷ-mawr</i>	1959	Map OS SH 45
<i>Ty Mawr</i>	2000	CCPost (Saron)

#### **tŷ, mawr, y, llan**

Ar y chwith wrth fynd o Saron tua Llandwrog. Mae'n debyg mai'r un lle yw *Tŷ-mawr* â *Thŷ-mawr-y-Llan*: mae map Dawson (1816–20) yn nodi *Tŷ mawr Llan* ar safle'r annedd a enwir yn *Tŷ-mawr* yn y cofnodion ar ôl hynny. Mae'n rhyfedd cael yr elfen *llan* mewn annedd mor bell oddi wrth unrhyw eglwys.

Yn 1696 (Vaynol 3744) ceir cyfeiriad at 'Tythin Tu Mawr by Llanunda Church', ond er tebyced yr enw, mae'n amlwg oddi wrth ei leoliad mai annedd gwahanol yw hwn.

<b>Tŷ'r-clochydd /Tyddyn-y-clochydd</b>	<b>Llanwnda</b>		<b>SH 4758</b>
<i>Tu'r Clochydd</i>	1716	Thorowgood	76
<i>Tn y clochudd</i>	1716	Henblas B	156
<i>Tu'r Clochydd otherwise Tu yn y Llan</i>	1736	Henblas B	160-2
<i>Tur Clochydd otherwise Tu yn yllan</i>	1760	Henblas B	175
<i>Ty r Clochydd alias Tyn y llan</i>	1796	Poole	3801
<i>Tyddyn Clochydd</i>	1814	EwBangor	B1814/99 10846
<i>Tyddyn y Clochydd</i>	1815	EwBangor	B1815/138 11025

### **tŷ, y, clochydd**

Mae cofnod 1760 yn nodi lleoliad yr annedd hwn fel 'near Church of Llanwnda'. Byddai hyn er hwylustod i'r clochydd, er nad yw'r *Tyddyn-y-clochydd* sydd ym mhlwyf Llanfaglan (q.v.) yn agos at hen eglwys nac eglwys newydd y plwyf hwnnw.

<b>Tŷ-uchaf</b>	<b>Llanwnda</b>		<b>SH 4659</b>
<i>Ty ucha</i>	1803	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Ty ucha</i>	1804	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tycha</i>	1807	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tŷ-ucha'</i>	1838	Map OS	78
<i>Ty uchaf / Tyuchaf</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Ty ucha</i>	1840	EwBangor	B1840/145 15605
<i>Ty-uchaf</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Ty Uchaf</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Ty Uchaf</i>	2000	CCPost	(Llanfaglan)

### **tŷ, ans. uchel, gradd eithaf, uchaf**

Rhwng afon Gwyrfaï a Saron, nid nepell o Dŷ-cerrig. Fel yr annedd hwnnw, er ei fod ym mhlwyf Llanwnda fe'i rhestrir dan Lanfaglan yn y CCPost 2000.

<b>Tyddyn-Adda-goch</b>	<b>Llanwnda</b>		
<i>tuthin Atha goch</i>	1619	Henblas B	128

### **tyddyn, e.p. Adda Goch**

Ceir *Cae-Adda-goch* ym mhlwyf Llanbeblig (q.v.) ar gyrion dwyreiniol Waunfawr. Nid yw mor bell â hynny o afon Gwyrfaï a luniai gynt y ffin rhwng plwyfi Llanwnda a Llanbeblig yn yr ardal hon. Ni wyddys lleoliad *Tyddyn-Adda-goch* uchod, ond petai ar gyrion eithaf hen blwyf Llanwnda ar ochr arall yr afon, mae'n hollol bosib mai'r un gŵr a gofféid yn y ddau enw hyn.

<b>Tyddyn-bach</b>	<b>Llanwnda</b>		<b>SH 5356</b>
<i>Tyddyn Bach</i>	1749	EwBangor	B1749/73 101291
<i>Tyddun Bach</i>	1752	EwBangor	B1752/131 401
<i>Tythyn bach otherwise Glanrafon</i>	1757	NewGlynllifon	XD2 / 7424
<i>Tythyn bach otherwise called Glanravon</i>	1757	NewGlynllifon	XD2 / 7426
<i>Tyddyn bach</i>	1759	Ll&Brynodol	D1183
<i>Tyddyn bâch</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tyddyn Bacch</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tyddynbach</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Tyddyn Bach</i>	1789	P. yr Aur	4062a

<i>Tyddunbach</i>	1795	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Glanrafon otherwise Tyddun bach</i>	1799	P. yr Aur	14500
<i>Glanrafon otherwise Tyddyn bach</i>	1802	P. yr Aur	20732
<i>Tythin Bach</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Glanravan, otherwise Tyddyn bach</i>	1810	Rumsey Wms	434-5
<i>Glanravan otherwise Tyddyn bach</i>	1815	Rumsey Wms	441-2
<i>Tyddyn bach</i>	1816-20	Dawson, Bangor	f34081, D4
<i>Tyddyn bâch</i>	1817	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tyddyn bach</i>	1823	EwBangor	B1823/83 12287
<i>Glanrafon</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Tyddyn bach</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Tyddyn-bâch</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Tyddyn Bach</i>	2000	CCPost	(Betws Garmon)

### **tyddyn, bach**

Nodir annedd o'r enw *Tyddyn bach* ar fap Robert Dawson, 1816-20, ar fap y Degwm, ac ar fap OS 1919 ar gyrion Betws Garmon yng nghyffiniau chwareli llechi Hafod-y-wern, ac fe'i rhestrir yn y CCPost 2000 dan Betws Garmon. Yr oedd yr ardal hon gynt ym mhlwyf Llanwnda. Gweler hefyd y drafodaeth dan *Glanrafon* uchod.

### **Tyddyn-bychan**

### **Llanwnda**

### **SH 4658**

<i>Tythyn bychan</i>	1700	Ll&Brynodol	D1178
<i>Tuthin Buchan</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tuthin Puchan</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tyddyn bychan</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tyddyn buchan</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tyddyl ] Bychan</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tyddyn bychan</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Tyddyn Bychan</i>	1808	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tythyn bychan otherwise Tyddyn bychan</i>	1809	Rumsey Wms	424
<i>Tyddyn bychan</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Tyddyn Bychan</i>	1841	EwBangor	1841/125 15805
<i>Tyddyn Bychan</i>	1874	Worrall	213
<i>Tyddyn-bychan</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Tyddyn-bychan</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Tyddyn Bychan</i>	2000	CCPost	(Dinas)

### **tyddyn, bychan**

Oddi ar y lôn sydd yn mynd o Felinwnda i Redynog-felen-fach.

### **Tyddyn-gwŷdd**

### **Llanwnda**

### **SH 5059**

<i>Tyddynygydd</i>	1836	Bangor	5302
<i>Tyddyn gwydd</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Tyddyn Gwydd</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Tyddyn y gwydd</i>	1857	EwBangor	B1857/143 19489
<i>Tyddun gwudd</i>	1858-9	Bangor	534
<i>Tyddyn-y-gwydd</i>	1874	Worrall	213
<i>Tyddyn-gwŷdd</i>	1891	Map OS	XVI S.W.
<i>Tyddnygydd</i>	1904	Bangor	f33976
<i>Tyddyn-gwŷdd</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Tyddyn-gwŷdd</i>	1957	Map OS	SH 55
<i>Tyddyn-gwŷdd</i>	1990	CBLleu	32

**tyddyn, gwýdd**

Mewn llecyn diarffordd heb fod nepell o safle hen gyffordd Tryfan ar reilffordd Eryri. Ac eithrio'r cofnod yn *CBLleu*, 32, ni welwyd dim ar glawr i awgrymu pa un yw ynganiad cywir yr ail elfen. Yn sicr ni ddylid dilyn yr acen gamarweiniol yng nghofnodion 1919 a 1957. Fodd bynnag, gwyddys o wybodaeth bersonol mai *gwýdd* yw'r ynganiad lleol. Mae sillafiad cofnod 1858-9, a gymerwyd o lyfr siop Rhostryfan, sydd yn adlewyrchu ynganiad naturiol yr enwau a gofnodir, yn ategu hyn. Nid yw'n hawdd penderfynu pa ystyr i'w rhoi i'r *gwýdd* hwn. Gallai fod yn *gwýdd* = coed; *gwýdd* = gwehydd; neu hyd yn oed *gwýdd* = ffrâm y gwehydd, er bod yr olaf yn annhebygol.

**Tyddyn-Heilin****Llanwnda****SH 4857**

<i>Tythyn dolgehelyn</i>	1591	Henblas B	123
<i>Tythyn dolgehelyn</i>	1592	Henblas B	124
<i>Dol geyhellin</i>	1691	Henblas B	128
<i>Tythun Hilyn</i>	1695	Dolfrïog	326
<i>Tythyn Heilin</i>	1697	P. yr Aur	19991
<i>Tyddin heilin</i>	1697	P. yr Aur	19992
<i>Tythyn Heilin</i>	1697	P. yr Aur	19994
<i>dole kay heilin</i>	1700	Henblas B	129
<i>Tythyn Heylin</i>	1716	P. yr Aur	19995
<i>Tyddun Heylin</i>	1742	P. yr Aur	20511
<i>Tyddyn Heilin</i>	1742	P. yr Aur	19996
<i>Tuthin Hylin</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tyddyn Heilin</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tythyn Heilyn</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tyddyn Hylin</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tyddyn heilyn</i>	1782	P. yr Aur	19999
<i>Tyddynheilyn</i>	1782	P. yr Aur	20000
<i>Tyddyn Heylyn/Tyddin Heilin</i>	1783	P. yr Aur	20001
<i>Tyddun Heilyn/Tyddyn hielen</i>	1783	P. yr Aur	20002
<i>Tyddyn Hielin</i>	1783	P. yr Aur	20003
<i>Tyddyn Heylyn</i>	1786	P. yr Aur	20007
<i>Tyddyn heilin</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Tyddyn Heilin</i>	1795	Ll&Brynodol	M187
<i>Tyddyn heilin</i>	1807	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tyddynheulin</i>	1810	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tyddyn Hilin</i>	1811	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tyddynhailin</i>	1819	P. yr Aur	20013/4
<i>Tyddyn heilin</i>	1825	P. yr Aur	20015
<i>Tyddyn heily[]</i>	1838	Map OS	78
<i>Tyddyn hulyn</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Tyddyn Heilin</i>	1862	Myn. Horeb	016
<i>Tyddyn Heilyn</i>	1867	Myn. Horeb	048
<i>Tyddyn-Heylin</i>	1891	Map OS	XV S.E.
<i>Tyddyn Heilyn</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Tyddyn Heilyn</i>	1959	Map OS	SH 45

**tyddyn, dôl, e.p. Cuhelyn/Heilin/Heilyn**

Ar gyrion gorllewinol eithaf Rhos-isaf. Mae datblygiad yr enw yn ddiddorol: cychwynna fel *Tythyn dolgehelyn* (1591), sef *tyddyn*+ *dôl*+ yr e.p. *Cuhelyn*. Yn 1691 ceir *Dol geyhellin*, sydd wedi troi'n *dole kay heilin* erbyn 1700. Yn negawd olaf y 17g. gwelir dechrau disodli'r e.p. *Cuhelyn* gan yr enw mwy cyfarwydd *Heilin/Heilyn*, o bosib oherwydd y camsyniad mai



cae oedd y *Cu* yn sillaf gyntaf *Cuhelyn*. Datblygodd yr enw *Cuhelyn* mewn ffordd ychydig yn wahanol yn achos *Pentrecelyn* yn Llanfair Dyffryn Clwyd, pan gafwyd y newid *Pentre Cuhelyn* > *Pentre Cae Heilin* > *Pentrecelyn* (ETG, 123–4).

<b>Tyddyn-Madog</b>	<b>Llanwnda</b>		
<i>tuthin Madog</i>	1619	Henblas B	128

**tyddyn, e.p. Madog**

Ni wyddys lleoliad yr annedd hwn na phwy oedd *Madog*.

<b>Tyddyn-Nest Ddu</b>	<b>Llanwnda</b>		<b>SH 4657</b>
<i>Tuthyn Nest Duy</i>	1491	<i>Rec. C. Aug.</i>	53
<i>Tythyn Nest</i>	1622/3	<i>Ex. P. J.</i>	83
<i>Tû Neast ddû / Tû Nest ddu</i>	1668–9	Ll&Brynodol	R16

**tŷ / tyddyn, e.p. Nest, du**

Mae'r ddau gofnod cyntaf yn cyplysu enw'r annedd hwn â Rhedynog-felen, ac mae'r trydydd cofnod yn ychwanegu 'being part of Rhydynogvelen', felly gwyddom ei lleoliad. Ni wyddom pwy oedd *Nest Ddu*, fodd bynnag.

<b>Tyddyn-parthle</b>	<b>Llanwnda</b>		<b>SH 4959</b>
<i>Tyddyn y Barty</i>	1717	EwBangor <sup>1</sup>	B1717/34 96140
<i>Tyddyn Barkley</i>	1759	Ll&Brynodol	D1183
<i>Tyddyn y Parthleu</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tyddyn y Partleu</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tyddyn y partley</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>tyddyn y parkle</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>tyddyn y Parcle</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tyddyn Parkle</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tyddyn Partle</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tyddyn y Partle</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Tyddin Parkley</i>	1785	P. yr Aur	14327
<i>Tyddin parcla</i>	1785	P. yr Aur	20570
<i>Tyddyn Partle</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Tyddyn y Barkle</i>	1793	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tyddunypartley</i>	1795	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tything Partley</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tyddyn Parkle</i>	1810	CyGTan	
<i>Tyddyn Parlle</i>	1812	P. yr Aur	1888
<i>Tyddyn y Partla</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D1, D4
<i>Tyddyn y partley</i>	1817	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tyddynpartle</i>	1824	P. yr Aur	4111
<i>Tyddyn pantle</i>	1825	EwBangor	B1825/141 12636
<i>Tyddynpantle</i>	1834	Bangor	8554
<i>Tyddyn partla</i>	1838	Map OS	78
<i>Tyddyn Partle</i>	1839	RhPdegwm	
<i>Tyddyn Partle</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Tyddyn Partle</i>	1852	EwBangor	B1852/168 18253
<i>Tyddyn partle</i>	1890–1	Bangor	8560
<i>Tyddyn-parthle</i>	1919	Map OS	XVI S.W.

<sup>1</sup> Ewyllys Herbert Robyns: enghraifft arall o bresenoldeb y teulu hwn yn ardal yr astudiaeth hon.

<i>Tynbartle</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Tyddyn Parthle</i>	2000	CCPost	(Bontnewydd)

**tyddyn, e.p. *Bartley / Barkley***

Ar y dde oddi ar y lôn gul sydd yn mynd o gyrion pentref Bontnewydd i gyfeiriad hen gyffordd Tryfan ar Reilffordd Eryri. Mae cofnod 1759 yn awgrymu mai'r cyfenw *Barkley / Barclay* sydd yma. Fodd bynnag, gellid tybio o gofnodion 1771–3 mai'r cyfenw *Bartley* yw'r elfen hon. Yn wir, ceir cymaint o ymglyfnwid rhwng y sain *t* a'r sain *e* yng nghanol yr enw nes ei bod yn amhosibl dweud ai *Bartley* ynteu *Barkley* oedd y ffurf wreiddiol, er mai'r *t* sydd yn drech yn y diwedd. Yn fuan iawn caledodd y *B-* dechreuol > *P-* (cf. *Barker* > *Parker* mewn dau gofnod ar gyfer Maes-y-Barcer, Llanbeblig, q.v.) Ceir newid arall eithaf cyffredin yn niwedd yr e.p. lle try'r *-ey* > *-a* (cf. *Hinkley* > *Incla*, *Bisley* > *Bisla* a *Bulkeley* > *Bwela*). Yn raddol collwyd golwg ar yr ystyr wreiddiol a cheir y ffurf anesboniadwy *partle* cyn gwneud ymgais i'w resymoli a'i droi'n *parthle*, er bod cofnod 1959 wedi adfer yr e.p. *Bartley* i raddau. Yng nghofnodion 1825 a 1834 gwelir ymgais arall i'w resymoli trwy gynnig *pantle*. Ceir *Tyddyn-Bartley* ym Merain a gadwodd y ffurf yn ddigyfnwid (PSA, 27).

**Tyddyn-pengwern** **Llanwnda** **SH 4558**

Gweler *Tyn-rhos* isod.

**Tyddyn-pont-faen** **Llanwnda** **SH 4659**

Gweler *Pont Faen* a *Thŷ-cerrig* uchod.

**Tyddyn-Poythan** **Llanwnda**

<i>Tyddyn Poythan</i>	1699	Ll&Brynodol	D978
<i>Tyddyn Poythan</i>	1716	Ll&Brynodol	D979

**tyddyn, e.p. *Poethan?***

Y rhain yw'r unig gyfeiriadau a welwyd hyd yma at yr annedd hwn, a'r ddau o'r un ffynhonnell. Ni wyddys ei leoliad nac ychwaith beth yw ystyr *poethan*. Mae'n bosib, fodd bynnag, mai ffurf lafar ar *Poethan* sydd yma. Mae *Poethan / Bothan* yn digwydd fel e.p. Ceir cyfeiriad at Dykus ap Ior' Poethan ym Môn yn 1414, ac at Ieuan Bothan a Rolant Bothan yno yn 1462 a 1472<sup>1</sup>. Mae'n digwydd mewn e.lleoedd hefyd ym Môn: ceir *Tyddyn Poethan* a *Rhosbothan* yno<sup>2</sup>. Byddai'n naturiol cael e.p. ar ôl yr elfen *tyddyn*. Fodd bynnag, mae *poethan* yn digwydd fel e. cyff. yn yr ystyr o 'genau blaidd'. Ni welwyd yr amr. *poythan* yn unman arall: yr unig amr. a nodir yn *GPC* yw *pothon*.

**Tyddyn-Roger** **Llanwnda**

Gweler *Pont Faen* uchod

**Tyddyn Rhys ap Griffith** **Llanwnda**

<i>Tuthyn Rhes ap Griffith</i>	1579	P.S.PeniARTH	DC36
--------------------------------	------	--------------	------

Y cofnod uchod yw'r unig gyfeiriad a welwyd at yr annedd hwn. Ni wyddys ei leoliad ac eithrio y cofnodir ei fod yn nhrefgordd Boddellog.

<sup>1</sup> Cledwyn Fychan. *Galwad y Blaidd*, 119–20

<sup>2</sup> *ibid.* 34.

Tyddyn-Seipar	Llanwnda	SH 4558
<i>Tythyn Syper</i>	1683	Bangor 17605
<i>Tythin Syper</i>	1747	Bangor 17609
<i>Tythyn Syper</i>	1748/9	P. yr Aur Fur. Add. 2166
<i>Tythin Syber</i>	1750/1	Lloyd 175
<i>Tyddyn Syber</i>	1756	Lloyd 177
<i>Tyddyn Syper</i>	1756	Lloyd 178
<i>Tyddyn Syper</i>	1768	Roger Lloyd II 181
<i>Tuthin Sypar</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Tuthin Sypar</i>	1772	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Tyddun Seiben</i>	1775	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Tythyn Siper</i>	1778	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Dyddyn Seiber</i>	1779	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Tyddyn Seiper</i>	1783	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Tyddyn Siper</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>Tyddyn Seiper</i>	1805	Plas Carreg 161-2
<i>Tyddyn Siper</i>	1805	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Tyddyn Sciper otherwise Tyddyn Syper</i>	1811	Rumsey Wms 844-5
<i>Tyddyn Sipar</i>	1818	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Tyddyn Siper</i>	1822	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Tyddyn Sciper</i>	1824	P. yr Aur 4112
<i>Tyddyn Syper</i>	1831	Rumsey Wms 554
<i>Tyddyn Sipan</i>	1837	Rumsey Wms 1081
<i>Tyddyn-saibr</i>	1838	Map OS 78
<i>Tyddyn Seifar</i>	1851	Cyfrifiad
<i>Tyddyn Cupher</i>	1855	NewGlynllifon XD2 / 7488
<i>Tyddyn Sieper</i>	1874	Worrall 213
<i>Tyddynsiper</i>	1890-1	Bangor 8560
<i>Tyddyn-seipar</i>	1919	Map OS XV S.E.
<i>Tyddyn-seipar</i>	1959	Map OS SH 45
<i>Tyddyn Seipar</i>	2000	CCPost (Saron)

### *tyddyn, seipr/sipr / e.p. Siper?*

Oddi ar y ffordd sydd yn mynd o bentrefan Llanfaglan tuag at bentref Llandwrog ar yr ochr chwith ychydig y tu draw i Saron. Ac eithrio rhai enghreifftiau prin lle ceir *b* yng nghanol yr ail elfen, gellir cymryd mai *p* sydd yno, felly mae'n annhebygol mai *syber / syberw*, 'bonheddig, gwydh' sydd yma. Mae'r ffurfiau *seipr, sipr* ar gael yn y Gymraeg ers y 15g. am gypreswydden neu lwyn henna. Ategir y ffurf *syper* gan dystiolaeth o'r ffurf *sypyr* yn y 16g. ond erbyn 1805 yn enw'r annedd hwn trodd yr *y > ei*, a hwn yw'r ynganiad bellach. Cyflwynwyd y gypreswydden Eidalaid *cupressus sempervirens* i Brydain tua 1375 (OP 72). Mae'n debyg mai ymgais i ddehongli ffurf anghyfarwydd a geir yn *Tyddyn Sciper* 1811 a 1824; felly hefyd yn *Tyddyn Sipan* 1837, er nad yw'r ffurfiau hynny yn taflu dim mwy o oleuni ar yr ystyr. Anodd iawn yw esbonio'r ffurf *Cupher* 1855, onid yw'n ymgais ar ran rhywun di-Gymraeg i gofnodi'r enw.

Fodd bynnag, gellir o bosib gynnig yn betrus ddehongliad arall llawer mwy diddorol i *syper*. Yng nghofnodion llysoedd Caernarfon am 1395-6 ceir enw *Madog ab Ieuan Sipper* (CCR 117, 119) ac ar gyfer 1401 ceir enw *Dafydd Goronwy ab Ieuan Sipper* (ibid. 169). Mae *Sipper* yn enw dieithr iawn. Yn wir, ni welwyd unrhyw gofnod ohono fel e.p., a rhaid awgrymu mai llysenw sydd yma, er nad oes modd ei esbonio bellach. O gofio mor gyffredin yw'r arfer o gyfuno'r elfen *tyddyn* ag e.p., tybed nad olion yr enw hwn sydd yn *syper*, er na welwyd dystiolaeth hyd yn hyn i gysylltu *Ieuan Sipper* a'i deulu â *Thyddyn-seipar* ei hun.

<b>Tyddyn-Sir Hugh</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 5357</b>
<i>Tuthyn S' hugh</i>	1662	Ll&Brynodol D596
<i>Tythyn S' Hugh</i>	1679	Ll&Brynodol D597
<i>Tythin S' Hugh in Llanwnda</i>	1693	Ll&Brynodol D603-4
<i>Tythyn S' Hugh in Llanunda</i>	1716	Ll&Brynodol D312
<i>Tythyn Sir Hugh</i>	1720	Ll&Brynodol D345
<i>Tythyn S' Hugh</i>	1735	Ll&Brynodol R40
<i>Tythyn Sir Hugh</i>	1747-8	Ll&Brynodol D399
<i>Tythyn Sir Hugh</i>	1748	Ll&Brynodol D402-3
<i>Tythyn S' Hugh</i>	1766	Ll&Brynodol R46
<i>Tyddyn sir hugh</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Tyddyn Sir Hughes</i>	1773	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Tuyddyn sir Hugh</i>	1778	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Tythyn Sir Hugh</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Tyddyn Sir Hugh</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>Tyddyn Sir Hugh</i>	1795	Ll&Brynodol M187
<i>Tyddunsir hugh</i>	1795	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Tythin Sir Hugh</i>	1796	Poole 3802
<i>Tyddyn Syr huw</i>	1811	P. yr Aur Add. 1904
<i>Tyddyn Sir Huw</i>	1824	P. yr Aur 4111
<i>Tyddyn Sir Hugh</i>	1838	Map OS 78
<i>Tyddyn Sir Hugh</i>	1839	RhPDegwm
<i>Tyddyn Sir Hugh</i>	1890-1	Bangor 8560
<i>Tyddyn-Sir Hugh</i>	1919	Map OS XVI S.W.
<i>Tyddyn Syr Huw</i>	2000	CCPost (Waunfawr)
<i>Tyddyn Sir Hugh</i>	2002	Map OS Explorer OL17

#### **tyddyn, e.p. Sir Hugh**

Ar gyrion pentref Betws Garmon ar y dde i'r A4085 wrth fynd o Waunfawr. Er y rhestrir yr annedd hwn bellach dan Waunfawr yn y CCPost, fe'i rhestrwyd ar wahanol adegau dan blwyfi Llanwnda a Betws Garmon. Byddai ym mhlwyf Llanwnda adeg llunio RhPDegwm 1839. Ni wyddys pwy oedd y *Sir Hugh* hwn, ond mae lle i gredu mai offeiriad heb radd ydoedd. Daw'r cofnod cynharaf a welwyd hyd yma o 1662, ac yr oedd yn arfer yn y cyfnod hwnnw roi'r teitl 'Syr' i offeiriad di-radd. Yr oedd gŵr o'r enw Hugh ap Hywel ap Llywelyn yn gaplan ym mhlwyf Llanwnda yn 1504 ond ni ellir profi mai'r gŵr hwn a roes ei enw i'r annedd (*Dioc.Ban.16c. 82*).

<b>Tyddyn-Whiskin</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 5057</b>
<i>Tyddyn whiskin</i>	1839	RhPDegwm
<i>Tyddyn Wisgin</i>	1851	Cyfrifiad
<i>Tyddyn Wisgin</i>	2000	CCPost (Rhosgadfan)

#### **tyddyn, e.p. Whiskin < Hwysgin / Hwysgyn**

Yn rhan ddwyreiniol Rhosgadfan. Cyfenw anghyffredin yw *Whiskin* sydd i'w gael o hyd yn nhref Caernarfon ar ddechrau'r 21g. (gwybodaeth bersonol). Nid yw *DS*, *WS* na *SW* yn nodi *Whiskin*. Nid oes cofnod o'r enw yn nhref Caernarfon yng Nghyfrifiad 1851, ac mae'n hollol bosib mai teulu o rywle arall oeddynt yn wreiddiol heb unrhyw gysylltiad â'r ardal. Fodd bynnag ceir cofnod o ferch o Lanwnda a briododd i mewn i deulu Robbins yn ail hanner yr 16g.<sup>1</sup> Ei henw oedd Jane, ac yr oedd yn ferch i *William ap Howel ap Hwysgin*. Mae'r enw *Hwysgin / Hwysgyn* yn anarferol, a gallai'n hawdd fod wedi datblygu yn *Whiskin*.

<sup>1</sup> *JEGPed. 207*; gweler hefyd *Robyns Land* dan Gaeau Llanbeblig.

Ceir *Tyddyn-Whiskin* arall rhwng Caeathro a Waunfawr ym mhlwyf Llanrug a cheir trafodaeth o darddiad mwy pendant enw'r annedd hwnnw yn y fan honno (q.v.).

<b>Tyddyn-y-berth</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 4858</b>
<i>Tythin y Berth</i>	1696	Vaynol 3744
<i>Tyddyn y berth</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Tyddyn y berth</i>	1773	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Tyddyn y Berth</i>	1776–9	Vaynol 4054
<i>Tyddyn y Berth</i>	1780	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Tyddyn y berth</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Tyddynyberth</i>	1788	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Tyddyn y Berth</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>Tyddun y berth</i>	1794	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Tyddunyberth</i>	1795	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Tything Berth</i>	1802	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Tyddyn Berth</i>	1802	EwBangor B1802/124 8797
<i>Tyddyn y Berth</i>	1810 / 11	Vaynol 4063
<i>Tyddyn y Berth</i>	1838	EwBangor B1838/128 15177
<i>Tyddyn y Berth</i>	1839	RhPDegwm
<i>Tyddyn-y-berth</i>	1850	EwBangor B1850/78 17719
<i>Tyddyn-y-perth</i>	1874	Worrall 213
<i>Tyddnyberth</i>	1904	Bangor f33976
<i>Tyddyn-y-berth</i>	1919	Map OS XV S.E.
<i>Tyddyn-y-berth</i>	1959	Map OS SH 45
<i>Tyddyn Berth</i>	2002	Map OS Explorer OL 17

#### ***tyddyn, y, perth***

Ar y lôn sydd yn mynd o gyffordd Ffrwd-cae-du ar gyrion deheuol Bontnewydd i fyny i Rostryfan. Defnyddir *perth* yn Arfon yn yr ystyr 'llwyn' tra mai 'gwrych' yw ei ystyr yn ne Cymru (GPC; LGW, 145).

#### **Tyddyn-y-felin-gafnog**

#### **Llanwnda**

<i>Tythyn y Velyn gafnog</i>	1591	Henblas B	123
<i>Tythyn y Velyn gafnog</i>	1592	Henblas B	124
<i>Tuthyn y velin Gafnog</i>	1619	Henblas B	128
<i>Tyddyn y Felin Gafnog</i>	1700	Henblas B	129

#### ***tyddyn, y, melin, cafnog***

Heb ei leoli. Mae'n anodd deall sut y gallai melin fod yn 'gafnog'. sef yn ceuo neu'n ffurfio cafn, onid oedd yn adfail.

#### **Tyddyn-y-wrach**

#### **Llanwnda**

#### **SH 4859**

<i>Tythyn y Wrach</i>	1606/7	Ex. P.J.	43
<i>tythyn y wrach</i>	1607/8	Ex. P.J.	47
<i>Tythin y Werach</i>	1696	Vaynol	3744
<i>Tythyn y wrach</i>	1698	Coleman	DD 1034
<i>Tyddyn y wrach</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tyddyn y wrach</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tyddyn y Wrâch</i>	1777	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tyddynwrach</i>	1780–7	P.S.Glynllifon	84(56)
<i>Tyddyn y Wrach</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Tyddyn y Wrach</i>	1783	ATT GAG	XQA/LT 5/5

<i>Tyddyn y wrach</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Tythingwrach</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tyddyn Wrach</i>	1804	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tyddyn y wrach</i>	1813	EwBangor	B1813/141 10655
<i>Tyddyn y Wrach</i>	1814	C. Vincent	3222
<i>Tyddyn an wrach</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D1, D4
<i>Tyddunwrach</i>	1818	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tyddyn y wrach</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Tyddyn-y-wrâch</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Tyddyn-y-wrâch</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Tyddyn-y-wrâch</i>	2002	Map OS Explorer	OL 17

### **tyddyn, y, gwrach**

Ar gyrion de-ddwyreiniol Bontnewydd. Ceir yr eb. un. *gwrach* (gwiddon, hen wraig hagr) yn aml mewn e.lleoedd, ac o bosib ei fod yn cyfeirio at hen wraig a oedd yn berchennog yr annedd<sup>1</sup>.

### **Tyn-Gadfan**

### **Llanwnda**

### **SH 5057**

<i>Tynygadfyfyn</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Tyn y Gadfan</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Tyn-y-Gadfan</i>	1919	Myn. Rhosg.	B7
<i>Ty'n-Gadfan</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Tyn Gadfan</i>	2000	CCPost	(Rhosgadfan)

### **tyn, e.p. Cadfan**

Ar gyrion gogledd-orllewinol Rhosgadfan. Ac yntau wedi ei adeiladu yn 1821, yr oedd y tyddyn hwn ymhlith y to cyntaf o dyddynnod y caewyd eu tiroedd o dir comin Rhosgadfan (*TyCh*, 45). Am yr elfen *Cadfan* gweler dan *Bodgadfan* uchod.

### **Tyn-lôn**

### **Llanwnda SH 4558(1)/SH 4857(2)/SH 4858 (3)**

<i>Tyn y lôn alias Tythyn y Lôn</i>	1747	Bangor	17609
<i>Ty yn y Lôn alias Tythin lôn</i>	1751/2	Bangor	17610
<i>Ty yn lon</i>	1768	Roger Lloyd II	181
<i>Ty yn y Lôn</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tyn y Lôn</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>tý yn Lôn</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Ty yn lon</i>	1778	Roger Lloyd II	182–3
<i>Tynylone</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tyn y Lon</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Ty'n y lon</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Tyn y lone</i>	1794	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tý'n y Lone</i>	1795	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Ty lone</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Tyn lone</i>	1806	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Ty yn y lon otherwise Tyddyn y lon</i>	1830	Rumsey Wms	554
<i>Tynlon</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Ty'n-lôn (1) / Ty'n-lôn (3)</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Ty'n-lôn (1)</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Tyn Lon (2)</i>	2000	CCPost	(Rhostryfan)

<sup>1</sup> Gall hefyd fod yn ysgubau hir o redyn neu wellt a osodir ar ben tas wair neu ar ben to gwellt, neu yn dwmpath o wair mynydd wedi ei gribinio ynghyd.

**tŷ / tyddyn/ tyn, y, lôn**

Mae un annedd (1) o'r enw hwn ar y chwith oddi ar y lôn wrth fynd o Saron i gyfeiriad Llandwrog , un arall yn ardal Rhos-isaf (2), ac yr oedd un arall eto (3) oddi ar y lôn sydd yn arwain o gyffordd Ffrwd-cae-du i Rostryfan

<b>Tyn-llan</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 4758</b>
<i>Tu'r Clochydd otherwise Tu yn y Llan</i>	1736	Henblas B 160–2
<i>Tur Clochydd otherwise Tu yn yllan</i>	1760	Henblas B 175
<i>Ty'n Llan</i>	1776–9	Vaynol 4062
<i>Ty'n Llan</i>	1807	NewGlynllifon XD2 / 6697
<i>Tyn y llan</i>	1826	Rumsey Wms 16
<i>Tynllan</i>	1840	Vaynol 421
<i>Tyn Llan</i>	2000	CCPost (Dinas)

**tŷ / tyn, y, llan**

Yn agos at eglwys Llanwnda yn ardal Dinas: nodir lleoliad yr annedd hwn yng nghofnod 1760 fel 'near Church of Llanwnda'. Gweler hefyd *Tŷ'r Clochydd* uchod.

<b>Tyn-rhos</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 4558</b>
<i>Tu yn y Rhos</i>	1683	Bangor 17605
<i>Ty yn y Rhos alias Tyddyn Rhos</i>	1747	Bangor 17609
<i>Ty yn y rhôs otherwise Tythin y rhos</i>	1750–1	Lloyd 175
<i>Ty yn y Rhos alias Tythin y Rhos</i>	1751/2	Bangor 17610
<i>Ty yn Rhôs / Ty yn Rhos</i>	1756	Lloyd 177, 178
<i>Tythyn pengwern otherwise Tythyn Rhos</i>	1757	NewGlynllifon XD2 / 7424
<i>Tythyn Pengwern otherwise called Tythyn y Rhos</i>	1757	NewGlynllifon XD2 / 7426
<i>Tuthin y Rhoes</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Ty-yn-y-Rhos alias Tythin-y-Rhos</i>	1771	Lloyd 183
<i>Tyddin y Rhoes</i>	1774	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Tyddynros / Tynyrhose</i>	1775	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Ty yn rhos otherwise Glan yr rhos</i>	1778	Roger Lloyd II 182–3
<i>Tynyross / Tyddyn ross</i>	1784	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Ty'n y rhos / Ty'n rhos</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>Ty'n-rhos</i>	1794	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Tyn rhos</i>	1801	EwBangor B1801/85 8613
<i>Ty rhose</i>	1802	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Tyn rhos / Tyddyn rhos</i>	1803	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Tyn Rhose / Tyddyn Rhos</i>	1808	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Tyddrhose</i>	1810	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Tyddyn Pengwern otherwise Ty yn y Rhos</i>	1810	Rumsey Wms 434–5
<i>Tyddyn y Pengwern otherwise Ty yn y Rhos</i>	1816	Rumsey Wms 547–8
<i>Ty yn y Rhos otherwise Tyddyn y Rhos</i>	1830	Rumsey Wms 554
<i>Tyn rhos</i>	1830	Rumsey Wms 999
<i>Ty'n rhos</i>	1832	EwBangor B1832/120 13962
<i>Tyn yr rhos otherwise Tyn rhos otherwise Glan rhos</i>	1835	Rumsey Wms 570
<i>Tynrhos / Ty'n rhos</i>	1839	RhPDegwm
<i>Ty'n-rhôs</i>	1919	Map OS XV S.E.
<i>Ty'n-rhôs</i>	1959	Map OS SH 45

*Tyn Rhos* 2000 CCPost (Saron)

**tŷ / tyn / tyddyn, y, rhos**

Ar y chwith oddi ar y lôn wrth fynd o Saron i Landwrog, nid nepell o Bengwern fel yr awgryma'r enw *Tyddyn-pengwern*.

<b>Tyn-Rhosgadfan</b>	<b>Llanwnda</b>		<b>SH 5057</b>
<i>Tynrhos Gadfan</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Tynrhos Gadfa</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Tynrhosgadfan</i>	1861	Myn.Horeb	002
<i>Ty'n-rhos-gadfan</i>	1898–1900	Map OS	Arg. 1af
<i>Ty'n-rhôs-Gadfan</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Ty'n Rhosgadfan</i>	1930	Myn. Rhosg.	D2
<i>Tyn Rhos Gadfan</i>	2000	CCPost	(Rhosgadfan)

**tyn, rhos, e.p. Cadfan**

Ar gyrion gogleddol pentref Rhosgadfan.

<b>Tyn-y-clwt</b>	<b>Llanwnda</b>		<b>SH 4857</b>
<i>Tynyclwt</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Ty'n-y-clwt</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Tyn Y Clwt</i>	2000	CCPost	(Rhostryfan)

**tyn, y, clwt**

Yn ardal Rhos-isaf. Darn bychan o dir yw *clwt*.

<b>Tyn-y-ffrwd</b>	<b>Llanwnda</b>		<b>SH 4857</b>
<i>Tynyffrwd</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Ty'n-y-ffrwd</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Tyn Ffrwd</i>	2000	CCPost	(Rhostryfan)

**tyn, y, ffrwd**

Ar gyrion Rhostryfan yn ardal Rhos-isaf. Yma y ganwyd Owen Wynne Jones (Glasynys) (1828–70), yr hynafiaethydd, storiwr a bardd (*Byw.*472; *CA.* 181).

<b>Tyn-y-graig</b>	<b>Llanwnda</b>		<b>SH 5258</b>
<i>Tynygraig</i>	1747–8	Ll&Brynodol	D399
<i>Tynygraig</i>	1748	Ll&Brynodol	D402–3
<i>Tanygraig</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Tynygraig</i>	1852	EwBangor	B1852/169 18254
<i>Ty'n-y-graig</i>	1919	Map OS	XVI S.W.

**tyn, y, craig**

Mae'n bosib mai'r un lle yw *Tynygraig* a *Thanygraig*, gan fod yr elfennau *tyn* a *tan* yn aml yn ymgyfnewid mewn e.lle. Ar fap OS 1919 nodir yr annedd hwn mewn llecyn diarffordd nid nepell o'r lôn gul sydd yn mynd o'r Lôn Wen ar gyrion Rhosgadfan i lawr i gyrion Waunfawr.

<b>Tyn-y-weirglodd</b>	<b>Llanwnda</b>		<b>SH 4857</b>
<i>Tynyweirglodd</i>	1839	RhPDegwm	



<i>Tyn y weirglodd / tyn wercloth</i>	1858–9	Bangor	534
<i>Ty'n-y-weirglodd</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Tyn Y Weirglodd</i>	2000	CCPost	(Rhostryfan)

### ***tyn, y, gweirglodd***

Ar gyrion gogledd-orllewinol Rhostryfan, er bod annedd arall o'r un enw wedi ei nodi yng nghanol Rhosgadfan yn CCPost 2000. Ceir trafodaeth o'r elfen *gweirglodd* yn *YEE*, 22–3.

<b>Warren</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 4359</b>	
<i>Waren</i>	c.1815	NewGlynllifon	XD2 / 8356
<i>Warren</i>	1834	EwBangor	B1834/109 14317
<i>Warring</i>	1839	RhPDegwm	
<i>Waeren</i>	1851	Cyfrifiad <sup>1</sup>	
<i>Waren</i>	1886	Postal Dir.	175
<i>Warren Farm</i>	1919	Map OS	
<i>Warren Farm</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Warren</i>	1990	<i>CBLleu</i>	20
<i>Warren Farm</i>	2002	Map OS	Explorer 254

### ***Saes. warren***

Ger pen eithaf y penrhyn sydd yn ymestyn o Ddinas Dinlle i fae'r Foryd nid nepell o gaer Belan. Benthyciad yw'r ffurf *Warring* (1839) o'r *Saes. warren* = cwningar; ceir hefyd y ffurfiau *[g]waren* a *[g]warin* yn Gym.(*GPC*; *CBAmaeth*, 2, 234). Mae tuedd i gael *-n* ac *-ng* yn ymglyfnewid yn nherfyniad geiriau o dras *Saes. e.e. gwarin / gwaring; betin / beting; sieting / sieting* (*LPNW*, 89). Rhostir tywodlyd o'r math a dyllir gan gwningod sydd yma. Ar y mapiau OS nodir yr ardal fel 'Rabbit Warren', a disgrifir John Thomas, y gŵr oedd biau'r ewyllys yng nghofnod 1834, fel 'warrener'. O'r oesoedd canol ymlaen arferid ffermio cwningod am eu crwyn a'u cig, gyda chwningwr i gadw golwg arnynt (*NaH*, 130). Mae'r cofnod c. 1815 yn lleoli'r annedd hwn ym mhlwyf Llanfaglan, ond mewn gwirionedd mae yn y darn bach o'r penrhyn sydd yn perthyn i blwyf Llanwnda.

<b>Waun-bant</b>	<b>Llanwnda</b>	<b>SH 4957</b>	
<i>Wein bant</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>weyn bant</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Weyn Bant</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Waen bant</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Wayn Bant</i>	1784	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Waunbant</i>	1788	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>y weyrglodd ddofen y, gweirglodd, ans. dwfn, ben. dofn</i>	?	1591	Henblas B	123
---	---	------	-----------	-----

Mae'r cofnod llawn yn cyfeirio at 'wern ddown otherwise rauther y weyrglodd ddofen'.

<i>Werglodd ddû</i>	Gaerwen / Pen-y-gaerwen	1798-9	Vaynol	4059
<i>Werglodd Ddû</i>	Gaerwen / Pen-y-gaerwen	1809	Vaynol	4062
<i>Werglodd ddu</i>	Gaerwen	1839	RhPdegwm	821
<i>Gwerglodd ddu</i>	Gwredog-isaf	1798-9	Vaynol	4059
<i>Gwerglodd Ddu</i>	Gwredog-isaf	1809	Vaynol	4062
<i>Werglodd ddu</i>	Gwredog-isaf	1839	RhPdegwm	712
<i>Werglodd ddû</i>	Wernlas	1798-9	Vaynol	4059
<i>Werglodd Ddû</i>	Wernlas	1809	Vaynol	4062

***gweirglodd, du***

<i>Werglodd ddu uchaf gweirglodd, du, ans. uchel, gradd eithaf uchaf</i>	Gwredog-isaf	1839	RhPdegwm	740
--	--------------	------	----------	-----

<i>Werglodd fadog gweirglodd, e.p. Madog</i>	Tyddyn-y-berth	1839	RhPdegwm	875
--	----------------	------	----------	-----

Ni wyddys pwy oedd *Madog*.

<i>Werglodd main</i>	Cae-mawr	1839	RhPdegwm	706
<i>Werglodd fain</i>	Cefn	1839	RhPdegwm	1188
<i>Werglodd fain</i>	Rhedynog-felen	1757	Bangor	29397

<i>Werglodd fain</i>	Rhedynog-felen	1757	NewGlynllifon	XD2 / 7424
<i>Werglodd fain</i>	Rhedynog-felen	1781	Bangor	29398
<i>Werglodd fain</i>	Tyddyn-bach	1839	RhPdegwm	1978-9
<i>Werglodd fain</i>	Tŷ-hen	1803	Henblas B	1345
<i>Werglodd fain</i>	Tyn-rhos	1839	RhPdegwm	131
<b><i>gweirglodd, main</i></b>				
<i>Werglodd farget</i>	Tyn-rhos	1839	RhPdegwm	157
<b><i>gweirglodd, e.p. Marged</i></b>				
Mae'n anodd esbonio'r ail elfen onid yr e.p. <i>Marged / Margaret</i> sydd yma.				
<i>Gwerglodd fawr</i>	?	1760	Henblas B	175
<i>Werglodd fawr</i>	Bodaden	1839	RhPdegwm	990, 1037
<i>Weirglodd fawr</i>	Cae-hen	1798-9	Vaynol	4059
<i>Werglodd fawr</i>	Cae-hen	1809	Vaynol	4062
<i>Werglodd fawr</i>	Cae-mawr	1839	RhPdegwm	705
<i>Werglodd fawr</i>	Pengwern	1839	RhPdegwm	184
<i>Werglodd fawr</i>	Pistyll	1839	RhPdegwm	834, 834a
<i>Werglodd fawr</i>	Plas-yn-bont	1839	RhPdegwm	306-10
<i>Werglodd fawr</i>	Rhedynog-felen	1838	Bangor	29403
<i>Werglodd fawr</i>	Tan-y-ffordd	1839	RhPdegwm	1876
<i>Werglodd fawr</i>	Tyddyn-Sir Hugh	1839	RhPdegwm	1923
<i>Werglodd fawr</i>	Tyddyn-y-berth	1839	RhPdegwm	905
<i>Werglodd fawr</i>	Tyn-rhos	1839	RhPdegwm	135, 193
<i>Werglodd fawr</i>	Wernlas	1798-9	Vaynol	4059
<i>Werglodd fawr</i>	Wernlas	1809	Vaynol	4062
<i>Werglodd fawr</i>	Wernlas-wen	1839	RhPdegwm	996
<b><i>gweirglodd, mawr</i></b>				
<i>Werglodd fawr ganol</i>	Wernlas-wen	1839	RhPdegwm	998
<b><i>gweirglodd, mawr, canol</i></b>				
<i>Werglodd fawr uchaf</i>	Wernlas-wen	1839	RhPdegwm	997a
<b><i>gweirglodd, mawr, ans. uchel, gradd eithaf uchaf</i></b>				
<i>Werglodd felin</i>	Hafod-y-wern	1839	RhPdegwm	1947
<i>Werglodd felin</i>	Wernlas-wen	1839	RhPdegwm	1004
<b><i>gweirglodd, [y], melin</i></b>				
<i>Werglodd ffordd</i>	Wernlas-ddu	1839	RhPdegwm	857
<b><i>gweirglodd, ffordd</i></b>				
<i>Werglodd galch</i>	Geufron	1835	Roger Lloyd II	216
<i>Werglodd galch</i>	Geufron	1835	Rumsey Wms	1057
<b><i>gweirglodd, calch</i></b>				
<i>Gwerglodd galed</i>	Tŷ-mawr	1839	RhPdegwm	87
<b><i>gweirglodd, caled</i></b>				
<i>Werglodd ganol</i>	Tyddyn-Heilyn	1839	RhPdegwm	1209
<i>Werglodd ganol</i>	Tyddyn-y-berth	1839	RhPdegwm	910
<i>Werglodd ganol</i>	Wernlas	1798-9	Vaynol	4059
<i>Werglodd ganol</i>	Wernlas	1809	Vaynol	4062
<i>Werglodd ganol</i>	Wernlas-ddu	1839	RhPdegwm	873, 878
<b><i>gweirglodd, canol</i></b>				

<i>Gwerglodd Cethin</i>	Tyddyn-y-berth	1798–9	Vaynol	4059
<i>Gwerglodd Cethyn</i>	Tyddyn-y-berth	1809	Vaynol	4062

***gweirglodd, cethin***

Mae sawl ystyr i'r ans. *cethin*: tywyll, brych, melynddu; gwyllt, gerwin. Gall hefyd fod yn ep. Gweler Mynegai Enwau Priod. Gweler hefyd *Bryn cethin* yn nhir yr un annedd. Ystyrir *gweirglodd* yn eb. fel rheol yn yr ardal hon, felly byddid wedi disgwyl cael tr. meddal ar ddechrau *cethin* os mai ans. oedd yma.

<i>Werglodd goch</i>	Dinas	1798–9	Vaynol	4059
<i>Werglodd goch</i>	Dinas	1809	Vaynol	4062
<i>Werglodd Goch</i>	Gaerwen / Pen-y-gaerwen	1809	Vaynol	4062
<i>Werglodd goch</i>	Gaerwen	1839	RhPdegwm	823
<i>Werglodd goch</i>	Pont Faen	1839	RhPdegwm	243, 279
<i>Werglodd goch</i>	Tŷ-mawr	1839	RhPdegwm	123
<i>Werglodd goch</i>	Wernlas-wen	1839	RhPdegwm	1001

***gweirglodd, coch***

<i>Werglodd grefachwen</i>	Cae-ysgubor	1839	RhPdegwm	1805
----------------------------	-------------	------	----------	------

***gweirglodd, crepach, ans. gwyn, ben. gwen***

Mae'n anodd esbonio'r ail elfen onid yw'n ans. cyfansawdd wedi ei lunio o *crepach* + *gwen* i olygu *gweirglodd* wen, wywedig a chrin.

<i>Werglodd Grobach</i>	Plas-Llanwnda	1839	RhPdegwm	430
-------------------------	---------------	------	----------	-----

***gweirglodd, crepach?***

Mae'n bosib mai *crepach* sydd yma eto yn yr ail elfen, ac mai tir crimp a chrin a olygir.

<i>Werglodd gron</i>	Traean	1839	RhPdegwm	1196
----------------------	--------	------	----------	------

***gweirglodd, ans. crwn, ben. cron***

<i>Gwerglodd Guttyn</i>	Cae'r-odyn	1798–9	Vaynol	4059
<i>Owain</i>				
<i>Gwerglodd Guttun</i>	Cae'r-odyn	1809	Vaynol	4062
<i>Owain</i>				

***gweirglodd, e.p. Gutyn Owain***

Ni wyddys pwy oedd *Gutyn Owain*. Go brin fod unrhyw gysylltiad rhyngddo â'r bardd adnabyddus *Gutun Owain* o arglwyddiaeth Croesoswallt a flodeuai ar ddiwedd y 15g.

<i>Werglodd gwlaw</i>	Cwellyn	1839	RhPdegwm	2061
-----------------------	---------	------	----------	------

***gweirglodd, glaw***

Ystyrir *glaw* yn sillafiad hynafol o *glaw*. Mae'n bur debyg fod *Cwellyn* mewn llecyn eithaf glawog yng nghesail y mynyddoedd ac ar lan Llyn Cwellyn.

<i>Werglodd gydun</i>	Cae'r-odyn	1839	RhPdegwm	1379, 1380, 1395–6, 1401
-----------------------	------------	------	----------	--------------------------

***gweirglodd, cudyn?***

Mae'n bosib mai *cudyn* sydd yma, sef modrwy o wallt: gallai gyfeirio at weirglodd â thro yn ei siâp. Anfarwolwyd y cae hwn mewn pennill gan y bardd gwlad William Bifan (gweler dan *Gadlys* yn *Anheddau Llanwnda*). Unwaith, pan welodd y pladurwyr yn cael trafferth i ladd gwair yno oherwydd nad oedd digon o fin ar eu pladuriau, canodd William Bifan y pennill canlynol: 'Mae llawer math o erfyn / I'w gael ar *Weirglodd Gudyn* / Ond torrir heddiw, gwneir yn wir / Rydau ar dir Caerodyn' (*CCThA*, 45).

<i>Werglodd Gynfon?</i>	Bodaden	1839	RhPdegwm	984
<i>Gynfin?</i>				

***gweirglodd, cynffon?***

Mae'n anodd darllen yr ail elfen yn y cofnod: mae'n bosib mai *cynffon* sydd yma, a bod hon, fel y *Werglodd gudyn*, yn stribed hir neu'n un â thro ynddi.

<i>Werglodd henrhyd</i>	Bodaden	1839	RhPDegwm	960
<i>Werglodd henrhyd</i>	Pistyll	1839	RhPDegwm	874
<i>Werglodd hen rhyd</i>	Wernlas	1798-9	Vaynol	4059
<i>Werglodd hen rhyd</i>	Wernlas	1809	Vaynol	4062

***gweirglodd, hen, rhyd***

Mae'r afon Rhyd yn rhedeg heibio i *Fodaden* i lawr i ardal Glanrhyd, ac mae Pont *Henrhyd* Isaf yn ei chroesi yn y fan honno. Ni wyddom i sicrwydd union leoliad *Pistyll*, ond mae'n bosib fod yr afon yn rhedeg trwy dir yr annedd hwnnw hefyd (gweler *Pistyll* dan Anheddau Llanwnda). Mae *Wernlas-wen* a *Wernlas-ddu* yn yr un cyffiniau. Ceir *Cae'r henrhyd* a *Bron henrhyd* hefyd yn nhir *Tyddyn-y-berth* yn yr un ardal.

<i>Werglodd hir fain</i>	Plas-Llanwnda	1839	RhPDegwm	416
--------------------------	---------------	------	----------	-----

***gweirglodd, hir, main***

<i>Werglodd hirgam</i>	Rhedynog-felen	1839	RhPDegwm	81a
------------------------	----------------	------	----------	-----

***gweirglodd, hir, cam***

<i>Werglodd isaf</i>	Ceunant	1839	RhPDegwm	1785
<i>Werglodd isaf</i>	Cwm-bychan	1839	RhPDegwm	2031
<i>Werglodd isaf</i>	Garth	1839	RhPDegwm	486
<i>Werglodd isaf</i>	Hafod-y-wern	1839	RhPDegwm	1943, 1972
<i>y Weirglodd issâ</i>	Llwyn-bedw?	1727	LI&Brynodol	D910-11
<i>y weirglodd issa</i>	Llwyn-bedw?	1734	LI&Brynodol	D364-5
<i>Werglodd isaf</i>	Rhedynog-felen-fawr	1839	RhPDegwm	82
<i>Werglodd isaf</i>	Tyddyn-parthle	1839	RhPDegwm	682, 902
<i>Werglodd isa</i>	Tyddyn-y-berth	1798-9	Vaynol	4059
<i>Werglodd Isa</i>	Tyddyn-y-berth	1809	Vaynol	4062

***gweirglodd, ans. isel, gradd eithaf isaf***

<i>Werglodd Llynn</i>	Penrhos	1839	RhPDegwm	111
-----------------------	---------	------	----------	-----

***gweirglodd, llyn***

<i>Werglodd maen llwyd</i>	Bodaden	1839	RhPDegwm	991
----------------------------	---------	------	----------	-----

***gweirglodd, maen, llwyd***

<i>Werglodd man</i>	Bryn-beddau	1839	RhPDegwm	885
---------------------	-------------	------	----------	-----

***gweirglodd, man***

*Man* yn ddiau sydd yn y cofnod, ond mae'n anodd gweld unrhyw synnwyr i'r enw fel y saif. Mae'n bosib mai *mawn* a ddylai fod yma: ceir *Werglodd mawn* ym mhlwyf Llandwrog.

<i>Werglodd newydd</i>	Pengwern	1839	RhPDegwm	182
<i>Gweirglodd newydd</i>	Rhedynog-felen	1799	Bangor	29400
<i>Werglodd newydd</i>	Tŷ-uchaf	1839	RhPDegwm	270
<i>Werglodd newydd</i>	Tyn-rhos	1839	RhPDegwm	136

***gweirglodd, newydd***

<i>Werglodd pengroes</i>	Mount Pleasant Inn	1839	RhPDegwm	370
<i>Gwerglodd pen y groes</i>	Tyn-llan	1798-9	Vaynol	4059
<i>Gwerglodd Pen y</i>	Tyn-llan	1809	Vaynol	4062

*groes*

***gweirglodd, pen, y, croes***

Safai *Pen-y-groes* (q.v. dan Anheddau Llanwnda) ar y gyffordd groesgam nid nepell o dafarn y *Mount* a *Tyn-llan*.

<i>Gwerglodd pen y gaer</i>	Gaerwen / Pen-y-gaerwen	1798–9	Vaynol	4059
<i>Gwerglodd Pen y gaer</i>	Gaerwen / Pen-y-gaerwen	1809	Vaynol	4062

***gweirglodd, pen, y, caer***

<i>Gwerglodd pwll</i>	Wernlas	1798–9	Vaynol	4059
<i>Cowarch</i>				
<i>Gwerglodd pwll</i>	Wernlas	1809	Vaynol	4062
<i>Cowarch</i>				

***gweirglodd, pwll, cywarch***

Am y ddwy elfen olaf gweler *Rhos pwll cywarch* dan caeau Llanbeblig.

<i>Werglodd pwll glô</i>	Wernlas-ddu	1839	RhPdegwm	855
--------------------------	-------------	------	----------	-----

***gweirglodd, pwll, glo***

Nid oes sôn am gloddio am lo yn yr ardal hon, felly mae'n debyg mai 'golosg' (*charcoal*) a olygir yma, fel yng *Nghwm-y-glo* ger Llanberis, ac yn annedd *Garth-y-glo* ym mhlwyf Llanwnda (q.v.). Llosgid darnau o goed yn araf mewn pyllau am gyfnod hir yn yr haf i gynhyrchu tanwydd ar gyfer diwydiannau o bob math (*ADG 1*, 34).

<i>Werglodd rhos</i>	Gadlys	1839	RhPdegwm	1078
----------------------	--------	------	----------	------

***gweirglodd, rhos***

Mae *Gadlys* ar gyrion Rhos-isaf, ac felly hefyd ar gyrion y rhostir sydd yn ymestyn trwy ardal Rhostryfan a Rhosgadfan.

<i>Gwerglodd Stable</i>	Dinas	1798–9	Vaynol	4059
<i>Gwerglodd Stable</i>	Dinas	1809	Vaynol	4062

***gweirglodd, ystabl, llu. ystablau***

Mae'n debyg mai ffurf lafar y llu. *ystablau* sydd yma, yn hytrach na'r Saes. *stable*.

<i>Werglodd Storws</i>	Cefn-hengwrt	1839	RhPdegwm	71
------------------------	--------------	------	----------	----

***gweirglodd, storws***

Benth. o'r Saes. *storehouse* yw *storws*.

<i>Gwerglodd Syper</i>	?	1778	Roger Lloyd II	182–3
------------------------	---	------	----------------	-------

***gweirglodd, syper***

Am yr ail elfen gweler *Tyddyn-seipar* dan Anheddau Llanwnda. Mae'n bur debyg mai rhan o dir yr annedd hwnnw oedd y weirglodd hon.

<i>Gweirglodd talwrn</i>	yn nhrefgordd Dinlle	1587	Nannau	1569
<i>yr arch</i>				

***gweirglodd, talwrn, yr, arch***

Mae'n debyg mai ym Modaden yr oedd y cae hwn. Gweler y nodyn dan *Talwrn* isod.

<i>Werglodd tan lon</i>	Tŷ-cnap	1839	RhPdegwm	350–2, 368
-------------------------	---------	------	----------	------------

***gweirglodd, tan, lôn***

<i>Werglodd tan stabal</i>	Pengwern	1839	RhPdegwm	218
----------------------------	----------	------	----------	-----

***gweirglodd, ystabl***

<i>Gwerglodd tan</i>	Rhedynog-felen	1757	Bangor	29397
<i>'rodyn</i>				
<i>Gwerglodd tan</i>	Rhedynog-felen	1757	NewGlynllifon	XD2 / 7424
<i>'rodyn</i>				

<i>Gwerglodd tan</i>	Rhedynog-felen	1757	NewGlynllifon	XD2 / 7424
<i>'rOdyn Galch</i>				
<i>Werglodd tan 'r</i>	Rhedynog-felen	1757	Bangor	29397
<i>odyn galch</i>				
<i>Gwerglodd tan yr</i>	Rhedynog-felen	1799	Bangor	29400
<i>odyn</i>				
<i>Gwerglodd tan yr</i>	Rhedynog-felen	1838	Bangor	29403
<i>odyn</i>				
<b><i>gweirglodd, tan, yr, ody, calch</i></b>				
<i>Gwerglodd Tan y Tu</i>	yn nhrefgordd Pengwern	1751–2	Bangor	17610
<i>Gwerglodd tan y ty</i>	yn nhrefgordd Pengwern	1830	Rumsey Wms	554
<i>Gweirglodd Tan y Tu</i>	Tyddyn-seipar	1683	Bangor	17605
<i>Gweirglodd tan y tû</i>	Tyddyn-seipar	1747	Bangor	17609
<i>Werglodd tan y Tÿ</i>	Wernlas	1798–9	Vaynol	4059
<i>Werglodd Tan y Tÿ</i>	Wernlas	1809	Vaynol	4062
<i>Werglodd tan ty</i>	Wernlas-ddu	1839	RhPDegwm	871
<b><i>gweirglodd, tan, y, tÿ</i></b>				
<i>Werglodd ty isa rafon</i>	Bodaden	1839	RhPDegwm	956
<b><i>gweirglodd, tu, ans. isel, gradd eithaf isaf, i, yr, afon</i></b>				
Afon Rhyd fyddai'r afon dan sylw. <i>Tu</i> a ddylai fod yn yr ail elfen yn hytrach na <i>ty</i> .				
<i>Werglodd uchaf</i>	Garth	1839	RhPDegwm	485
<i>Werglodd uchaf</i>	Hafod-y-wern	1839	RhPDegwm	1980
<i>y Weirglodd ucha</i>	Llwyn-bedw?	1727	Ll&Brynodol	D910–11
<i>y weirglodd ucha</i>	Llwyn-bedw?	1734	Ll&Brynodol	D364–5
<i>Werglodd uchaf</i>	Tyddyn-parthle	1839	RhPDegwm	901
<i>Werglodd Ucha</i>	Tyddyn-y-berth	1798–9	Vaynol	4059
<i>Werglodd ucha</i>	Tyddyn-y-berth	1809	Vaynol	4062
<b><i>gweirglodd, ans. uchel, gradd eithaf uchaf</i></b>				
<i>Werglodd wern</i>	Geufron	1839	RhPDegwm	382
<b><i>gweirglodd, gwern</i></b>				
<i>Werglodd bont</i>	Cilfechydd	1839	RhPDegwm	1799
<i>Gwerglodd y Bont</i>	Llwyn-bedw?	1727	Ll&Brynodol	D910–11
<i>Gweirglodd y Bont</i>	Llwyn-bedw?	1734	Ll&Brynodol	D364–5
<i>Werglodd y bont</i>	Tyddyn-Sir Hugh	1839	RhPDegwm	1912
<b><i>gweirglodd, y, pont</i></b>				
<i>werglodd y Bryddell</i>	Pentre-bach	1721	Ll&Brynodol	D1068–9
<i>Gwerglodd-y-Bryddell</i>	Pentre-bach	1721	Ll&Brynodol	D1071–2
<i>Gwerglodd y Bryddell</i>	Pentre-bach	1721	NewGlynllifon	XD2 / 7460
<i>Gweirglodd-y-bryddell</i>	Pentre-bach	1722	Ll&Brynodol	D1073
<b><i>gweirglodd, y, priddell</i></b>				
Tywarchen neu bridd yw <i>priddell</i> , ond gall hefyd olygu 'bedd'. 'Garw fu rhoi i bridd i'r <i>briddell</i> ', meddai R. Williams Parry yn ei englynion coffa i Hedd Wyn ( <i>CRWP</i> , 59). Ceir <i>Rhyd-y-briddell</i> yn Ysbyty Ystwyth a <i>Thyddyn y Briddell</i> yn Nhywyn. Meir. (AMR).				
<i>Werglodd y coed</i>	Wernlas	1798–9	Vaynol	4059
<i>Werglodd y Coed</i>	Wernlas	1809	Vaynol	4062
<b><i>gweirglodd, y, coeden, llu. coed</i></b>				
<i>Gwerglodd y ddôl</i>	?	1803	Henblas B	1345



**gweirglodd, y, dôl**

<i>Werglodd y ffynon</i>	Geufron	1835	Roger Lloyd II	216
<i>Werglodd y ffynon</i>	Geufron	1835	Rumsey Wms	1057
<i>Werglodd ffynnon</i>	Tŷ-mawr	1839	RhPdegwm	84
<i>Gwerglodd y ffynnon</i>	Tyddyn-y-berth	1798–9	Vaynol	4059
<i>Gwerglodd y Fynnon</i>	Tyddyn-y-berth	1809	Vaynol	4062

**gweirglodd, y, ffynnon**

<i>Gwerglodd y Gerlan</i>	yn nhrefgordd Bodellog	1595/6	P.S.Peniarth	DC45
---------------------------	------------------------	--------	--------------	------

**gweirglodd, y, cerlan**

<i>Gwerglodd y Gongl</i>	Dinas	1798–9	Vaynol	4059
<i>Gwerglodd y Gongl</i>	Dinas	1809	Vaynol	4062

**gweirglodd, y, congl**

<i>Gwerglodd y Gwrly</i>	Llwyn-bedw?	1690	Ll&Brynodol	D895
<i>Gwerglodd y Gwrly</i>	Llwyn-bedw?	1690	Ll&Brynodol	D896–7
<i>Gwerglodd y Gwrly</i>	Llwyn-bedw?	1695	Ll&Brynodol	D899–900
<i>Gwerglodd y gwrly</i>	Llwyn-bedw?	1727	Ll&Brynodol	D910–11
<i>Gweirglodd y Gwrly</i>	Llwyn-bedw?	1734	Ll&Brynodol	D364–5

**gweirglodd, y, gorlif? gwyrddling?**

Mae'n anodd iawn esbonio'r drydedd elfen. Dywed yr Athro Bedwyr Lewis Jones y defnyddid *gwrlly* ym Môn am 'gorlif' i ddisgrifio dŵr uchel mewn afon. Gelwid rhan o dir Tregarnedd-bach yn Llangefni yn *Gwrlly* am ei fod dan ddŵr ar adegau (*ISF*, 46). Mae'n ddiddorol sylwi fod map OS 1919 yn nodi'r geiriau 'Liable to Floods' ar ran o afon Gwyrfai nid nepell o *Llwyn-bedw*. Ceir *Cae'r Gwrlly* a *Blaen Cae'r Gwrlly* hefyd yng Nghororion, Caern. (AMR; AIPryce, 51).

Yr unig esboniad arall y gellir ei gynnig yn betrus yw mai datblygiad llafar sydd yma o'r eg. *gwyrddling* / *gwrling*. Y planhigyn *Helyg Mair* 'bog myrtle', yw hwnnw, sef llwyn sydd yn tyfu ar gorsydd a gweundir.

<i>Werglodd y maen</i>	Geufron	1835	Roger Lloyd II	216
<i>Werglodd y maen</i>	Geufron	1835	Rumsey Wms	1057

**gweirglodd, y, maen**

<i>Gwerglodd y Mûr</i>	Cae-mawr	1798–9	Vaynol	4059
<i>Gwerglodd y Mûr</i>	Cae-mawr	1809	Vaynol	4062

**gweirglodd, y, mur**

<i>Werglodd ynys geubren</i>	Rhedynog-felen-fach	1839	RhPdegwm	497
------------------------------	---------------------	------	----------	-----

**gweirglodd, ynys, ceubren**

Cocden wedi ceuo a phydru oddi mewn yw *ceubren*. Ceir cyfeiriad at le o'r enw *Enys Keubren* yn Llanwnda yn 1199 (*AWR*, 353).

<i>Gweyrglodd Ynys yr Avon</i>	yn nhrefgordd Bodellog	1598	P.S.Peniarth	DC47
--------------------------------	------------------------	------	--------------	------

**gweirglodd, ynys, yr, afon**

<i>Gwerglodd y Pistill</i>	Wernlas	1798–9	Vaynol	4059
<i>Gwerglodd y Pistill</i>	Wernlas	1809	Vaynol	4062

**gweirglodd, e.ll.Y Pistyll**

Yr annedd *Pistyll* sydd yma; cyfeirir at 'Pistill House' hefyd ar dir Wernlas.

<i>Gwerglodd y Pwll</i>	Dinas	1798–9	Vaynol	4059
-------------------------	-------	--------	--------	------

<i>Gwerglodd y Pwll</i>	Dinas	1809	Vaynol	4062
<i>Werglodd y pwll</i>	Tŷ-uchaf	1839	RhPDegwm	299
<b><i>gweirglodd, y, pwll</i></b>				
<i>Werglodd yr ardd</i>	Dinas	1839	RhPDegwm	365
<b><i>gweirglodd, y, gardd</i></b>				
<i>Gwerglodd y Trayan</i>	Llwyn-bedw?	1690	Ll&Brynodol	D895
<i>Gwerglodd y Trayan</i>	Llwyn-bedw?	1690	Ll&Brynodol	D896–7
<i>Gwerglodd y Trayan</i>	Llwyn-bedw?	1695	Ll&Brynodol	D899–900
<i>Gwerglodd y trayan</i>	Llwyn-bedw?	1727	Ll&Brynodol	D910–11
<i>Gweirglodd y Trayan</i>	Llwyn-bedw?	1734	Ll&Brynodol	D364–5
<i>Werglodd druan</i>	Tyddyn-Sir Hugh	1839	RhPDegwm	1927
<b><i>gweirglodd, y, traean</i></b>				

Am yr elfen *traean* gweler *Traean* dan Anheddau Llanbeblig. Mae'n debyg mai'r un lle sydd yng nghofnod 1839 ag yn y lleill, ac mai *traean* sydd yma hefyd ac nid yr ans. *truan*. Mae *Llwyn-bedw* a *Thyddyn-Sir Hugh* yn ddigon agos at ei gilydd i'r cofnodion i gyd gyfeirio at yr un lle.

<i>Gwerglodd y Tŷ</i>	Gwredog-isaf	1798–9	Vaynol	4059
<i>Gwerglodd y Tŷ</i>	Gwredog-isaf	1809	Vaynol	4062
<b><i>gweirglodd, y, tŷ</i></b>				

<i>/y/ gweyrgloddie</i>	yn nhrefgordd Bodellog	1629	Bangor	2064
<b><i>y, gweirglodd, llu. gweirgloddiau</i></b>				

<i>Gweirgloddia Mawr</i>	Dinas	1798–9	Vaynol	4059
<i>Gweirgloddia mawr</i>	Dinas	1809	Vaynol	4062
<b><i>gweirglodd, llu. gweirgloddiau, mawr</i></b>				

### **Gwenar? Llanwnda**

<i>Wenar?</i>	Hafod-y-wern	1839	RhPDegwm	1971
<b><i>gwenar?</i></b>				

Mae'n anodd iawn darllen y cofnod hwn. Nid yw *GPC* yn nodi *gwenar*. Go brin fod *gwanar*, yn yr ystyr o ryfelwr na brwydr yn debygol. Tybed ai *gwernor* sydd yma, sef gwrthglawdd neu balis o goed gwern, er bod defnydd y gair *hwennw*'n brin. Eb. yw *gwernor*, felly gellid cael 'y wernor', ond mae'n amheus y byddai'r *-r-* gyntaf yn diflannu, hyd yn oed petai'r terfyniad *-or* yn datblygu'n *-ar* ar batrwm *gwernos* > *y wernas*. Fodd bynnag, mae enw'r annedd *Hafod-y-wern* efallai yn ategu'r posibilrwydd mai *gwernor* sydd yma.

### **Gwern Llanwnda**

<i>Wern</i>	?	1837	C. Vincent	2861
<i>Wern</i>	Cil-haul	1839	RhPDegwm	1717
<i>Wern</i>	Tan-yr-allt	1839	RhPDegwm	1660
<i>Wern</i>	Tyddyn-Heilyn	1839	RhPDegwm	1099
<i>Wern</i>	Tyddyn-Sir Hugh	1839	RhPDegwm	1929

### **gwern**

Yn yr holl gofnodion uchod gwelir *wern* yn hytrach na'r ffurf gysefin *gwern*, gyda'r fannod o flaen yr eb. un. a barodd y tr. meddal wedi ei cholli. Ystyr *gwernen*, llu. *gwern*, yw coed o deulu'r fedwen ('alder') sydd yn tyfu ar dir gwlyb, ond fel rheol mewn e.lle ystyr *gwern* yw man lle mae llawer o'r coed hyn yn tyfu, sef *gweirglodd* laith neu gors.

<i>y wern bach</i>	Rhedynog-felen-fawr	1757	Bangor	29397
--------------------	---------------------	------	--------	-------

<i>Y Wern Bach</i>	Rhedynog-felen	1757	NewGlynllifon	XD2 / 7424
<i>Wern bach</i>	Rhedynog-felen-fawr	1781	Bangor	29398
<i>Wern bach</i>	Rhedynog-felen-fawr	1838	Bangor	29403
<i>Wern bach</i>	Rhedynog-felen-fawr	1839	RhPDeGwm	583
<i>Wern bach</i>	Tyn-llan	1798–9	Vaynol	4059
<i>Wern bach</i>	Tyn-llan	1809	Vaynol	4062

**gwern, bach**

Sylwer yma eto yn yr ail elfen y duedd leol i beidio â threiglo *bach* > *fach* ar ôl eb. un.

<i>Wern brwyn</i>	Gwredog-isaf	1839	RhPDeGwm	716
-------------------	--------------	------	----------	-----

**gwern, brwyn**

<i>y Wern Doppiog</i>	yn nhrefgordd Bodellog	1629	Bangor	2064
<i>Werne toppig</i>	?	1644	Baron Hill	3233

**gwern, topiog**

Ans. yw *topiog* yn disgrifio rhywbeth 'ac iddo dop' (*GPC*). Gweler hefyd y *Gors Doppiog* uchod.

<i>Werndofyn</i>		1199	AWR	353
<i>wern ddovn</i>	?	1591	Henblas B	123

**gwern, ans. dwfn, ben. dofn**

Mae cofnod llawn 1591 yn cyfeirio at 'wern ddovn otherwyse rauther y weyrglodd ddofen'.

<i>Wern ddu</i>	Tŷ-coch	1839	RhPDeGwm	1969
-----------------	---------	------	----------	------

**gwern, du**

<i>Wern ganol</i>	Gwredog-uchaf	1798–9	Vaynol	4059
<i>Wern ganol</i>	Gwredog-uchaf	1809	Vaynol	4062
<i>Wern ganol</i>	Rhedynog-felen	1757	Bangor	29397
<i>Wernganol</i>	Rhedynog-felen	1757	NewGlynllifon	XD2 / 7424
<i>wern ganol</i>	Rhedynog-felen	1781	Bangor	29398
<i>Wern ganol</i>	Rhedynog-felen	1838	Bangor	29403

**gwern, canol**

<i>y Wern gwttter</i>	?	1607/8	<i>Ex. P. J.</i>	47
<i>y werne gwttta</i>	yn nhrefgordd Bodellog	1629	Bangor	2064
<i>Gwerngwttta</i>	?	1760	Henblas B	175
<i>Wern gwttta</i>	Dinas	1798–9	Vaynol	4059
<i>Wern gwttta</i>	Dinas	1809	Vaynol	4062

**gwern, cwta**

Mae'n bur debyg mai'r un lle sydd ym mhob un o'r cofnodion uchod er mai *gwttter* a nodir yng nghofnod 1607/8.

<i>Wern isaf</i>	Hafod-y-wern	1839	RhPDeGwm	1995–6
------------------	--------------	------	----------	--------

**gwern, ans. isel, gradd eithaf isaf**

<i>Wern Tan y Tu</i>	Rhedynog-felen	1757	Bangor	29397
<i>wern tanyty</i>	Rhedynog-felen	1757	NewGlynllifon	XD2 / 7424
<i>Wern Tan y Ty</i>	Rhedynog-felen	1781	Bangor	29398
<i>Wern tan y tu</i>	Rhedynog-felen	1838	Bangor	29403

**gwern, tan, y, tŷ**

<i>Wern uchaf</i>	Hafod-y-wern	1839	RhPDeGwm	1992–3
-------------------	--------------	------	----------	--------

**gwern, ans. uchel, gradd eithaf uchaf**

<i>Gwern y beudy</i>	Pentre-bach	1721	Ll&Brynodol	D1068-9
<i>Gweyn-y-beudy</i>	Pentre-bach	1721	Ll&Brynodol	D1071-2
<i>Gwern y Beudu</i>	Pentre-bach	1721	NewGlynllifon	XD2 / 7460
<i>Gwern-y-beudy</i> <b><i>gwern, y, beudy</i></b>	Pentre-bach	1722	Ll&Brynodol	D1073

<i>Gwern y Pistill</i>	Gwredog-uchaf	1798-9	Vaynol	4059
<i>Gwern y Pistill</i> <b><i>gwern, y, pistyll</i></b>	Gwredog-uchaf	1809	Vaynol	4062

### Gwinllan

### Llanwnda

<i>Winllan</i>	Bodgarad	1839	RhPDegwm	1578, 1599
<i>Winllan</i>	Plas-Llanwnda	1839	RhPDegwm	572
<i>Winllan</i> <b><i>gwinllan</i></b>	Tŷ-uchaf	1839	RhPDegwm	291

Yn y cofnodion uchod gwelir *winllan* yn hytrach na'r ffurf gysefin *gwinllan*, gyda'r fannod o flaen yr eb.un. a barodd y tr. meddal wedi ei cholli. Defnyddir *gwinllan* yn aml yn Arfon yn yr ystyr o blanhigfa goed yn hytrach na phlanhigfa winwydd (gweler *Gwinllan* dan Gaeau Llanbeblig).

<i>Winllan goed</i> <b><i>gwinllan, coeden, llu. coed</i></b>	Tyddyn-seipar	1839	RhPDegwm	192
--	---------------	------	----------	-----

### Gwyllt

### Llanwnda

<i>Gwyllt</i>	Pistyll	1839	RhPDegwm	862-4
<i>Gwyllt</i>	Wernlas	1798-9	Vaynol	4059
<i>Gwyllt</i> <b><i>gwyllt</i></b>	Wernlas	1809	Vaynol	4062

Er mai fel ans.. yr ystyrir *gwyllt* fel arfer fe'i ceir hefyd fel eg. yn golygu tir yn ei gyflwr naturiol heb ei drin. Yr un yw ystyr *gwylltedd* isod. Ceir *Y Gwyllt* yn Llanfairfechan a Llanrwst (AMR) ac ym Mhorthmeirion. Cf. *Wilderness* yn Kiddington, Swydd Rydychen (EFND, 255).

<i>Gwyllt bach</i>	Wernlas	1798-9	Vaynol	4059
<i>Gwyllt bach</i> <b><i>gwyllt, bach</i></b>	Wernlas	1809	Vaynol	4062

<i>Gwyllt Issa</i> <b><i>gwyllt, , ans. isel, gradd eithaf isaf</i></b>	Wernlas	1809	Vaynol	4062
--	---------	------	--------	------

<i>Gwyllt mawr</i>	Wernlas	1798-9	Vaynol	4059
<i>Gwyllt Mawr</i> <b><i>gwyllt, mawr</i></b>	Wernlas	1809	Vaynol	4062

<i>Gwylldedd</i> <b><i>gwylltedd</i></b>	Hafoty	1839	RhPDegwm	798
---	--------	------	----------	-----

### Gwyndy

### Llanwnda

<i>Gwyndy mawr</i> <b><i>gwyn, tŷ, mawr</i></b>	Tŷ-mawr	1839	RhPDegwm	85
--	---------	------	----------	----

Cf. *Cefn gwyndy bach* uchod, hefyd yn *Nhŷ-mawr*. Mae'n anodd gweld yr ystyr ac eithrio fel enw annedd, ond ni welwyd cofnod o unrhyw anheddau o'r enw *Gwyndy-bach / mawr* yng nghyffiniau *Tŷ-mawr*.

<b>Had</b>	<b>Llanwnda</b>			
<i>Had Gae</i> <i>had, cae</i>	Wernlas	1798–9	Vaynol	4059

Gellir cael *hadle* a *hadfa* am leiniau o dir lle meithrinir hadau, felly mae *hadgae* yn hollol bosibl. Nodir y cae hwn fel *Cae hâd* yn 1809.

<b>Hafoty</b>	<b>Llanwnda</b>			
<i>Hafodty wern las</i> <i>hafoty, e.ll. Wern-las</i>	Hafoty	1839	RhPdegwm	852, 879–80

Gweler *Hafoty* dan Anheddau Llanwnda.

<b>Hirdir</b>	<b>Llanwnda</b>			
<i>yr hyr dyr</i>	Pentre-bach	1721	Ll&Brynodol	D1068–9
<i>yr hŷr-dir</i>	Pentre-bach	1721	Ll&Brynodol	D1071–2
<i>Yr hŷr-dir</i>	Pentre-bach	1722	Ll&Brynodol	D1073
<i>Herdir</i> <i>hir, dir</i>	Pentre-bach	1839	RhPdegwm	1873

Ceir *Hirdir* hefyd ym mhlwyf Llanfair-is-gaer.

<b>Lôn</b>	<b>Llanwnda</b>			
<i>Lôn las</i>	Cae-mawr	1798–9	Vaynol	4059
<i>Lôn las</i>	Cae-mawr	1809	Vaynol	4062
<i>Lon las</i> <i>lôn, glas</i>	Cae-mawr	1839	RhPdegwm	695

Llwybr gwelltog fyddai hwn; cf. *Ala-las* dan Anheddau Llanbeblig.

<b>Llain</b>	<b>Llanwnda</b>			
<i>Llain</i>	Black Lion	1839	RhPdegwm	345–6
<i>Llain</i>	Bodgarad	1839	RhPdegwm	1581
<i>Llain</i>	Cae-ysgubor	1839	RhPdegwm	1848
<i>Llain</i>	Cefn	1839	RhPdegwm	1177
<i>Llain</i>	Cil-haul	1839	RhPdegwm	1743
<i>Llain</i>	Hen-gastell	1839	RhPdegwm	1168
<i>Llain</i>	Lleiniau	1839	RhPdegwm	98
<i>Llain</i>	Pengwern	1839	RhPdegwm	217
<i>Llain</i>	Pistyll	1839	RhPdegwm	837
<i>Llain</i>	Tŷ-cnap	1839	RhPdegwm	658
<i>Llain</i>	Tyddyn-gwŷdd	1839	RhPdegwm	737
<i>Llain</i> <i>llain</i>	Tŷ-uchaf	1839	RhPdegwm	294
<i>Llain bach</i>	Rhedynog-felen	1757	Bangor	29397
<i>Llain bach</i>	Rhedynog-felen	1757	New Glynllifon	XD2 / 7424
<i>Llain Bach</i>	Rhedynog-felen	1757	New Glynllifon	XD2 / 7426

*llain, bach*

Gwelir yma eto'r duedd leol i beidio â threiglo *bach* ar ôl eb. un.

<i>Llain bellaf</i>	Pont Wyled	1839	RhPDegwm	521
<i>Llain bellaf</i>	Tŷ-cerrig	1839	RhPDegwm	297
<b><i>llain, ans. pell, gradd eithaf pellaaf</i></b>				
<i>Llain beudy coch</i>	Wernlas-ddu	1839	RhPDegwm	847a
<b><i>llain, beudy, coch</i></b>				
<i>Llain cefn y beudy</i>	Gwredog-uchaf	1798–9	Vaynol	4059
<i>Llain Cefn y beudy</i>	Gwredog-uchaf	1809	Vaynol	4062
<b><i>llain, cefn, y, beudy</i></b>				
<i>Llain coch house</i>	Pengwern	1839	RhPDegwm	216
<b><i>llain, coch, Saes. house</i></b>				
Mae hwn yn enw od gyda'i gyfuniad o Gym.a Saes.: efallai mai'r ystyr yw 'llain goch ger y tŷ' a bod llain goch arall wedi bodoli ar un adeg ar dir yr un annedd.				
<i>Llain dwfr</i>	Garth-y-glo	1839	RhPDegwm	1124
<b><i>llain, dŵr</i></b>				
<i>Llain dywod</i>	Penbryn Foryd	1839	RhPDegwm	177
<b><i>llain, tywod</i></b>				
<i>llayn fadog ap harry</i>	Bryn-beddau	1629	Baron Hill	3231
<b><i>llain, e.p. Madog ap Harry</i></b>				
Mae'n bosibl mai'r un gŵr oedd <i>Madog ap Harry</i> â'r <i>Madoc ap Harry ap Thomas ap David</i> o Lundain a oedd yn achwynydd mewn achos ynglŷn ag eiddo yn nhrefgordd Dinlle rhwng 1556 a 1558 ( <i>E. Ch. Pro.</i> , 23).				
<i>Llain fain</i>	Gwredog-bach	1839	RhPDegwm	1730a
<i>Llain fain</i>	Tyn-llan	1798–9	Vaynol	4059
<i>Llain fain</i>	Tyn-llan	1809	Vaynol	4062
<b><i>llain, main</i></b>				
<i>Llain ffynnon</i>	Wernlas	1798–9	Vaynol	4059
<i>Llain ffynnon</i>	Wernlas	1809	Vaynol	4062
<b><i>llain, ffynnon</i></b>				
<i>y llain gam</i>	?	1592	Baron Hill	3207
<i>y llain gam</i>	?	1644	Baron Hill	3233
<i>Llain gam</i>	Cilfechydd	1839	RhPDegwm	1811
<b><i>llain, cam</i></b>				
<i>Llain ganol</i>	Ceunant	1839	RhPDegwm	1676
<i>Llain ganol</i>	Tŷ-cerrig	1839	RhPDegwm	296
<b><i>llain, canol</i></b>				
<i>Llain glymmach</i>	Llwyn-bedw?	1727	Ll&Brynodol	D910–11
<i>Llain Glymmach</i>	Llwyn-bedw?	1734	Ll&Brynodol	D364–5
<b><i>llain, clymach?</i></b>				
Mae'n anodd esbonio'r ail elfen. Nid yw <i>GPC</i> yn nodi <i>clymach</i> . Tybed ai <i>clymau</i> , ffurf lu. <i>cwlwm</i> yn yr ystyr o rywbeth dyrys sydd yma, gyda'r terfyniad difriol <i>-ach</i> , fel yn 'pryfetach' a 'dynionach', i gyfleu llain anodd ei thrin a oedd yn llawn o ddrain a mieri?				
<i>Llain Gwyllt</i>	Wernlas	1798–9	Vaynol	4085

**llain, gwyllt**

Mae'r enw uchod yn edrych ac yn swnio'n ramadegol anghywir os mai'r ans. *gwyllt* sydd yma, gan y dylid fod wedi ei dreiglo'n feddal ar ôl yr eb. un. *llain*. Fodd bynnag, y colnod nesaf at yr uchod yn y llawysgrif yw *Gwyllt* (q.v.), sef darn o dir yn ei gyflwr naturiol heb ei drin, felly efallai mai *Llain* [y] *Gwyllt* yw'r ystyr yma.

<i>Llain hir</i>	Cae-mawr	1798-9	Vaynol	4059
<i>Llain hir</i>	Cae-mawr	1809	Vaynol	4062
<i>Llain hir</i>	Cae-mawr	1839	RhPDegwm	707
<i>Llain hir</i>	Gwredog-isaf	1798-9	Vaynol	4059
<i>Llain hir</i>	Gwredog-isaf	1809	Vaynol	4062
<i>Llain hir</i>	Gwredog-isaf	1839	RhPDegwm	725
<i>Llain hir</i>	Penrhos	1839	RhPDegwm	47
<i>Llain hir</i>	Wernlas	1798-9	Vaynol	4059
<i>Llain hir</i>	Wernlas	1809	Vaynol	4062
<i>Llain hir</i>	Wernlas-wen	1839	RhPDegwm	995

**llain, hir**

<i>Llain isaf</i>	Llwyn-bedw	1839	RhPDegwm	1846
-------------------	------------	------	----------	------

**llain, ans. isel, gradd eithaf isaf**

<i>Llain leen</i>	Tyddyn-seipar	1683	Bangor	17605
<i>Llain lin</i>	Tyddyn-seipar	1747	Bangor	17609
<i>Llain lin</i>	Tyddyn-seipar	1748/9	P. yr Aur F.Add.	2166

**llain, llin**

Mae'n debyg mai'r planhigyn *llin*, 'flax', a dyfir i wneud lliain o'i ffeibrau ac olew o'i hadau, sydd yn yr ail elfen. Cf. *Flax Piece* yn Swydd Derby a Hampshire (*EFND*, 79).

<i>Llain Lowry</i>	Glan'rafon	1839	RhPDegwm	53
--------------------	------------	------	----------	----

**llain, e.p. Lowri**

Ni wyddys pwy oedd *Lowri*.

<i>Llain llathen</i>	Tan-y-ffordd	1839	RhPDegwm	1852
----------------------	--------------	------	----------	------

**llain, llathen**

<i>Llain nesaf</i>	Tŷ-cerrig	1839	RhPDegwm	296a
--------------------	-----------	------	----------	------

**llain, ans. agos, gradd eithaf nesaf**

<i>Llain pen telyn</i>	Pistyll	1839	RhPDegwm	806
------------------------	---------	------	----------	-----

**llain, pen, telyn**

Mae'n debyg mai cyfeiriad at siâp y llain sydd yma. Gweler *Buarth y delyn* dan Gaeau Llanbeblig. Fodd bynnag, mae'n bosib mai cyfeiriad at ŵr penfoel sydd yma, gan fod 'pen telyn' yn llysenw a roir i ŵr sydd yn moeli ond yn ceisio celu'r ffaith drwy gribo'r ychydig gudynnau sydd yn weddill iddo ar draws y moelni fel tannau telyn.

<i>Llain pen y gaerwen</i>	Gaerwen	1839	RhPDegwm	1558
----------------------------	---------	------	----------	------

**llain, pen, e.ll. Pen-y-gaerwen**

Gweler *Pen-y-gaerwen* dan Anheddau Llanwnda.

<i>Llain Rhos Pengwern</i>	yn nhrefgordd Pengwern	1747	Bangor	17609
<i>Llain Rhos Pengwern</i>	yn nhrefgordd Pengwern	1751/2	Bangor	17610
<i>Llain Rhos Pengwern</i>	Tyn-rhos	1830	Rumsey Wms	554

**llain, rhos, e.ll. Pengwern**

<i>Llain Syper</i>	yn nhrefgordd Pengwern	1683	Bangor	17605
--------------------	------------------------	------	--------	-------

<i>Llain Syper</i> <b>llain, syper</b>	yn nhrefgordd Pengwern	1747	Bangor	17609
Am yr ail elfen gweler <i>Tyddyn-seipar</i> dan Anheddau Llanwnda.				
<i>Llain Thomas</i> <b>llain, e.p. Thomas</b>	Cefn	1839	RhPdegwm	1190
<i>Llain ty</i> <b>llain, tŷ</b>	Pistyll	1839	RhPdegwm	865
<i>Llain Vaynol</i> <b>llain, e.ll. Vaynol</b>	Mount Pleasant Inn	1839	RhPdegwm	410. 802
Thomas Assheton Smith, Y Faenol, Y Felinheli, oedd perchennog y dafarn uchod adeg llunio RhPdegwm 1839.				
<i>Llain wen</i>	Dinas	1798–9	Vaynol	4059
<i>Llain wen</i>	Dinas	1809	Vaynol	4062
<i>Llain wen</i> <b>llain, ans. gwyn, ben. gwen</b>	Pen-y-cae	1839	RhPdegwm	208
<i>Llain y Beudy bach</i>	Wernlas	1798–9	Vaynol	4059
<i>Llain y Beudy bach</i> <b>llain, y, beudy, bach</b>	Wernlas	1809	Vaynol	4062
<i>Llaine y Beidy Newydd</i>	?	1690	Ll&Brynodol	D895
<i>Llaine y Beidy Newydd</i>	?	1690	Ll&Brynodol	D896–7
<i>Llaine y Beidy Newydd</i>	?	1695	Ll&Brynodol	D899–900
<i>Llain y Beidy Newydd</i>	?	1727	Ll&Brynodol	D910–11
<i>Llain y Beidy Newydd</i> <b>llain, y, beudy, newydd</b>	?	1734	Ll&Brynodol	D364–5
<i>Llain y Cae Rhŷg</i>	Gaerwen / Pen-y-gaerwen	1798–9	Vaynol	4059
<i>Llain y Cae Rhŷg</i> <b>llain, y, cae, rhyg</b>	Gaerwen / Pen-y-gaerwen	1809	Vaynol	4062
<i>Llain y fonwent</i> <b>llain, y, mynwent</b>	Tyn-llan	1809	Vaynol	4062
<i>llain y gamdda</i>	?	1592	Baron Hill	3207
<i>llain y gamdda</i> <b>llain, y, camfa</b>	?	1644	Baron Hill	3233
<i>Camfa</i> , sef grisiau o bren neu gerrig i groesi wal neu wrych, sydd yn y drydedd elfen. <i>Camdda</i> yw'r ynganiad lleol.				
<i>Llain y lon</i> <b>llain, y, lôn</b>	Gadlys	1839	RhPdegwm	1120
<i>Llain y Saer</i>	Wernlas	1798–9	Vaynol	4059
<i>Llain y Saer</i>	Wernlas	1809	Vaynol	4062
<i>Llain Saer?</i> <b>llain, y, saer</b>	Hafoty	1839	RhPdegwm	788
<i>Llain y Werglodd</i>	Gaerwen	1839	RhPdegwm	1557
<i>Llain Werglodd</i> <b>llain, y, gweirglodd</b>	Pistyll	1839	RhPdegwm	866–7



<i>Llain rafon</i> <b><i>llain, yr, afon</i></b>	Bodgarad	1839	RhPdegwm	1591
<i>Llain rallt</i> <b><i>llain, yr, allt</i></b>	Bodgarad	1839	RhPdegwm	1590
<i>Llain r Odin</i>	Tyddyn-seipar	1683	Bangor	17605
<i>Llain yr Odyn</i>	Tyddyn-seipar	1747	Bangor	17609
<i>Llain yr odyn alias</i> <i>Cae y Wern</i> <b><i>llain, yr, odyn</i></b>	Tyddyn-seipar	1748/9	P. yr Aur F. Add.	2166
<i>Lleiniau</i>	Bodaden	1839	RhPdegwm	964-5
<i>Lleinia</i>	Cae'r-odyn	1798-9	Vaynol	4059
<i>Lleinia</i>	Cae'r-odyn	1809	Vaynol	4062
<i>Lleiniau</i>	Cae'r-odyn	1839	RhPdegwm	1376
<i>Lleiniau</i>	Cae-rhyg	1839	RhPdegwm	833
<i>Lleiniau</i>	Erw	1839	RhPdegwm	1641
<i>Lleiniau</i>	Foryd	1839	RhPdegwm	241, 241a, 242
<i>Lleiniau</i>	Hafoty	1839	RhPdegwm	847
<i>Lleiniau</i>	Tyddyn-y-berth	1798-9	Vaynol	4059
<i>Lleiniau</i>	Tyddyn-y-berth	1809	Vaynol	4062
<i>Lleinia</i>	Wernlas	1798-9	Vaynol	4059
<i>Lleinia</i>	Wernlas	1809	Vaynol	4062
<b><i>llain, llu, lleiniau</i></b>				
<i>Lleiniau gwynion</i> <b><i>llain, llu, lleiniau, ans. gwyn, llu, gwynion</i></b>	Pistyll	1839	RhPdegwm	807
<i>Lleiniau gwynion nesa</i>	Wernlas	1798-9	Vaynol	4059
<i>Lleinia gwynion nesa</i>	Wernlas	1809	Vaynol	4062
<b><i>llain, llu, lleiniau, ans. gwyn, llu, gwynion, ans. agos, gradd eithaf nesaf</i></b>				
<i>Lleiniau gwynion pella</i>	Wernlas	1798-9	Vaynol	4059
<i>Lleinia gwynion Pella</i>	Wernlas	1809	Vaynol	4062
<b><i>llain, llu, lleiniau, ans. gwyn, llu, gwynion, ans. pell, gradd eithaf pellaf</i></b>				
<i>fields called Tan y</i> <i>ffordd, otherwise</i> <i>Lleiniau fatheu</i>	?	1797	Rumsey Wms	288-9
<i>Llenia Mathew</i> <i>otherwise Tan y</i> <i>ffordd</i> <b><i>llain, llu, lleiniau, e.p. Mathew</i></b>	?	1826	Rumsey Wms	297
Ni wyddys ai'r <i>Tan-y-ffordd</i> yn Rhosgadfan (q.v.) sydd uchod ai peidio, ac ni wyddys ychwaith pwy oedd <i>Mathew</i> .				
<i>Lleinia Rygrass</i>	Cae'r-odyn	1798-9	Vaynol	4059
<i>Lleinia Rygrass</i>	Cae'r-odyn	1809	Vaynol	4062
<b><i>llain, llu, lleiniau, Saes. rye-grass</i></b>				
Tyfir rhygwellt, 'rye-grass', fel porfa a phorthiant i anifeiliaid.				

<b>Llathen</b>	<b>Llanwnda</b>			
<i>Llain llathen</i> <b>llain, llathen</b>	Tan-y-ffordd	1839	RhPDdegwm	1852
<i>Llain tair llathen</i> <i>Llain 3 Llath"</i> <i>Llain 3 Llath"</i> <b>llain, tair, llathen</b>	Glanrhyd Tyn-llan Tyn-llan	1837 1798-9 1809	Rumsey Wms Vaynol Vaynol	42 4059 4062
<i>Llathan Lewis</i> <i>Llatham Lewis</i> <i>Llathen Lewis</i> <b>llathen, e.p. Lewis</b>	Gaerwen / Pen-y-gaerwen Gaerwen / Pen-y-gaerwen Gaerwen	1798-9 1809 1839	Vaynol Vaynol RhPDdegwm	4059 4062 811
<b>Lleudir</b>	<b>Llanwnda</b>			
<i>Lleu dir</i> <b>lleudir</b>	Cae'r-odyn	1839	RhPDdegwm	1410
Ystyr yr enw hwn yw tir agored, di-goed. Ceir sawl enghraifft ohono rhwng y 12g-14g, a cheir <i>Tyddyn Lleudir</i> ger Harlech ( <i>GPC</i> ) <sup>1</sup> .				
<b>Lloc</b>	<b>Llanwnda</b>			
<i>Llog</i> <i>Llock</i> <b>lloc</b>	Trosgol Tŷ-mawr	1839 1839	RhPDdegwm RhPDdegwm	2021a 125
Benth. o'r Saes. Can. <i>loc</i> = 'corlan'.				
<i>Lloc bach</i> <b>lloc, bach</b>	Maen-gwyn	1839	RhPDdegwm	1153
<i>Llock y Dwr</i> <b>lloc, y, dŵr</b>	Drws-y-ddeugoed	1840	C. in W.R.	B/DL/375-82
<b>Llo</b>	<b>Llanwnda</b>			
<i>Lloiau?</i> <b>llo, llu, lloiau</b>	Cae'r-odyn	1839	RhPDdegwm	1367
Nid yw'r cofnod yn glir iawn: mae'n bosib mai cae lle cedwid y lloiau oedd hwn.				
<b>Llwyn</b>	<b>Llanwnda</b>			
<i>Y Llwyn coed</i> <i>y Llwyn Coed</i> <i>y Llwyn Coed</i> <b>y, llwyn, coeden, llu, coed</b>	yn nhrefgordd Pengwern yn nhrefgordd Pengwern yn nhrefgordd Pengwern	1747 1751/2 1830	Bangor Bangor Rumsey Wms	17609 17610 554
<i>Llwyn y gwenyn</i> <i>Llwyn y gwenyn</i> <i>Llwyn gwenyn</i> <i>Llwyn gwenyn</i>	Cae-mawr Cae-mawr Cae-mawr Plas-Llanwnda	1798-9 1809 1839 1839	Vaynol Vaynol RhPDdegwm RhPDdegwm	4059 4062 703 569

<sup>1</sup> Gweler trafodaeth o'r elfen hon gan yr Athro J.E. Caerwyn Williams yn *BBCS*, XXI, (Tach. 1965), 224-6.

**llwyn, gwenynen, llu. gwenyn**

Mae'n debyg mai llwyni a oedd yn denu'r gwenyn oedd y rhain. neu rai â nyth gwenyn gwyllt ynddynt.

<b>Maen</b>	<b>Llanwnda</b>			
<i>feinhir</i>	Dinas	1798–9	Vaynol	4059
<i>Fienhir</i>	Dinas	1809	Vaynol	4062
<i>Maen hîr</i>	Tan-y-gelynnen	1839	RhPdegwm	1391
<b>maen, hir</b>				

<b>Maes</b>	<b>Llanwnda</b>			
<i>Maes Cardiau</i>	Planwydd	1839	RhPdegwm	2060
<b>maes, card, llu. cardiau</b>				

Mae'n debyg mai *card* yn yr ystyr o grib neu frws caled a ddefnyddid i drin gwlân. 'wool-card', sydd yma.

<i>Maes talwrn yr arch</i>	yn nhrefgordd Dinlle	1587	Nannau	1569
<b>maes, talwrn, yr, arch</b>				

Ym Modaden yr oedd y cae hwn. Gweler nodyn dan *Talwrn* isod.

<b>Marchog</b>	<b>Llanwnda</b>			
<i>Marchog</i>	Cae-mawr	1839	RhPdegwm	684
<b>marchog</b>				

Mae'n anodd esbonio'r enw ac eithrio yn yr ystyr arferol o ŵr sydd yn marchogaeth ar geffyl, neu farwnig, ond mae'n digwydd ar ei ben ei hun mewn e.lle hefyd yng Nghaergybi (AMR), ac yn aml fel un elfen o e.lle. fel yn *Felin Farchog, Tir y Marchog* (PNPem. 795).

<i>Marchog isaf</i>	Cae-mawr	1839	RhPdegwm	683
<b>marchog, ans. isel, gradd eithaf isaf</b>				

<b>Morfa</b>	<b>Llanwnda</b>			
<i>Morfa</i>	Dinas	1798–9	Vaynol	4059
<i>Morfa</i>	Dinas	1809	Vaynol	4062
<b>morfa</b>				

<b>Mount</b>	<b>Llanwnda</b>			
<i>Mount</i>	Dinas	1839	RhPdegwm	313, 359
<b>Saes. mount</b>				

Cyfeirid yn lleol at dafarn *Mount Pleasant* fel *Y Mount*.

<b>Nant</b>	<b>Llanwnda</b>			
<i>Nant</i>	Bodgarad	1839	RhPdegwm	1593
<i>Nant</i>	Plas Llanwnda	1839	RhPdegwm	441
<i>Nant</i>	Rhedynog-felen-fach	1839	RhPdegwm	443, 446
<b>nant</b>				
<i>Nant cefnydd</i>	Brynrhedyn	1839	RhPdegwm	600–01
<b>nant, cefn, llu. cefnydd</b>				

<i>Nant ganol</i> <b><i>nant, canol</i></b>	Rhedynog-felen-fawr	1839	RhPdegwm	590
<i>Nant isaf</i> <b><i>nant, ans. isel, gradd eithaf isaf</i></b>	Hafoty-newydd	1839	RhPdegwm	1422
<i>Nant pellaf</i> <b><i>nant, ans. pell, gradd eithaf pellaf</i></b>	Rhedynog-felen-fawr	1839	RhPdegwm	599

Heddiw ystyrir *nant* yn eb.: 'Nant y mynydd groyw, loyw'. meddai Ceiriog, ond gynt, fel uchod, yr oedd yn eg. fel ag a welir yn yr e.lle *Nant mawr* > *Nantmor* > *Nanmor* ar lafar.

<i>Nant tal y llyn</i>	Trosgol?	1735	Ll&Brynodol	D366
<i>Nant tal y llyn</i>	Trosgol?	1748	Ll&Brynodol	D401

***nant, tal, y, llyn***

<i>Nant y Brasceirch</i>	Cae-mawr	1839	RhPdegwm	700
<i>Nant y brâs geirch</i>	Gwredog-uchaf	1798–9	Vaynol	4059
<i>Nant y brâs geirch</i>	Gwredog-uchaf	1809	Vaynol	4062
<i>Nant brâs geirch</i>	Tan-yr-allt	1839	RhPdegwm	1658

***nant, y, brasgeirch***

Ceirch bras neu rawn gorau a ddefnyddid i borthi ceffylau yw *brasgeirch*.

## **Ochr Llanwnda**

<i>Ochr goed</i> <b><i>ochr, coeden, llu. coed</i></b>	Ceunant	1839	RhPdegwm	1781
---	---------	------	----------	------

Llethr bryn yw ystyr *ochr* fel rheol mewn e.lle.

<i>Ochr fawr</i> <b><i>ochr, mawr</i></b>	Ceunant	1839	RhPdegwm	1793, 1795–6
--	---------	------	----------	--------------

## **Pant Llanwnda**

<i>Pant y gorlan</i> <b><i>pant, y, corlan</i></b>	Hafod-y-wern	1839	RhPdegwm	1942
---	--------------	------	----------	------

## **Parc Llanwnda**

<i>Parc</i>	Bodaden	1839	RhPdegwm	1069
<i>Parc</i>	Cae-ysgubor	1839	RhPdegwm	1806–7
<i>Parc</i>	Hafod-y-wern	1839	RhPdegwm	1988
<i>Parc</i>	Mount Pleasant Inn	1839	RhPdegwm	793, 803, 1184, 1101, 1567–71, 1576
<i>Parc</i>	Rhedynog-felen-fach	1839	RhPdegwm	554
<i>Parc</i>	Trosgol	1839	RhPdegwm	2023
<i>Parc</i>	Tyddyn-bach	1839	RhPdegwm	7, 9
<i>Parc</i>	Warring	1839	RhPdegwm	4, 8a, 11–12

***parc***

Am ymdriniaeth o'r enw gweler *Parc* dan Caeau Llanbeblig.

<i>Parc bach</i>	Dinas	1798–9	Vaynol	4059
<i>Park bach</i>	Dinas	1809	Vaynol	4062
<i>Parc bach</i>	Dinas	1839	RhPdegwm	312
<i>Parc bach</i>	Tyddyn-Sir Hugh	1839	RhPdegwm	1901

*parc, bach*

<b>Pen</b>	<b>Llanwnda</b>			
<i>Pencae mawr</i> <i>pen, cae, mawr</i>	Gadlys	1839	RhPDegwm	1106
<i>Pendrosgol</i> <i>pen, e.ll. Trosgol</i>	Trosgol	1839	RhPDegwm	2028, 2035
<i>Penmount</i> <i>pen, e.ll. Mount [Pleasant]</i>	Dinas	1839	RhPDegwm	360
<i>Pen y bryn bâch</i> <i>pen, y, bryn, bach</i>	Tŷ-hen	1803	Henblas B	1345
<i>Pen y bryn Rhydd</i> <i>Pen y bryn Rhydd</i> <i>pen, y, bryn, rhydd</i>	Gwredog-isaf Gwredog-isaf	1798-9 1809	Vaynol Vaynol	4059 4062

**Penrhyn**                      **Llanwnda**

<i>Penrhyn bach</i> <i>penrhyn</i>	Gwredog-bach	1839	RhPDegwm	711
---------------------------------------	--------------	------	----------	-----

**Perllan**                      **Llanwnda**

<i>Berllan</i>	Bodaden	1839	RhPDegwm	971
<i>Berllan</i>	Pengwern	1839	RhPDegwm	219
<i>Berllan</i> <i>perllan</i>	Plas-yn-bont	1839	RhPDegwm	329-30

Yr eb. un. *perllan* sydd yma gyda'r fannod o'i flaen a achosodd y tr. meddal wedi ei cholli.

<i>Y Perllenydd</i>	Rhedynog-felen	1757	Bangor	29397
<i>Y Perllefydd</i>	Rhedynog-felen	1757	NewGlynllifon	XD2 / 7424
<i>Y perllenydd</i>	Rhedynog-felen	1781	Bangor	29398
<i>Cae Pelenydd</i>	?	1812	Rumsey Wms	861
<i>Cae pelenydd</i>	?	1819	Rumsey Wms	925
<i>Y perllenydd</i>	Rhedynog-felen	1838	Bangor	29403

**y, perllan, llu. perllennydd**

Nid oes sicrwydd ai'r un lle sydd yng nghofnodion Casgliad Rumsey Williams ag yn y lleill, ond mae'n anodd iawn esbonio'r ffurf *pelenydd* fel arall. Mae'n rhyfedd fod ffurf un. *perllan* mor gyfarwydd a'r llu. yn amlwg mor ddiethr. Gwelir ymgais i'w esbonio yng nghofnod NewGlynllifon 1757 fel 'per llefydd'.

**Perth**                      **Llanwnda**

<i>y Berth Cae</i>	Pentre-bach	1721	Ll&Brynodol	D1068-9
<i>y Berth</i>	Pentre-bach	1721	Ll&Brynodol	D1071-2
<i>y Berth</i>	Pentre-bach	1721	NewGlynllifon	XD2 / 7460
<i>Y-Berth-Cae</i>	Pentre-bach	1722	Ll&Brynodol	D1073

**perthcae**

Mae *GPC* yn nodi *perthgae* yn yr ystyr o wrych a blennir â phlanhigion byw. 'quickset hedge', ond y cyfeiriad cynharaf, yn wir yr unig gyfeiriad, a nodir ohono yw *P* 1803. Ac eto mae'n debyg mai *perthgae* sydd yma, a hynny mor gynnar â 1721.

<i>Berth ty du</i> <b><i>perth, e.ll. Tŷ-du</i></b> Gweler <i>Tŷ-du</i> dan Anheddau Llanwnda.	Cae-mawr	1839	RhPDegwm	696
--	----------	------	----------	-----

**Pigsofl**                      **Llanwnda**

<i>Pigsofl</i>	Gwredog-isaf	1798-9	Vaynol	4059
<i>Pigsofl</i>	Gwredog-isaf	1809	Vaynol	4062

***pigsofl***  
Y cnwd cyntaf o wair ieuanc a fedir ar ôl hadu cae yw'r *pigsofl* / *picsofl*.

**Ponc**                              **Llanwnda**

<i>Bonc bach</i> <b><i>ponc, bach</i></b>	Tŷ-coch	1839	RhPDegwm	2017
--	---------	------	----------	------

Yr eb. un. *ponc* sydd yn yr elfen gyntaf gyda'r fannod o'i flaen a achosodd y tr. meddal wedi ei cholli. Sylwer yma eto yn yr ail elfen y duedd i beidio â threiglo *bach* > *fach* ar ôl eb. un. sydd yn gyffredin iawn yn nhafodiaith Gwynedd (*TC*, 56; *GG*, 199).

<i>Bonc flaen drws</i> <b><i>ponc, [o] flaen, drws</i></b>	Llwyn-bedw	1839	RhPDegwm	1845
---	------------	------	----------	------

<i>Bonc isaf</i> <b><i>ponc, ans. isel, gradd eithaf isaf</i></b>	Tyddyn-bach	1839	RhPDegwm	1875
--	-------------	------	----------	------

<i>Ponciau</i> <b><i>ponc, llu. ponciau</i></b>	Ceunant	1839	RhPDegwm	1778
--	---------	------	----------	------

**Pont**                              **Llanwnda**

<i>Bont ynys geubren</i> <b><i>pont, ynys, ceubren</i></b>	Rhedynog-felen-fach	1839	RhPDegwm	496
---	---------------------	------	----------	-----

Gweler a chymharer *Werglodd ynys geubren* uchod, y ddau le ar dir Rhedynog-felen-fach. Nid oes angen y tr. meddal ar ddechrau'r elfen gyntaf yn y gystrawen hon gan na chollwyd y fannod o'i blaen.

**Porfa**                              **Llanwnda**

<i>Porfa</i>	Cae-ciprys	1839	RhPDegwm	1094
<i>Porfa</i>	Gwredog-isaf	1839	RhPDegwm	724

***porfa***

**Pwll**                              **Llanwnda**

<i>Pwll y glynen</i> <b><i>pwll, y, celynnen</i></b>	Pentre-bach	1839	RhPDegwm	1895
---	-------------	------	----------	------

**Pwn?**                              **Llanwnda**

<i>Pwn?</i> <b><i>pwn?</i></b>	Cilfechydd	1839	RhPDegwm	1812
-----------------------------------	------------	------	----------	------

Yma eto ceir y broblem o fethu â darllen yr unig gofnod a welwyd o enw arbennig. Mae'n sier yn edrych fel *pwn*, ac mae'r elfen hon yn digwydd yn ei ffurf luosog mewn e.lle yn

*Rhydypynnau* yn Llanfihangel Glyn Myfyr (*GPC*). Yr ystyr arferol yw 'llwyth, baich neu bentwr', a gall gyfeirio at fesur arbennig, sef hobaid a hanner.

**Rhan**                      **Llanwnda**

*Rhan agosai Benybryn*      Erw                                      1839                      RhPDegwm                      1621  
***rhan***, ans. ***agos***, *gradd eithaf agosaf, i, e.ll. Pen-y-bryn*  
 Fferm i'r de o *Erw* yw *Pen-y-bryn* (q.v.).

*Rhan agosai waredog*      Erw                                      1839                      RhPDegwm                      1634  
***rhan***, ans. ***agos***, *gradd eithaf agosaf, i, e.ll. Gwredog*  
 Fferm i'r gogledd o *Erw* yw *Gwredog-uchaf* (q.v.).

**Rhos**                      **Llanwnda**

*Rhos bach*                      Dinas                                      1839                      RhPDegwm                      379  
*Rhos bach*                      Tŷ-uchaf                                      1839                      RhPDegwm                      287  
***rhos, bach***  
 Sylwer yma eto yn yr ail elfen y duedd leol i beidio â threiglo *bach* > *fach* ar ôl *cb. un*.

*Rhos fawr*                      Dinas                                      1839                      RhPDegwm                      380  
***rhos, mawr***

*Roos goch*                      yn nhrefgordd Bodellog                      1629                      Bangor                      2064  
***rhos, coch***

*Rhos Gawen*                      Plas-Llanwnda                                      1839                      RhPDegwm                      207  
***rhos, ysgawen***  
 Yma yn RhPDegwm nodir *Rhos Gawen* fel cae ar dir Plas-Llanwnda, ond yn ddiweddarach gwelir *Rhos-ysgawen* yn enw ar annedd rhwng y Plas a lôn Llanfaglan (Map OS 1919, Caerns. XV S.E; CCPost. 2000 (Saron)). Y goeden *ysgawen*, 'elder', sydd yn yr ail elfen. Yng nghofnod RhPDegwm llyncwyd sillaf gyntaf *ysgawen* a'i chymathu â'r *s* ar ddiwedd *rhos*.

*Rhosydd*                      Dinas                                      1798–9                      Vaynol                      4059  
*Rhosydd*                      Dinas                                      1809                      Vaynol                      4062  
***rhos, llu. rhosydd***

**Sling**                      **Llanwnda**

*merched Ienna ap mad* (Llr); *Dôl y bont* (Llb); *Dôl y felin* (Llb); *Dôl y clochydd* (Llb); *Doly pandy* (Llw); *Ddôl* (Llb, Lld, Llr, Llw); *Ddôl bach* (Llb, Lld, Llf, Llr, Llw); *Ddôl bella* (Llb); *Ddôl ddu* (Lld); *Ddôl eirin* (Llb); *Ddol Farl* (Llf); *Ddôl fawr* (Lld, Llf, Llw); *Ddôl ganol* (Llb); *Ddol garegog* (Llf); *Ddôl Gynrig* (Llb); *Ddôl haidd* (Lld); *Ddôl hir* (Lld); *Ddôl isa* (Llb, Llw); *Ddôl ucha* (Llb, Lld, Llw); *Ddolwen* (Llw); *Y Ddol tan y Tu* (Lld); *Dol / y / krudd* (Llw); *Dol y Cryw* (Llw); *Dol / y / felyn issaph* (Llw); *Dol / y / felyn uchaph* (Llw); *Dol / y / wennol* (Llw); *Dolydd Glan y môr* (Llw); *Gwerglodd y ddôl* (Llw)

**dôr** *eb.* 'door'; caead pren sydd yn cau ac yn agor ar adwy; cf. Cern. *dor*; Hen Lyd. *door*; Saes. *door*; Garth-dorwen (Lld) *Cae ddor goch* (Llb); *Dorwen* (Lld)

**drain / dreinos** *e.llu.*; un.: **draenen**. 'thorns, brambles, briars'; micri, drysi: **dreinos** = ffurf lu.fachigol; *amr.* **dreinios** 'thorny mass'; mân ddreiniach; cf. Hen Gern. *drain*; Llyd. *dréan*; Dreinias (Llf / Llw) *Bryn ddraenen* (Lld); *Cae Draenias* (Llf); *Cae ddraenen* (Llr); *Cae'r drain* (Llb, Llw); *Ddreinias* (Llw)

**draw** *adf.* 'yonder'; acw; cf. Llyd. *treu*; Tŷ-draw (Llr) *Cae draw* (Llw)

**dreiniog** *ans.* 'thorny, full of brambles'; llawn drain; *Llain ddreiniog* (Llr)

**drwg** *ans.* 'bad, poor'; heb fod yn dda, salw. gwael; cf. Cern. *drog*; Llyd. *drouk*, *droug*; Gwydd. *droch-*, *drog-* < Celt. *druko* *Cae drwg* (Llw)

**drws** *eg.* 'gap, mountain pass, estuary; entrance, door'; bwlch, adwy, aber; porth, mynedfa; Drws-y-coed (Lld); Ddrws-y-ddeugoed (Llr) *Cae Drws Tŷ dû* (Llw); *Cae drws y beudy* (Lld, Llr, Llw); *Cae drws y cwt* (Lld); *Cae drws y sgubor* (Lld, Llf, Llr, Llw); *Cae'r drws y tŷ* (Llw); *Cae o flaen drws* (Llb, Lld, Llf, Llr, Llw); *Cae oflaen drws bryn clochydd* (Llr); *Cae oflaen drws Dolellog* (Llw); *Cae o flaen drws tŷ* (Lld); *Cae oflaen drws ty du* (Llw); *Cae oflaen drws y beudy* (Llr, Llw); *Cae'r drws* (Llb, Lld, Llw); *Cae tan drws* (Llb, Llr, Llw); *Cae'n drws* (Llr); *Cae yn Drws* (Llw); *Cae yn y drws* (Lld); *Clwt o flaen drws* (Lld, Llw); *Gwerglodd Drws y Tŷ* (Llb); *y Bvarth yn drws* (Llw)

**drygwr** *eg.* 'villain, scoundrel; the Devil'; cnaf, dihiryn; y Diafol; Braich-y-trigwr (Lld)

**dryll** *eg.*; llw. **drylliau**; 'fragment, small piece of land'; darn toredig, darn bychan o dir; *Cae dryll Nicholas* (Llr); *Cae-y-Dryll-rhedyn* (Llw); *drull y mur llwyd* (Llw); *Dryll* (Lld, Llr); *Dryll gwyn* (Llb); *Dryll Maen Broig?* (Llf); *Y Drill Nesa ir afon* (Lld); *Dryll y clawdd / Cloddia* (Lld); *Dryll y frân* (Llw); *Dryll y ffynnon* (Lld); *Dryll y Gwystl* (Llr); *Dryll y Rhedyn* (Lld); *Dryll y tref* (Lld); *Dryllie Gwaedlyd* (Lld); *Dryll y Cleddf*

- (Llw); *Drylliau gwynion* (Llw); *Drylliau uchaf* (Llw)
- dryw** *eg.b.* ‘wren’; un o’r adar bach lleiaf eu maint:  
*Egal ynys dryw* (Llr); *Ynys dryw haidd* (Llr)
- du** *ans.*; ffurf lu. **duon** ‘black’; tywyll; cf. Cern. Can. *du*; Llyd. *du*; Hen Wydd. *du*:  
Bryn-du (Lld); Cae-tŷ-du (Lld); Dôl-y-llyn-du (Llb); Eithin-duon (Llr); Rhos-ddu (Llr); Tŷ-du (Llw); Tyddyn-du (Llb); Wernddu (Llb); Wern-las-ddu (Llw)  
*Cae du* (Lld, Llw); *Cae ty du* (Lld); *Cae ty du gorlan* (Lld); *Cae ty du Tyfod* (Lld); *Cae wern ddu* (Llb); *Cefn du* (Llr); *Ddol ddu* (Lld); *Ffridd ddu* (Llb, Llw); *Pencan berth ddu* (Llb); *Werglodd ddu* (Lld, Llw); *Werglodd ddu uchaf* (Llw); *Wern ddu* (Llb)
- dwn** *ans.*; amr. **dyfn**; ffurf fen. **dofn**; ‘deep’: isel iawn, heb fod yn fas; cf. Cern. *down*; Hen Wydd. *domain*; < Bryth. \**dumno-* < Celt. \**dubno-*:  
*y weyrglodd ddofen* (Llw)
- dŵr** *eg.* ‘water’; gwlybwr; Cern. Can. *dour*, *dowr*; Llyd. *dour*:  
Cae-tor-y-dŵr (Lld); Pen-dŵr-oer (Llb); Sarn-dŵr-garw (Llb); Tyddyn-dŵr-tonnau (Llb)  
*Buarth Dŵr* (Llb, Lld, Llw); *Buarth dwr ucha* (Lld); *Cae dwfr* (Lld, Llw); *Cae’rdwroer* (Lld); *Cae tros y dwfr* (Lld); *Cefn dwr oer* (Llb); *Dwfr* (Lld); *Gors dwfr* (Lld); *Llock y dwr* (Llr); *Werglodd ddwr* (Llb)
- dyffryn** *eg.* ‘valley’; pantle hir rhwng mynyddoedd neu fryniau; < *dwfr+hynt*:  
Dyffryn-Twrog (Lld)  
*Cae’r Dyffryn* (Llf)
- dyn** *eg.b.* ‘man, human’; bod dynol gwryw, un o’r hil ddynol; cf. Cern. *den*; Llyd. *den*; Gwydd. *duine*:  
*Cae dyn tew* (Llb)
- dyniewyd** *e.llu*; amr. **dyn(i)ewaid**, **dynewyd**, **dynawaid**; un.: **dyniawed**, **dynawed**, **dyniewed**; ‘yearlings, young bullocks’: bustych:  
*Cae’r Dynewid / Diniewid* (Lld)
- ebol** *eg.*; llu. **ebolion**: ‘colt, foal’: ceffyl ieuanc; cf. Hen Gern. *ebol*; Llyd. *ebeul* < Bryth. \**epālo-s*:  
*Bryn ebolion* (Lld); *Buarth yr ebol* (Llw); *Cae’r ebol* (Lld, Llw); *Pant’r Ebolion* (Lld)
- efail** v. **gefail**
- egel** *eb.* ‘sowbread’: llysiuyn o rywogaeth y *Cyclamen*; bara’r hwch; man lle tyf y planhigyn hwn:  
*Yr Egel* (Llb, Lld, Llr, Llw); *Egal ynys dryw* (Llr); *Gwern’r Egel* (Lld); *Regal Uchaf* (Llr); *Yr hecal isaf* (Llw)
- eglwys** *eb.* ‘church’: addoldy’r Eglwys Esgobol neu Gatholig; < Llad. Diw. *ec(c)lesia*; cf. Cern. *eglos*; Llyd. Diw. *iliz*; Hen Wydd. *eclais*:  
*Cae’r-eglwys* (Llb a Lld); *Llain-yr-eglwys* (Lld)  
*Cae’r eglwys* (Llb, Llf)

- egras** *eg.* 'one-year grassland, first year ley'; porfa neu dir glas blwydd oed; benth. o'r Saes. tafodieithol *eegrass*= 'aftermath' neu *ryegrass*:  
*Cae egras (Llb)*
- ehedydd** *eg.*; amr. **hedydd**; 'skylark'; aderyn a chanddo gân swynol sydd yn nythu ar weundir; cf. Cern. Can. *awhesydd*; Llyd. Diw. *alc'houeder*:  
Bron /Bryn'hedydd (Lld)
- eiddeu** *eg.* 'ivy'; planhigyn bytholwyrdd dringol, *Hedera helix*; cf. Cern. *idhio*; Llyd. *ilio*:  
Tŷ-eiddeu (Llf)  
*Cae eithew (Llw)*
- eirin** *e.llu.*; un: **eirinen**; 'plums'; ffrwythau bychain melys; cf. Llyd. Can. *irin, irinenn*; Gwydd. *áirne*:  
*Cae'r erin? (Llr); Ddol eirin (Llb)*
- eisingrug** *eb.* 'chaff heap, winnowing bank'; tomen o eisin a geid gerllaw melin lle nithid yr eisin oddi wrth y grawn; < eisin + crug  
*Cae eisingrug (Llr)*
- eithin** *e.llu.* neu *etf*; 'gorse, furze'; llwyn bytholwyrdd a chanddo flodau melyn a dail pigog; cf. Cern. Can. *eithin*; Hen Lyd. *ethin*:  
Bryneithin (Llb); Cae-eithin (Llf); Cefn-eithin (Lld); Eithin-duon (Llr); Pen-das-eithin (Llb)  
*Allt eithin (Llb, Llf, Llr); Bongc eithin (Llr); Bryn eithin (Llb, Lld, Llr, Llw); Bryn eithin isaf (Llw); Bryn eithin uchaf (Llw); buarth kae /r/eythyn (Llw); Cae das eithin (Llb); Cae eithin (Llb, Lld, Llf, Llr, Llw); Cae eithin bach (Llb, Lld, Llr); Cae eithin canol (Llb); Cae eithin defaid (Llr); Cae eithin Maes ty du (Llr); Cae eithin mân (Llb, Lld); Cae eithin mawr (Llb, Lld, Llr); Cae eithin nesaf (Llb); Cae eithin pellaf (Llb); Cae'r cefn Eithin (Lld); kae / r / eythyn issaph (Llw); kae / r / eythyn uchaf (Llw); Cae'r ynys eithin (Llr); Cae eithin uchaf (Llb, Llw); Caeau Eithin (Llr); Cefn gwyn Eithin (Llw); Clwt Eithin (Lld); Coed Ynys Eithin (Lld); Eithin Mawr (Lld); Gors eithin (Llb); Gors eithin mân (Llb); Llain Allt Eithin (Llf); Piga Eithin (Lld); Ponc Eithin (Lld); Poncen Eithin (Lld, Llr); Rhos eithin (Llr); Werglodd cae eithin (Llr)*
- eithinog** *ans.* 'full of gorse'; llawn eithin:  
*Buarth Eithinog (Llb); Cae eithinog (Llw)*
- elusendy** *eg.* 'almshouse'; sefydliad ar gyfer tlodion neu rai methiedig a gynhelir trwy elusen; < *elusen*+ *tŷ*:  
*Cae'r Elusendy (Lld)*
- erw** *eb.* 'Welsh land measure' = 'English statute acre'; acer; cf. Cern. Can. *erw*; Llyd. Diw. *ero*:  
Cae-erw-Wian (Llr); Erw-gein (Llr); Erw-Gynrig (Llb); Erw-Hywel (Llr); Erw-pwll-y-glo (Llr); Erwystyffylau (Llw)  
*Cae Erw fawr (Lld); Caû-Erw (Llb); Erw bant (Llw); Erow dd' (Llr); erow vawr (Llr); Erw garnedd (Llw); Erw goch (Llw); Erw goodach? (Llb); Erw hir (Llw); Erow leder (Llr); Erow lln' (Llr); Erow'r Domen (Llw); Erow yr Scawen (Llw); Erow Trahayam (Llr); Erw wen (Llb, Lld); Erw wen isa (Llb); Erw weon (Llr); Erwy Wrach Lwyd*

- (Llb); *Erow y Castell (Llb)*; *Erow y palmer (Llb)*; *Erw yr ynad (Llr)*; *Werglodd Erw (Lld)*; *Yr Erw (Llw)*
- eryr** *eg. 'eagle'; aderyn mawr rheibus o deulu'r gweilch; cf. Hen Gern. er; Llyd. Diw. er; Hen Wydd. irar/ilar; Bryn-yr-eryr (Llr) Bryn Eryr (Llr)*
- esgob** *eg. 'bishop'; clericwr sydd yn bennaeth esgobaeth, prelad ; cf. Cern. escop; Llyd. eskop; benth. o'r Llad. episcopus; Caeau'r Esgob (Llf)*
- ewythr** *eg. 'uncle'; brawd i dad neu daid, neu frawd i fam neu nain; cf. Hen Gern. eutor; Llyd. eontr < Bryth. \*auintro- neu \*aumentro-; yr un gwraidd a welir yn y Llad. avunculus; Cae f'ewyrth Hugh (Llr)*
- ficwr** *eg. amr. ficar; 'vicar'; offeiriad â gofal plwyf; benth. o'r Saes. Can. vicker, viker; Cae Ficar (Llw)*
- finegr** *eg. 'vinegar'; hylif sur a gynhyrchir trwy weithio gwin, cwrw, seidr &c; < Saes. vinegar; Cae finigr (Llw)*
- foty** *v. hafoty*
- freeholder** *e. Saes. 'one who possesses a freehold'; rhydd-ddeiliad; Freeholder (Llf)*
- fferam** *eb.; amr. fferm, ffarm; 'farm'; tir ac adeiladau ym meddiant amaethwr, tyddyn; benth. o'r Saes. Can. ferm(e); Blaen-y-fferam (Lld) Bryn fferam (Lld)*
- ffidil** *eb.; amr. ffidil; 'fiddle, violin'; offeryn cerdd llinynnol, feiolin; benth. o'r Saes. fiddle; Bryn ffidil (Lld)*
- ffolt** *eg.b; amr. ffold; 'fold, pen'; ffald, corlan; benth. o'r Saes. fold; Werglodd ffolt (Llb)*
- ffordd** *eb. 'road, way, path'; lôn, tramwyfa; benth. o'r Hen Saes. ford; cf. Hen Gern. ford; Bwlch-y-ffordd (Lld); Minffordd (Llw); Penfforddfangor (Llb); Penfforddfelen (Lld); Tan-y-ffordd (Llb, Lld, Llr, Llw); Tu-ucha'r-ffordd (Llb) Buarth tan y ffordd (Lld, Llw); Bwlch y Ffordd (Lld); Cae ffordd (Lld, Llw); Cae ffordd haiarn (Lld); Cae nesar ffordd (Llb, Llw); Cae tan ffordd (Llw); Cae tros y ffordd (Llb); Cae tu isar ffordd haiarn (Llw); Cae wrth y ffordd (Llw); Cefn mury ffordd (Llb); Ffordd (Lld); Rhos y ffordd (Llb); Werglodd ffordd (Llw); Werglodd tan y ffordd (Llr)*
- ffos** *eb. 'ditch, dike'; sianel gul, cwter; cf. Llyd. Can. foz = bedd; Cern. fôs; benth. o'r Llad. fossa;*

*Buarth Fos y Cawell (Llf); Buarth rhwng y ddwyffos (Lld); Buarth twnti i'r ffos (Llb); Kae / r / Ffos (Llw); Cae rhwng y ddwyffos (Lld); Tyrhwngyddwyffos (Lld);*

**ffowndri** *eb. 'foundry'; gweithdy lle y toddir ac y bwrir metel; benth. o'r Saes. foundry;*  
*Ffowndri Morfa (Llb)*

**ffridd** *eb. 'moorland, rough mountain pasture': gwaun, rhos; benth. o'r Saes. Can. frith;*  
*Cae'r-ffridd (Lld); Pen-y-ffridd (Llw)*  
*Bryn y ffryth (Llr); Cae bach y ffridd (Llw); Cae llwyn Ffridd (Lld); Cae'r ffridd (Lld, Llw); Clwt isa'r Ffridd (Lld); Ffridd (Llb, Lld, Llr, Llw); Ffridd bach (Llb); Ffridd Cyffylau (Lld); Ffridd ddu (Llb, Llw); Ffridd Emwnt (Llb); Ffridd fain (Llb); Ffridd fawnog (Llb); Ffridd fawr (Llb, Llr, Llw); Ffridd felen (Llb); Ffridd fuchod (Llb); Ffridd isa (Llb); Ffridd Lwyd (Lld); Ffridd newydd (Llw); Ffridd ucha (Llb, Llw); Ffridd wair (Llb); Ffridd wyllt (Llr); Ffridd y Dafarn (Lld); Ffridd y fodty (Llw); Ffridd y gwŷr melynion (Llb); Ty'n y ffryth (Llr); y ddwy ffriddoedd bach (Llw)*

**ffront** *eg.b. amr. ffrynt 'front': y tu blaen; benth. o'r Saes. front;*  
*Cae ffront (Llb, Lld, Llf, Llr, Llw); Cae ffront yr Havod (Llr); Front field (Llb)*

**ffrwd** *eb.g.; llu. ffryd(i)au; 'swift stream'; afonig neu nant lifeiriol; cf. Hen Gern. frot; Llyd. Diw. froud;*  
*Ffrwd(-ysgyfarnog) (Lld); Gelli-ffryd[i]au (Lld); Tyn-y-ffrwd (Llw)*

**ffynnon** *eb. 'spring, well': dŵr yn tarddu o'r daear, pydew; < Llad. fontāna; cf. Cern. Can. fenten; Llyd. Diw. feunteun;*  
*Bryn-ffynnon (Llw); Llain-ffynnon (Lld)*  
*allt ffynnon Ririd (Llr); Bryn ffynnon (Lld, Llr); buarth y ffynnon (Llb); Cae ffynnon Adda (Lld); Cae ffynnon bach (Llb, Lld); Cae ffynnon Berthi (Llw); Cae ffynnon beuno (Llw); Cae ffynnon gotiau (Llw); Cae ffynnon mawr (Lld); Cae ffynnon odliw (Lld); Cae ffynnon wen (Lld, Llw); Kay ffynnon Vnda (Llw); Cae Glas Tany Fynnon (Llf); Cae'r ffynnon (Llb, Lld, Llf, Llr, Llw); Cae'r ffynnon bach (Llw); Cae'r ffynnon ucha (Llb); Cae tan y ffynnon (Llb, Lld, Llf, Llw); Cae ty ffynnon (Llb); Cae uchyfynnon (Llb); Cae wrth hen ffynnon (Llw); Cae y Fynnon Oer (Lld); Clwt y ffynnon (Lld); Dryll y ffynnon (Lld); Ffynnon Twrog (Lld); Ffynnon wen (Lld); Gors cae ffynnon (Llw); Gors ffynnon (Llb); Gwaen wrth Gefn ffynnon (Llb); Gwaen y ffynnon (Llb); Llain y ffynnon (Llb, Lld, Llf); Lloc ffynnon (Llb); Rhos ffynnon (Llb, Llr); Waun y ffynnon (Llb, Llw); Werglodd ffynnon (Llb, Lld, Llw)*

**ffyrting** *eb. 'farthing': deryn pres o arian bath gwerth chwarter hen geiniog, y swm lleiaf; benth. o Saes. Can. ferling;*  
*Cae Varling ? (Llb)*

**gadre** *Tybed ai godref: 'small homestead'; tyddyn bychan, sydd yma? cf. Cern. \*godre;*  
*Gadre (Llb)*

**gallow-tree** *e. Saes. 'gallows, gibbet'; crocbren:*

*Gallow-tree Hay (Llb)*

**gallt**

v. **allt**

**gaol**

e. *Saes.* 'jail, prison'; carchar:  
*Gaol (Llb)*

**gardd**

eb.; llu. **gerddi**; 'garden, enclosure'; llain o dir lle tyfir blodau neu lysiau, lluarth; < Hen Norse *garðr*:

*Tyn-y-gerddi (Llb)*

*Byarth yr ardd las (Llb); Cae cefn yr ardd (Llb, Lld, Llw); Cae'r ardd (Llb, Lld, Llw); Cae'r ardd goch (Lld); Cae'r hen ardd (Llb, Llw); Cae talcen yr ardd (Llf); Cae tan Gerddi (Lld); Cae tan yr ardd (Llb, Lld, Llf, Lf, Llw); Cae tan yr ardd isa (Llw); Castell Gardd (Llb); Gardd / Yr Ardd (Llb, Lld); Yr ardd bach (Llb, Llf, Llw); Gardd bach yr hen dai (Llb); Gardd bella (Llb); Gardd cefn tŷ (Llb); Yr ardd fain (Llb); Yr ardd fawr (Llb, Llr); Gardd felin (Llb); Yr ardd flaen drws (Llb); Yr ardd ganol (Llb); Yr ardd gron (Llb); Yr ardd gwn (?) (Llb); yr ardd ucha (Llw); Gardd Hafod-olau (Llb); Gardd isa (Llb); Yr ardd las (Llb); Yr ardd lôn (Llb); Gardd mynydd (Llb); Ardd Ora (Lld); Gardd tan tŷ (Llb, Llf); Gardd tan y caban (Llb); Gardd tan y Capel (Llb); Gardd Treddafydd (Llb); Gardd twll gro (Llb); Gardd Tŷ-cerrig (Llb); Gardd Ty-main (Llb); Gardd W<sup>m</sup> Jones (Llb); Gardd y Capel (Llb); Gardd y corn hir (Llb); Gardd y Cwirciau (Llf); Gardd y gwenyn (Llb); Gardd y gwyddelod (Llr); Garddyr fail [yr efail?] (Llb); Gardd 'refail (Lld); Gardd y shop (Llb); Gors yr ardd (Llr); Llain tan yr ardd wair (Lld); Llain yr ardd wair (Lld); Rhos tan yr ardd (Llf); Waun cefn'r ardd (Llw); Yr hen ardd (Llb); Gerddu (Lld)*

**garth<sup>1</sup>**

eg.b. 'wooded slope, uncultivated land'; gallt goediog, tir gwyllt:

*Garth-dorwen (Lld); Garth-uchaf (Lld)*

*Garth (Lld); Garth bach (Llb); Garth fawr (Llb); Pen y Garth (Llb)*

**garth<sup>2</sup>**

eg. 'field, enclosure, yard'; cae, lle amgaeëdig, iard; cf. Llyd. *garz*:  
Hen Wydd. *gort*:

*Garth (Llw, Llr); Garth-y-glo (Llw)*

*Cae Garth y Pandy (Llw); Cae'r Garth (Llr); Gwaen y garth (Llw)*

**garw**

ans.; fel rheol, wrth ddisgrifio ansawdd tir = 'rough, uncultivated':  
anwastad, heb ei drin; cf. Llyd.Can. *garu*; Cern. *garow*:

*Cae-garw (Llb, Lld, Llw); Sarn-dŵr-garw (Llb)*

*Bryn coch garw (Lld); Buarth garw (Llw); Cae garw (Llb, Lld, Llf, Llr, Llw); Cae garw bach (Llb); Cae garw isa (Lld); Cae garw Maes ty du (Llr); Cae garw mawr (Llb); Caea geirwon (Llw); Cefn y garw (Llb); Garw (Lld); Werglodd arw (Llr, Llw)*

**gate**

e. *Saes.* 'entrance': mynedfa, porth, llidiart; benth. o'r *Saes.* *gate*:

*Cae'r Gate (Llb, Lld, Llf, Llw); Llwyn Cae Gate (Lld); Werglodd Gate (Lld)*

**gefail**

eb. 'smithy, forge'; gweithdy gof; cf. Hen Gern. *gofail*; Llyd. *gôfel*, *gôvel*, *gôel*:

*Cae'r-efail (Llf); Efail-bach (Llr)*

*Cae cefn efail (Lld); Cae'r efail (Llb, Llr, Llw); Cae wrth hen Efel*

(Lld); *Garddyr fail* (Llb); *Gardd 'refail* (Lld); *'Refal broc* (Lld); *'Refal fain* (Lld); *'Refal isaf* (Lld)

**geifr**

*e.llu.* un. **gafr**; 'goats'; anifeiliaid hirflew o rywogaeth y *Capra*; cf. Cern. Can. *gaver, gavar, gour*; Llyd. Diw. *gavr, gaor*; Hen Wydd. *gabor*:

*Cae-geifr* (Lld)

*Cae corlan y geifr* (Llr); *Cae garf?* (Llw); *Gwerglodd Cae'r Geifr* (Llw)

**gerlan**

v. **cerlan**

**Giffingend**

Elfen anesboniadwy sydd yn enw ar le ym mhlwyf Llanrug. Ni wyddys ai enw cyff. Saes. ynteu e.p. ydyw.

**glan**

*eb.* 'bank, edge, shore': min, ymyl, traeth; cf. Cern. Can. *glann*; Llyd. *glann*:

*Glanafon* (Llb); *Glan-afon-Ifor* (Llr); *Glan-afon-rug* (Llr); *Glan-Beuno* (Llb); *Glan-Gwna* (Llr); *Glanllyn* (Llf, Llr); *Glanraber* (Llb); *Glan'rafon* (Llb, Llf, Llr, Llw); *Glanrhyd* (Llw); *Glan-Sciont* (Llr); *Glan-y-feiston* (Llf); *Glan-y-gors* (Llw); *Glan-y-merllyn* (Llw); *Glan-y-môr* (Llf); *Glan-y-morfa* (Lld, Llw); *Pen-y-lan* (Llb); *Penlan-isaf* (Llw); *Penlan-uchaf* (Lld); *Rhos-lan* (Llr)

*Cae Glanaber* (Llb); *Cae glan yr afon* (Llb, Llw); *Cae bach Glan môr* (Lld); *Cae Glan y Môr* (Llf); *Cae pen lan* (Llw); *Dolydd Glan y môr* (Llw); *Glan* (Lld); *Glan'rafon (isa')* (Lld); *Glan'rafon ucha'* (Lld); *Glan y Gors* (Lld, Llr); *Glan y Gors isa'* (Lld); *Glan y Gors ucha* (Lld); *Glan y llyn* (Llr); *Glanymerllyn* (Llw); *Glanymor y Werddon* (Llw); *Waun Glan y Môr* (Llf); *Werglodd Glan y llyn* (Llr)

**glanfa**

*eb.* 'landing-stage, jetty'; lle i lanio < *glan* + *-fa*:

*Buarth y Lanfa* (Llw); *Lanfa* (Llw)

**glas**

*ans.* 'blue, blue-green, verdant': lliw'r môr a'r awyr ar ddiwrnod clir, lliw dail a phorfa ir; cf. Cern. *glas*; Llyd. *glas*; Hen Wydd. *glas*:

*Ala-las* (Llb); *Belan-las* (Lld); *Bryn-glas* (Llb, Lld, Llr, Llw); *Cae-glas* (Llb, Llr, Llw); *Fuches-las* (Llr); *Hafodlas* (Llr); *Pant-hafodlas* (Llr); *Pen-hafodlas* (Llr);

*Bonc las* (Llf, Llr); *Buarth glas* (Llb, Lld, Llr, Llw); *Bwlch glas* (Lld); *Cae bryn glas* (Llb, Llr); *Cae cefn las* (Llw); *Cae glas* (Llb, Lld, Llf, Llr, Llw); *Cae glas bach* (Llr); *Cae glas isaf* (Llf); *Cae glas mawr* (Lld); *Cae Glas Tan y Fynnon* (Llf); *Cae glas ucha* (Llb, Llf); *Cae lôn las* (Llr); *Kae / r / glas haidd* (Llw); *Fuches las* (Lld); *Lon las* (Lld); *Llain las* (Llb, Lld); *Llwyn glas* (Lld)

**glaw**

*eg.*; amr. **gwlaw**: 'rain'; lleithder yr atmosffêr. cawod; cf. Hen Gern. *glau*; Llyd. Can. *glau*:

*Cae gwlaw* (Llw); *Werglodd gwlaw* (Llw)

**glo**

*eg. ac e.tf.* 'coal; charcoal': fel rheol, mwyn du caled a ddefnyddir fel tanwydd; ond yn yr achosion isod: golosg, siarcol:

*Cwm-y-glo* (Llr); *Erw-pwll-y-glo* (Llr); *Garth-y-glo* (Llw)

*Werglodd pwll glô* (Llw)

**glodli**

Elfen anesboniadwy; ceir *Glodli mawr* ym mhlwyf Llanbeblig.

- glyn** *eg.b. 'glen, dale, wooded valley'; pant. dyffryn coediog: cf. Llyd. Diw. glen; Hen Wydd. glenn:*  
Cae-glyn (Llb) (Gall fod yn e.p. yn yr achos hwn); Glyn-afon (Llb); Glyn-lfor (Llr); Glyn-iwrch (Lld); Glynllifon (Lld); Glynrhonwy (Llr); Glyn-y-meibion (Lld); Tyn-y-glyn (Llb)  
*Buarth y glyn (Llw); Caer clyn (Llb); Glyn (Lld); Glyn Meibion (Lld)*
- gof** *eg. 'smith'; crefftwr mewn metel; cf. Hen Gern. gof; Llyd. Diw. gof:*  
Cefn-y-gof (Llb)  
*Cae'r gof (Llb); Cae'r gof ucha (Llb); Lloc caer gof (Llb); Gwerglodd Cae'r gô (Llw)*
- golau** *eg. ac ans. 'light, clear': clir, llawn goleuni:*  
Bryngolau (Llb a Lld); Coed-golau (Llr); Fron-olau (Llf); Hafod-olau (Llb)  
*Fron oleu (Llr); Gwaen olau nesa' (Lld); Waen olau nesa' i Penybont (Lld); Waun oleu bach (Llw); Waen olau bellaf (Lld, Llw); Waun oleu fain (Llw); Waun oleu frwynog (Llw); Waun oleu isaf (Llw); Yr Gweyne ole (Llb)*
- gorsedd** *eb g.; llu. gorseddau; hefyd yn yr eb. gorseddfa; 'mound of earth, hillock, tumulus'; tomen bridd, bryncyn: cf. Llyd. Diw. gorzez. Hen Wydd. forad:*  
Gorseddau (Llr); Gorseddfa (Lld); Pen-yr-orsedd (Lld)  
*Bryn 'r orsedd (Lld); Cae'r orsedd (Llw); Tyddyn y Gorsedd (Lld)*
- greyenyn** *eg. Ffurf fachigol un. brin graean yw greyenyn (ffurf fen. = graeanen); 'tiny piece of stone or sand, grain': gronyn bach o dywod neu garreg:*  
*Bvarth grayenyn Rees goch (Llw)*
- greor** *eg.; amr. grëwr 'herdsman, shepherd': ceidwad gre, bugail:*  
Greuor ? (Llr); Pen-y-Greuor ? (Llr)
- gro** *etf. 'gravel, shingle': graean bras; cf. Cern. Can. grow; Llyd.Diw. grouan:*  
Pant-y-gro (Llb); Pwll-y-gro (Llb)  
*Bryn y gro (Llr); Cae pwll gro (Llw); Cae'r Gro (Llf); Cae twll gro (Llb, Llr); Gardd twll gro (Llb)*
- grug** *e.tf. 'heather, ling, heath': planhigyn bytholwyrdd o rywogaeth yr Erica sydd yn tyfu ar fynyddoedd a rhosydd:*  
Llanrug; Pont-rug; Tyddyn-Pont-rug (Llr); Glan-afon-rug (Llr); Rhos-rug (Llr)
- gwaed** *eg. 'blood': yr hylif coch sydd yn cylchredeg trwy'r corff; cf. Cern. Can. goys, gos; Llyd. goad, goed:*  
*Maes gwaed (Lld)*
- gwaedlyd** *ans. 'bloody, blood-stained': a gwaed arno, creulyd:*  
*Dryllie Gwaedlyd (Lld)*
- gwag** *ans. 'empty': heb neb na dim ynddo; benth. o'r Llad. uacuius:*  
Tyddyn-gwag (Llr)



- Cae gwag (Llw)*
- gwair** *eg. 'grass, hay' glaswellt wedi ei dorri a'i sychu:  
Cae caled gwair (Llb); Cae gwair (Llb, Lld, Llw); Cae gwair isa (Llb); Cae gwair ucha (Llb); Cefn y gwair (Llb); Ffridd wair (Llb); Gors wair (Llb); Gwerglodd wair (Llr); Llain tan yr ardd wair (Lld); Llain yr ardd wair (Lld); Maes y Gwair (Llb); Rhos Wair (Llb)*
- gwal** *eb.; llu. gwaliau; 'wall', adeiladwaith unionsyth o gerrig, brics, pridd neu dyweirch; benth. o'r Hen Saes. weall:  
Cae'r-wal?(Llb) (Mae'n bosib mai e.p. sydd yn yr achos hwn); Henwalia (Llb); Rhosygwaliau (Llb); Tyddyn-wal? (Llb) (Mae'n bosib mai e.p. sydd yn yr achos hwn)  
Buarth y wal (Llr); Cae cefn hen walian (Llb); Cae gwaliau isaf (Llw); Cae gwaliau uchaf (Llw); Cae pridd wall (Llw); Cae'r gwallia (Llw); Cae'r wall bach (Llb); Cae wall wen (Llb); Rhosygwalia (Llb)*
- gwalch** *eg. 'hawk, falcon'; aderyn ysglyfaethus o rywogaeth y Falconidæ; benth. o'r Hen Saes. weal-; wealc-:  
Llwyn-y-gwalch (Lld)*
- gwartheg** *e.ll. ac etf. 'cattle'; da byw corniog; cf. Cern. Can. guarthec:  
Waun-wartheg (Llb)  
Cae gwartheg (Llw)*
- gwastad** *ans. a hefyd fel eg. 'flat, level'; fflat, llyfn; cf. Cern. gwastas; Llyd. goustad:  
Cae gwastad (Llb, Llw); Cefn gwastad (Llr); Gwastad y cefn (Llr)*
- gwastadfaes** *eg 'plain'; tir gwastad agored < gwastad + maes:  
Gwastadfaes (Llb)*
- gwaun** *eb. 'moorland, heath, meadow'; gwastatir uchel gwlyb a brwynog, tir isel gwlyb, doldir; cf. Cern. Can. goen, gon, goon; Llyd. Diw. geun, yeun:  
Blaen-y-waun (Llw); Cae'r-waun (Llb); Cefn-y-waun (Llb); Croesywaun (Llb); Gors-y-waun (Llb); Pant-y-waun (Llb); Tan-y-waun (Llb, Llw); Waun (Llb); Waun-bant (Llw); Waunfawr (Llb); Waun-wartheg (Llb)  
Buarthgae'r waen (Llr); Buarth y Waun (Llr); Cae bach y Waen (Llr); Cae pant y waun (Llb); Cae'r waun (Llb, Lld, Llr, Llw); Cae'r Waun bach (Llr); Cae waun isa (Llb); Cae'r waun ucha (Llb); Parc-y-waun (Llb); Tan y waun (Llb); Waun (Llb, Lld, Llr, Llw); Waun bach (Llb, Llw); Waun bant (Llb); Waun cefn'r ardd (Llw); Waun cleiriach (Llb); Waen ganol (Llw); Waun Glan y Môr (Llf); Waun Goch (Lld); Waun goch bach (Llw); Waun goch pellaf (Llw); Waun Goch y Capan (Lld); Waun hir (Llb, Llw); Gwaen lloiau (Llw); Waen llwynog (Llr); Waun oleu bach (Llw); Waun olau bellaf (Lld, Llw); Waun oleu fain (Llw); Waun oleu frwynog (Llw); Waun oleu isaf (Llw); Gwaun olau nesa' (Lld); Weun ola nesa i penybont (Lld); yr Gweyne ole (Llb); Waen tan lon (Llr); Waen ucha (Llw); Waen Wen (Llr); Waen Wen bach (Llr); Waun wrth gefn ffynnon (Llb); Waun y ffynnon (Llb, Llw); Gwaen y garth (Llw); Gwaen y Pandy (Llw); Werglodd waun (Llb)*

**gwddw**

*eg*; amr. **gwddf, gwddwg**; 'neck'; y rhan o'r corff sydd yn cydio'r pen wrth yr ysgwyddau; unrhyw beth tebyg i wddf o ran ffurf; cf. Llyd. Diw. *gouzoug*:  
*Gwddw main (Llr)*

**gwehyddes**

*eb*. amr. **gweyddes, gweddes**; gwr. **gwehydd**; amr. **gwëydd, gwÿdd** 'female weaver'; gwraig sydd yn gwau defnyddiau ar gyfer gwneud dillad:  
*Cae'r-weddus (Llr); Tyddyn-gwÿdd ?(Llw)*

**gweirglodd**

*ebg*; amr. **gwerlodd**; 'lowland hay-field, meadow'; dôl, cae gwair:  
*Cefn-y-werlodd (Llb); Tyn-y-weirglodd (Llw)*  
*Bryn Werlodd (Llr); Cae cefn werlodd (Llr); Cae'r werlodd (Llb, Llw); Cae tan y weirglodd (Llb); Cae uwch ben y Werlodd (Llb); Coed werlodd newydd (Llr); Gors werlodd newydd (Llr); Hen werlodd (Llr); Llain pen y werlodd (Llr); Llain y weirglodd (Llb, Lld, Llr); Pongc werlodd newydd (Llr); Ty'n y werlodd (Llr); Werlodd (Llb, Lld, Llf, Llr, Llw); Werlodd Afallen (Llf); Werlodd ardia / ardiu ? (Llb); Werlodd arw (Llr, Llw); Werlodd bach (Llb, Lld, Llf, Llr, Llw); Werlodd bach Cae athro (Llr); Werlodd Bala (Lld); Werlodd bellaf (Llb, Lld, Llf, Llr, Llw); Werlodd beudy (Llb); Werlodd beudy bach (Llb); Werlodd beudy Gerrig / cerrig (Llw); Werlodd beudy newydd (Llb); Werlodd blanwydd (Llw); Werlodd bon? (Llb); Werlodd bori (Llw); Werlodd buchedd helaeth (Llw); Gwerlodd Cadwgan (Lld); Werlodd cae cefn (Llw); Werlodd cae eithin (Llr); Werlodd cae gwyllt (Llr); Werlodd Cae hen (Llw); Werlodd cae hilling (Llb); Gwerlodd Cae Hwlkin (Llw); Werlodd Caellidiart y Geufron (Llw); Gwerlodd Cae Llwyn pwll marl (Lld); Gweirglodd Cae newydd Issa (Lld); Gweirglodd Caer bryn (Llb); Werlodd Cae'r donnen (Llr); Gwerlodd Cae'r Geifr (Llw); Gwerlodd Cae'r gô (Llw); Werlodd canol dydd (Llw); Werlodd Capan (Lld); Gweirglodd Caws (Llr); gwerlodd y kay bonodle (Llb); Gwerlodd Cefn gwyn (Llw); Gwerlodd Cefn Hengwrt (Llw); Werlodd cefn tÿ (Lld); Werlodd ceffylau (Llr); Gwerlodd Cethin (Llw); Werlodd Cilgwyn (Lld); Werlodd Coed (Llb, Llw); Werlodd cul (Llr); Werlodd Daibock (Llb); Werlodd Dalar (Llw); Werlodd Dinas (Llw); Werlodd dopiog (Lld); Weirglodd Doppog (Llb); Werlodd drws (Lld); Gwerlodd Drws y Tÿ (Llb); Werlodd dwyll (Llb); Werlodd ddu (Lld, Llw); Werlodd ddu uchaf (Llw); Werlodd ddŵr (Llb); Werlodd Emrys (Lld); Werlodd Erw (Lld); Werlodd Erw wïan (Llr); Werlodd fadog (Llw); Werlodd fain (Llb, Lld, Llf, Llr, Llw); Werlodd fain wen (Llb); Werlodd farget (Llw); Werlodd fawr (Llb, Lld, Llf, Llr, Llw); Werlodd fawr ganol (Llw); Werlodd fawr uchaf (Llw); Werlodd forwyn (Lld); Werlodd fwyaf (Lld); Werlodd ffolt (Llb); Werlodd ffordd (Llw); Werlodd ffynnon (Llb, Lld, Llf, Llw); Werlodd galch (Llw); Gwerlodd galed (Llw); Werlodd gam (Llb); Werlodd ganol (Llb, Lld, Llr, Llw); Werlodd Gate (Lld); Werlodd Gerlan (Lld); Werlodd Glan y llyn (Llr); Werlodd goch (Llb, Lld, Llr, Llw); Werlodd grefachwen (Llw); Werlodd Grobach (Llw); Werlodd gron (Llb, Lld, Llw); Gwerlodd Guttun Owain (Llw); Gwerlodd Gwaen'ch Henry (Llr); Werlodd gwlaw (Llw); Werlodd gydun (Llw); Werlodd Gynfon? (Llw); Werlodd Hafod (Lld); Werlodd Hendre (Lld); Werlodd hen rhyd (Llw); Werlodd hir fain (Llw); Werlodd hircam (Llw); Werlodd isaf (Llb, Lld, Llr, Llw); Werlodd lowley? (Llb); Werlodd maen*

llwyd (Llw); Werglodd maes (Llb); Werglodd maes madog (Llr); Werglodd man (Llw); Werglodd mawn (Lld); Werglodd mynydd (Lld); Werglodd nesa (Llb, Lld); Werglodd nesar ty (Llr); Werglodd nesaf y Coed (Llf); Werglodd nesaf y Plas (Llf); Werglodd newydd (Lld, Llr, Llw); Werglodd pant y waun (Llb); Werglodd Parry (Lld); Werglodd Pentrygan (Lld); Gwerglodd Pen y gaer (Llw); Gwerglodd Pen y groes (Llw); Werglodd perthi (Lld); Werglodd polyn helig (Llb); Werglodd poncan (Llb); Werglodd porfa (Llb, Llr, Llw); Werglodd Pryscol isaf (Llr); Gwerglodd pwll Cowarch (Llw); Werglodd pwll glô (Llw); Werglodd Pwll Marl (Lld); Werglodd rhos (Lld, Llw); Werglodd 'Scybor (Lld); Gwerglodd Stable (Llw); Werglodd Storws (Llw); Gwerglodd Syper (Llw); Werglodd talcen tŷ (Llb); Werglodd talerna (Llb); Gweirgloth talwrn yr arch (Llw); Werglodd tan ffridd (Llb); Werglodd tan lon (Llw); Werglodd tan stabal (Llw); Werglodd tan tŷ (Llb, Lld, Llr, Llw); Werglodd tan y beudy (Llr); Werglodd tan y clogwyn (Llb); Werglodd tan y ffordd (Llr); Gwerglodd tan yr ody / Gwerglodd tan 'rOdyn Galch (Llw); Werglodd toccyn (Lld); Werglodd Tommy (Llf); Werglodd ty isa rafon (Llw); Werglodd tu ucha'r ty (Llr); Werglodd ty Cerrig (Llb); Werglodd Ty Eiddew (Llf); Werglodd tyfod (Lld); Werglodd Tyn pant (Lld); Werglodd tyny caunant (Llb); Werglodd tyn y gors (Llb); Werglodd uchaf (Llb, Lld, Llr, Llw); Gwerglodd wair (Llr); Werglodd waun (Llb); Werglodd wen (Lld); Werglodd wern (Llw); Werglodd y big (Llb, Lld); Gwerglodd y bont (Llb, Llw); Gweirglood-y-bryddell (Llw); Gwerglodd y Cay Newydd (Lld); Werglodd y ceingciau (Llr); Werglodd y ceunant (Llr); Gweirglood y Court (Llr); Gweirglood y Donnen (Llb); Gwerglodd y ddôl (Llw); Gwerglodd y Faenol (Llb); Gwerglodd y fawnog (Llr); Werglodd y felin (Llb, Lld, Llw); Werglodd y gadlas (Llr); Gwerglodd y Gerlan (Llw); Gwerglodd y Gongl (Llw); Werglodd y Gwrychyn (Llb); Werglodd y llyn (Llb, Lld, Llw); Werglodd y melinydd (Llr); Werglodd y merched (Llr); Werglodd y pwll (Llf); Werglodd y rhyd (Llr); Werglodd y Sais (Llr); Werglodd y Winllan (Llb); Gwerglodd yr hendref (Llr); Werglodd Ynys (Lld); Werglodd ynys geubren (Llw); Gweirglood Ynys yr Avon (Llw); Weirglood yr Allt (Llb); y weirglood ddofen (Llw)

**gweithdy**

eg. 'workshop'; ystafell waith neu gwt gwaith; < gwaith + tŷ:  
Cae cefn gweithdy (Lld, Llw); Cae talcen gweithdy (Lld); Cae tan gweithdy (Lld); Llain y Gwaithdy (Llf)

**gwenith**

e.llu. neu dfl. 'wheat'; grawn maethlon a felir i wneud bara; cf. Cern. gwaneth; Llyd. Diw. gwinizh:  
Bryn gwenith (Lld); Cae gwenith (Lld, Llr, Llw); Cae'r gwenith Gaia (Llb); Llain Wenith (Lld, Llr)

**gwennol**

eb. 'swallow'; aderyn mudol ag adenydd hirfain a chynffon fforchog; cf. Hen Gern. guennol; Llyd. Diw. gwennel; Hen Wydd. fannall:  
Dol / y / wennol (Llw)

**gwenyn**

e.llu.; un.: **gwenynen**; 'bees'; trychfilod hedegog sydd yn cynhyrchu mêl; cf. Cern. Can. gwenyn; Llyd. Diw. gwenan:  
Gardd y gwenyn (Llb)

**gwern**

eb.g. ac etf. 'alder trees; alder marsh'; coed gwern, man lle tyf y coed hynny, cors; cf. Hen Gern. guern; Llyd. Diw. gwern; Gwydd. Diw.

	<p><i>fearn</i>:  Betws-Gwe[r]nrhiw?(Lld); Gilwern (Lld); Gwern-afalau (Lld); Hafod-y-wern (Llw); Pengwern (Llw); Tyn-y-wern/Tan-y-wern (Llb); Wern (Llb); Wernddu (Llb); Wernlas-ddu / Wernlas-wen (Llw)  <i>Bryn wern (Lld); Buarth Cae'r Wern (Llr); Buarth y wern (Llb); Cae'r wern (Llw); Cae wern ddu (Llb); Coed gwern (Llr); Werglodd wern (Llw); Wern (Llb, Lld, Llr); Wern bach (Llb, Lld); Wern big (Llb); Wern cagal (Llf); Wern ddu (Llb); Wern Evan (Lld); Wern fawr (Llb); Wern Gwitta (Llb); Wern Isaf (Lld); Wern treflan (Llb); Y Wern uchaf (Llb, Lld, Llr); Wern y Moch (Lld); Gwern'r Egal (Lld); gwerne y rid (Llr)</i></p>
<b>gwernlas</b>	<p><i>eb.</i> 'verdant alder marsh'; gwern ir:  Wernlas-ddu (Llw); Wernlas-wen (Llw)</p>
<b>gwerthyd</b>	<p><i>eb.</i> 'spindle, axle'; pric neu lath, naill ai i nyddu neu fel rhan o olwyn; cf. Hen Gern. <i>gurrhit</i>; Llyd. Diw. <i>gwerzhid</i>; Gwydd. Diw. <i>fearsaid</i>:  Cefn-werthyd (Llf)</p>
<b>gwig</b>	<p><i>eb.</i> 'wood, grove; settlement'; coedwig, coedlan; treflan; &lt; Llad. <i>vīcus</i>; cf. Saes. <i>wick</i>; Cern. <i>gwic</i>, ac e.ll. <i>Gweek</i>; Llyd. <i>gwig</i>, <i>gwik</i> = tref:  Lledwigan? (Llb)</p>
<b>gwinllan</b>	<p><i>eb.</i> 'vineyard; copse, grove, plantation'; darn o dir ar gyfer tyfu gwinwydd; coedlan, coedwig, planhigfa &lt; <i>gwin</i> + <i>llan</i>. Mewn e.lleoedd yn Arfon 'coedlan' yw'r ystyr arferol:  <i>Cae'r winllan (Llr); Weirglodd y Winllan (Llb); Winllan (Llb, Lld, Llf, Llr); Winllan Goed (Llb); Winllan helyg (Llb); Winllan Park mawr (Lld)</i></p>
<b>gwlyb</b>	<p><i>ans.</i> 'wet'; wedi ei wlychu, llaith; cf. Cern. <i>gleb</i>; Llyd. Diw. <i>gleb</i>:  <i>Buarth gwlyb (Llb); Cae gwlyb (Llb, Lld, Llf, Llw); Clwt Gwlyb (Llf)</i></p>
<b>gwndwn</b>	<p><i>eg.</i>; amr. <b>gwyndwn, gwyndon</b>; 'unploughed land'; tir heb ei droi ers blynyddoedd:  <i>Cae gwndwn (Llb, Lld, Llw); Cefn gwndwn (Llr); Cefn gwndwn bach (Llr); Cefn gwndwn Isaf (Llr); Cefn gwndwn Uchaf (Llr); Cefn gwndwn pellaf (Llr); Gwndwn (Llb, Lld); Gwndwn bach (Llr); Gwndwn isaf (Llr); Gwndwn Mawr (Llr); Gwndwn uchaf (Llr); Hendref wndwn (Llr)</i></p>
<b>gwnnog</b>	<p><i>ans.</i>; amr. <b>gwynnog, gwyniog</b>; 'windy, exposed'; gwyntog, agored i'r elfennau; &lt; <i>gwynt</i>+<i>-iog</i>:  <i>Bwlchgwnnog (Llr)</i>  <i>Bwlch gwnnog (Llr)</i></p>
<b>gwrach / gwrachen</b>	<p><i>eb.</i>; ffurf fachigol: <b>gwrachen</b> 'crone, hag, witch; sheaves of bracken, straw or brushwood'; hen wraig, dewines; ysgubau o redyn, gwellt neu brysgwydd; cf. Cern. Diw. <i>gwrah, gwragh</i>; Llyd. Diw. <i>gwrac'h</i>:  <i>Pen-y-wrach (Llb); Tyddyn-y-wrach (Llw)</i>  <i>Cae'r wrachen (Llb); Erwy Wrach Lwyd (Llb); Rhos penywrach (Llb); Wrach (Lld); Y Wrachen (Llb)</i></p>
<b>gwrych</b>	<p><i>eg.</i>; ffurf fach.: <b>gwrychyn</b>; 'hedge'; clawdd o lwyni neu goed isel:</p>

*Werglodd y Gwrychyn (Llb)*

- gŵydd** *eb.* 'goose'; aderyn mawr a gedwir ar fferm; cf. Hen Gern. *guit*; Cern. Can. *goydh*; Llyd. Diw. *gwaz*; Gwydd. Diw. *gé*: Hafod-yr-wydd (Llb)
- gwŷdd** *etf.* 'trees, wood'; prennau, coedwig; cf. Cern. Can. *gueyth*; Llyd. Diw. *gwez*: Gwydd. Diw. *fiodh*: Tyddyn-gwŷdd ?(Llw)
- Gwyddel** *eg.*; llu. **Gwyddelod**; 'Irishman'; brodor o Iwerddon: *Cae'r Gwyddel (Lld)*; *Gardd y gwyddelod (Llr)*
- gwyln** *eb.* 'sea-gull'; aderyn môr gwyn; cf. Hen Gern. *guilan*; Cern. Can. *gwyln*; Llyd. Diw. *gouelan / goélan*: Bryngwylan (Llb)
- gwyllt<sup>1</sup>** *ans.* 'wild'; yn naturiol, heb ei drin na'i ddofi; cf. Cern. *gwyls, gwylls*; Hen Lyd. *gueld*; Hen Wydd. *geilt*: *Ffridd wyllt (Llr)*; *Gors wyllt (Llw)*; *Rhos wyllt (Lld, Llr)*; *Y Graig wyllt (Llf)*; *Werglodd cae gwyllt (Llr)*:
- gwyllt<sup>2</sup> / gwylltedd** *eg.* 'uncultivated land; wilderness'; tir heb ei drin; tir diffaith: *Gwyllt (Llw)*; *Gwyllt bach (Llw)*; *Gwyllt Issa (Llw)*; *Gwyllt mawr (Llw)*; *Gwylldedd (Llw)*
- gwymon** *eg.*; amr. **gwmon, gwimon**; 'seaweed'; llyisiau môr o'r dosbarth *Algæ*; cf. Llyd. Diw. *goumon*; Cern. *gumman*; Gwydd. Diw. *feamain*: *Cae Lleiniau Gwman (Llf)*
- gwyn** *ans.*; ffurf fen, **gwen**; llu. **gwynion**; 'white, pale'; lliw eira; gwelw. golau; cf. Cern. Can. *gwyn*; Llyd. Diw. *gwenn*: Bryngwyn (Lld, Llr); Cae-gwyn (Llb); Garneddwen (Llb); Garthdorwen (Lld); Felin-wen (Llr); Gaerwen (Llw); Hafoty-wen (Lld); Llidiart-gwyn (Llb); Maen-gwyn (Llw); Pant-bryngwyn (Llr); Pant-gwyn (Llb); Pen-y-gaerwen (Llw); Pen-y-gelli-wyn (Llb); Plas-gwyn (Llr); Rhyd-y-cerrig-gwynion (Llr); Siamber-wen (Lld); Tai-gwynion (Lld); Tŷ-gwyn (Llb, Lld, Llr); Wernlas-wen (Llw); Ysgubor-wen (Llb, Llf): *Bryngwyn (Lld, Llr)*; *Buarth gwyn (Lld, Llw)*; *Cae dryll gwyn (Llb)*; *Cae ffynnon wen (Lld, Llw)*; *Cae gwyn (Llb, Lld, Llf, Llr, Llw)*; *Cae gwyn bach (Llr)*; *Cae'r beudy gwyn (Llr)*; *Cae'r llidiart gwyn (Llb)*; *Cae Tŷ-gwyn (Llb)*; *Cae wall wen (Llb)*; *Cae Ysgybor wen (Llf)*; *Cefn gwyn (Llr, Llw)*; *Cefn gwyn Eithin (Llw)*; *Drylliau gwynion (Llw)*; *Ddolwen (Llw)*; *Ffynnon wen (Lld)*; *Gorlan wen (Lld)*; *Gors wen (Llw)*; *Gwyngae (Llb)*; *Gwynion (Lld)*; *Penlon cerrig gwynion (Lld)*; *Rallt wen (Llw)*; *Waen Wen (Llr)*; *Waen Wen bach (Llr)*; *Gwerglodd Cefn gwyn (Llw)*; *Werglodd wen (Lld)*
- gwyndy** *eg.* 'holy house, church'; tŷ sanctaidd; llan < gwyn + tŷ; neu, yn syml. enw cyfansawdd = 'tŷ gwyn'. Tyddyn-Cefn-y-Gwyndy (Llr) *Cefn gwyndy bach (Llw)*; *kefn y gwndy (Llr)*

- gwynt** *eg.* 'wind'; chwa o aer neu awel gref; cf. Cern. Can. *gwyns*; Llyd. Diw. *gwent*:  
Llys-y-gwynt (Llb); Ysbyty'r-gwynt (Llb)  
*Bryn y Gwynt (Llw); Gallt y gwynt (Llr)*
- gwystl** *eg.b.* 'pledge, surety; hostage; mortgage': ernes, sicrwydd; person neu eiddo a drosglwyddir i elyn yn ernes y cedwir cytundeb; morgais; cf. Hen Gern. *guistel*; Llyd. Diw. *gouestl*:  
*Dryll y Gwystl (Llr)*
- gwythwch** *eg.b.* 'wild pig, wild sow': baedd gwyllt, hwch goed < *gŵydd + hwch*:  
*Cilgwythwch (Llr)*
- had** *e.tf.*; un.: **hadyn, hedyn** 'seeds': gronynnau bychain y tyf planhigion ohonynt; cf. Cern. Can. *has*; Llyd. Diw. *had*:  
*Cae had (Llb, Llr, Llw); Gallt yr hâd (Llr); Had gae (Llw)*
- haearn** *eg.* 'iron'; elfen fetelaidd galed; cf. Cern. Can. *hórn*; Llyd. Diw. *houarn, hern*; Gwydd. Diw. *iarann*. Cyfansoddair llac yw *ffordd haearn = rheilffordd*  
*Cae ffordd haiarn (Lld); Cae haiarn (Lld); Cae tu isar fordd haiarn (Llw)*
- haf** *eg.* 'summer'; ail dymor y flwyddyn a'r tymor cynhesaf; cf. Cern. *haf*; Llyd. Can. *haff, haf*; Llyd. Diw. *hañv*; Gwydd. Diw. *samh-*:  
*Ddol haf (Llb)*
- hafod** *eb.* 'upland farmstead, summer dwelling': trigfan haf ar yr ucheldir:  
Hafod (Llr); Hafod-bach (Llb); Hafod-boeth (Lld); Hafod-Ifan (Lld); Hafod-Laurence (Llb); Hafodlas (Llr); Hafod-olau (Llb); Hafod-Saeson (Llr); Hafod-y-coed (Lld); Hafod-y-rhisg (Llf); Hafod-yr-wydd (Llb); Hafod-y-rhos (Llw); Hafod-y-rhyg-isaf (Llr); Hafod-y-rhyg-uchaf (Llb); Hafod-y-wern (Llw); Hen-hafod (Llb); Pant-hafodlas (Llr); Pen-hafodlas (Llr)  
*Kay havod tudr (Llb); Hafod (Lld); Hafod Dolog (Lld); Havodlas (Llr); Hafod Llewelyn (Llb); Hafod Tudur isa (Llb); Hafod Tudur ucha (Llb); Hafod yr ŵyn (Llb)*
- hafoty** *eg.*; amr. **foty** < *hafod + tŷ*: gweler *hafod* uchod:  
Hafoty (Llw); Hafoty-Caeronwy (Lld); Hafoty-Tŷ-newydd (Lld); Hafoty-wen (Lld); Penbryn-Hafoty (Lld)  
*Bryn hafodty (Llr); Buarthgae'r hafodty (Llw); Buarth yr havotty (Llw); Cae foty (Llb, Lld, Llr, Llw); Cae voty bach (Lld) / Cae'r fodty bach (Llw); Cae 'fotty isaf (Llr); Cae 'fotty uchaf (Llr); Cae 'fotty isaf (Llr); Cae 'fotty uchaf (Llr); Cae'r hafodty (Llw); Ffridd y fodty (Llw); Hafodty (Lld); Penbryn Fodty (Lld); Tan y fotty (Llr)*
- haidd** *e.ll. ac etf*; un. **heidden**; 'barley'; barlys; cf. Llyd. *heizen(n), heiz*:  
Cae-haidd (Llb, Lld); Pant-cae-haidd (Llb)  
*Cae bach haidd (Llb); Cae haidd (Llr, Llw); Kae / r / glas haidd (Llw); Coppa Haidden (Lld); Ddol haidd (Lld); Gors haidd (Llf); Haidd (Lld); Ynys dryw haidd (Llr)*
- halen** *eg.* 'salt'; sylwedd gwyn a dynnir o ddŵr y môr neu a gloddir o'r ddaear; heli; cf. Cern. Diw. *holen*; Llyd. Diw. *c'hoalenn, holenn*:

- Cae-halen-bach (Lld); Cae-halen-mawr (Lld)  
*Cae halen (Lld); Halen (Lld)*
- hall** *e. Saes. 'manor-house; large room';* plasty. neuadd:  
 Lodging Hall (Llb)
- haul** *eg. 'sun'; y corff nefol y teithia'r byd o'i gwmpas gan dderbyn goleuni a gwres ohono; cf. Cern. Can. houl; Llyd. Diw. heol;*  
 Cil-haul (Llw)
- hazel** *e. Saes. 'tree of the birch family';* collen:  
 Mount Hazel (Lld)
- helaeth** *ans. 'abundant, plentiful';* digonol, hacl:  
*Cae buchedd helaeth (Llw); Werglodd buchedd helaeth (Llw)*
- helygen** *eb.; llw. helyg; 'willow';* coeden o'r tylwyth *Salix* sydd yn tyfu ar dir gwlyb; cf. Hen Gern. *heligen*; Llyd. *haleg(enn)*; Hen Wydd. *sail*:  
 Cae'r-helygen (Llw); Dôl-helyg (Llr); Tŷ-helyg (Llf)  
*Cae helig (Llr); Cae helygan bach (Llw); Werglodd polyn helig (Llb); Winllan helyg (Llb)*
- hen** *ans. 'old';* heb fod yn newydd neu'n ieuanc; cf. Cern. *hen*; Llyd. *hen*:  
 Gwydd. Diw. *sean*:  
 Cae-hen (Llw); Cefn-hengwrt (Llw); Hendy (Llb); Hengaer (Llb); Hen-gastell (Llw); Hen-hafod (Llb); Henrhyd (Lld); Henwalia (Llb); Tŷ-hen (Llw); Tyddyn-hen (Llb, Llr)  
*Bron yr hen ryd (Llw); Cae hen (Lld, Llw); Cae hen Rodin (Lld); Cae'r hen dy (Llf); Cae'r hen felin (Llw); Caer hen lon (Llb); Cae'r henryd (Llw); Caer hen sinach (Llb); Cae Skybor Hen (Llf); Cae tan hen feudy (Lld); Cae wrth hen Efel (Lld); Cae wrth hen ffynnon (Llw); Coed yrhen dai (Llb); Hen (Lld); Hen berllan (Llr); Hen farchnad (Llb); Hengae (Llr); Hen gae melinydd (Llr); Hen werglodd (Llr); Hen Yard (Lld); Yr hen ardd (Llb); Yr Hengae Tyfod (Llr); Rallt hen (Llr); Werglodd hen rhyd (Llw)*
- hendref** *eb. 'winter lowland dwelling';* trigfan dros y gacaf ar lawr gwlad:  
 Cefn-hendre (Llb); Hendre (Lld, Llw)  
*Gwerglodd yr hendref (Llr); Hendre (Lld); Hendref bellaf (Llr); Hendref nesaf (Llr); Hendref wndwn (Llr)*
- hetar** *eg. 'flat-iron';* haearn smwddio; benth. o'r Saes. *heater*:  
 Cae hetar (Llw)
- heulog** *ans. 'sunny';* yn dal yr haul:  
 Vron heulog (Lld)
- hil** *e.llu.; amr. hilgeirch, hil ceirch; 'oats and husks left after sifting';*  
 ceirch ac eisin sydd yn weddill ar ôl gogru:  
 Cac-hil (Llb)
- hiling** *eg. 'covering';* gorchudd o dyweirch; benth. o'r Saes. *hilling / hulling*:  
 Cae hiling (Llb)

<b>hir</b>	<i>ans.</i> llu. <b>hirion</b> ; 'long'; heb fod yn fyr; hefyd yn yr ystyr o amser hir, megis yn <i>Buarth hir drin</i> (Llb); cf. Cern. / Llyd. <i>hir</i> : Bryn-naid-hir (Lld); Cae-hir (Llb) <i>Cae hir</i> (Llb, Lld, Llr, Llwl); <i>Cae chir canol</i> (Llb); <i>Cae hir pellaf</i> (Llb); <i>Cay Rhydhir</i> (Llw); <i>Ddol hir</i> (Lld); <i>Erw hir</i> (Llw); <i>Llain hir</i> (Lld, Llf, Llr); <i>Parc hir</i> (Llb); <i>Waun hir</i> (Llb, Llwl); <i>Werglodd hir fain</i> (Llw); <i>Werglodd hirgam</i> (Llw); <i>Ynys Hir</i> (Lld)
<b>hoywal</b>	<i>eb.</i> 'shed, cart-house'; sied, cartws; benth. o'r Saes. <i>hovel</i> : <i>Cae cefn yr howell</i> (Llb, Lld); <i>Cae'r hoewel</i> (Llw) / <i>Cae'r hovel</i> (Lld, Llr); <i>Cae talcan yr hoywal</i> (Llw); <i>Cefn yr hoiwel</i> (Lld); <i>Hoiwel</i> (Lld)
<b>hual</b>	<i>eg.b.</i> 'fetter, check, restraint'; llyffethair, rhwystr, atalfa; cf. Hen Gym. <i>fual</i> ; Llyd. <i>hual</i> ; Hen Wydd. <i>sibal(l)</i> . Benth. o'r Llad. <i>fibula</i> ?: Bodrual (Llr); Rhosbodruall (Llb) <i>Cae rhual</i> (Llb)(Mae'n bosib mai <i>rhiwal</i> = <i>hoywal</i> sydd yn yr achos hwn)
<b>hwylfa</b>	<i>eb.g.</i> 'lane, path'; llwybr, rhodfa: <i>Hwylfa</i> (Lld)
<b>hyfryd</b>	<i>ans.</i> 'pleasant, delightful'; pleserus, dymunol: Brynhyfryd (Llb) <i>Gors voyn hyfryd</i> (Llb)
<b>hyll</b>	<i>ans.</i> 'ugly'; hagr, anhardd: <i>Cae hyll</i> (Llb, Lld, Llf, Llwl); <i>Llain hyll</i> (Lld)
<b>hysb</b>	<i>ans.</i> ; ffurf fen.: <b>hesb</b> 'barren; not yielding milk [of cows, sheep &c]; dry [of rivers, wells &c]; diffwrwyth, heb roi llaeth; wedi sychu neu ballu; cf. Llyd. <i>hesp</i> : <i>Cae hysp</i> (Llb); <i>Cae hysp gosa</i> (Llb); <i>Y bryn cae hysp</i> (Llb)
<b>iard</b>	<i>eb.</i> 'yard, enclosure'; buarth, clos, cwrt; benth. o'r Saes. <i>yard</i> : <i>Cae'r yard</i> (Llw); <i>Cae tan'r yard</i> (Llb, Llwl); <i>Hen Yard</i> (Lld); <i>Lloc Yard</i> (Llb); <i>Yard</i> (Llb)
<b>inn</b>	<i>e. Saes.</i> 'tavern'; tafarn: <i>Caer Inn</i> (Llw)
<b>is</b>	v. <b>isel</b>
<b>isaf</b>	v. <b>isel</b>
<b>isel</b>	<i>ans.</i> gradd gymharol: <b>is</b> ; gradd eithaf: <b>isaf</b> ; 'low, not elevated in position'; heb fod yn uchel; cf. Cern. Diw. <i>izal</i> ; Llyd. Diw. <i>izel</i> : Gwydd. Diw. <i>iseal</i> : Beudy-isaf (Lld); Cent-isaf (Llr); Dolgynyfudd-isaf (Llr); Is-Alun/Is-Helen (Llb); Gilwern-isaf (Lld); Hafod-y-Rhyg-isaf (Llr) Is-Alun/Is-Helen (Llb); Penisarhos (Llw); Penlan-isaf (Llw); Plas-isaf (Llf); Tai-isaf (Llb); Treflan-isaf (Llb) <i>Beudy Isa'</i> (Lld); <i>Bryn eithin isaf</i> (Llw); <i>Bryn Isa'</i> (Lld); <i>Buarth isaf</i> (Llb, Lld, Llr, Llwl); <i>Cae annas isaf</i> (Llr); <i>Cae bach isa</i> (Llb, Llr); <i>Cae bedw issa</i> (Llw); <i>Cae befillan isa</i> (Llb); <i>Cae Canol isaf</i> (Llw); <i>Cae coed isa</i> (Llb); <i>Cae conglog isaf</i> (Llf); <i>Cae Creen isa</i> (Llb); <i>Cae crin</i>



isaf (Llf); Cae davarn isa (Llb); Cae dolla isa (Llb); Cae fawnog isaf (Llr); Cae 'fotty isaf (Llr); Cae garw issa (Lld); Cae groeslon isaf (Llb); Cae gwair isa (Llb); Cae isaf (Llb, Lld, Llf, Llr, Llwl); Cae isaf Cae main (Llb); Cae marl issa (Llw); Cae mawr isaf (Llb, Llr); Cae Melyn Isaf (Llb); Cae nant isa (Lld); Cae Nêst isa (Llw); Cae newydd Issa (Lld); Cae pellaf isaf (Llr); Cae pengelli isa (Llb); Cae pont pren isaf (Llw); kae / r / eythyn issaph (Llw); Cae'r Ffynnon isaf (Llf); Cae r Garreg isa (Llb); Caer hendai isa (Llb); Caer lloiau isa (Llb); Cae'r Llwyn isaf (Llf); Caerpistillissa (Lld); Cae Pryscol isaf (Llr); Cae Pryscol isaf pellaf (Llr); Cae'r Baile isa (Llw); Cae'r Clogwyn isa (Llw); Kay'r Gerllan Issaph (Llw); Cae'r Sais isa (Llw); Cae'r Twthil Isa (Llb); Cae Robin isaf (Llw); Cae rhos isaf (Llw); Cae tan yr ardd isa (Llw); Cae tavern isa (Llb); Cae towad issa (Llw); Cae Ysgybor isaf (Llf); Cae tu isar fordd haiarn (Llw); Cae tu isa'r lôn (Llb); Cae ty isa' (Lld); Cae ty issar-Ty (Llr); Cae Tyddyn Isa (Llb); Cae Tyddyn madryn Isaf (Lld); Cae waen isa (Llb, Lld); Cefn gwndwn Isaf (Llr); Cefn isa (Llb, Lld); Cenlennydd isa (Llb); Clwt isa'r Ffridd (Lld); Coed Cae Nywydd Issa (Lld); Dol / y / felyn issaph (Llw); Ddôl Isaf (Llb, Llwl); Ffridd isa (Llb); Gardd isa (Llb); Gors isaf (Llb, Lld); Gors topia isa (Llb); Gweirglodd Cae newydd Issa (Lld); Gwndwn isaf (Llr); Hafod Tudur isa' (Llb); Llain isa (Lld); Llain Spencer isa (Llb); Lloc isa (Llb); Llwynun isa (Llb); Yr Offt isa' (Lld); Panwl isaf (Llr); Parc isaf (Llb); Pen isa'r bryn (Lld); Ponciau isaf (Llf); Rhos goch isa (Llb); Rhos isa (Llb, Llr); Ty isaf (Llr); Waun oleu isaf (Llw); Werglodd isaf (Llb, Lld, Llr, Llwl); Werglodd Pryscol isaf (Llr); Werglodd ty isa rafon (Llw); Wern isaf (Lld); Yr hecal isaf (Llw)

**iwrch**

eg. 'roe-deer, roe-buck'; math o garw bychan bywiog; cf. Llyd. Diw. iorc'h:

Bron-iwrch (Lld); Glyn-iwrch (Lld); Llwyn-yr-iwrch (Llb)

**lodging**

e. Saes. 'temporary habitation, abode'; llety:

Lodging Hall (Llb)

**lôn**

eb. 'road, lane'; ffordd; benth. o'r Saes. loan, sef amr. ar lane:

Lôn-glai (Llr); Tyn-lôn (Llb, Lld, Llf, Llwl)

Buarth ywch law'r lon (Llw); Buarth y lôn (Llr, Llwl); bvarth y lone vchaff (Llr); Cae bach y lôn (Llb, Llwl); Cae benlon bach (Llw); Cae lôn las (Llr); Cae lon llwyn y brain (Llr); Cae nesar lôn (Llb, Lld, Llr, Llwl); Cae nesa'r lon Maes ty du (Llr); Cae pen lon (Llb, Llwl); Cae'r hen lôn (Llb); Cae'r lôn (Llb, Lld, Llf, Llwl); Cae'r lon bach (Llw); Cae'r Lôn Gelyn (Llr); Cae tan lôn (Llb, Lld, Llwl); Cae tros lôn (Llb, Lld, Llwl); Cae tu isa'r lôn (Llb); Cae ty uchai lon (Llb); Cae Tyn-lôn (Llb, Llwl); Cefn dros y lon (Llw); Lôn (Llb); Lon las (Lld); Lon lloiein [lloiau?] (Llb); Lon y Bwygan (Llb); Llain y Lôn (Llb); Tan y llon (Llb); Ty'n lon (Lld, Llr); Waen tan lon (Llr); Werglodd tan lon (Llw)

**lwbi**

eg. 'looby, lout'; llabwst diog afrosgo; benth. o'r Saes. looby

Cae llwbi? (Llb)

**llac**

eg. 'small pool; gap'; pwll bychan. pantle â dŵr ynddo; bwlech:

Llac y Lleidr (Lld)

**llain**

*eb.g.*; llu. **lleiniau**; 'long, narrow strip of land'; darn hirgul o dir:  
 Llainbupur (Llb); Llain-Fadyn (Lld); Llain-ffynnon (Lld); Llain-meddygon (Llb); Llain-y-llwynog (Lld); Llain-yr-eglwys (Lld); Lleiniau (Lld, Llr, Llwl)  
 Cae Lleiniau Gwman (Llf); Llain (Llb, Lld, Llf, Llr); Llain afon (Llb); Llain Allt Eithin (Llf); Llain bach (Llb, Lld, Llf, Llr); Llain bella (Llb); Llain Bont (Llf); Llain Crother (Llf); Llain Cymmwynas (Llf); Llain delyn (Llb); Llain ddreiniog (Llr); Llain Faenol (Llr); Llain Fadyn (Lld); Llain fain (Llb, Lld, Llf); Llain fawr (Llr); Llain ficcws (Lld); Llain frwynog (Llb); Llain Ffynnon (Llb, Lld, Llf); Llain garegog (Llf); Llain garreg (Llb, Lld); Llain George (Lld); Llain Gerlan (Lld); Llain gerrig (Llb); Llain Glan'rafon (Lld); Llain grepach (Lld); Llain groes (Llb); Llain hir (Lld, Llf, Llr); Llain hyll (Lld); Llain isa' (Lld); Llain las (Llb, Lld); Llain Lleidr (Lld); Llain lloiau (Llb); Llain meddygon (Llb); Llain Nelson (Llb); Llain newydd (Llb); Llain Pencoek (Llb); Llain pennant (Llb); Llain pen y werglodd (Llr); Llain 'robyn (Lld, Llr, Llwl); Llain rhwng y ddwy offi (Lld); Llain Simlon (Llb); Llain Spencer(Llb); Llain Spencer isa (Llb); Llain Spencer ucha (Llb); Llain tan lon (Llb); Llain tan stabal (Llr); Llain tan y Bragdy (Llb); Llain tan yr ardd wair (Lld); Llain tyddyn Baste (Llb); Llain Ucha' (Lld); Llain Wenith (Lld, Llr); Llainybeudy (Llb); Llain y brenhin (Llr); Llain y felyn (Llb); Llain y ffynnon (Llb); Llain y Garreg (Llb); Llain y gaseg (Lld); Llain y groes (Llr); Llain y groes lon (Llb); Llain y Gwaithdy (Llf); Llain y Lôn (Llb); Llain y Llwynog (Lld); Llain y pobtŷ (Llr); Llain y weirglodd (Llb, Lld, Llr); Llain yr allt (Llb); Llain yr Ardd Wair (Lld); Llain yr ody (Llw); Llain yr ody bach (Llr); Llain-y-sgybor (Llr); Lleiniau (Llb, Lld, Llr); Lleiniau bach (Llr); Lleiniau Cae'r lon (Lld); Lleinia' Glover (Lld); Lleiniau gwynion (Llr); Lleiniau pellaf (Llr); Lleiniau Rhos (Llr); Lleiniau uchaf (Llr); Lleiniau W<sup>m</sup> Edw<sup>d</sup> (Lld)

**llan**

*eb.* 'church'; eglwys; cf. Cern. *lan* mewn e.lle a Llyd. *lann* mewn e.lle:  
 Llanbeblig; Llandwrog; Llanfaglan; Llanrug; Llanwnda; Bryn-llan (Llr); Cae-llan (Lld); Parlwr-mawr-y-llan (Llw); Tan-y-llan (Llr); Tyn-llan (Lld, Llwl)  
 Cae'r llan (Llb, Lld, Llr, Llwl)

**llannerch**

*eb.g.* 'glade, a clearing in a wood'; lle agored mewn coedwig, gwerddon; cf. Hen Gern. *lanherch*:  
 Llanerch ŷ Pan (Lld); Llanerch yr Hendre (Lld)

**llath / llathen**

*eb.*; ffurf fachigol: **llathen** 'yard'; tair troedfedd neu 36 modfedd; cf. Cern. Diw. *lath*; Llyd. Diw. *lath*:  
 Cae llathen (Lld); Cae 10 llathen / Deg llathan (Llb); Cae y deg llathen (Lld, Llr); Cae naw llathen (Llb, Lld); Cae 4 llathen (Llb); Cae y pedair llathen / y Pedair Llathen (Lld, Llr); Cae pedar [llathen] wrddeg (Llb); Cae 15 llathen (Llb); Cae Saith lathen/ Saith Lathen (Llf); Cae 20 llathen (Llb); Cae wyth llathen (Lld); Can Llathan (Llb); Deuddeg Llathen (Llf)

**llawr**

*eg.* 'floor; low meadowland'; gwaelod gwastad adeilad neu ystafell; gwastad dyffryn; cf. Cern. Diw, *lér*; Llyd. Can. a Diw. *leur*; Gwydd. *lár*.

- Cae llawr (Llb)*
- llech** *eb. 'slate; large stone'; craig werddlwyd sydd yn holli'n rhwydd; maen:  
Penllech (Lld)  
Cae llech (Llw)*
- llechfaen** *eb.g. 'slate, slab'; llech, cleifaen; cf. Llyd. liac'hven:  
Cae-llechfaen (Llb)  
Llechfaen (Llb)*
- llechwedd** *eg. 'hillside, slope'; ochr bryn, llethr:  
'Rallt Llechwedd (Llf)*
- lleidr** *eg. ac ans. 'leather'; croen anifail wedi ei drin; cf. Llyd. Can. lezr.  
Llyd. Diw. ler; Gwydd. le(a)thar; Saes. leather.  
Erow leder (Llr)*
- lleidiog** *ans. < llaid: 'muddy'; llawn llaid neu fwd:  
Porth-lleidiog (Llf)*
- lleidr** *eg. 'thief, robber'; un sydd yn lladrata neu'n dwyn eiddo rhywun  
arall; cf. Cern. Can. lader, ladar; Llyd. Diw. laer; benth. o'r Llad.  
latrō > Bryth. \*latrī:  
Llac / Llain / Llety'r Lleidr (Lld)*
- lleimawr** *Ni lwyddwyd i ddehongli'r elfen hon a geir mewn darn o dir o'r enw  
Lleimawr Coed ym mhlwyf Llanbeblig.*
- llenor** *eg. 'writer, author'; awdur, gŵr llên; er mae'n bur debyg mai llygriad  
o lleuar sydd yn y ffurf isod:  
Cae-llenor (Llb)*
- lleuar** *eg? < lleu + erw?  
Cae lleuar (Llb)*
- lletbai / lletben** *ans. ac eg.; amr. llepa, llepan, llepen; 'sloping, slanting'; ar ogwydd,  
ar oleddf; ochr pen, neu'n drosiadol = ochr bryn neu fynydd,  
llechwedd:  
Cay Llethpay (Llb); 'Rallt Lapan (Llf); Cae Lledpen (Llw); Cae  
Ledpen bach (Llw)*
- llety** *eg. 'lodging, dwelling'; trigfan dros dro:  
Llety (Llb)  
Bryn llety (Lld); Cae llety bach (Llb); Lletti y Lleider (Lld)*
- llias** *eg.; amr. lleas; 'death, slaughter'; angau, cyflafan, lladdfa  
Cae'r llias (Llb)*
- llidiart** *eg.b. 'gate'; giât, clwyd; < Hen Saes. hlideat:  
Cil-y-llidiart (Llb a Lld); Llidiart-gwyn (Llb)  
Bonc Llidiart gwyn (Llf); Buarth y Llidiard (Llr); Cae Cil Llidiart  
(Lld); Cae llidiart (Llb, Lld, Llf, Llw); Cae llidiart coch (Llb, Lld, Llf,  
Llr, Llw); Cae llidiart coed (Llb); Cae llidiart Geufon (Llw); Cae  
llidiart Glanrafon (Llw); Cae llidiart gwyn (Llb); Cae llidiart lôn*

(Llb); *Cae llidiart mawr* (Llw); *Cae llidiart rhos* (Llb); *Cae llidiart ucha* (Llb); *Cae pen llidiart* (Llb); *Cae tan llidiart* (Llb); *Cil llidiart* (Llw); *Llidiart Mynydd* (Lld); *Werglodd Caellidiart y Geufron* (Llw)

**lloc**

eg.; amr. **loc**; 'pen, fold, enclosure'; corlan; benth. o'r Saes. Can. *loc*: *Cae llock* (Llr); *Lloc* (Llb, Lld, Llr); *Lloc bach* (Llb, Lld); *Lloc caer gof* (Llb); *Lloc ffynnon* (Llb); *Lloc ganol* (Llb); *Lloc isa* (Llb); *Lloc maes Geirch* (Llb); *Lloc ucha* (Llb); *Lloc Yard* (Llb); *Llock y dwr* (Llr); *Llock yr afon* (Llr)

**lloi / lloiau**

*e.llu.*; un.: **llo**; 'calves'; epil y fuwch; cf. Cern. Diw. *leau(ch)*, *leaw*: Llyd. Diw. *leue*; Gwydd. Diw. *laogh*: *Buarth cae'r lloi* (Llr); *Buarth lloiau* (Lld, Llr, Llw); *Cae'r lloiau* (Llb, Lld, Llf, Llr, Llw); *Cae'r lloiau isa* (Llb); *Cae'r lloiau ucha* (Llb); *Gors cae lloiau* (Llr); *Gwaen lloiau* (Llw); *Lon lloiein* [lloiau?] (Llb); *Llain lloiau* (Llb)

**llus**

*e.llu.* 'bilberries'; planhigion ag aeron bach glas tywyll sydd yn tyfu'n wyllt ar rostir; cf. Llyd. Diw. *lus*: *Bryn-llus* (Llw)

**llwm**

*ans.* 'bare'; noeth, tlodaidd; cf. Hen Wydd. *lom*: *Cae llwm* (Lld, Llf, Llw); *Cae llwm y ddol* (Lld)

**llwybr**

eg. 'path, footpath'; tramfwya gul, troetffordd: *Cae'r llwybr* (Llb, Lld, Llf, Llr)

**llwyd**

*ans.* 'grey, pale'; lliw lludw, gwelw; cf. Cern. Diw. *luz*; Llyd. Diw. *louet*; Gwydd. Diw. *liath*: *Bryn-llwyd* (Llw); *Cae-maen-llwyd* (Lld); *Cefn-llwyd* (Llr); *Clawdd-llwyd* (Llr); *Fron-llwyd* (Llb); *Graig-lwyd* (Llb); *Tan-y-graig-lwyd* (Llb); *Tyddyn-y-mab-llwyd* (Llr) *Cae Garreg lwyd* (Llf); *Cae llwyd* (Llb); *Cae mawr llwyd* (Lld); *Cae'r maen llwyd* (Llb); *Cae'r mur llwyd* (Llb); *drull y mur llwyd* (Llw); *Ffridd Lwyd* (Lld); *Werglodd maen llwyd* (Llw)

**llwyn**

eg.; llu. **llwyni**; 'bush, grove'; perth, celli < Llad. *lignum*? cf. Hen Lyd. *loin*, *loen* mewn e.ll.: *Llwyn-Angharad* (Llw); *Llwyn-bedw* (Llw); *Llwyn-celyn* (Llw); *Llwyn-coed* (Llr); *Llwyn-Cwla* (Lld); *Llwyn-y-brain* (Llr); *Llwyn-y-gwalch* (Lld); *Llwyn-ynn* (Llf); *Llwyn-y-piod* (Lld); *Llwyn-yr-iwrch* (Llb); *Trosglwyn* (Lld); *Tyddyn-llwyn* (Llb); *Tyddyn-llwyni* (Llb) *Buarth y llwyn* (Llr); *Cae llwyn* (Lld, Llr); *Cae llwyn derw* (Llb, Lld); *Cae llwyn ffridd* (Lld); *Cae llwyn pwll marl* (Lld); *Cae llwyn Robin* (Llb); *Cae llwyn Robin bach* (Llb); *Cae llwyn Robin fawr* (Llb); *Cae llwyn Robin ganol* (Llb); *Cae llwyni* (Llb); *Llwyn* (Llr); *Llwyn Cae Gate* (Lld); *Llwyn Cae Scubor* (Lld); *Llwyn Fawrth bach* (Lld); *Llwyn Fawrth mawr* (Lld); *Llwyn glas* (Lld); *Llwyn Ifan Cae Scubor* (Lld); *Llwyn mawr* (Lld); *Llwyn sych* (Lld); *Llwynun isa* (Llb); *Llwynun ucha* (Llb); *llwyn y gwyngay* (Llb); *llwyn y merched* (Llr)

**llwynog**

eg.; 'fox'; cadno: *Llain-y-llwynog* (Lld) *Cae daear llwynog* (Lld); *Llain y Llwynog* (Lld); *Waen llwynog* (Llr)

- llydan** *ans.* 'wide'; mawr ei led. mawr ar ei draws; cf. Cern. Can. *ledan*; Llyd. Can. a Diw. *ledan*; Gwydd. Diw. *leathan*:  
*Cae eithin llydan (Llw)*; *Llydan (Lld)*
- llyn** *eg.b.* 'lake, pool, pond'; cronfa ddŵr. pwll. rhan araf o afon; cf. Llyd. Diw. *linn*; Hen Wydd. *lind*:  
*Cwellyn (Llb a Llw)*; *Baladeulyn (Lld)*; *Dôl-y-llyn-du (Llb)*; *Glanllyn (Llf, Llr)*  
*Cae'r llyn (Llb, Lld, Llr)*; *Cae Rhos Llyn (Llf)*; *Glan y llyn (Llr)*; *Llyn y groes (Lld)*; *Werglodd Glan y llyn (Llr)*; *Werglodd y llyn (Llb, Lld, Llw)*
- llyncol** *ans.* 'absorbent, swallowing'; yn llyncu neu amsugno < *llwnc* + *-ol*:  
*Cae llyncol (Llw)*
- llys** *eg.b.* 'court'; cwrt; trigfan brenin. uchelwr neu esgob; cf. Cern. Can. *Lys(newyth)* mewn e.ll.: Llyd. Diw. *lez*; Gwydd. Can. *lis*:  
*Llys-y-gwynt (Llb)*
- mab** *eg.*; llu. **meibion**; 'son'; plentyn gwryw, llanc; cf. Cern. Can. *mab*; Llyd. Diw. *mab*; Gwydd. Diw. *mac*:  
*Glyn-y-meibion (Lld)*; *Tyddyn-y-mab-llwyd (Llr)*  
*Cae'r meibion (Lld)*
- madyn** *eg.* 'fox, Reynard'; cadno, llwynog; o bosib o'r ep. *Madyn*, sef ffurf fachigol *Madog*, gan roi enw personol i'r llwynog fel ag yn *Reynard* yn Saes. ond cf. Gwydd. Diw. *mad(r)adh ruadh* am gadno, sef yn llythrennol = 'ci coch'. Mae'n bosib mai enw gŵr arbennig sydd yn:  
*Tyddyn-Madyn (Lld)*; *Llain-Fadyn (Lld)*  
ond mai llwynog sydd yn:  
*Cae'r fadyn isa (Llb)*; *Cae'r fadyn ucha (Llb)*
- maen** *eg.* 'heavy stone, rock; stone'; carreg fawr, craig; cerrig; cf. Cern. Diw. *mean*; Llyd. Diw. *maen*:  
*Cae-maen (Lld)*; *Cae-maen-llwyd (Lld)*; *Maen-gwyn (Llw)*; *Pont-faen (Llw)*  
*bvarth y Maen Mawr (Llw)*; *Cae Maen bras (Llw)*; *Cae'r maen (Llr)*; *Cae'r maen llwyd (Llb)*; *Maeny gorlan (Llb)*; *Werglodd maen llwyd (Llw)*
- maes** *eg.* 'open land, field'; tir agored, cae, parc; cf. Llyd. Diw. *maes*:  
*Maesincla (Llb)*; *Maes-y-barcer (Llb)*; *Maes-y-merddyn (Llb)*; *Maes-y-neuadd (Llf)*; *Maes-y-pwll (Llr)*  
*Cefn y Maes (Lld)*; *Lloc maes Geirch (Llb)*; *Maes ceirch wern (Llb)*; *Maes Clogwyn (Llb)*; *Maes garnedd (Llr)*; *Maes gwaed (Lld)*; *Maes gwyn (Lld)*; *Maes Madog (Llr)*; *Maes ty du (Llr)*; *Maes y Gwair (Llb)*; *Maes yr ymryson (Llr)*; *Werglodd maes (Llb)*
- mafon** *e.llu.*; un. **mafonen**; 'raspberries'; planhigion y *Rubus idaeus* sy'n dwyn ffrwythau cochion melys:  
*Bryn mafon (Llb)*; *Coed mafon (Llb)*
- magwyr** *eb.* 1. 'wall'; 2. 'square vertical pillar of hay cut from haystack'; 1. mur; 2. colofn sgwâr o wair a dorrir o frig i waelod tas; cf. Llyd. Diw.

- moger*; benth. o'r Llad. *māceria*:  
*Fagwyr* (Lld)
- main** *ans.* 'narrow, meagre'; cul. annigonol, tlodaidd:  
Cae-main (Llb);  
*Allt fain* (Llb, Llf, Llr); *Buarth main* (Llb, Llr, Llwl); *Cae main* (Llb, Lld, Llr, Llwl); *Cae main big* (Llwl); *Cae'r fain* (Llr); *Cae main Maes ty du* (Llr); *Gors cae main* (Llwl); *Gors fain* (Llb, Llwl); *Llain fain* (Llb, Lld, Llf); *Rhos fain* (Llb, Lld, Llf); *Waun oleu fain* (Llwl); *Werglodd fain* (Llb, Llf, Lld, Llr, Llwl); *Werglodd fain wen* (Llb); *Werglodd hir fain* (Llwl); *Yr offit fain* (Llr)
- maip** *e.tf.*; un. **meipen**; 'turnips, swedes'; erfin, swêds:  
*Buarth Maip* (Llb)
- man** *eb.g* 'particular place, location'; lle neilltuol:  
*Bodfan* (Lld)
- mansier** *eg.* 'manger'; preseb, cafn i ddal bwyd anifeiliaid; benth. o'r Saes. *manger*:  
*Tyddyn-mansier* (Lld)  
*Cae Bryn y Manger* (Lld); *Maensier* (Lld)
- march** *eg.* 'horse, stallion'; ceffyl, ystalwyn; cf. Cern. Can. *margh*; Llyd. Diw. *marc'h*; Gwydd. *marc*:  
*Cae Bryn March* (Lld); *Cae march / meirch* (Lld, Llwl)
- marchnad** *eb.* 'market'; mart, ffair, gwerthiant cyhoeddus; cf. Cern. Can. *marghas*; Llyd. Diw. *marc'had*; Gwydd. Diw. *margadh*; benth. o'r Llad. *mercātus*:  
*Hen farchnad* (Llb)
- marchog** *eg.* 'horseman, knight'; un sy'n marchogaeth ar gefn ceffyl; un a urddir am wasanaeth i'r brenin neu'r wlad; cf. Cern. Can. *marrek*; Llyd. Diw. *mar(c'h)eg*; Hen Wydd. *marcach*  
*Cae Marchog* (Llwl); *Marchog* (Llwl); *Marchog isaf* (Llwl)
- marian** *eg. un. ac etf*; amr. **marion** (Arfon); 'moraine, sea-strand, rock-strewn land'; traeth graeanog, tir â meini mawr arno:  
*Coedmarian* (Llb)
- marl** *eg.* 'marl'; pridd yn cynnwys clai a chalch a ddefnyddir fel gwrtaitth:: benth. o'r Hen Ffr. *marle*, efallai trwy Saes. Can.:  
*Pwll-marl* (Llf)  
*Cae Llwyn Pwll Marl* (Lld); *Cae marl* (Lld); *Cae marl issa* (Llwl); *Cae Marl ucha* (Llwl); *Cae pwll marl* (Llwl); *Ddol Farl* (Llf); *Gors caer Marl* (Llwl); *Gwerglodd Pwll Marl* (Lld); *Pwll Marl* (Lld)
- mawn** *e. tf.* 'peat, turf'; tywarch:  
*Cae mawn llwyd* (Llb); *Werglodd mawn* (Lld)
- mawnog** *eb.* 'peat-bog'; cors fawn:  
*Bryniau-fawnog* (Llr)  
*Bryn y fawnog* (Llr); *Cae fawnog isaf* (Llr); *Cae fawnog uchaf* (Llr); *Cae'r fawnog* (Lld, Llr, Llwl); *Fawnog* (Lld); *Fjridd fawnog* (Llb);

*mownog y gasseg (Llr); Pwll mawnog (Lld); Gwerglodd y fawnog (Llr)*

**mawr**

*ans.; gradd eithaf: mwyaf: 'big, large, great'; heb fod yn fychan; cf. Cern. Can. mur; Llyd. Diw. meur; Gwydd. Diw. mōr.*

*Beudy-mawr (Lld); Cae-halen-mawr (Lld); Cae-mawr (Llb, Llw); Coed-mawr (Llb); Dôl-fawr (Llf); Garreg-fawr (Llb); Parlwr-mawr-yllan (Llw); Plas-mawr (Lld); Rhuddalt-fawr (Llb); Tan-y-garreg-fawr (Llb); Tyddyn-mawr (Lld, Llr); Tŷ-mawr (Llw); Waunfawr (Llb)*

*Yr allt fawr (Llb, Llw); Ardd fawr (Llb, Llr); Boncan fawr (Llf); Bongc fawr (Llr); Bryn Mawr (Lld); Buarth mawr (Llb, Llw); bvarth y Maen Mawr (Llw); Bwlan Mawr (Lld); Cae beudy mawr (Llb) / Kae yr Beudu mawr (Lld); Cae bryn mawr (Llw); Cae cefn mawr (Llw); Cae Coed Mawr (Llf, Llr); Cae eithin mawr (Llb, Lld, Llr, Llw); Cae Ellis mawr (Llr); Cae Erw fawr (Lld); Cae ffynnon mawr (Lld); Cae Gamdda fawr (Llb); Cae garreg fawr (Llr); Cae garw mawr (Llb); Cae glas mawr (Lld); Cae goeden fawr (Llb); Cae gwyn mawr (Llr); Cae llidiart mawr (Llw); Cae llwyn Robin fawr (Llb); Cae mawr (Llb, Lld, Llf, Llr, Llw); Cae mawr canol (Llw); Cae mawr isa (Llb); Cae mawr llwyn Yn (Llf); Cae mawr pellaf (Llw); Cae mawr ucha (Llb); Cae melyn mawr (Llw); Cae merddyn mawr (Llw); Cae merllyn mawr (Llw); Cae Mul mawr (Llf); Cae Mur mawr (Llf); Cae pant mawr (Llw); Cae pwll mawr (Llr); Caer adwy fawr (Llb); Cae rallt fawr (Llw); Cae'r garreg fawr (Llf, Llr, Llw); Caer porfa mawr (Llb); Cae Rhos fawr (Llf) / Cae rhos mawr (Llw); Cae werws fawr (Llw); Cefn mawr (Llr); Cefnydd mawr (Llw); Cefn y goedladd fawr (Llw); Coed Mawr (Lld, Llr, Llw); Coed mawr uchaf (Llr); Ddôl fawr (Lld, Llf, Llw); Eithin Mawr (Lld); erow vawr (Llr); Ffridd fawr (Llb, Llr, Llw); Gerlan Fawr (Lld); Glodli mawr (Llb); Gors fawr (Llb, Lld, Llr, Llw); Gwinhinfryn fawr (Llf); Gwndwn Mawr (Llr); Llain fawr (Llr); Llwyn Fawrth mawr (Lld); Llwyn mawr (Lld); Merllyn mawr (Llf); Nant mawr (Llb); Parc mawr (Lld); Pwll mawr (Llb); Rhos fawr (Llb, Llr); tir y myrthyn mawr(Llr); Werglodd fawr (Llb, Lld, Llf, Llr, Llw); Werglodd fawr ganol (Llw); Werglodd fawr uchaf (Llw); Wern fawr (Llb); Winllan Park mawr (Lld)*

*pant Ethun noya / pant Ethan voia (Llr)*

*Cae mwyaf (Lld); Cae nesa'r mwyaf (Lld); Werglodd fwyaf (Lld)*

**meadow**

*e. Saes. 'rich pasture ground'; dôl, gweirglodd:*

*Meadow (Llb); Little Meadow (Llb)*

**meddiant**

*eg. 1. 'possession'; 2. 'authority, rule'; 1.eiddo; 2.awdurdod, rheolaeth:*

*Meddiant Twrog (Lld)*

**meddygon**

*e.llu.; un.: meddyg 'doctors, physicians' ; doctoriaid, ffysigwyr; < Llad. medicus; cf. Cern. Can. methek; Llyd. Diw. mezeg:*

*Llain-meddygon (Llb)*

*Cae Llain Meddygon (Llb)*

**meillion**

*e.llu.; un.: meillionen 'clover'; planhigion teirdalen a dyfir i borthi gwartheg, clofer; cf. Hen Gern. melhyonen; Llyd. Diw. melch, melchen:*

*Cae'r meillion (Llw)*

**melin**

*eb. 'mill'; adeilad ar gyfer malu ŷd &c; ffatri wlân: < Llad. molīna; cf.*

- Llyd. Can. *melin*; Llyd. Diw. *milin*; Gwydd. Diw. *muileann*:  
 Dolyfelin (Llb); Felin-bach (Llr); Felin-Forgan (Lld); Felin-wen (Llr);  
 Felinwnda (Llw); Tyddyn-nant-y-felin (Llr); Tyddyn-y-felin-gafnog  
 (Llw)  
*Cae cefn felin (Llw); Cae velin vapur (Llb); Cae mawr y Felin (Lld);  
 Cae pen y felin (Llw); Cae'r felin (Llb, Llr, Llw); Cae'r hen felin  
 (Llw); Cae tan y felin (Llr, Llw); Cae uwch ben y felin (Llr); Cae velin  
 vapur (Llb); Cae wrth felin (Lld); Caea'r felin (Llw); Doly felin (Llb);  
 Dol / y / felyn issaph (Llw); Dol / y / felyn uchaph (Llw); Gors y Felin  
 (Lld); Llain y felyn (Llb); Nant y felin (Lld); Werglodd y felin (Llb,  
 Lld, Llw)*
- melinydd** *eg.; llw.: melinyddion 'miller'; un sy'n gweithio melin:  
 Tai-melinyddion (Llr)  
 Cae melinydd (Llr); Hen gae melinydd (Llr); Werglodd y melinydd  
 (Llr)*
- melyn** *ans.; ffurf fen.: melen; 'yellow, golden'; o liw ymenyn ac aur; cf. Hen  
 Gern. milin; Cern. Can. melyn; Llyd. Can. a Diw. melen:  
 Braichmelyn (Llw); Bryn-melyn (Llw); Penfforddfelen (Lld);  
 Rhedynog-felen (Llw)  
 Bryn melyn (Llr); Buarth melyn (Llr, Llw); Cae brynmelyn (Llr); Cae  
 garreg felan (Lld); Cae melyn (Llb, Llw); Cae melyn bach (Llw); Cae  
 melyn isa (Llb); Cae melyn mawr (Llw); Cae melyn ucha (Llb); Ffridd  
 felen (Llb); ffrith y gwir melynion (Llb)*
- merch** *eb.; llw.: merched; 'daughter, young woman'; plentyn benyw, llances,  
 gwraig; cf. Cern. Can. myrgh, mergh; Llyd. Diw. merc'h:  
 Muriau-merched Engan (Llw)  
 Doluth merched Ienna ap mad' (Llr); llwyn y merched (Llr);  
 Werglodd y merched (Llr); ynis y merched (Llr)*
- merlyn** *eg. 'pony'; math o geffyl bychan:  
 Cae'r merlyn (Llw)*
- merllyn** *eg.; amr. merlyn 'stagnant pool'; dŵr llonydd, merbwll; < merf +  
 llyn, neu amr. ar marw(l)lyn:  
 Glan-y-merllyn (Llw)  
 Cae merllyn (Lld, Llf, Llw); Cae merllyn mawr (Llw); Glanymerllyn  
 (Llw); Merllyn bach (Llf, Llr); Merllyn mawr (Llf)*
- mieri** *e.llw.; un.: miaren 'brambles'; drain, drysi:  
 Buarth mieri (Llb, Llr); Cae mieri (Llb, Llf, Llr); Cae mieri hirion  
 (Llb)*
- mill** *e. Saes. 'a building where corn is ground, or manufacture of some  
 kind is carried out'; melin:  
 Mill Barn (Llb)*
- min** *eg. 'edge, brow'; ochr, glan, ymyl:  
 Minffordd (Llw)  
 Minffordd (Llr)*
- moch** *e.llw.; un.: mochyn 'pigs'; anifeiliaid pedwarcarnol o deulu'r Suidæ;  
 cf. Cern. Diw. moh; Llyd Diw. moc'h; Hen Wydd. mucc:*



- Mur-moch (Llr)  
*Cae cwt mochyn (Llw); Cae moch (Llb); Cae pwll moch (Llw); Cae'r mochyn (Llb, Llw); Wern y Moch (Lld)*
- moel<sup>1</sup>** *ans.*; ffurf fach. wr. **moelyn** 'bald; bare, barren'; penfoel, heb wallt; noeth, llwm; ambell dro gyda grym enwol = dyn penfoel; cf. Llyd. Diw. *moel*; Gwydd. Diw. *maol*:  
 Cae'r-moel (Llw); Castell-Moelyn (Llr)  
*Cae Moel (Llw); Castell Moelyn (Llr)*
- moel<sup>2</sup>** *eb.* 'bare mountain or hill'; mynydd llwm neu fryn di-goed  
*Cae'r foel ty (Llw); Cae tan y foel (Llb); Y Foel (Llb); Voil Knap (Llb); Voel fawr (Llb); Voel Fricks (Llb); Voil las (Llb); Gors tan foel (Lld); Summer house voel (Llb)*
- môr** *eg.* 'sea'; corff mawr o ddŵr hallt; cf. Cern. Can. *mor*; Llyd. Diw. *mor*:  
 Glan-y-môr (Llf)  
*Cae bach Glan môr (Lld); Cae Glan y Môr (Llf); Dolydd Glan y môr (Llw); Glanymor y Werddon (Llw); Waun Glan y Môr (Llf)*
- morfa** *eg.b.* 'sea-marsh, salt-marsh, moor'; gwastatir isel ar lan y mor, corstir, rhos; cf. Cern. *Morvah* mewn e.lle; Hen Lyd. *mormaou*:  
 Glan-y-morfa (Lld, Llw); Morfa-coch (Lld); Morfa-cwta (Llf); Penmorfa/Morfa Seiont (Llb)  
*Cae'r Morfa (Llb); Morfa Seiont (Llb); Parc y Morfa (Lld); Y Morfa (Llb, Lld)*
- morllyn** *eg.b.*; amr. **morlyn** 'lagoon, estuary, fiord'; llyn mawr, pwll heli, aber, ffiord:  
*Morllyn (Llr)*
- morwyn** *eb.* 'maidservant; girl, maiden'; gwasanaethferch; merch ifanc: cf. Cern. Can. *moren*:  
*Werglodd forwyn (Lld)*
- moryd** *eb.g.*; amr. **môr-ryd** 'estuary, sea-inlet'; aber, morgainc:  
 Bonc-foryd (Llw); Tyddyn-y-foryd (Llw); Hen-foryd (Llw); Penbryn-foryd (Llw); Y Foryd (Llw)  
*Caea'r forryd (Llw)*
- mount** *e.Saes.* 'hill, mountain'; bryn, mynydd:  
 Mount Hazel (Lld); Mount Pleasant (Llb a Llw); Belmont (Lld)  
*Cae mount (Llb); Mount hazle (Lld); Penmount (Llw)*
- mul** *eg.*; llu. **mulod** 'mule, ass, donkey' asyn, mwlsyn; cf. Llyd. Can. *mul*; benth. o'r Llad. *mūlus*:  
*Cae Mul bach (Llf); Cae Mul Mawr (Llf); Cae'r mulod (Llb)*
- mur** *eg.*; llu. **muriau** 'wall, rampart'; wal, magwyr; < Llad. *mūrus*; Llyd. Can. *mur*; Hen Wydd. *mūr*:  
 Cae-mur (Llb); Mur-Hwlcyn (Llb); Mur-Mathew (Llb); Muriau Einion (Llb); Muriau-merched Engan (Llw); Mur-moch (Llr); Muriau Tegwared ap Hywel (Llb); Tyddyn-mur-y-cwpwl (Lld)  
*Cae mur (Lld, Llw); Cae Mur bach (Llf); Cae Mur Mawr(Llf); Cae'r*

*muriau (Llr); Cae'r mur llwyd (Llb); Cefn mury ffordd (Llb); drull y mur llwyd (Llw); Mure Matthew (Llr)*

**murddun**

*eg.; amr. murddyn ac yn aml mewn e.lle > merddyn: 'ruined building'; adfail:*

*Maes-y-merddyn (Llb); Merddyn-Wilkins (Merddyn) (Llb)*

*Cae merddyn bach (Llw); Cae merddyn Iago (Llr); Cae merddyn mawr (Llw); Cae'r merddyn (Llb, Lld) / Cae'r Murddyn (Llw); Cae ty ucha merddyn (Llb); tir y myrthyn mawr(Llr)*

**mwd**

*eg. 'mud'; llaid, llaca; benth. o'r Saes. mud:*

*Cae Mwd (Lld); Cae ty mwd (Lld) (Mae'n bosib mai mw'd = 'motte'; mwnt , sydd yn yr achos hwn)*

**mwdwl**

*eg.; llu. mydylau; ffurf fach. fen. mydylan; berf mydylu 'hay-cock; to cock or stack hay'; cocyn o wair; cocio gwair:*

*Cae mydylan (Llb); Cae mydylan pellaf (Llb); Cae mydylu gosaf at yma (Llb)*

**mwsogl**

*eg.; amr. mwsog, mwswg 'moss'; planhigyn o ddosbarth y Musci sy'n tyfu ar gerrig, coed a daear laith, mwswm:*

*Buarth Mwsogl (Llw)*

**myn**

*eg. 'young goat, kid'; llwdn gafr; cf. Hen Gern. min; Llyd. Can. menn; Gwydd. Can. menn;*

*Cae'r myn (Llb, Llw)*

**mynwent**

*eb. 'graveyard'; claddfa, corfflan:*

*Cae bryn y fonwent (Llw); Cae cefn y fonwant (Llr); Fronwent newydd (Llb)*

**mynydd**

*eg. 'mountain'; codiad tir uchel neu serth; cf. Cern. Can. meneth; Llyd. Diw. menez:*

*Cae'r mynydd (Llb, Llr, Llw); Cae'r mynydd bach (Llb, Llw); Cae'r Mynydd mawr (Llw); Gardd mynydd (Llb); Ty'n y mynydd (Llr); Werglodd Mynydd (Lld)*

**naid**

*eb.g. 'leap, jump'; llam:*

*Bryn-naid-hir (Lld)*

**nant**

*eb.g. 'brook, valley, gorge'; afonig. cwm, ceunant; cf. Cern. Diw. nance, nans, nantz; Llyd. Diw. ant:*

*Cyrnant (Llb); Nant-Howel Wyn (Llr); Nantlle (Lld); Tŷ-nant (Lld); Tyddyn-nant-y-felin (Llr)*

*Cae nant isa (Lld); Cae nant ucha (Lld); Cae pur y Nant (Lld); Cae'r nant (Llb, Lld, Llr, Llw); Nant (Llb, Lld, Llr); Nant Cefn y Bettws (Lld); Nant ganol (Lld); Nant mawr (Llb); Nant Morgan (Llr); Nant Tŷ y twll (Lld); Nant y Coppa (Lld); Nant y felin (Lld); Nant y Pandu (Lld); Nant u Nyssoedd (Lld); Pen y Nant (Lld)*

**neidr**

*eb. 'snake'; ymlusgiad, sarff; cf. Hen Gern. nader; Llyd. Diw. (n)aer; Hen Wydd. nathir; Llad. natrix:*

*Bryn-neidr = amr. ar Bryn-naid-hir (Lld)*

*Cae neidr (Llw)*

<b>neina</b>	<i>eb.</i> ffurf anwes ar <i>nain</i> ; 'granny, nanna': mamgu: <i>Cae Neina (Llb)</i>
<b>neuadd</b>	<i>eb.</i> 'hall, mansion'; ystafell fawr, plasty : <i>Maes-y-neuadd (Llf)</i> <i>Gallt y neuadd (Lld)</i>
<b>nesaf</b>	v. <b>agos</b>
<b>newydd</b>	<i>ans.</i> ; llu. <b>newyddion</b> : 'new'; diweddar: cf. Cern. Can. <i>nowyth, newyth</i> ; Hen Lyd. <i>nouuid</i> ; Llyd. Diw. <i>nevez</i> : <i>Beudy-newydd (Lld)</i> ; <i>Bontnewydd (Llb)</i> ; <i>Buarth-newydd (Lld)</i> ; <i>Cae-newydd (Llr)</i> ; <i>Hafoty-Tŷ-newydd (Lld)</i> ; <i>Plas-newydd (Lld)</i> ; <i>Tai-newyddion (Llr)</i> ; <i>Tyn-cae-newydd (Llb)</i> ; <i>Tŷ-newydd (Lld, Llr)</i> ; <i>Tŷ-newydd-Cim (Lld)</i> ; <i>Tŷ-newydd-Collfryn (Lld)</i> ; <i>Tŷ-newydd-y-Fron (Lld)</i> <i>Cae bryn newydd (Llw)</i> ; <i>Cae newydd (Llb, Lld, Llf, Llr, Llw)</i> ; <i>Cae newydd bach (Llr)</i> ; <i>Cae newydd Issa (Lld)</i> ; <i>Cae newydd Ucha (Lld)</i> ; <i>Cae Newydd Pella (Llf)</i> ; <i>Cae newydd ucha (Lld)</i> ; <i>Cae tan beudy newydd (Llw)</i> ; <i>Cae Tŷ-newydd (Llb, Llw)</i> ; <i>Cefn cae newydd (Llw)</i> ; <i>Coed Cae Nywydd Issa (Lld)</i> ; <i>Coed werglodd newydd (Llr)</i> ; <i>Ffridd newydd (Llw)</i> ; <i>Gors werglodd newydd (Llr)</i> ; <i>Gwerglodd y Cae Newydd (Lld)</i> ; <i>Gweirglodd Cae newydd Issa (Lld)</i> ; <i>Parc nywydd (Lld)</i> ; <i>Perllan Newydd (Lld)</i> ; <i>Pongc werglodd newydd (Llr)</i> ; <i>Tai newyddion (Llr)</i> ; <i>Ty newydd (Llr)</i> ; <i>Werglodd newydd (Lld, Llr, Llw)</i>
<b>ochr</b>	<i>eb.g.</i> 'side', min. ymyl; benth. o'r Wydd. Can. <i>och(a)ir</i> ; cf. Hen Lyd. <i>occrou</i> : <i>Cae ochr (Llr)</i>
<b>odyn</b>	<i>eb.</i> 'kiln': ffwrn i losgi calch &c'; cf. e.lle Hen Gern. <i>Odent(cole)</i> : <i>Bryn`robyn (Lld)</i> ; <i>Cae`r-odyn (Llw)</i> <i>Bryn`robyn (Llw)</i> ; <i>Buarth yr olyn (Llb, Lld)</i> ; <i>Cae hen Rodin (Lld)</i> ; <i>Cae`r olyn (Llb, Lld, Llr, Llw)</i> ; <i>Cae`r olyn galch (Llb, Llw)</i> ; <i>Clogwyn r olyn (Llb)</i> ; <i>Coed yr olyn (Llb)</i> ; <i>Gwerglodd tan yr olyn / Gwerglodd tan `rOlyn Galch (Llw)</i> ; <i>Llain`robyn (Lld, Llr, Llw)</i> ; <i>Llain yr olyn bach (Llr)</i> ; <i>Odyn / `Rodyn (Lld)</i> ; <i>Offt yr olyn (Llr)</i>
<b>oer</b>	<i>ans.</i> 'cold'; heb fod yn gynnes ; cf. Hen Gern. <i>oir</i> ; Hen Wydd. <i>úar</i> : <i>Pen-dŵr-oer (Llb)</i> ; <i>Penrhyn-oer (amr. ar Penrhyn) (Llf)</i> <i>Cae`rdwroer (Lld)</i> ; <i>Cae y Fynnon oer (Lld)</i> ; <i>Cefn dwr oer (Llb)</i>
<b>o flaen</b>	<i>ardd.</i> 'in front of' ; yn dynodi safle blaen: <i>Cae o flaen drws (Llb, Lld, Llf, Llr, Llw)</i> ; <i>Cae oflaen drws bryn clochydd (Llr)</i> ; <i>Cae oflaen drws Dolellog (Llw)</i> ; <i>Cae o flaen drws nesaf (Llf)</i> ; <i>Cae o flaen drws tŷ (Lld)</i> ; <i>Cae oflaen drws y beudy (Llr, Llw)</i> ; <i>Cae o flaen drysau (Lld)</i> ; <i>Cae o flaen`Scybor (Lld)</i> ; <i>Cae o flaen tŷ (Lld)</i> ; <i>Cae oflaen y beudy (Llw)</i> ; <i>Clwt o flaen drws (Lld, Llw)</i>
<b>office</b>	<i>e. Saes.</i> 'a place where business is carried on'; swyddfa: <i>Park tu ucha`r Office (Llr)</i>
<b>oleuod</b>	Elfen anodd iawn: gweler y nodiadau dan <i>Lleiod</i> yn <i>Anheddau Llanbeblig</i> .

- olo** *eg. 'hollow'; pant; benth. o'r Saes. hollow?  
Olo bach (Llb)*
- onnen** *eb.; llu.: ynn, onennau; ffurf fach. lu. onnos; 'ash tree'; coeden o'r tylwyth Fraxinus; cf. Llyd. Diw. o(u)nn; Gwydd. Can. onn;  
Bryn-nennau (Lld); Cefn-nen? (Lld); Llwyn-ynn (Llf); Penrhos-nennan? (Lld); Rhos-nennau (Lld); Tyn-yr-onnen (Llb)  
Cae'r onnen (Llb, Lld); Cae annas isaf? (Llr); Cae annas uchaf? (Llr); Caer un? (Llb); Llwynun isa (Llb); Llwynun ucha (Llb)*
- palmant** *eg.; amr. palment 'pavement, causeway'; wyneb ffordd o gerrig, pafin, sarn; benth. o'r Saes. Can. pavement, o bosib trwy'r amr. pawment:  
Cae palmant (Llw)*
- palmer** *eg. 'pilgrim, wandering monk sworn to poverty'; pererin, mynach crwydrol dan adduned o dlodi:  
Erw'r palmer (Llb)*
- pandy** *eg. 'fulling-mill'; adeilad ar gyfer pannu, sef curo defnydd ar gyfer ei lanhau a'i dewhau:  
Dôl-y-pandy (Llb); Tyddyn-pandy (Llb)  
Cae Garth y Pandy (Llw); Cae'r pandy (Llb, Lld, Llr); kefn y pandy (Llr); Doly pandy (Llw); Gwaen y Pandy (Llw); Nant y Pandu (Lld)*
- pannwl** *eg. 'small hollow'; pant bychan.  
Panwl isaf (Llr); Panwl uchaf (Llr)*
- pannwr** *eg. 'fuller'; un sydd yn pannu defnydd:  
Coed y Pannwr (Llb)*
- pant** *eg.; llu. pantiau 'hollow, valley'; dyffryn:  
Cae'r-pant (Llb); Pant-afon (Llr); Pant-bryngwyn (Llr); Pant-cae-haidd (Llb); Pant-celyn (Llw); Pant-coch (Llw); Pant-gwyn (Llb); Pant-hafodlas (Llr); Pantiau (Llw); Pant-y-cerrig (Llb); Pant-y-clafrdy (Llb); Pant-y-defaid (Llb); Pant-y-gro (Llb); Pant-y-waun (Llb); Waun-bant (Llw)  
Cae pant bach (Llw); Cae pant coch (Llw); Cae pant mawr (Llw); Cae pant pellaf (Llw); Cae pant uchaf (Llr); Cae-pant-y-Ceffyl (Llw); Cae Pant-y-defaid (Llb); Cae Pant-y-waun (Llb); Cae'r pant (Llb, Lld, Llr, Llw); Erw bant (Llw); Pant (Lld, Llf); Pant iccws (Lld); Pant 'rebolion (Lld); Pant y Gwryrod (Lld); Pant y Mes (Llf); Pant y pwll (Lld); Waun bant (Llb)*
- papur** *eg. 'paper'; llenni neu ddalennau y gellir ysgrifennu arnynt a wneir o ffeibrau o wahanol fathau; benth. o'r Saes. Can. papur(e), papir(e):  
Cae velin vapur (Llb)*
- parc** *eg.; llu. parciau; 'park, field'; tir agored, gerddi cyhoeddus, tir hela mewn plas, maes; benth. o'r Hen Ffr. parc, o bosib trwy'r Saes. Can. cf. Cern. Can. parc; Llyd. Can. parc:  
Parc (Llw); Pen-y-parc (Llw)  
Buarth y parc (Llr); Cae'r parc (Llb, Llw); Cae Park y Stalwyn (Llw); Parc (Llb, Lld, Llf, Llr); Parc bach (Llb, Llr); Parc canol (Llr); Park Carreg y fran (Llr); Parc Cefn du (Llr); Parc Veston (Llb); Parc hir*

(Llb); *Parc isaf* (Llb, Llr); *Parc Marsh* (Lld); *Parc mawr* (Lld); *Park nesa'r tŷ* (Llr); *Parc nywydd* (Lld); *Parc pellaf* (Llb, Llr); *Parc stalwyn* (Llb); *Parc tan y foel* (Lld); *Park tu ucha'r Office* (Llr); *Parc ty'n twll* (Lld); *Parc uchaf* (Llb, Lld, Llr); *Park y buchod* (Llr); *Parc y Morfa* (Lld); *Parc Ynysoedd* (Lld); *Park y rhos* (Llr); *Parc-y-waun* (Llb); *Parcia' Bach* (Lld); *Parcia' Mawr* (Lld); *Winllan Park mawr* (Lld)

**parlwr**

eg. 'parlour'; yr ystafell orau mewn tŷ; benth. o'r Saes. Can. *parlour*: *Parlwr-mawr-y-llan* (Llw)  
*Cae parlour* (Llb); *Cae'r Parlwr* (Llw)

**pelan**

eb. 'hillock, river-bank, sea-wall'; twyn, bryncyn, torlan, morglawdd: *Belan* (Llw); *Belan-las* (Lld)

**pell**

ans.; gradd eithaf: **pellaf**; 'far, distant'; heb fod yn agos; cf. Cern. Can. *pell*; Llyd. Diw. *pell*  
*Yr allt bella* (Llb); *Bonc bellaf* (Llf); *Bryn coch pella'* (Lld); *Bryn corach pellaf* (Llw); *Buarth pella* (Llb); *Cae bach pellaf* (Llf); *Cae bryn bella* (Llb); *Cae cefn pellaf* (Llw); *Cae cefn tŷ pellaf* (Llb, Llr); *Cae Eithin Pellaf* (Llb); *Cae hir pella* (Llb); *Cae mawr pellaf* (Llw); *Cae mydyla pellaf* (Llb); *Cae pant pellaf* (Llw); *Cae pellaf* (Llb, Lld, Llf, Llr, Llw); *Cae pellaf cefn coch* (Llw); *Cae pellaf isaf* (Llr); *Cae pellaf uchaf* (Llr); *Cae Pryscol isaf pellaf* (Llr); *Cae'r allt bellaf* (Llf); *Cae'r Clwt pellaf* (Llf); *Cae'r tŷ pellaf* (Llb, Llr); *Cae Rhos bellaf* (Llf); *Cae tywod pellaf* (Llw); *Cefn gwndwn pellaf* (Llr); *Cefn pellaf* (Llw); *Coed bryn bella* (Llb); *Y Ddôl Bellaf* (Llb); *Gardd bella* (Llb); *Gors bellaf* (Llb, Lld, Llr); *Hendref bellaf* (Llr); *Llain bella* (Llb); *Lleiniau pellaf* (Llr); *Parc pellaf* (Llb, Llr); *Rhos bellaf* (Llb, Llr); *Waun goch pellaf* (Llw); *Waen olau bellaf* (Lld, Llw); *Werglodd bellaf* (Llb, Lld, Llf, Llr, Llw)

**pellaf**

v. **pell**

**pen**

eg. 'top, summit'; rhan uchaf, copa, brig; cf. Cern. Can. *pen*; Llyd. Diw. *penn*; Gwydd. Diw. *ceann*:  
*Benallt* (Lld); *Pen-bryn-Bwlan* (Lld); *Penbryn-foryd* (Llw); *Penbryn-Hafoty* (Lld); *Pencaesion* (Lld); *Pen-dalar* (Llw); *Pen-das-eithin* (Llb); *Pen-dŵr-oer* (Llb); *Penfforddfangor* (Llb); *Penfforddfelen* (Lld); *Pengelli-isaf* (Llb); *Pengelli-wyn* (Llb); *Pengwern* (Llw); *Penhafodlas* (Llr); *Penisarhos* (Llw); *Penlan-isaf* (Llw); *Penlan-uchaf* (Lld); *Penllech* (Lld); *Penmorfa* (Llb); *Penrallt* (Lld, Llw); *Penrhos* (Llb, Llw); *Penrhosgwta* (Lld); *Penrhos-nennan* (Lld); *Pen-y-bont* (Llb); *Penybont Rhythallt* (Llr); *Pen-y-bryn* (Llf, Llw); *Pen-y-bryn* (Seiont) (Llb); *Pen-y-bwlch* (Llr); *Pen-y-bwth/bythod* (Lld); *Pen-y-cae* (Llw); *Pen-y-cefn* (Llb); *Pen-y-ceunant* (Llw); *Pen-y-clip* (Llw); *Pen-y-cock* (Llb); *Pen-y-ffridd* (Llw); *Pen-y-gaer* (Llw); *Pen-y-gaerwen* (Llw); *Pen-y-gamfa* (Lld); *Pen-y-gelli* (Llb); *Pen-y-gelli-banc* (Llb); *Pen-y-gongl* (Llb); *Pen-y-graig* (Llb, Llr); *Pen-y-Greuor* (Llr); *Pen-y-groes* (Llw); *Pen-y-lan* (Llb); *Pen-y-parc* (Llw); *Pen-y-wrach* (Llb); *Pen-yr-orsedd* (Lld)  
*Cae benlon bach* (Llw); *Cae pen* (Llb); *Cae pen bach* (Llw); *Cae pen ceunant* (Llw); *Cae pen groes* (Llw); *Cae pen hen cwarel* (Llb); *Cae pen lan* (Llw); *Cae pen lon* (Llb, Llw); *Cae pen llidiart* (Llb); *Cae penllydan* (Llb); *Cae Penrhos* (Llw); *Cae penrhos bach* (Llb); *Cae*

*pen stabal (Llw); Cae pen tir (Llr); Cae pen tyrallt (Llb); Cae pen y Bonc (Llf); Cae pen y boncan (Llb, Llr); Cae pen y bont (Llb, Llw); Cae peny bronydd (Llw); Cae pen y bryn (Llw); Cae pen y cae (Llb); Cae pen y cefnydd (Llw); Cae pen y coed (Llr); Cae pen y congl (Llw) / Cae pen y gongl (Llr); Cae pen y felin (Llw); Cae pen y groeslon (Llr, Llw); Cae pen yr allt (Llb); Llain pen y werglodd (Llr); Penbryn Fodty (Lld); Penbrynseiont (Llb); Pen Caehoyden (Llr); Pen cae'r Ty (Lld); Pen Cae ty du (Lld); Pen carmel (Lld); Pen carreg y fran (Llr); Pen isa'r bryn (Lld); Penllach (Lld); Penrallt goch (Llr); Pentrygan (Lld); Pen Werglodd (Lld); Pen y Bonc Bryntwrog (Lld); Pen y Bont (Lld); Perry bryn (Llb); Pen y bryn (Lld); Pen y Bwlch (Lld, Llr); Pen y Castell (Llb); Pen y Cefn (Llb); Pen y coed caer rhedyn (Llb); Pen y Foel (Lld); Pen y ffynnon (Lld); Pen y Garth (Llb); Pen y geulan (Llb); Pen y Nant (Lld); Penyrallt / Benallt (Lld)*

**pengrawn**

*e.llu. 'the best grain'; y grawn gorau: Caer bengron? (Llb)*

**pennant**

*eg. 'upland, head of valley'; ucheldir, pen dyffryn: Llain pennant (Llb)*

**penrhyn**

*eg. 'promontory, headland'; pentir: Penrhyn (Llf); Penrhyn-bach (Llf) Cae'r penrhyn (Llw); Cae ucha'r Penrhyn (Llw)*

**pentan**

*eg. 1. 'hob'; 2. 'supporting structure'; 1. silff gerllaw tân agored; 2. ategwaith, adeiladwaith cynnal: Pentan Bedd (Lld)*

**pentref**

*eg. 'village, hamlet; dwelling'; casgliad o anheddau llai ei faint na thref; rhan o dref lle byddai gweision a thaeogion yn byw a gweithio; annedd unigol: Pentre (Llw); Pentre-bach (Llw); Pentre'r-waun (Llb) Cae tan y pentref (Llw)*

**perllan**

*eb. 'orchard'; darn o dir amgaeëdig ar gyfer tyfu ffrwythau; < Llad. pira = gellyg; cf. Cern. Diw. pîr; Llyd. Diw. per. Cae'r-berllan (Llb) Berllan bach (Llr); Cae Cefn y Berllan (Llb); Cae perllan bach (Llr); Cae'r berllan (Llb, Lld, Llf, Llw); Cae tan y berllan (Llb, Lld, Llf, Llw); Y Berllan (Llb, Lld, Llr); Hen berllan (Llr); Perllan Newydd (Lld)*

**perth**

*eb. 'hedge, bush, thicket'; gwrych, llwyn, dryslwyn; cf. e.lle Cern. Penperth, Penberth: Tyddyn-y-berth (Llw) Buarth Cae'r Berth (Llf); Cae berth ddu (Llb); Cae ffynnon Berthi (Llw); Cae'r perthi (Lld); y perth (Llb); Pencan berth ddu (Llb); Werglodd perthi (Lld)*

**petris**

*eb.g.; amr. pertris, pa(r)tris; llu. petrisiaid; 'partridges'; corieir, clugieir; benth. o'r Saes. Can. pertrich, pa(r)trich, a'r Hen Ffr. pertri: Cae Buarth y Petrisiaid (Llf)*

- piod** *e.llu.*: un. **pi** / **pioden**; ‘*magpie*’: adar du a gwyn o deulu’r brain: benth. o’r Hen Ffr. *pie*, o bosibl trwy’r Saes. Can.: Llwyn-y-piod (Lld)
- pibwr** *eg.*: amr. **pibydd**; *llu.* **pibyddion**; ‘*piper*’: gŵr sydd yn chwarae’r pibau; < *pib* + *gŵr*: *Bryn pibor / pipion* (Lld)
- picell** *eb.* ‘*lance, spear*’: gwaywffon: *Cae nesa’r bigell* (Llw); *Y Bickell* (Llb)
- picws** *e.neu ans.*: amr. **bicws, micws**; ‘*slightest amount*’: y mymryn lleiaf: *Llain ficcws* (Lld)
- pig** *eb.g.* ac fel *ans.* ‘*sharp point; pointed*’: pigyn. pwynt; blaenllym. pigfain; cf. Cern. *Pyg* mewn e. lleoedd: *Buarth y Vig* (Llb); *Buarth y big* (Lld); *Cae main big* (Llw); *Cae’r big* (Llb, Lld, Llr); *Big gors* (Llb); *Big y Werglodd* (Llb); *Gors bigfain* (Llb); *Piga Eithin* (Lld); *Pig y rhos* (Llb); *Pwll y big* (Lld); *Werglodd y big* (Llb); *Wern big* (Llb)
- pigfain** *ans.* ‘*sharply pointed*’: blaenllym; < *pig* + *main*: *Cae Pigfain* (Llr)
- pigsofl** *eg.*: amr. **picsofl**: ‘*first crop of young hay harvested after reseeding*’: y cnwd cyntaf o wair ieuanc a dorrir ar ôl hadu cae; < *pig* + *sofl*: *Cae Bison?* (Lld); *Cae bigson?* (Llw); *Cae pigsofl* (Llr)
- pill** *eg.* ‘*tree-trunk, pole, post; stronghold, refuge*’: honeyff, polyn. postyn; amddiffynfa, lloches: *Gallt-y-pill* (Lld)
- pîn / pin** 1. **pîn**: *eg* ac *e.llu.* ‘*pine-tree(s)*’: pinwydden, pren y coed hyn; cf. Hen Gern *pin*; Llyd. Diw. *pinenn, pin*; Gwydd. Can. *pin*; benth. o’r Llad. *pînus*  
2. **pin**: *eg.b.* ‘*funnel, spout*’: twmffat, sbowt: *Cae’r pin* (Llb, Lld, Llr, Llw)
- pistyll** *eg.b.* ‘*water-spout, spring*’: disgyniad bychan o ddŵr, ffrwd fechan; < Llad. *pistillum*; cf. Cern. *Pistil* mewn e.lle: *Bryn-pistyll* (Llb); *Pistyll* (Llw) *Buarth y pistill* (Llb); *Cae’r pistyll* (Llb, Lld, Llr, Llw); *Coed pistill* (Llr); *Rhos y Pistill* (Llr)
- pladur** *eb.g.* ‘*scythe*’: offeryn lladd gwair; yn yr enw isod mae’n bosib mai’r ystyr yw faint y gellir ei bladuro gan ŵr arbennig; < *paladur*; cf. Gael. *faladair*; Man. *folder*: *Pladwr Siman* (Llb)
- plant** *e.llu.*; un.: **plentyn**; ‘*children*’: epil: *Cae’r plant* (Llw); *Caea’r plant* (Llw)
- planwydd** *e.llu.* ‘*young planted trees, saplings*’: coed plan ieuaine: *Planwydd* (Llw) *Bryn Planwydd* (Llw); *Cae’r Plannwydd* (Llw); *Planwydd* (Lld):

*Werglodd blanwydd (Llw)*

- plas** *eg. 'mansion, palace'; tŷ mawr, plasty; < Hen Ffrang. o bosib trwy Saes. Can. cf. Cern. Can. *plas*; Llyd. Can. *place*: Plas-gwyn (Llr); Plas-isaf (Llf); Plas-Llanfaglan (Llf); Plas-Llanwnda (Llw); Plas-mawr (Lld); Plas-newydd (Lld); Plas Tal-y-sarn (Lld); Plas-tan-dinas (Lld); Plas-tirion (Llr); Plas-yn-bont (Llw) Cae'r Plas (Llb); Plas (Lld); Werglodd nesaf y Plas (Llf)*
- poeth** *ans. 'hot'; twym, cynnes iawn; cf. Llyd. Can. *poaz, poez*: Cae-poeth (Llr); Hafod-boeth (Lld) Cae Tyddyn Poeth (Llb)*
- poethfel** *eg.; amr. **poethwel** 'partially burnt gorse, heather or turf used for fuel; burnt area of heath'; eithin, grug, tywyrch wedi eu lled-losgi i'w defnyddio fel tanwydd; man llosgedig (ar rostir &c): Cae poethfal (Llw)*
- polyn** *eg. 'pole, post'; postyn, pawl: Cae'r Polyn (Lld) / Cae'r bolin (Llw); Werglodd polyn helig (Llb)*
- pompren** *eb.g.; amr. **pontbren**: 'wooden foot-bridge'; pont fechan bren ar gyfer cerddwyr < *pont* + *pren*: Cae pompren (Llr); Cae pompren bach (Llr); Cae pont pren isaf (Llw); Cae'r pontbren (Llw)*
- ponc** *eb.; ffurf fach. wr. **poncyn**; ben. **poncen**; llu. **ponciau**: 'hillock'; bryncyn; benth. o'r Saes. *bonk* = banc: Y Bonc (Lld, Llr); Boncan (Lld); Boncan fawr (Llf); Boncan y Beudy (Lld); Bonc bellaf (Llf); Bongc eithin (Llr); Bongc fawr (Llr); Bonc las (Lld, Llr); Bonc Llidiart gwyn (Llf); Bonkian (Llb); Buarth y bonc (Llw); Cae ben boncan (Llb); Cae Boncan (Lld, Llr); Cae bonc uchaf (Llb); Cae ben boncau (Llb); Cae pen y Bonc (Llf); Cae pen y boncan (Llb, Llr); Cae ponc bach (Lld); Cae'r bonc (Llb, Lld, Llr, Llw); Ponc dan ganol (Llb); Ponc Eithin (Lld); Pencan berth ddu (Llb); Poncen Eithin (Lld, Llr); Ponc Galed (Lld); Pongc werglodd newydd (Llr); Ponciau (Lld, Llf); Ponciau Tyddyn hên (Llf); Ponciau uwch ben y Ty (Llf); Rhôs y bonc (Llb); Werglodd poncan (Llb)*
- pont** *eb. 'bridge'; adeiladwaith i groesi afon, ffordd, rheilffordd neu ryw rwystr arall; < Llad. *pons, pont-*; cf. Hen Gern. *pons*; Llyd. Diw. *pont*: Bontnewydd (Llb); Pen-y-bont (Llb); Penybont Rhythallt (Llr); Pont-faen (Llw); Pont-rug (Llr); Tyddyn-Pont-rug (Llr); Pont-Saint (Llb); Pont-Wyled (Llw); Tal-y-bont (Llr); Tyn-y-bont (Llb) bvarth y bont (Llw); Cae pen y bont (Llb, Llw); Cae pont pren isaf (Llw); Cae'r bont (Llb, Lld, Llr, Llw); Cae'r bont sech (Llb); Coed y bont (Llb); Doly bont (Llb); Gallt y bont (Llw); Gwerglodd y bont (Llb, Llw); Pont Seiont (Llb)*
- pool** *e. Saes. 'pond, small lake'; pwell, llyn: Pool (Llb)*
- popty** *eg. 'oven; bakery'; ffwrn; becws; < *pobi* + *ty*; cf. Hen Gern. *pop[ti]*: Cae'r bobty (Llw); Llain y pobty (Llr)*



<b>porfa / pori</b>	<b>porfa:</b> <i>eb.g. 'pasture'; tir pori; pori : berfenw: 'to graze': Borfa (Lld); Cae caled porfa (Llb); Cae porfa (Llb, Lld, Llf, Llr, Llwl); Cae porfa bach (Llb); Cae porfa mawr (Llb); Gors borfa (Llb); Werglodd porfa (Llb, Llr, Llwl); Werglodd bori (Llwl)</i>
<b>porth</b>	<i>eg. 'gateway; harbour, landing-place'; mynedfa; porthladd, glanfa; cf. Cern. Diw. por(h); Llyd. Diw. porzh; Porth-lleidiog (Llf); Tyddyn-porth (Llr) Borth (Lld); Cae Porth lleidiog (Llf); Cae'r Ty Porth lleidiog (Llf)</i>
<b>pren</b>	<i>eg. 'tree; wood'; coeden; defnydd prennog o'r goeden; cf. Cern. Can. pren; Cern. Diw. predn; Llyd. Diw. prenn; Cae pren bendigaid (Llb)</i>
<b>pridd</b>	<i>eg. 'soil, earth'; haen uchaf arwyneb y ddaear, llwch; cf. Cern. Diw. pry; Llyd. Diw. pri; Cae pridd wall (Llwl); Cae pwll pridd (Llb, Llwl)</i>
<b>priddell</b>	<i>eb. 'sod, earth, soil of grave'; tywarchen, llwch, pridd y bedd; Gweirglodd-y-bryddell (Llwl)</i>
<b>pryf</b>	<i>eg. 'insect; small wild animal'; trychfil; anifail gwyllt bychan ei faint; cf. Cern. Can. pref; Llyd. Diw. preñv; Gallt-y-pry (Lld)</i>
<b>prysg</b>	<i>eg.; amr. prys 'copse, plantation'; celli, planhigfa goed; cf. e.lle Cern. Priske, Preeze; Prysgol (Llr) Pryscol isaf (Llr)</i>
<b>pwll</b>	<i>eg.; llu. pyllau 'pit, hole'; twll, pydew, glofa; cf. Cern. Diw. poll; Llyd. Diw. poull; Gwydd. Diw. poll; Erw-pwll-y-glo (Llr); Maes-y-pwll (Llr); Pwll-marl (Llf); Pwll-y-bar (Llr); Pwll-y-gro (Llb); Tyn-pwll (Llb) Buarth cae'r pwll (Llr); Cae Llwyn Pwll Marl (Lld); Cae pwll bach (Llb); Cae pwll calch (Llr); Cae pwll cywarch (Llwl); Cae pwll gro (Llwl); Cae pwll marl (Llwl); Cae pwll mawr (Llr); Cae pwll mine (Llf); Cae pwll moch (Llwl); Cae pwll pridd (Llb, Llwl); Cae Pwll y Bleiddie (Lld); Cae pwll y cosyn (Llb); Cae pwll y Fraithwen (Llr); Cae pyllau mawr (Llr); Cae'r pwll (Llb, Lld, Llf, Llr, Llwl); Cae'r pyllau (Llr); Cae Tyn-y-pwll (Llb); Gwerglodd pwll Cowarch (Llwl); Gwerglodd Pwll Marl (Lld); Pant y pwll (Lld); Pwll Marl (Lld); Pwll mawnog (Lld); Pwll mawr (Llb); Pwll 'rolwyn (Lld); Pwll y big (Lld); Pull y Kawell (Llf); Pwll y ffynnon (Lld); Rhos pwll cowarch (Llb); Rhos y pwll (Llb); Werglodd pwll glô (Llwl); Werglodd y pwll (Llf)</i>
<b>pwmp</b>	<i>eg. 'pump'; dyfais ar gyfer codi, symud neu gywasgu llifyddion, ond isod yr ystyr yw dyfais ar gyfer codi dŵr; benth. o'r Saes. pump; Cae pwmp (Llr)</i>
<b>pwrs</b>	<i>eg. 'purse ; cod fechan, bag; benth. o'r Saes. Can. purs, pours; Cae pwrs (Llwl)</i>
<b>pwt</b>	<i>eg.b. ac ans. 'bit, scrap; tiny, short'; mymryn, tamaid; bach, byr:</i>

	<i>Cae pwt (Llr)</i>
<b>pydew</b>	<i>eg. 'well, pit'; ffynnon, pwll; &lt; Llad. puteus:</i> <i>Pydew (Llb)</i>
<b>pysgodlyn</b>	<i>eg.b. 'fish-pond'; pwll ar gyfer cadw neu fagu pysgod:</i> <i>Caepysgodlyn (Llb)</i> <i>Cae Pyscodlin (Llb)</i>
<b>quarry</b>	<i>e. Saes. 'open excavation for building stone, slate &amp;c': chwarel:</i> <i>Quarry (Llb)</i>
<b>rails</b>	<i>e.llu. Saes. 'track for wheels, railway': cledrau, rheiliau; Saes. rails:</i> <i>Cae rails (Llr)</i>
<b>rope-walk</b>	<i>e. Saes. 'long narrow shed or alley for rope spinning': rhafflan:</i> <i>Rope-walk (Llb)</i>
<b>round-table</b>	<i>e. Saes. 'a circular table around which King Arthur's knights were said to have sat'; y ford gron:</i> <i>Round Table (Llb)</i>
<b>rwdins</b>	<i>e. llw. 'swedes, occ. turnips'; swêds; benth. o'r Saes. rootings</i> <i>Cae rwdins (Llb)</i>
<b>rye-grass</b>	<i>e. Saes. 'rye-grass; a pasture and fodder grass'; rhygwellt:</i> <i>Cae rye grass (Llb, Llr)</i>
<b>rhedyn</b>	<i>e.llu.; un.: rhedynen 'fern'; planhigion o rywogaeth y Filicales; cf. Cern. Diw. redanan; Llyd. Can. radenenn :</i> <i>Brynrhedyn (Llw)</i> <i>Bronrhedyn (Llw); Buarth y Cae Rhedyn (Lld); Cae rhedyn (Lld, Llf, Llr, Llw); Cae rhedyn cochion (Llb); Cae-y-Dryll-rhedyn (Llw); Dryll y Rhedyn (Lld); Pen y coed caer hedyn (Llb)</i>
<b>rhedynog</b>	<i>ans. 'ferny'; llawn rhedyn; cf. yn yr e.lle yng Nghernyw Redinnick, Redannack, Redannick, a'r e.lle Llyd. Can. Radenec; Llyd. Diw. radenek; Gwydd. Can. raithnech:</i> <i>Rhedynog-felen (Llw)</i> <i>Cae Rhydynog (Llw)</i>
<b>rhestl</b>	<i>eb.g. 'rack, cratch'; rhesel, yn enwedig i ddal porthiant anifeiliaid:</i> <i>Cae'r-estel? (Llf)</i>
<b>rhigol</b>	<i>eb.g. 'rut, groove, furrow'; rych, cwys; benth. o'r Saes. rigol:</i> <i>Cae rhigol (Lld); Rhigol (Lld)</i>
<b>rhisg</b>	<i>eg.: amr. rhisgl; 'bark, rind, husk'; cf. Hen Gern. rusc; Llyd. Diw. rusk(l); Hen Wydd. rúsc:</i> <i>Hafod-y-rhisg (Llf)</i>
<b>rhiw</b>	<i>eb.g.: llw. rhiwiau; 'steep hill or slope'; llethr neu allt serth; cf. Cern. -rew mewn e.lle:</i> <i>Betws-Gwe[r]nrhiw (Lld); Bron-rhiw (Lld); Penrhiwiau (Lld); Rhiwafallen (Lld)</i>

*Buarth y Rhiw (Lld); Rhiw (Lld); Rhiwallen (Lld)*

**rhodd**

*eb.g. 'gift, grant'; rhywbeth a roddir, grant; cf. Cern. Can. ro; Llyd. Diw. ro(z); Tyn-rhodd (Llb)*

**rhos**

